# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2011**
**Tuesday, 12 July 2011**

**Cynnwys**
**Contents**


| | |
|---|---|
| 3 | Anerchiad gan y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus David Cameron<br>Address by the Prime Minister, the Right Honourable David Cameron |
| 8 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister |
| 43 | Cwestiwn Brys: Cartrefi Southern Cross<br>Urgent Question: Southern Cross Homes |
| 48 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes<br>Business Statement and Announcement |
| 53 | Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Atodol<br>Motion to Approve a Supplementary Budget |
| 59 | Cynigion i Gymeradwyo Gorchymyn (Diwygio) Gorchymyn Eithrio Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Cymru) 2011 a Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011<br>Motions to Approve the Construction Contracts (England and Wales) Exclusion Order 1998 (Amendment) (Wales) Order 2011 and the Scheme for Construction Contracts (England and Wales) Regulations 1998 (Amendment) (Wales) Regulations 2011 |
| 63 | Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2011<br>Motion to Approve the Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2011 |
| 66 | Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog<br>Motion to Suspend Standing Orders |
| 66 | Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth<br>Supplementary Legislative Consent Motion—Localism Bill |
| 69 | Cam-drin Domestig<br>Domestic Abuse |
| 99 | Datganiad am Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16<br>The Welsh Assembly Government's Legislative Programme 2011-16 |
| 140 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time |
| 142 | Dadl Fer: Llyfr Blegywryd Newydd? Adfer Awdurod Cyfreithiol i Gymru<br>Short Debate: A New Book of Blegywryd? Restoring Legal Authority to Wales |


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

## Anerchiad gan y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus David Cameron
## Address by the Prime Minister, the Right Honourable David Cameron

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Croeso i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. Welcome to the National Assembly for Wales.

On behalf of my fellow Assembly Members, I welcome the Prime Minister and the Secretary of State for Wales. When you last visited the National Assembly for Wales in 2010, you said that you would like to return, and I am very pleased that you have been able to do so so early in the fourth Assembly. I invite you, Prime Minister, to address the Assembly.

Ar ran fy nghyd-Aelodau Cynulliad, croesawaf Brif Weinidog y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Pan ymwelsoch â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2010, dywedasoch y byddech yn hoffi dod yn ôl, ac rwy'n falch iawn eich bod wedi gallu gwneud hynny mor gynnar yn y pedwerydd Cynulliad. Rwy'n eich gwahodd chi, Brif Weinidog y DU, i annerch y Cynulliad.

**The Prime Minister:** Presiding Officer, thank you for your kind invitation to speak to the National Assembly today. I already feel that this is many times more civilised than the sessions that we sometimes have in the Westminster Parliament.

**Prif Weinidog y Deyrnas Unedig:** Lywydd, diolch yn fawr am eich gwahoddiad caredig i siarad â'r Cynulliad Cenedlaethol heddiw. Rwy'n teimlo, yn barod, bod hyn yn llawer mwy gwaraidd na'r sesiynau a gawn ambell waith yn Senedd San Steffan.

Standing in this great building, I am conscious of the role that Wales has played in shaping the United Kingdom. Whether it was mining copper or coal, iron or slate, Wales richly deserves its title as the world's first industrial nation. It was a Welshman who created our most cherished public service, the national health service. Events like the National Eisteddfod remind us of the precious nature of Britain's rich culture, and the Mabinogion shed a light on our Celtic and early medieval history, which spreads far beyond the borders of Wales. Now, of course, while many traditional industries may have gone, Wales's international reputation is today earned in other areas. The mountains of Gwynedd, the beaches of Gower and Pembrokeshire, and the rolling hills of Powys attract tourists from far and wide. World-leading research at places like OpTIC in St Asaph and the Institute of Life Science at Swansea University put Wales at the forefront of advances in technology. The wings of Airbus and the engines of Toyota and Ford, built right here in Wales, keep the world moving.

Wrth sefyll yn yr adeilad ardderchog yma, rwy'n ymwybodol o'r rhan a chwaraeodd Cymru yn ffurfio'r Deyrnas Unedig. O ran cloddio am gopr neu lo, haearn neu lechi, mae Cymru yn llawn haeddu ei theitl fel y genedl ddiwydiannol gyntaf yn y byd. Cymro wnaeth greu y gwasanaeth cyhoeddus yr ydym yn ei drysori fwyaf, y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol yn ein hatgoffa o natur werthfawr diwylliant cyfoethog Prydain, ac mae'r Mabinogion yn rhoi goleuni ar ein hanes Celtaidd a chanoloesol cynnar, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i ffiniau Cymru. Bellach, wrth gwrs, er bod llawer o'r diwydiannau traddodiadol wedi mynd, mae enw da Cymru yn rhyngwladol yn cael ei ennill mewn meysydd eraill heddiw. Mae mynyddoedd Gwynedd, traethau'r Gŵyr a Sir Benfro a bryniau tonnog Powys yn denu ymwelwyr o bell. Mae ymchwil o'r radd flaenaf mewn lleoedd fel OpTIC yn Llanelwy a'r Sefydliad Gwyddor Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran technoleg. Mae adenydd Airbus ac injans Toyota a Ford, sy'n cael eu hadeiladu yma yng Nghymru, yn cadw'r byd i symud.

While speaking about the part that Wales has played in our past and present, I want to put on record, here and now, my gratitude to the brave Welsh regiments. From the trenches of northern France to the mountains of South Korea, they have fought and died in defence of our nation and values. Today, in Afghanistan, they continue to serve with courage and distinction, and I pay tribute to them. For them, and for all the people of Wales, I will always be an advocate of this country and everything that it has to offer.

Tra'n siarad am y rhan a chwaraeodd Cymru yn ein gorffennol a'n presennol, rwyf eisiau rhoi ar goedd, yn y fan a'r lle, fy niolch i'r catrodau Cymreig dewr. O ffosydd gogledd Ffrainc i fynyddoedd De Corea, maent wedi brwydro a marw tra'n amddiffyn ein cenedl a'n gwerthoedd. Heddiw, yn Afghanistan, maent yn parhau i wasanaethu gyda dewrder a bri, a thalaf deyrnged iddynt. Iddynt hwy, ac i holl bobl Cymru, byddaf bob amser yn gefnogol o'r wlad hon a phopeth sydd ganddi i'w gynnig.

However, Presiding Officer, being an advocate of Wales does not mean ignoring the huge challenges that Wales faces today. We know of those challenges. Wales has some of the poorest parts of the United Kingdom, unemployment remains unacceptably high, too many people are trapped in benefit dependency and thousands of children are growing up in severe poverty. This is an affront to everything that we know that Wales can and should be. The task for everyone in this room is to pull Wales from this predicament and give it a future as glorious as its past.

Fodd bynnag, Lywydd, nid yw bod yn gefnogol o Gymru yn golygu anwybyddu'r heriau anferth y mae Cymru yn eu wynebu heddiw. Gwyddom am yr heriau hynny. Mae gan Gymru rai o rannau tlotaf y Deyrnas Unedig, mae diweithdra yn dal i fod yn annerbyniol o uchel, mae gormod o bobl yn gaeth i ddibyniaeth ar fudd-daliadau ac mae miloedd o blant yn tyfu i fyny mewn tlodi difrifol. Mae hynny yn sarhad ar bopeth y gwyddom y gall Cymru fod ac y dylai fod. Y dasg i bawb yn yr ystafell hon yw tynnu Cymru o'r sefyllfa anodd hon a rhoi dyfodol mor odidog â'i gorffennol iddi.

Today, I want to speak about what we must all do to achieve that. There are some things that we must do together and there are some things that you, as Assembly Members, are responsible for. I want to say a few words about each. However, before I do so, let me say something about the constitutional future of Wales. Four months ago, Wales held a referendum and the people of Wales spoke decisively. The Assembly will no longer have to ask permission from Westminster to legislate on devolved matters. It is clear: there is no turning back from devolution, nor should there be. However, I believe that, with this new level of power that you hold, there should be new levels of accountability. So, as we promised, we will establish a process similar to the Calman commission in Scotland. The strength of Calman was that it worked by consensus—Conservatives, Labour and Liberal Democrats in Scotland coming together and agreeing a way forward. I am, therefore, asking all political parties to seek consensus on the future direction of devolution. Whatever the outcome of this process, I want you to know that I will always be here to work with you for the good

Heddiw, rwyf eisiau siarad am yr hyn y mae'n rhaid i ni gyd ei wneud i gyflawni hynny. Mae ambell i beth y mae'n rhaid i ni ei wneud gyda'n gilydd ac mae ambell i beth yr ydych chi, fel Aelodau Cynulliad, yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, cyn i mi wneud hynny, gadewch i mi ddweud rhywbeth am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Bedwar mis yn ôl, cynhaliodd Cymru refferendwm a siaradodd pobl Cymru yn bendant. Ni fydd yn rhaid i'r Cynulliad ofyn caniatâd gan San Steffan i ddeddfu ar faterion datganoledig mwyach. Mae'n glir: nid oes troi yn ôl o ddatganoli, ac ni ddylid ychwaith. Fodd bynnag, rwy'n credu, yn sgil y lefel newydd o bŵer sydd gennych, y dylid cael lefelau atebolrwydd newydd hefyd. Felly, fel yr addawyd gennym, byddwn yn sefydlu proses debyg i'r comisiwn Calman yn yr Alban. Cryfder Calman oedd ei fod yn gweithio drwy gonsensws—y Ceidwadwyr, Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Alban yn dod ynghyd a chytuno ar ffordd ymlaen. Gofynnaf felly i bob plaid wleidyddol geisio consensws ar gyfeiriad datganoli yn y dyfodol. Beth bynnag fo canlyniad y broses hon, rwyf am i chi wybod

of Wales as part of a strong United Kingdom.

y byddaf yma bob amser i weithio gyda chi er budd Cymru fel rhan o Deyrnas Unedig gref.

1.15 p.m.

I welcome the co-operative approach that the First Minister, Carwyn Jones, is taking, and look forward to further discussions—we have had some today and we will have more in the future—and for the relationship to continue in a spirit of mutual respect. It is in that spirit of co-operation that we must work together to strengthen the Welsh economy. The drive for growth, jobs and wealth for Wales is a task that we must do together. As I have said, Wales is a country with industrial flair and enterprising people, yet when a former Labour Secretary of State has accepted that the private sector in Wales is too small, we must all recognise that the Welsh economy is far too dependent on the state. When we are dealing, as we are, with the largest budget deficit in our peacetime history, this is simply untenable. Of course, I recognise that for Wales to develop a more sustainable economic future, we in Westminster must act responsibly and thoughtfully. That is why we made sure that Wales was less affected than other parts of the United Kingdom in the spending review. By the end of this Parliament, the Welsh resource budget will have gone down by 7.5 per cent, which is less than the 8.3 per cent UK average and much less than the average cuts to most Whitehall departments of around 19 per cent. As well as that, we have taken some vital steps to protect the poorest. We are restoring the link between pensions and earnings, which will benefit 630,000 pensioners in Wales. We are increasing child tax credits, helping more than 215,000 families in Wales, and our decision to increase the personal tax allowance will benefit over 1 million Welsh taxpayers. Indeed, 52,000 people in Wales will be taken out of tax altogether.

Rwy'n croesawu'r ymagwedd gydweithredol y mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn ei chymryd, ac edrychaf ymlaen at ragor o drafodaethau—rydym wedi cael rhai heddiw a byddwn yn cael rhagor yn y dyfodol—ac i'r berthynas barhau mewn ysbryd o gyd-barch. Yn yr ysbryd hwnnw o gydweithredu y mae'n rhaid i ni gydweithio i gryfhau economi Cymru. Mae'r gwaith i greu twf, swyddi a chyfoeth i Gymru yn waith y mae'n rhaid i ni ei wneud gyda'n gilydd. Fel y dywedais, mae Cymru yn wlad gyda thalent diwydiannol a phobl fentrus, ond pan fo cyn-Ysgrifennydd Gwladol Llafur yn derbyn bod y sector preifat yn rhy fach yng Nghymru, rhaid i ni gyd gydnabod bod economi Cymru yn llawer rhy ddibynnol ar y wladwriaeth. Pan fyddwn yn ymdrin, fel ag yr ydym, â'r diffyg cyllidebol mwyaf yn ein hanes mewn cyfnod o heddwch, nid yw hynny yn gynaliadwy. Wrth gwrs, er mwyn i Gymru ddatblygu dyfodol economaidd mwy cynaliadwy, rwy'n cydnabod bod yn rhaid i ni yn San Steffan weithredu yn gyfrifol a meddylgar. Dyna pam y gwnaethom sicrhau bod yr adolygiad gwariant yn cael llai o effaith ar Gymru na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Erbyn diwedd y Senedd hon, bydd cyllideb adnoddau Cymru wedi lleihau 7.5 y cant, sy'n llai na'r cyfartaledd yn y DU, 8.3 y cant, a llawer llai na'r toriadau ar gyfartaledd i'r rhan fwyaf o adrannau Whitehall o ryw 19 y cant. Ar ben hynny, rydym wedi cymryd camau pwysig i ddiogelu'r tlotaf. Rydym yn adfer y ddolen rhwng pensiynau ac enillion, a fydd o fudd i 630,000 o bensiynwyr yng Nghymru. Rydym yn cynyddu credydau treth plant, a fydd yn helpu mwy na 215,000 o deuluoedd yng Nghymru, a bydd ein penderfyniad i gynyddu'r lwfans treth personol o fudd i dros 1 miliwn o drethdalwyr yng Nghymru. Yn wir, ni fydd 52,000 o bobl yng Nghymru yn gorfod talu treth o gwbl.

At the same time, we are trying to protect the investments that you need to grow. We are electrifying the Great Western main line from London to south Wales, and remain committed to working with the Welsh

Ar yr un pryd, rydym yn ceisio diogelu'r buddsoddiadau y mae arnoch eu hangen i dyfu. Rydym yn trydaneiddio'r brif linell Great Western o Lundain i dde Cymru, ac yr ydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i

Government on the case for electrifying the Valleys lines to and from Cardiff. We will continue to keep the case for electrification to Swansea under review. Last month, we announced the sites that we consider as suitable for new nuclear investment, including Wylfa on Anglesey, and today I have a new announcement. We know that broadband is vital if businesses are to grow and create new jobs, especially in rural areas. That is why, today, I can announce that Wales is set to receive £56.9 million to help take superfast broadband to 90 per cent of homes and businesses in Wales.

weithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr achos dros drydaneiddio llinellau'r Cymoedd i Gaerdydd ac oddi yno. Byddwn yn parhau i adolygu'r achos dros drydaneiddio i Abertawe. Y mis diwethaf, gwnaethom gyhoeddi'r safleoedd yr ydym yn eu hystyried sy'n addas ar gyfer buddsoddiad niwclear newydd, yn cynnwys Wylfa ar Ynys Môn, ac y mae gennyf gyhoeddiad newydd heddiw. Gwyddom fod band eang yn hanfodol os yw busnesau i dyfu a chreu swyddi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dyna pam y gallaf gyhoeddi heddiw y bydd Cymru yn derbyn £56.9 miliwn i helpu i gyflwyno band eang cyflym iawn i 90 y cant o gartrefi a busnesau yng Nghymru.

So, yes, we are acting responsibly in Wales, and, yes, we are making the necessary investments, but that does not mean that there can be blank cheques. The simple truth is this: the size of the fiscal deficit that we inherited—larger than the deficit in Greece or Portugal—means that the days in which you could just ask the Treasury for more money are over. Our focus must be on all the areas where we can drive growth: skills, education, business start-ups and deregulation. It is the responsibility of all of us to think of new and more imaginative ways to boost enterprise and jobs in Wales. The issues are the same as in England. Where Wales has good ideas, we should learn from them in Whitehall, and, I hope, vice versa. Already our two Governments are working well together. The Secretary of State and Lord Green are working closely with the Welsh Government and the Ministers to promote trade and investment in Wales. There is regular dialogue between the Secretary of State and the First Minister on creating new enterprise zones in Wales, and the decisions that we have taken at Westminster to cut corporation tax, plus your commitment to invest in training and skills, will help businesses here too.

Felly, ydym, yr ydym yn gweithredu'n gyfrifol yng Nghymru, ac ydym, yr ydym yn gwneud y buddsoddiadau y mae eu hangen, ond nid yw hynny'n golygu y bydd pwll di-waelod o arian ar gael. Y gwir amdani yw bod maint y diffyg cyllidol a etifeddwyd gennym—mwy na'r diffyg yng Ngwlad Groeg neu Bortiwgal—yn golygu bod y dyddiau ar ben lle gallech ond gofyn i'r Trysorlys am fwy o arian. Mae'n rhaid i'n ffocws fod ar yr holl feysydd lle gallwn hyrwyddo twf: sgiliau, addysg, busnesau newydd a dadreoleiddio. Mae'n gyfrifoldeb arnom i gyd i feddwl am ffyrdd newydd a mwy dychmygus i hybu menter a swyddi yng Nghymru. Mae'r problemau yr un fath yn Lloegr. Lle mae gan Gymru syniadau da, dylem ddysgu ohonynt yn Whitehall a, gobeithio, fel arall hefyd. Mae ein dwy Lywodraeth yn cydweithio'n dda yn barod. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Green yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Gweinidogion i hyrwyddo masnach a buddsoddiad yng Nghymru. Mae deialog reolaidd rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weinidog ar greu parthau menter newydd yng Nghymru, ac mae'r penderfyniadau a wnaethom yn San Steffan i dorri'r dreth gorfforaeth, ac eich ymrwymiad chi i fuddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau, yn helpu busnesau yn y fan hon hefyd.

Working together, I know that we can bring lasting prosperity to the Welsh people. That is a job that we must do together, but let me briefly talk about a job that is yours alone. With the powers that you have come

Drwy gydweithio, gwn y gallwn ddod â llewyrch parhaol i bobl Cymru. Mae hynny'n waith y mae'n rhaid i ni ei wneud gyda'n gilydd, ond gadewch i mi sôn yn fyr am waith sydd yn waith i chi yn unig. Daw

immense responsibility—responsibility to the children in your schools, to students in your universities, and to doctors, nurses and patients in your hospitals. They are looking to you to provide dramatic improvements to their lives. However, let me be frank: as in many other parts of the UK, some public services in Wales are currently too bureaucratic to deliver those improvements. I fundamentally believe that now is the time to modernise our public services, and, in England, that is what we are doing. We are opening up choice in the schools that we send our children to and in the hospitals that we are treated in. We are breaking open the state monopoly and inviting new providers in. We are making the whole system more transparent. Together, I believe that these changes will revolutionise public services in England and improve people's lives. I also believe that more open public services could do the same in Wales.

cyfrifoldeb aruthrol gyda'r pwerau sydd gennych—cyfrifoldeb i'r plant yn eich ysgolion, i fyfyrwyr yn eich prifysgolion, ac i feddygon, nyrsys a chleifion yn eich ysbytai. Maent yn edrych i'ch cyfeiriad chi i wneud gwelliannau dramatig i'w bywydau. Fodd bynnag, gadewch i mi ddweud yn blaen: fel sy'n wir mewn rhannau eraill o'r DU, mae ambell wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn rhy fiwrocrataidd ar hyn o bryd i gyflawni'r gwelliannau hynny. Credaf yn sylfaenol mai dyma'r amser i foderneiddio ein gwasanaethau cyhoeddus, a dyna yr ydym yn ei wneud yn Lloegr. Rydym yn cynnig dewis o ran yr ysgolion yr ydym yn anfon ein plant iddynt ac o ran yr ysbytai y cawn ein trin ynddynt. Rydym yn agor drysau monopoli'r wladwriaeth ac yn gwahodd darparwyr newydd i ddod i mewn. Rydym yn gwneud yr holl system yn fwy tryloyw. Gyda'n gilydd, credaf y bydd y newidiadau hyn yn chwyldroi gwasanaethau cyhoeddus yn Lloegr ac yn gwella bywydau pobl. Credaf hefyd y gallai gwasanaethau cyhoeddus mwy agored wneud yr un peth yng Nghymru.

Let me put it another way: devolution of power from Westminster to Cardiff is not enough. We need real devolution, where power is passed from here in Cardiff to patients and parents, doctors, nurses, teachers, charities and social enterprises. Collectively, they have the ideas, the energy and the commitment to improve our schools, build a fantastic NHS and make Wales a better place in which to live for everyone. Let me be clear: it is not my intention to interfere in decisions relating to devolved matters. That is your responsibility. However, it is my duty to give my opinion where I feel that it could benefit the Welsh people, and, just as I believe that Cardiff can learn from Westminster, so we in Westminster can learn from you. Your decision to appoint the UK's first older people's commissioner to raise the profile of the elderly, to end age discrimination, and to give our pensioners the security and dignity that they deserve, sets a positive example to the rest of us. I believe that this is what healthy, mature devolution should be about: mutual respect, the sharing of ideas and the spirit of collaboration.

Gadewch i mi ei roi mewn ffordd arall: nid yw datganoli pŵer o San Steffan i Gaerdydd yn ddigon. Rydym angen datganoli go iawn, lle caiff pŵer ei drosglwyddo o'r fan hon yng Nghaerdydd i gleifion a rhieni, meddygon, nyrsys, athrawon, elusennau a mentrau cymdeithasol. Gyda'i gilydd, mae ganddynt y syniadau, yr egni a'r ymrwymiad i wella ein hysgolion, adeiladu GIG rhagorol a gwneud Cymru yn le gwell i fyw ynddo i bawb. Gadewch i mi fod yn glir: nid yw'n fwriad gennyf ymyrryd mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd. Eich cyfrifoldeb chi yw hynny. Fodd bynnag, fy nyletswydd i yw rhoi fy marn lle teimlaf y gallai fod o fudd i bobl Cymru, ac, yn union fel y credaf y gall Caerdydd ddysgu gan San Steffan, gallwn ni yn San Steffan ddysgu gennych chi hefyd. Mae eich penderfyniad i benodi comisiynydd pobl hŷn cyntaf y DU i godi proffil yr henoed, i roi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran, a rhoi'r diogelwch a'r urddas y mae ein pensiynwyr yn eu haeddu, yn gosod esiampl bositif i'r gweddill ohonom. Credaf mai dyma a ddylai nodweddu datganoli iach ac aeddfed: cyd-barch, rhannu syniadau ac ysbryd cydweithio.

Presiding Officer, it has been a privilege to

Lywydd, bu'n fraint cael annerch y Cynulliad

address the National Assembly today. I would like to end by saying this: I know that devolution will not always be easy, and I know that we will not always agree, but I know that we share common aims to work together to make life better for the people of Wales to give them a more prosperous future, a stronger future, and a better future. Thank you. [*Applause*.]

cenedlaethol heddiw. Hoffwn orffen drwy ddweud hyn: gwn na fydd datganoli yn hawdd bob amser, a gwn na fyddwn yn cytuno bob amser, ond rwy'n gwybod bod gennym nod gyffredin i gydweithio i wneud bywyd yn well i bobl Cymru i roi dyfodol mwy llewyrchus iddynt, dyfodol cryfach, a dyfodol gwell. Diolch yn fawr. [*Cymeradwyaeth*.]

**The Presiding Officer:** Thank you very much, Prime Minister. Assembly Members will have noted with interest what you have said today. As you say, following the referendum in March, which provided us with primary law making powers, it is important that we maintain a constructive relationship as we deliver another significant stage in the history of devolution. The people of Wales delivered a decisive 'yes' vote in March because they believed that the Assembly should make laws on issues that matter to them most—laws that affect their daily lives. Their expectations of us are very high and we will work hard to meet those expectations.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog. Bydd Aelodau Cynulliad wedi nodi gyda diddordeb yr hyn a ddywedasoch heddiw. Fel y dywedwch, yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth, a roddodd bwerau deddfu sylfaenol i ni, mae'n bwysig ein bod yn cynnal perthynas adeiladol wrth i ni gyflwyno cam arwyddocaol arall yn hanes datganoli. Cyflwynodd pobl Cymru bleidlais 'ie' bendant ym mis Mawrth oherwydd eu bod o'r farn y dylai'r Cynulliad wneud cyfreithiau ar faterion sydd fwyaf o bwys iddynt—cyfreithiau sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd. Mae eu disgwyliadau ohonom yn uchel iawn a byddwn yn gweithio'n galed i gwrdd â'r disgwyliadau hynny.

Where responsibility for matters affecting Welsh interests falls with the UK Government, such as a review of the Barnett formula and arrangements for funding Welsh broadcasting, we will do all that we can to ensure that you are working hard on our behalf. What you have said today about the Calman-style commission on devolution is of particular interest and we look forward to hearing more details about that in due course.

Pan fo cyfrifoldeb am faterion sy'n effeithio ar fuddiannau Cymreig yn dod o fewn cwmpas Llywodraeth y DU, megis adolygiad o fformwla Barnett a threfniadau ar gyfer ariannu darlledu yng Nghymru, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eich bod yn gweithio'n galed ar ein rhan. Mae'r hyn a ddywedasoch heddiw am gomisiwn tebyg i Calman ar ddatganoli o ddiddordeb arbennig ac edrychwn ymlaen at glywed mwy o fanylion am hynny cyn bo hir.

Prime Minister, thank you on behalf of all Assembly Members for being here today and for the interest that you continue to take in our work.

Brif Weinidog, diolch i chi ar ran pob Aelod Cynulliad am fod yma heddiw ac am y diddordeb yr ydych yn parhau i'w gymryd yn ein gwaith.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da.

**The Presiding Officer:** Good afternoon.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

**Janet Finch-Saunders:** Thank you,

**Janet Finch-Saunders:** Diolch, Lywydd, am

Presiding Officer, for the warm courtesy that you have just extended to the Prime Minister of the United Kingdom. Just before I ask my question, as a new Member—

**The Presiding Officer:** Order. Can you ask the question on the paper please?

**Janet Finch-Saunders:** The Conservative Government in Westminster holds meetings around the United Kingdom, and today is evidence of that.

**The Presiding Officer:** Order. Can you ask the question on the paper please?

**Janet Finch-Saunders:** You have previously talked of holding Assembly or committee meetings in north Wales.

**The Presiding Officer:** Order. Can you ask the question, please?

**Blaenoriaethau**

***1. Janet Finch-Saunders:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y Gogledd yn y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0096(FM)*

**The Presiding Officer:** Thank you very much.

**The First Minister:** When someone asks a question for the first time, it can be a nervous occasion; I understand that very well. However, the question has been asked and I will answer it: we will get on with the programme set out in our manifesto, to the benefit of all our communities, including those in north Wales.

**Janet Finch-Saunders:** Sorry, Presiding Officer. Just before I proceed, I would like to say, as a new Member, how disappointed I was at the rudeness that was just extended to our Prime Minister. As a new Member—

**The Presiding Officer:** Order. Can you move on with the question please? [*Interruption*.] Order. You were very well behaved previously; can we just carry that on for the rest of the afternoon please? Your comments are very much appreciated but are

y cwrteisi cynnes yr ydych newydd ei ddangos i Brif Weinidog y Deyrnas Unedig. Cyn i mi ofyn fy nghwestiwn, fel Aelod newydd—

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch chi ofyn y cwestiwn ar y papur, os gwelwch yn dda?

**Janet Finch-Saunders:** Mae'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn cynnal cyfarfodydd ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, ac mae heddiw yn dangos hynny.

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch chi ofyn y cwestiwn ar y papur, os gwelwch yn dda?

**Janet Finch-Saunders:** Rydych wedi sôn o'r blaen am gynnal cyfarfodydd Cynulliad neu bwyllgor yn y gogledd.

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch chi ofyn y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

**Priorities**

***1. Janet Finch-Saunders:** Will the First Minister outline his priorities for North Wales for the Fourth Assembly. OAQ(4)0096(FM)*

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr iawn.

**Y Prif Weinidog:** Pan fo rhywun yn gofyn cwestiwn am y tro cyntaf, mae'n gallu bod yn achlysur nerfus; rwy'n deall hynny'n iawn. Fodd bynnag, gofynnwyd y cwestiwn a gwnaf ei ateb: byddwn yn bwrw ymlaen â'r rhaglen a amlinellwyd yn ein maniffesto, a fydd o fudd i bob un o'n cymunedau, gan gynnwys y rheiny yn y gogledd.

**Janet Finch-Saunders:** Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd. Cyn i mi fwrw ymlaen, hoffwn ddweud, fel Aelod newydd, pa mor siomedig oeddwn i gyda'r anghwrteisi sydd newydd gael ei ddangos i'n Prif Weinidog. Fel Aelod newydd—

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch chi symud ymlaen gyda'r cwestiwn, os gwelwch yn dda? [*Torri ar draws*.] Trefn. Roeddech yn ymddwyn yn berffaith cyn hyn; allwn ni gario ymlaen gyda hynny am weddill y prynhawn, os gwelwch yn dda? Mae eich

not appropriate, so can you please move on with your question? Thank you.

sylwadau yn cael eu gwerthfawrogi ond nid ydynt yn briodol, felly a allwch chi symud ymlaen gyda'ch cwestiwn? Diolch yn fawr.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, you have previously talked about holding Assembly or committee meetings in north Wales. In the first and second terms of the last Assembly, meetings were held in north Wales on quite a regular basis and this made people feel more engaged with the Assembly. The lack of Assembly activity in north Wales now has led to feelings of disenfranchisement among the people of north Wales, and this was highlighted in particular to me by many people during my election campaign, in particular by the business and farming communities, which are eager for you to engage with them in north Wales.

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, rydych wedi sôn o'r blaen am gynnal cyfarfodydd Cynulliad neu bwyllgorau yn y gogledd. Yn nhymor cyntaf ac ail dymor y Cynulliad diwethaf, cynhaliwyd cyfarfodydd yn y gogledd yn eithaf rheolaidd a gwnaeth hyn i bobl deimlo eu bod yn ymwneud mwy â'r Cynulliad. Mae'r diffyg gweithgarwch Cynulliad yn y gogledd bellach wedi arwain at bobl y gogledd yn teimlo'n ddifreiniedig, a chafodd hyn ei godi yn benodol gyda mi gan nifer o bobl yn ystod fy ymgyrch etholiadol, yn enwedig gan y cymunedau busnes a ffermio, sy'n awyddus i chi ymwneud â nhw yn y gogledd.

**The Presiding Officer:** Order. Have you asked the question yet?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych wedi gofyn y cwestiwn erbyn hyn?

**Janet Finch-Saunders:** I believe, First Minister, that you are losing an opportunity to engage with our electorate, and I seek some reassurance that you will, at the very least, consider holding Assembly meetings in north Wales during the fourth Assembly.

**Janet Finch-Saunders:** Rwy'n credu, Brif Weinidog, eich bod yn colli cyfle i ymwneud â'n hetholwyr ni, ac rwy'n chwilio am rywfaint o sicrwydd y byddwch chi, o leiaf, yn ystyried cynnal cyfarfodydd Cynulliad yn y gogledd yn ystod y pedwerydd Cynulliad.

**The Presiding Officer:** Order. You have asked the question now, thank you.

**Y Llywydd:** Trefn. Rydych chi wedi gofyn y cwestiwn erbyn hyn, diolch yn fawr.

**The First Minister:** These are matters for the Commission and the Presiding Officer, not for the Government. Whether the Assembly or its committees meet outside Cardiff is not a matter for the Government. However, a Cabinet meeting will be held in Llandudno Junction at the end of this month.

**Y Prif Weinidog:** Materion i'r Comisiwn a'r Llywydd yw'r rhain, nid i'r Llywodraeth. Nid mater i'r Llywodraeth yw cynnal cyfarfodydd y Cynulliad neu ei bwyllgorau y tu allan i Gaerdydd ai peidio. Serch hynny, cynhelir cyfarfod Cabinet yng Nghyffordd Llandudno ddiwedd y mis hwn.

**Alun Ffred Jones:** Mae aelodau o'r gwasanaeth sifil yn swyddfa'r Llywodraeth yn Llandudno yn adrodd bod uwch was sifil wedi bod yna ar ymweliad yn ddiweddar a chyhoeddi y bydd un o swyddfeydd y Llywodraeth yn y gogledd yn cau yn y dyfodol agos. Pa swyddfa fydd honno?

**Alun Ffred Jones:** Members of the civil service in the Welsh Government's office in Llandudno have reported that a senior civil servant went there recently and announced that one of the Government's offices in north Wales will close in the near future. Which office will that be?

**Y Prif Weinidog:** Os oes rhywun wedi dweud hynny, nid oedd ganddynt yr awdurdod i ddweud hynny.

**The First Minister:** If someone has said that, they had no authority to do so.

**Sandy Mewies:** First Minister, I ask for your assurances, despite what we have heard

**Sandy Mewies:** Brif Weinidog, rwy'n gofyn i chi roi sicrwydd, er gwaethaf yr hyn a

previously, that your priorities for north Wales will not include the privatisation of the health service?

glywsom o'r blaen, nad yw eich blaenoriaethau ar gyfer y gogledd yn cynnwys preifateiddio'r gwasanaeth iechyd?

**The First Minister:** We are not looking to privatise the health service, or indeed to introduce the private sector into what should be a public service.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n fwriad gennym breifateiddio'r gwasanaeth iechyd, nac yn wir i gyflwyno'r sector preifat i rywbeth a ddylai fod yn wasanaeth cyhoeddus.

**Aled Roberts:** Brif Weinidog, a ydych yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau gan Grid Cenedlaethol i ddiweddaru ei rwydwaith yng ngogledd Cymru?

**Aled Roberts:** First Minister, are you aware of any plans by National Grid to update its network in north Wales?

**Y Prif Weinidog:** Deallaf y bydd Grid Cenedlaethol yn edrych ar y rhwydwaith ym mhob rhan o Gymru er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn gallu delio gyda'r system sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae cwestiynau'n codi ynglŷn ag atomfa niwclear Wylfa a beth fydd yn digwydd pan fydd yr adweithydd newydd yn cael ei adeiladu, ond mae hynny'n fater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

**The First Minister:** I understand that National Grid is looking at the network in every part of Wales in order to ensure that it can deal with the current system. Questions arise in relation to the Wylfa nuclear power station and what will happen when a new reactor is built, but that is a matter for the Government of the United Kingdom.

**Ynni Adnewyddadwy**

**Renewable Energy**

***2. Elin Jones:*** *Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. OAQ(4)0094(FM)*

***2. Elin Jones:*** *How will the Welsh Government prioritise renewable energy in Wales. OAQ(4)0094(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Chwyldro Carbon Isel' yn pennu'r camau a fydd yn cael eu cymryd er mwyn cyflymu'r broses o newid i system ynni carbon isel gadarn drwy hyrwyddo technolegau adnewyddadwy eraill, gan gynnwys ynni'r gwynt, ynni biomas ac ynni morol. Byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar botensial y sector ynni ar gyfer pobl Cymru yn economaidd ac o ran gwaith.

**The First Minister:** 'A Low Carbon Revolution' sets out the actions that will be taken to accelerate the transition to a resilient low-carbon energy system through the promotion of diverse renewable technologies including wind energy, biomass and marine energy. We will also maximise the economic and employment potential of the energy sector for the people of Wales.

**Elin Jones:** A allwch egluro polisi eich Llywodraeth o ran datganoli pwerau dros benderfynu ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy? A ydych o blaid datganoli penderfynu ar ddatblygiadau dros 100 MW yn unig, neu a yw eich Llywodraeth o blaid datganoli penderfynu ar bopeth dros 50 MW?

**Elin Jones:** Could you clarify your Government's policy in terms of the devolution of decisions on renewable energy production? Are you in favour of devolving decisions on developments of up to 100 MW only, or is your Government in favour of devolution of decisions on everything over 50 MW?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym o blaid datganoli prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 100 MW.

**The First Minister:** We favour devolving decisions on renewable energy projects up to 100 MW.

**Russell George:** I want to clarify the message that has arisen regarding the energy

**Russell George:** Rwyf eisiau goleuni ar y neges sydd wedi dod allan ynghylch

capacity limits for the strategic search areas. The indicative capacity limits for onshore wind generation set out in technical advice note 8 are collectively 1,120 MW although the technical advice note states that these should not be seen as capacity for the areas, but should, instead, assist the planning process. According to your Government's energy policy statement, published last year, your target is to achieve 2 GW of energy capacity for onshore wind by 2017, but in your statement on 17 June, you clearly indicate that the indicative capacity set out in TAN 8 should be regarded by developers as the upper limits. However, the Minister for Environment and Sustainable Development's letter to planning officers last week refers to the maximum capacity targets, as stated in the 2004 GL Garrad Hassan report of 1,700 MW.

cyfyngiadau capasiti ynni ar gyfer yr ardaloedd chwilio strategol. At ei gilydd, mae'r cyfyngiadau capasiti dangosol ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt ar y tir a amlinellir yn nodyn cyngor technegol 8 yn 1,120 MW er bod y nodyn cyngor technegol yn dweud na ddylid ystyried y rhain fel capasiti i'r ardaloedd hyn, ond y dylent yn hytrach helpu'r broses gynllunio. Yn ôl datganiad polisi ynni eich Llywodraeth a gyhoeddwyd y llynedd, eich targed yw cyflawni 2 GW o gapasiti ynni gwynt ar y tir erbyn 2017, ond yn eich datganiad ar 17 Mehefin, dywedasoch yn glir y dylai datblygwyr ystyried y capasiti dangosol a amlinellwyd yn TAN 8 fel y cyfyngiadau uchaf. Fodd bynnag, mae llythyr Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i swyddogion cynllunio yr wythnos diwethaf yn cyfeirio at y targedau capasiti mwyaf, sef 1,700 MW fel y nodwyd yn adroddiad GL Garrad Hassan a gyhoeddwyd yn 2004.

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question, Russell?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych chi'n dod at y cwestiwn, Russell?

**Russell George:** You wonder why some communities and companies in the sector think that you are moving the goalposts. Is 1,700 MW now your final answer for generating capacity within the strategic search areas, or would you like to phone a friend?

**Russell George:** Rydych yn pendroni pam y mae rhai cymunedau a chwmnïau yn y sector yn meddwl eich bod yn anghyson. Ai 1,700 MW yw eich ateb terfynol ar gyfer cynhyrchu capasiti o fewn yr ardaloedd chwilio strategol, neu a hoffech chi ffonio ffrind?

**The First Minister:** The correct figures are the GL Garrad Hassan figures.

**Y Prif Weinidog:** Y ffigurau cywir yw'r ffigurau GL Garrad Hassan.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Ar 10 Mehefin, dywedodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei fod yn gwrthod cynlluniau sefydliadau addysg uwch i godi ffioedd i £9,000. Ddoe, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y bydd wyth prifysgol yn codi £9,000. Beth sydd wedi newid yn ystod y mis diwethaf?

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** On 10 June, the Higher Education Funding Council for Wales stated that it rejected the plans of higher education institutions to raise tuition fees to £9,000. Yesterday, the Minister for Education and Skills said that eight universities would charge £9,000. What has changed over the last month?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n benderfyniad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, nid y Gweinidog.

**The First Minister:** That is a decision for the Higher Education Funding Council for Wales, not the Minister.

**Ieuan Wyn Jones:** Mae'n flin gennyf, Brif

**Ieuan Wyn Jones:** I am sorry, First Minister,

Weinidog, ond cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ar hyn ddoe, felly, credaf ei fod yn berffaith briodol i mi godi'r mater. Mae'n sôn yn y datganiad am gynlluniau'r prifysgolion. Oni bai ein bod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng cynlluniau'r prifysgolion, sut ydym i fod i gynrychioli pobl Cymru o ran asesu os yw'r penderfyniad yn un doeth neu beidio? Yr ydych yn dweud mai mater i'r cyngor cyllido ydyw, felly a wnewch drafod gyda'r cyngor y posibilrwydd o ryddhau'r wybodaeth ynghylch cynlluniau pob prifysgol er mwyn i ni gael barnu ar y gwahaniaeth rhwng y penderfyniad ym mis Mehefin a'r un a wnaethpwyd ddoe? Gan fod modelu ariannol wedi'i wneud ar sail ffioedd o £7,000 ar gyfartaledd, a wnewch gyhoeddi model ariannol sydd yn dangos y gwahaniaeth ariannol gyda ffioedd o £9,000?

but a statement was issued by the Minister yesterday about this, therefore, I think that it is perfectly appropriate to raise the matter. He mentions in his statement the universities' plans. Unless we know the differences between the plans of those universities, how are we supposed to represent the people of Wales in terms of assessing whether the decision is wise or not? You say that it is a matter for the funding council, so will you discuss with it the possibility of releasing the information about the plans of each university so that we can make a judgment on the difference between the decision in June and that taken yesterday? As financial modelling has been undertaken based on fees of £7,000 on average, will you publish a financial model that shows the financial difference with fees of £9,000?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n hollol resymol i ofyn am fwy o fanylion ynghylch sut a wnaed y penderfyniadau. Byddaf yn sicrhau bod y manylion hynny'n cael eu darparu. Yn ail, yr ydym yn hyderus bod modd talu am y polisi, ac mae modelu wedi cael ei wneud ar sail ffioedd o £7,000 a £9,000.

**The First Minister:** It is entirely reasonable to ask for more details on how decisions were reached. I will ensure that those details are provided. Secondly, we are confident that the policy can be paid for, and modelling has been done on the figures of £7,000 and £9,000.

**Ieuan Wyn Jones:** Mae'n ddrwg gennyf, Brif Weinidog, ond er y dywedwch eich bod yn credu bod y setliad newydd yn fforddiadwy, ni all neb arall barnu ar hynny. Y cyfan sydd gennym yw cyhoeddiad byr gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'ch sylwadau byr heddiw. Sut fedrwn farnu a yw hyn yn fforddiadwy âi peidio? Credaf fod gennym yr hawl i gael yr holl wybodaeth er mwyn penderfynu ar hynny. Pan gyhoeddodd y Gweinidog ei gynllun ym mis Rhagfyr 2010, dywedodd ei fod yn fforddiadwy oherwydd bod modelu wedi cael ei wneud ar godi ffioedd i £7,000 ar gyfartaledd. Cyhoeddwyd ffigurau gan y Gweinidog ar sail hynny. A wnewch gyhoeddi'r modelu ar sail ffioedd o £9,000 ar gyfartaledd er mwyn i ni gael gweld a yw'r cynllun presennol yn fforddiadwy?

**Ieuan Wyn Jones:** I am sorry, First Minister, but although you say that you believe that the new settlement is affordable, no-one else can make a judgment on that. All we have is a brief statement by the Higher Education Funding Council for Wales and your brief comments today. How can we judge whether this is affordable or not? We have the right, I believe, to have all of the information in order to decide on that. When the Minister announced his plan in December 2010, he said that it was affordable because there was modelling on raising tuition fees to £7,000 on average. Figures were announced by the Minister on that basis. Will you publish the modelling based on fees of £9,000 on average so that we can see whether the present scheme is affordable?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n hollol bosibl, ond yr hyn sy'n fy synnu yw y cefnogodd Plaid Cymru'r polisi hwn cyn yr etholiad, ond yn awr nid ydyw yn siŵr. Mae'n bwysig dros ben fod myfyrwyr Cymru'n gwybod beth yn union yw polisi Plaid Cymru ar hyn. A yw o blaid sicrhau

**The First Minister:** That is entirely possible, but what surprises me is that Plaid Cymru supported this policy before this election, but now it is not so sure. It is very important that the students of Wales know exactly what Plaid Cymru's policy is on this issue. Is it in favour of ensuring that we keep student

bod taliadau myfyrwyr yn isel neu beidio?

payments low or not?

**Ieuan Wyn Jones:** A ydych yn ceisio dweud wrthyf, felly, nad oes dim wedi newid ers mis Rhagfyr y llynedd? Mae pethau wedi newid. Er mwyn bod yn berffaith glir, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ym mis Rhagfyr y llynedd yn cynnwys ffigurau a gafodd eu modelu ar y disgwyliad y byddai ffioedd yn codi i £7,000. Cyhoeddwyd y ffigurau ar y sail honno. Yr ydym yn gwybod yn awr y bydd ffioedd yng Nghymru yn codi i £8,800 ar gyfartaledd. Mae hynny'n golygu y modelwyd y ffigurau ar sail sydd bellach yn anghywir. Felly, y cyfan yr wyf yn ei ofyn yw eich bod yn cyhoeddi ffigurau sydd wedi cael eu modelu ar sail y ffigurau sydd wedi cael eu cyhoeddi. Rhoddaf enghraifft i chi o pam mae hyn yn bwysig. Yn ei ddatganiad ym mis Rhagfyr, dywedodd y Gweinidog, ar sail ffioedd o £7,000 ar gyfartaledd, bydd yn rhaid i ni dalu costau myfyrwyr yn Lloegr o £70 miliwn erbyn 2015. Dyna oedd y ffigur yn seiliedig ar gyfartaledd o £7,000. Gan fod ffioedd yn Lloegr wedi codi i £8,100 ar gyfartaledd, bydd £80 miliwn yn mynd allan o gyllideb Cymru, sy'n sicr o effeithio ar eich ffigurau. A wnewch chi felly gyhoeddi'r ffigurau newydd, os gwelwch yn dda, fel ein bod i gyd yng Nghymru yn cael gwybod ar ba sail yr ydych yn dweud bod y cynllun diweddaraf yn fforddiadwy?

**Ieuan Wyn Jones:** Are you trying to tell me therefore that nothing has changed since December last year? Things have changed. To be perfectly clear, the Minister made a statement in December last year that included figures that had been modelled on the expectation that fees would rise to £7,000. Those figures were published on that basis. We now know that fees in Wales will rise to £8,800 on average. That means that the figures were modelled on a basis that is now inaccurate. Therefore, all I am asking is that you publish figures that have been modelled on the basis of the figures that have been published. I will give you an example as to why this is important. In his statement in December, the Minister said, on the basis that fees would be £7,000 on average, we would have to pay £70 million to cover the cost of students in England by 2015. That was the figure based on an average of £7,000. As fees in England have increased to £8,100 on average, £80 million will leave the Welsh budget, which will certainly affect your figures. Will you therefore publish new figures please so that all of us in Wales will know on what basis you are saying that the latest scheme is affordable?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs y gwnawn hynny.

**The First Minister:** Of course we will do that.

**The Leader of the Opposition (Paul Davies):** In 1997, manufacturing accounted for 28 per cent of the Welsh economy, but by 2008, that figure had fallen to 17 per cent. When can we expect the First Minister's much delayed manufacturing strategy?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Paul Davies):** Ym 1997, roedd gweithgynhyrchu yn gyfrifol am 28 y cant o economi Cymru, ond erbyn 2008 roedd y ffigur hwnnw wedi disgyn i 17 y cant. Pryd y cawn weld strategaeth gweithgynhyrchu y Prif Weinidog, y buom yn aros amser maith amdani?

**The First Minister:** As you know, our manufacturing strategy was published by the Deputy First Minister in the previous Government. It was a strategy that was supported by industry. The point is that we have the economic renewal programme and we have a strategy to attract investment into Wales and to increase business start-ups and successful businesses in Wales, whereas the party opposite has no strategy.

**Y Prif Weinidog:** Fel y gwyddoch, cafodd ein strategaeth gweithgynhyrchu ei chyhoeddi gan y Dirprwy Brif Weinidog yn y Llywodraeth flaenorol. Cafodd y strategaeth ei chefnogi gan y diwydiant. Y pwynt yw bod gennym raglen adnewyddu'r economi a strategaeth i ddenu buddsoddiad i Gymru ac i sefydlu busnesau o'r newydd a busnesau llwyddiannus yng Nghymru, tra nad oes gan y blaid gyferbyn unrhyw strategaeth.

**Paul Davies:** The First Minister is referring to the Wales manufacturing forum's 12-page document, which clearly states—I have it here—that it is important to note that this is not a Government strategy. The Welsh Government should take responsibility for setting out a framework within which Welsh manufacturing can compete and grow. I will ask the First Minister again: when can we expect the manufacturing strategy from his Government?

**Paul Davies:** Mae'r Prif Weinidog yn cyfeirio at y ddogfen 12-tudalen gan fforwm gweithgynhyrchu Cymru, sy'n dweud yn glir—mae gennyf y ddogfen yn y fan hon—ei bod yn bwysig nodi nad yw hon yn strategaeth gan y Llywodraeth. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb am amlinellu fframwaith lle gall gweithgynhyrchu yng Nghymru gystadlu a thyfu ynddi. Gofynnaf i'r Prif Weinidog eto: pryd y cawn weld y strategaeth gweithgynhyrchu gan ei Lywodraeth?

**The First Minister:** Again, you fail to make reference to the economic renewal programme, which was published and well-publicised before the last election. The Government is looking to implement the programme in order to ensure that we have a sustainable and sound manufacturing base in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Unwaith eto, nid ydych yn sôn am y cyfeiriad at raglen adnewyddu'r economi, a gyhoeddwyd i gryn gyhoeddusrwydd cyn yr etholiad diwethaf. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r rhaglen er mwyn sicrhau bod gennym sylfaen gweithgynhyrchu cynaliadwy a chadarn yng Nghymru.

**Paul Davies:** Let us talk about the economic renewal programme. We do not yet know what form the economic renewal programme will take. The programme currently has six sectors. Three years ago, your Government strategy had 14 sectors. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has suggested that more sectors could be added to take the total to nine. Can the First Minister confirm that he plans a *Back to the Future* approach by taking the number of key sectors that his Government intends to support up to nine?

**Paul Davies:** Gadewch i ni siarad am raglen adnewyddu'r economi. Ni wyddom eto ar ba ffurf y bydd rhaglen adnewyddu'r economi. Mae gan y rhaglen chwe sector ar hyn o bryd. Dair blynedd yn ôl, roedd 14 o sectorau yn strategaeth eich Llywodraeth. Awgrymodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y gellid ychwanegu mwy o sectorau i greu cyfanswm o naw. A all y Prif Weinidog gadarnhau ei fod yn bwriadu cymryd ymagwedd *Back to the Future* drwy gynyddu nifer y sectorau allweddol y mae ei Lywodraeth yn bwriadu eu cefnogi i naw?

**The First Minister:** We have six key sectors. We will always look to see whether other key sectors emerge from time to time. This contrasts sharply with the policies of his Government, which are simply to try to attract investment into Wales on the basis that we are cheaper than anywhere else. Perhaps it would like to see the abolition of the minimum wage and see those *Back to the Future* days return.

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym chwe sector allweddol. Byddwn yn edrych bob amser i weld a oes unrhyw sector allweddol eraill yn dod i'r amlwg o dro i dro. Mae hyn yn cyferbynnu'n amlwg gyda pholisïau ei Lywodraeth ef, sef ceisio denu buddsoddiad i Gymru ar y sail ein bod yn rhatach nag unman arall. Efallai y byddai'n hoff o weld diddymu'r isafswm cyflog a gweld y dyddiau *Back to the Future* hynny yn dod yn ôl.

**Paul Davies:** On this side of the Chamber, we want to create enterprise zones. On enterprise zones, First Minister, you told me

**Paul Davies:** Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym eisiau creu parthau menter. O ran parthau menter, Brif Weinidog, dywedasoch wrthyf

'it is right to say that the Minister and I are looking in particular at the principle of clustered enterprise zones in different parts of

'mae'n iawn i ddweud bod y Gweinidog a minnau yn edrych yn benodol ar yr egwyddor o glystyru parthau menter mewn gwahanol

Wales.'

rannau o Gymru.'

Can you update the Assembly as to what preparations are now being put in place to introduce enterprise zones in Wales?

A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y paratoadau sy'n cael eu gwneud i gyflwyno parthau menter yng Nghymru?

**The First Minister:** You are quite right; that is exactly what we are doing. We are awaiting clarification from the UK Government as to the nature of the capital allowances that will be involved in enterprise zones.

**Y Prif Weinidog:** Rydych yn hollol iawn; dyna'n union beth yr ydym yn ei wneud. Rydym yn aros am eglurhad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â natur y lwfansau cyfalaf a fydd yn gysylltiedig â'r parthau menter.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, do you agree with Estyn, which has today said that support in schools should be targeted at our poorest children?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, a gytunwch ag Estyn, sydd wedi dweud heddiw y dylid targedu cymorth mewn ysgolion at ein plant tlotaf?

1.45 p.m.

**The First Minister:** We have a good record of supporting our poorest children, whether that is through schemes that have been implemented in years gone by, by previous Governments, or the funding formula, which I believe looks to help schools that need help.

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym record dda o gefnogi ein plant tlotaf, boed hynny drwy'r cynlluniau sydd wedi cael eu gweithredu yn y blynyddoedd a fu, gan Lywodraethau blaenorol, neu'r fformiwla ariannu, sydd, rwy'n credu, yn edrych i helpu ysgolion sydd angen y cymorth.

**Kirsty Williams:** While I welcome the Government's stated intention to look at raising school funding across the board, Estyn has made it clear in its report this morning that poverty is the biggest obstacle to a good education for a child. Will you take that on board and provide extra support for the poorest children in our schools?

**Kirsty Williams:** Er fy mod yn croesawu bwriad y Llywodraeth i edrych ar godi cyllid ysgolion yn gyffredinol, mae Estyn wedi ei gwneud yn glir yn ei adroddiad y bore yma mai tlodi yw'r rhwystr mwyaf at addysg dda ar gyfer plentyn. A wnewch chi ystyried hynny a rhoi cymorth ychwanegol i'r plant tlotaf yn ein hysgolion?

**The First Minister:** Local authorities are already providing that support for our schools. There are some schools in Wales that do not have the most affluent catchment areas doing very well—Treorchy Comprehensive School is one example. However, we will not take money from other schools to fund a policy such as the pupil premium, which is what is happening in England.

**Y Prif Weinidog:** Mae awdurdodau lleol eisoes yn darparu'r gefnogaeth honno ar gyfer ein hysgolion. Mae rhai ysgolion yng Nghymru nad oes ganddynt y dalgylchoedd mwyaf cefnog yn gwneud yn dda iawn—mae Ysgol Gyfun Treorci yn un enghraifft. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cymryd arian oddi wrth ysgolion eraill i ariannu polisi megis y premiwm disgyblion, sef yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr.

**Kirsty Williams:** You will be aware that there is a significant amount of money in unallocated budgets within the Welsh Government and there is a significant amount of money that is being spent on hypothecated

**Kirsty Williams:** Byddwch yn ymwybodol bod swm sylweddol o arian yn y cyllidebau sydd heb eu neilltuo o fewn Llywodraeth Cymru ac y mae swm sylweddol o arian yn cael ei wario ar grantiau sydd wedi'u neilltuo

grants to local government across the piece. I am not surprised that, two weeks ago, your Members and Plaid Cymru Members voted against the Liberal Democrats' motion that called for additional resources to be spent on the education of our poorest children. However, it is not just the Welsh Liberal Democrats who are saying that now: your own Government inspector is saying that too. Will you reconsider your position?

i lywodraeth leol yn gyffredinol. Nid wyf yn synnu bod eich Aelodau chi ac Aelodau Plaid Cymru, bythefnos yn ôl, wedi pleidleisio yn erbyn cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn galw am adnoddau ychwanegol i'w gwario ar addysg ein plant tlotaf. Fodd bynnag, nid dim ond Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sy'n dweud hynny bellach: mae eich arolygydd Llywodraeth eich hun yn dweud hynny hefyd. A wnewch chi ailystyried eich safbwynt?

**The First Minister:** I do not think that anybody—except for you—is suggesting that a secret pot of money exists that we can draw on to pay for services that may be much needed as a result of the cuts that have been imposed on us by the UK Government that you are part of. That is simply not the case.

**Y Prif Weinidog:** Ni chredaf fod unrhyw un—heblaw chi—yn awgrymu bod pot o arian cyfrinachol yn bodoli y gallwn dynnu arno i dalu am wasanaethau y mae, efallai, mawr angen amdanynt o ganlyniad i'r toriadau sydd wedi'u gorfodi arnom gan Lywodraeth y DU yr ydych chi yn rhan ohono. Nid yw hynny'n wir.

**Kirsty Williams:** There is no secret pot of money, as you say, but there are unallocated resources within your Government and the Welsh Liberal Democrats would choose to spend those unallocated resources on the education of our poorest children. We would do so because we believe that it is the right thing to do. It is also what the chief inspector, Ann Keane, believes we should do. She said,

**Kirsty Williams:** Nid oes pot o arian cyfrinachol, fel yr ydych yn dweud, ond mae adnoddau sydd heb eu neilltuo o fewn eich Llywodraeth a byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dewis gwario'r adnoddau hynny sydd heb eu neilltuo ar addysg ein plant tlotaf. Byddem yn gwneud hynny oherwydd credwn mai hynny yw'r peth iawn i'w wneud. Dyna'r hyn y mae'r prif arolygydd, Ann Keane, yn credu y dylid ei wneud hefyd. Dywedodd hi,

'Learners from poorer families or who are in care are more likely to attain at lower levels than other learners.'

'mae dysgwyr o deuluoedd tlotach neu sydd o dan ofal yn fwy tebygol o gyrraedd lefelau is na dysgwyr eraill.'

We believe that additional resources should be spent on the poorest children. Why does the Labour Party not agree?

Credwn y dylid gwario adnoddau ychwanegol ar y plant tlotaf. Pam nad yw'r Blaid Lafur yn cytuno?

**The First Minister:** We are the only party that included a specific commitment in its manifesto to protect school spending as best as we could. We introduced a formula as one of our five pledges to make sure that school spending was protected—unlike the party opposite which wanted to cut education spending by at least 20 per cent.

**Y Prif Weinidog:** Ni yw'r unig blaid sy'n cynnwys ymrwymiad penodol yn ei maniffesto i warchod gwariant ar ysgolion cystal ag y gallem. Fe wnaethom gyflwyno fformiwla fel un o'n pump addewid i wneud yn siŵr bod gwariant ysgol yn cael ei ddiogelu—yn wahanol i'r blaid gyferbyn a oedd yn dymuno torri gwariant ar addysg gan o leiaf 20 y cant.

### Blaenoriaethau

### Priorities

***3. Llyr Huws Gruffydd**: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer*

***3. Llyr Huws Gruffydd:** What are the Welsh Government's priorities for the farming*

*y diwydiant ffermio. OAQ(4)0091(FM)*

*industry. OAQ(4)0091(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth Cymru.

**The First Minister:** The Welsh Government is committed to securing a sustainable future for Welsh agriculture.

**Llyr Huws Gruffydd:** Dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ei gyhoeddiad ar TB mewn gwartheg y dylai'r grŵp adolygu arfaethedig gael ei sefydlu cyn gynted â phosibl. Wythnosau yn ddiweddarach, nid oes gennym syniad beth fydd aelodaeth y grŵp hwnnw, beth fydd ei gylch gorchwyl na beth fydd ei amserlen. Yn y cyfamser, mae TB yn cael ei ganfod mewn mwy o ffermydd ar hyd a lled Cymru, gan arwain at gannoedd o wartheg yn cael eu difa. A ydych yn rhannu fy mhryder i, Brif Weinidog, nad yw'r broses hon yn digwydd yn ddigon cyflym ac a ydych yn meddwl bod yr oedi yn dderbyniol?

**Llyr Huws Gruffydd:** The Minister for Environment and Sustainable Development said in his announcement on bovine TB that the proposed review group should be established as soon as possible. Weeks have passed and we still have no idea about the membership of that group, what its remit will be or what the timetable will look like. In the meantime, TB is being found on more farms the length and breadth of Wales, which is leading to the destruction of hundreds of cattle. Do you share my concern, First Minister, that this process is not moving swiftly enough and do you think that the delay is acceptable?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn fater i'r prif ymgynghorydd gwyddonol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau bod y grŵp hwnnw yn gallu dechrau ar ei waith. Rhaid inni gofio y byddai wedi bod yn anodd dros ben i ddifa'r flwyddyn hon beth bynnag oherwydd problemau ymarferol, yn enwedig problemau cyhoeddus o ran difa yn ystod y tymor twristiaeth yn sir Benfro. Felly, man a man inni ddefnyddio'r amser hwn i sicrhau bod y gwyddonwyr yn edrych ar hyn unwaith eto er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth yn gadarn.

**The First Minister:** This is a matter for the chief scientific adviser. Work is being undertaken currently to ensure that that group can start its work. We must remember that it would have been very difficult to have a cull this year anyway due to practical difficulties, especially public problems in terms of culling during the tourism season in Pembrokeshire. Therefore, we might as well use this time to ensure that the scientists look at this again in order to ensure that the evidence base is firm.

**Antoinette Sandbach:** I find your previous answer regarding the tourist season somewhat surprising. I doubt that there are many tourists out at night. [*Laughter*.] That is, I doubt that they are out at night in the Pembrokeshire countryside near the badger setts.

**Antoinette Sandbach:** Mae'ch ateb blaenorol ynghylch y tymor twristiaid yn peri rhywfaint o syndod i mi. Yr wyf yn amau a oes llawer o dwristiaid allan yn ystod y nos. [*Chwerthin*.] Hynny yw, yr wyf yn amau eu bod allan yn y nos yng nghefn gwlad Sir Benfro ger y brochfeydd moch daear.

First Minister, one of the other concerns of farmers is the difficulty caused by the six-day whole-farm standstill for animal movement, which comes up time and time again. I appreciate that these restrictions were completely justified in the aftermath of the 2001 foot and mouth disease outbreak. However, they now appear disproportionate to the current risks to animal health. Can you confirm that your Government will say that it is prepared to look into the relaxation of the

Brif Weinidog, un o bryderon eraill ffermwyr yw'r anhawster a achosir gan y gwaharddiad fferm-gyfan, chwe niwrnod ar gyfer symud anifeiliaid, sy'n codi dro ar ôl tro. Yr wyf yn gwerthfawrogi bod cyfiawnhad llwyr dros y cyfyngiadau hyn yn sgil achosion clwy'r traed a'r genau yn 2001. Fodd bynnag, bellach, ymddangosant yn anghymesur i'r risgiau presennol i iechyd anifeiliaid. A allwch gadarnhau y bydd eich Llywodraeth yn dweud ei bod yn barod i edrych i mewn i

six-day rule, while maintaining robust disease surveillance, when it responds to the Macdonald report on farming red tape?

lacio'r rheol chwe niwrnod, tra'n cadw gwyliadwriaeth gadarn ar glefydau, pan fydd yn ymateb i adroddiad Macdonald ar dâp coch byd ffermio?

**The First Minister:** I am surprised to hear that there are no tourists in Pembrokeshire in August. I can inform the Member that there are plenty of tourists who are out at night in Pembrokeshire—they do not all go to bed at 7 p.m. There are many who enjoy the countryside in the day and want to enjoy the Pembrokeshire wildlife at night. There are many tourist organisations that are in the business of providing tours to see wildlife at night; it is naïve to say that tourists are not around after a particular time. With regard to the six-day standstill, you are right to say that it was introduced to deal with the issue of foot and mouth disease, but we will be guided by the advice of the chief veterinary officer in terms of what precautions should be in place to deal with the disease. We should bear in mind that nothing should be done to jeopardise the freedom of our farmers to export to the rest of the world.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn synnu i glywed nad oes unrhyw dwristiaid yn Sir Benfro ym mis Awst. Gallaf hysbysu'r Aelod bod digon o dwristiaid allan gyda'r nos yn Sir Benfro—nid ydynt i gyd yn mynd i'r gwely am 7 y nos. Mae sawl un yn mwynhau'r cefn gwlad yn y dydd ac am fwynhau bywyd gwyllt Sir Benfro yn ystod y nos. Ceir llawer o sefydliadau twristiaeth sydd yn y busnes o ddarparu teithiau i weld bywyd gwyllt yn y nos; mae'n naïf i ddweud nad yw twristiaid o gwmpas ar ôl amser penodol. O ran y gwaharddiad symud chwe niwrnod, yr ydych yn iawn i ddweud ei fod wedi'i gyflwyno i ymdrin â mater clwy'r traed a'r genau, ond cawn ein llywio gan gyngor y prif swyddog milfeddygol o ran pa ragofalon a ddylai fod ar waith i ymdrin â'r clefyd. Dylem gadw mewn cof na ddylid gwneud unrhyw beth i beryglu rhyddid ein ffermwyr i allforio i weddill y byd.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***4. Andrew R.T. Davies:*** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Canol De Cymru. OAQ(4)0095(FM)*

***4. Andrew R.T. Davies:*** *What are the Welsh Government's priorities for South Wales Central. OAQ(4)0095(FM)*

**The First Minister:** We will implement our manifesto for the benefit of all communities, including those of South Wales Central.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn gweithredu ein maniffesto er budd pob cymuned, gan gynnwys rhai Canol De Cymru.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, First Minister. One of the planks of business support that you alluded to earlier in response to the acting leader of the opposition was the economic renewal programme. Last week, in my region, Sogefi Filtration announced a three-month consultation into the viability of 190 jobs. As recently as June, the economic renewal programme identified that company as being of strategic importance. Does this show that there has been a lack of consultation on the economic renewal programme and therefore a lack of understanding as to what is happening in Welsh manufacturing?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Un o'r elfennau o gymorth busnes y cyfeiriasoch atynt yn gynharach mewn ymateb i arweinydd yr wrthblaid dros dro oedd rhaglen adnewyddu'r economi. Yr wythnos diwethaf, yn fy rhanbarth i, cyhoeddodd Sogefi Filtration ymgynghoriad tri mis i hyfywedd 190 o swyddi. Mor ddiweddar â mis Mehefin, nodwyd gan raglen adnewyddu'r economi bod y cwmni hwnnw o bwysigrwydd strategol. A ydyw hyn yn dangos y bu diffyg ymgynghori ar raglen adnewyddu'r economi ac felly diffyg dealltwriaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd yng ngweithgynhyrchu Cymreig?

**The First Minister:** The council for

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cyngor ar gyfer

economic renewal is supportive. I can tell you that because I met the council last week and it supports the approach that the Government is taking. It very much values the fact that it is involved in a full consultation. There will be occasions when some manufacturing plants experience difficulties, and we know what happened with Bosch, of course, some months ago. We also know that the Bosch site has now been purchased with a view to creating more jobs on that site. We have seen some good examples of job creation in Wales over the last month or two. I was pleased to be at British Airways Maintenance Cardiff last week, which is in Jane Hutt's constituency, where I was told that new apprentices had been trained and were all being taken on. That is a sign of the robust health of most of the Welsh economy.

adnewyddu'r economi yn gefnogol. Gallaf ddweud hynny wrthych oherwydd cyfarfûm â'r cyngor yr wythnos diwethaf ac y mae'n cefnogi dull gweithredu'r Llywodraeth. Y mae'n gwerthfawrogi'n fawr iawn y ffaith ei fod yn rhan o ymgynghoriad llawn. Bydd adegau pan fydd rhai gweithfeydd gweithgynhyrchu yn wynebu anawsterau, a gwyddom beth a ddigwyddodd gyda Bosch, wrth gwrs, rai misoedd yn ôl. Gwyddom hefyd bod safle Bosch bellach wedi ei brynu gyda golwg ar greu mwy o swyddi ar y safle hwnnw. Yr ydym wedi gweld rhai enghreifftiau da o ran creu swyddi yng Nghymru dros y mis neu ddau ddiwethaf. Yr oeddwn yn falch o ymweld â British Airways Maintenance Cardiff yr wythnos diwethaf, sydd yn etholaeth Jane Hutt, lle dywedwyd wrthyf fod prentisiaid newydd wedi cael eu hyfforddi ac yr oeddent i gyd yn cael eu penodi. Mae hynny'n arwydd o iechyd cadarn y rhan fwyaf o economi Cymru.

**Jenny Rathbone:** Residents of south Wales and elsewhere are extremely concerned about the collapse of Southern Cross. Is there anything that you can say to the residents of these homes and their relatives, given that the UK Government seems to be reluctant to give assurances that people will be able to remain in their homes?

**Jenny Rathbone:** Mae trigolion de Cymru a mannau eraill yn bryderus iawn am chwalfa Southern Cross. A oes unrhyw beth y gallwch ei ddweud wrth breswylwyr y cartrefi hyn a'u perthnasau, o gofio bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymddangos yn amharod i roi sicrwydd y bydd pobl yn gallu aros yn eu cartrefi?

**The First Minister:** We have raised concerns over Southern Cross and it is inevitable that residents, families and staff will be worried about their futures. We have looked to ensure continuity of care for residents, continuity of employment for staff, and that the company will address its financial difficulties. The company has promised that no homes will close during the transitional period, and the objective must now be to ensure that, while Southern Cross is restructured, there is no effect on residents and staff, and that there is a swift and seamless transition to new ownership that will secure the future of the homes.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi mynegi pryderon ynghylch Southern Cross ac y mae'n anochel y bydd trigolion, teuluoedd a staff yn pryderu am eu dyfodol. Rydym wedi edrych i sicrhau parhad gofal ar gyfer y preswylwyr, parhad cyflogaeth ar gyfer staff, ac y bydd y cwmni yn ymdrin â'i anawsterau ariannol. Mae'r cwmni wedi addo na fydd cartrefi yn cau yn ystod y cyfnod trosiannol, ac y mae'n rhaid yn awr anelu at sicrhau, tra bod Southern Cross yn ailstrwythuro, nad oes unrhyw effaith ar drigolion a staff, a bod newid cyflym a di-dor i berchenogaeth newydd a fydd yn sicrhau dyfodol y cartrefi.

**Leanne Wood:** First Minister, you just referred to the Bosch plant in Miskin, which recently had its last day of production. There were around 900 people employed there when the company announced 18 months ago that it was going to move production to Hungary, which was a hammer blow to the

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, rydych chi newydd gyfeirio at y safle Bosch ym Meisgyn sydd, yn ddiweddar, wedi cael ei diwrnod olaf o gynhyrchu. Roedd tua 900 o bobl yn gyflogedig yno pan gyhoeddodd y cwmni 18 mis yn ôl y bydd yn symud ei gynhyrchiant i Hwngari, a oedd yn ergyd

local area. There is a glimmer of light, thankfully, for former employees as a new firm, Renishaw, is planning to take over the site from October. I wonder if you can tell us what discussions you plan to have with that firm to encourage and promote the best use of that site, so that the most is made of that excellent location and the maximum number of people can be employed there.

drom i'r ardal leol. Mae llygedyn o oleuni, diolch byth, i gyn-weithwyr, oherwydd mae cwmni newydd, Renishaw, yn cynllunio cymryd y safle o fis Hydref. Tybed a allwch ddweud wrthym pa drafodaethau yr ydych yn bwriadu eu cael gyda'r cwmni hwnnw i annog a hyrwyddo'r defnydd gorau o'r safle hwnnw, fel y gellir gwneud y mwyaf o'r lleoliad gwych hwnnw ac fel y gellir cyflogi'r nifer uchaf o bobl yno.

**The First Minister:** It is a sign of the skills of the Bosch workforce that so many of them were snapped up by other companies. I know of a number who were taken by Ford in Bridgend and there were other factories that used their skills when they became available. I know that a number of people have found employment utilising the skills that they have. I am seeking an early meeting with Renishaw to explore the possibilities because, as you say, it is an excellent and well-connected site, and a prime site for employment.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n arwydd o sgiliau gweithlu Bosch bod cynifer ohonynt wedi'u bachu gan gwmnïau eraill. Gwn am nifer a gafodd eu cymryd gan Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac roedd ffatrïoedd eraill a ddefnyddiodd eu sgiliau wrth iddynt ddod ar gael. Gwn fod nifer o bobl wedi canfod cyflogaeth gan ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt. Yr wyf yn ceisio cael cyfarfod cynnar gyda Renishaw i archwilio posibiliadau oherwydd, fel y dywedwch, mae'n safle gwych sydd â chysylltiadau da, a safle bendigedig ar gyfer cyflogaeth.

**Eluned Parrott:** As you know, First Minister, South Wales Central contains some of the most economically active areas of Wales, but also some of the least active. There is huge variance in levels of deprivation across the region. It has been stated by the Wales Audit Office that the Assembly Government was unable to assess whether Communities First, your flagship programme, was meeting its objectives, and, according to the previous Public Accounts Committee, there is

**Eluned Parrott:** Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae Canol De Cymru yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf economaidd weithgar yng Nghymru, ond hefyd rhai o'r lleiaf gweithgar. Ceir amrywiadau mawr yn y lefelau o amddifadedd ar draws y rhanbarth. Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn gallu asesu a oedd Cymunedau yn Gyntaf, eich rhaglen flaenllaw, yn bodloni ei amcanion, ac, yn ôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol, mae

'little evidence about the extent to which the £214 million spent on the programme has, in of itself, delivered improvement to the livelihood and wellbeing of people in Communities First areas.'

'ychydig iawn o dystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y mae'r £214 miliwn a wariwyd ar y rhaglen, ynddo'i hun, wedi gwella bywyd a lles pobl yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.'

The Joseph Rowntree Foundation also stated that there are

Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree hefyd y ceir

'questions over whether Communities First as an isolated programme can be expected to deliver the wider outcomes needed to improve the conditions of people living in the most deprived neighbourhoods in Wales.'

cwestiynau ynghylch a ellir disgwyl Cymunedau yn Gyntaf fel rhaglen wedi'i hynysu i gyflawni'r canlyniadau ehangach y mae eu hangen i wella amodau pobl sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Given this chorus of disapproval, what

Gan ystyried bod llawer o

assessment have you made of the likely impact of your new Communities First reforms and what systems have you put in place to monitor their progress?

anghymeradwyaeth, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o effaith debygol eich diwygiadau newydd i Gymunedau yn Gyntaf a pha systemau sydd gennych ar waith i fonitro eu cynnydd?

**The First Minister:** I now understand that it is Lib Dem policy to criticise Communities First. I was not previously aware of that. However, we will not be ending Communities First. We will be seeking to improve the Communities First programme as it moves forward into the future. I have visited many successful Communities First partnerships, and I advise any Member to go to their local Communities First partnership, as I have done in my own patch—Brackla Meadows, Marlas in Cornelly and Wildmill in the centre of Bridgend—as well as others across Wales, such as in Wrexham, to see what work has been done. I have seen the real difference that Communities First makes to so many communities and the people who live in them. There have been occasions when some partnerships were not as well-managed as they might have been, but that is not a reason to condemn an entire programme that has given so much hope to so many people.

**Y Prif Weinidog:** Erbyn hyn, yr wyf yn deall mai polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol yw beirniadu Cymunedau yn Gyntaf. Nid oeddwn yn ymwybodol o hynny o'r blaen. Fodd bynnag, ni fyddwn yn dod â Chymunedau yn Gyntaf i ben. Byddwn yn ceisio gwella'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wrth symud ymlaen i'r dyfodol. Yr wyf wedi ymweld â llawer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf llwyddiannus, ac rwyf yn cynghori unrhyw Aelod i ymweld â'i bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf lleol, fel y gwneuthum yn fy ardal fy hun—Bracla, Marlas yng Nghorneli a'r Felin Wyllt yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr—yn ogystal ag eraill ledled Cymru, megis yn Wrecsam, i weld pa waith sydd wedi'i wneud. Yr wyf wedi gweld y gwahaniaeth gwirioneddol y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud i gynifer o gymunedau a'r bobl sy'n byw ynddynt. Bu achlysuron pan nad oedd rhai partneriaethau wedi'u rheoli gystal ag y gallent fod wedi cael eu rheoli, ond nid yw hynny'n rheswm i gondemnio rhaglen gyfan sydd wedi rhoi cymaint o obaith i gynifer o bobl.

### Datganoli Pwerau'r Llys Apêl

### Decentralising the Powers of the Court of Appeal

***5. William Powell:*** *Pa drafodaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i chael ar ddatganoli pwerau'r Llys Apêl i Gymru. OAQ(4)0101(FM)*

***5. William Powell:*** *What discussions has the First Minister had on decentralising the powers of the Court of Appeal to Wales. OAQ(4)0101(FM)*

**The First Minister:** I do not know what you mean by 'decentralising the powers of the Court of Appeal'. If you are suggesting that the Court of Appeal should sit in Wales when dealing with Welsh appeal cases, then I would agree with you on that. In fact, that is what the Court of Appeal has been doing over the past few years. However, if you are suggesting that there should be a separate Court of Appeal for Wales, then that question would be bound up in any future discussions about the creation of a legal jurisdiction.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn gwybod beth ydych yn ei olygu wrth 'ddatganoli pwerau'r Llys Apêl'. Os ydych yn awgrymu y dylai'r Llys Apêl eistedd yng Nghymru wrth ymdrin ag achosion apêl Cymreig, yna byddwn yn cytuno â chi ar hynny. Mewn gwirionedd, dyna'r hyn y mae'r Llys Apêl wedi bod yn ei wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, os ydych yn awgrymu y dylid cael Llys Apêl ar wahân ar gyfer Cymru, byddai'r cwestiwn hwnnw wedi'i rwymo i unrhyw drafodaethau yn y dyfodol ynghylch creu awdurdodaeth gyfreithiol.

**William Powell:** I thank the First Minister for that answer. It was, in fact, the former of his two interpretations that I meant in my question. I was particularly picking up on the comments made by the Honourable Mr Justice Roderick Evans, in his lecture last year at Swansea University, when he advocated this route. I ask the First Minister to use his influence to accelerate and facilitate the development of this work because of the benefits that would accrue with regard to access to justice for people across Wales in the language of their choice and, in addition, with regard to the regeneration potential and the career opportunities that would arise for the profession and associated professions across Wales, particularly in Cardiff and Caernarfon.

**William Powell:** Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. A dweud y gwir, y cyntaf o'i ddau ddehongliad a oedd gennyf mewn golwg yn fy nghwestiwn. Yr oeddwn yn cyfeirio yn enwedig at y sylwadau a wnaed gan yr Anrhydeddus Mr Ustus Roderick Evans, yn ei ddarlith y llynedd ym Mhrifysgol Abertawe, pan siaradodd o blaid y llwybr hwn. Gofynnaf i'r Prif Weinidog i ddefnyddio ei ddylanwad i gyflymu'r broses i hwyluso datblygiad y gwaith hwn oherwydd y manteision a fyddai'n deillio o ran mynediad i gyfiawnder i bobl ledled Cymru yn yr iaith o'u dewis ac, yn ogystal, o ran adfywio posibl a'r cyfleoedd gyrfa a fyddai'n codi ar gyfer y proffesiwn a phroffesiynau cysylltiedig ledled Cymru, yn enwedig yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

**The First Minister:** The professions have a chequered history when it comes to taking advantage of the courts that sit in Cardiff. The Mercantile Court, for example, has sat for many years in Cardiff, but is serviced almost entirely from Bristol, and the Administrative Court now has a full-time office in Cardiff, but, again, is frequently serviced by professionals from outside Wales. That has to change and I have made the point many times to the legal professions in Wales that they need to ensure that they have sufficient expertise to represent people in the courts that now have offices in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae gan y proffesiynau hanes brith o ran cymryd mantais o'r llysoedd sy'n eistedd yng Nghaerdydd. Mae'r Llys Mercantilaidd, er enghraifft, wedi eistedd am nifer o flynyddoedd yng Nghaerdydd, ond mae'n cael ei wasanaethu bron yn gyfan gwbl o Fryste, ac y mae gan y Llys Gweinyddol bellach swyddfa lawn-amser yng Nghaerdydd, ond, unwaith eto, y mae, yn aml, yn cael ei wasanaethu gan weithwyr proffesiynol y tu allan i Gymru. Mae'n rhaid i hynny newid, ac yr wyf wedi gwneud y pwynt droeon i'r proffesiynau cyfreithiol yng Nghymru bod angen iddynt sicrhau bod ganddynt ddigon o arbenigedd i gynrychioli pobl yn y llysoedd sydd bellach â swyddfeydd yng Nghymru.

With regard to the Court of Appeal, it is absolutely right that the court sits in Wales as often as possible and when dealing with Welsh cases. In fairness, that has developed over the past few years, whereas, not so long ago, the Court of Appeal almost never sat outside London. Given the fact that it remains an England and Wales jurisdiction, it is right that the Court of Appeal should sit in Wales when dealing with Welsh cases.

O ran y Llys Apêl, mae'n gwbl gywir bod y llys yn eistedd yng Nghymru mor aml â phosibl ac wrth ymdrin ag achosion yng Nghymru. Er tegwch, mae hynny wedi datblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, tra, ddim mor bell â hynny yn ôl, nid oedd y Llys Apêl bron byth yn eistedd y tu allan i Lundain. O gofio'r ffaith ei fod yn parhau i fod yn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, mae'n iawn y dylai'r Llys Apêl eistedd yng Nghymru wrth ymdrin ag achosion yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** May I ask you more generally about the issue of a legal jurisdiction for Wales? You may be aware that the previous

**Nick Ramsay:** A allaf ofyn ichi yn fwy cyffredinol am y mater o awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru? Efallai y byddwch yn

Lord Chancellor, Jack Straw, said that

ymwybodol bod yr Arglwydd Ganghellor blaenorol, Jack Straw, wedi dweud bod

‘there are overwhelming arguments against a move towards separate jurisdictions. No one should underestimate the enormous practical implications.’

dadleuon llethol yn erbyn symud tuag at awdurdodaethau ar wahân. Ni ddylai unrhyw un danbrisio’r goblygiadau ymarferol anferth.

2.00 p.m.

First Minister, is it not the case that, unlike Scotland, Wales has no legal jurisdiction of its own, and that it operates as a distinct but not separate part of English law? Would you agree that, while there is a case for distinctness—my party put forward in our manifesto a case for a White Paper on how we can make the Welsh jurisdiction more distinct—we should recognise that Wales and Scotland are quite different, and should not seek a separate legal jurisdiction here?

Brif Weinidog, onid yw’n wir i ddweud, yn wahanol i’r Alban, nad oes gan Gymru awdurdodaeth gyfreithiol ei hun, a’i bod yn gweithredu fel rhan wahanol ond nid ar wahân o gyfraith Lloegr? A fyddech yn cytuno, er bod achos dros wahaniaeth—cyflwynodd fy mhlaid yn ein maniffesto achos dros gael Papur Gwyn ar sut y gallwn wneud yr awdurdodaeth Gymreig yn fwy gwahanol—y dylem gydnabod bod Cymru a’r Alban yn hollol wahanol, ac na ddylem geisio awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yma?

**The First Minister:** Northern Ireland has an identical legal system, but it is a separate jurisdiction. It is possible for members of the profession here to practice there relatively freely, and vice versa. That would need to remain the case whatever happened in the future. This is the only part of the world where there is a legal jurisdiction in which there are two primary Parliaments or law-making bodies, and that is unsustainable in the long run. If there is a primary-law-making body, it makes sense to have a court system that regulates and enforces the laws that are passed by it. It cannot be right, as is the case now, for two people to come to court in Norwich, for example, in a case that is dealt with under Welsh law. Clearly, thought will need to be given to what any potential jurisdiction or quasi-jurisdiction might look like, while bearing in mind that the last thing that we should do is create a system of law in Wales that is so different and so separate that it is not possible for practitioners in England and Northern Ireland to practise here. That would not be the right way forward. However, there are serious issues that need to be addressed now given the fact that the Assembly has primary-law-making powers.

**Y Prif Weinidog:** Mae gan Ogledd Iwerddon system gyfreithiol sy’n union yr un fath, ond mae’n awdurdodaeth ar wahân. Mae’n bosibl i aelodau’r proffesiwn yma i ymarfer yno yn gymharol rydd, ac i’r gwrthwyneb. Byddai angen i hynny barhau beth bynnag a ddigwyddai yn y dyfodol. Dyma’r unig ran o’r byd lle mae awdurdodaeth gyfreithiol lle mae yna ddwy Senedd neu gyrff deddfu cynradd, ac mae hynny’n anghynaladwy yn yr hirdymor. Os oes corff deddfu sylfaenol, mae’n synhwyrol i gael system llysoedd sy’n rheoleiddio ac yn gorfodi’r deddfau sy’n cael eu pasio ganddo. Ni all fod yn iawn, fel sy’n wir yn awr, bod dau o bobl yn dod i’r llys yn Norwich, er enghraifft, mewn achos sy’n cael ei drin o dan gyfraith Cymru. Wrth gwrs, bydd angen rhoi ystyriaeth i natur unrhyw awdurdodaeth neu led-awdurdodaeth posibl, wrth gofio mai’r peth olaf y dylem ei wneud yw creu system gyfreithiol yng Nghymru sydd mor wahanol ac felly mor ar wahân fel nad oes modd i ymarferwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ymarfer yma. Nid honno fyddai’r ffordd iawn ymlaen. Fodd bynnag, mae materion difrifol y mae angen mynd i’r afael â hwy yn awr o ystyried y ffaith bod gan y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol.

**Simon Thomas:** Mae eich diddordeb yn y pwnc yn argoeli’n dda ar gyfer fy nadl fer ar

**Simon Thomas:** Your interest in this subject bodes well for my short debate at the end of

ddiwedd y Cyfarfod Llawn—estynnaf groeso i bawb iddi. Mae'r Prif Weinidog wedi sôn am y ddwy agwedd ar ddatganoli yn y maes hwn: y swyddogaethau, a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Gwnaeth y Prif Weinidog lawer o waith yn y Llywodraeth flaenorol ar ddatganoli gweinyddu cyfiawnder, yn enwedig ym maes plant a phobl ifanc. A yw'n fwriad gan y Prif Weinidog i fwrw ymlaen â datganoli'r system gyfiawnder, yn enwedig ym maes plant a phobl ifanc?

this Plenary session—everyone is welcome. The First Minister has mentioned the two aspects of devolution in this area: functions and the administration of justice in Wales. The First Minister did a great deal of work in the previous Government on the devolution of the administration of justice, especially in the area of children and young people. Is it the First Minister's intention to take that forward and to see the devolution of the justice system, particularly for children and young people?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n rhan o'r ddadl ynglŷn â'r system gyfreithiol yng Nghymru. Mae sawl rhan i'r ddadl honno; un rhan yw'r cwestiwn a ddylai Cymru fod yn wahanol yn gyfreithiol. Nid dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Pe bai hynny'n digwydd, byddai'n rhaid cael system wahanol o weinyddu'r llysoedd yng Nghymru. Mae'r ddau beth yn cydredeg, yn fy marn i, a rhaid cael dadl ar y ddau beth ar yr un pryd.

**The First Minister:** That is part of the debate on the legal system in Wales. There are a number of elements to that debate; one of which is the question of whether Wales should be a distinct legal jurisdiction. That is not the situation at the moment. If that were to happen, we would need to have a different administration system for Welsh courts. Both issues run parallel to each other, in my opinion, and we must debate both together.

### Iechyd y Cyhoedd

### Public Health

***6. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu eu blaenoriaethu i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru. OAQ(4)0097(FM)*

***6. Julie Morgan:*** *What Welsh Government initiatives does the First Minister plan to prioritise to improve the public health of the people of Wales. OAQ(4)0097(FM)*

**The First Minister:** Our priorities are set out in our manifesto. We continue to tackle the public health priorities, such as smoking and obesity, which are important, and we are addressing health inequalities through our strategic action plan to reduce inequities in health.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau wedi'u nodi yn ein maniffesto. Yr ydym yn parhau i fynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus, megis ysmygu a gordewdra, sy'n bwysig, ac yr ydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy ein cynllun gweithredu strategol i leihau anghydraddoldebau iechyd.

**Julie Morgan:** I thank the First Minister for that reply. Could the First Minister outline the timetable for regulating the display of tobacco behind shop counters? I visited Ireland with the charity Action on Smoking and Health about 18 months ago, where a ban on tobacco displays behind the counter had been introduced; it had gone well and there were no problems. We all know how important that is in preventing young people from starting to smoke.

**Julie Morgan:** Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. A allai'r Prif Weinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer rheoleiddio arddangos tybaco y tu ôl i gownteri siop? Ymwelais ag Iwerddon gyda'r elusen Action on Smoking and Health tua 18 mis yn ôl, lle mae gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco y tu ôl i'r cownter wedi cael ei gyflwyno; yr oedd wedi mynd yn dda ac nid oedd unrhyw broblemau. Yr ydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw hynny o ran atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu.

**The First Minister:** We remain committed to introducing regulations in Wales to ban the

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflwyno rheoliadau yng

display of tobacco products at the point of sale. There are ongoing legal challenges to the equivalent regulations in England, which inevitably have an impact on the timing of the Welsh regulations. We are following the legal challenges carefully, with a view to making the regulations as soon as possible, once the legal position is clear.

Nghymru i wahardd arddangos cynnyrch tybaco yn y man gwerthu. Mae heriau cyfreithiol parhaus i'r rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, sydd yn anochel yn effeithio ar amseru'r rheoliadau Cymreig. Yr ydym yn dilyn yr heriau cyfreithiol yn ofalus, gyda'r bwriad o wneud y rheoliadau cyn gynted ag y bo modd, unwaith y bydd y sefyllfa gyfreithiol yn glir.

**Mohammad Asghar:** First Minister, obesity remains one of the biggest public health concerns in Wales. Figures from earlier this year suggest that Blaenau Gwent, in my region, is the second-hardest-hit area for obesity in Great Britain. Encouraging an active lifestyle is key in tackling the problem. I know that the Welsh Government's walking and cycling action plan aims to secure a walking and cycling culture in Wales, which is essential. Sadly, some of the results of the initiative have been disappointing. During the last Assembly, Jane Davidson admitted that the lack of improvement in getting more adults to walk or cycle to work vexed her hugely. How will the Welsh Government tackle this issue during the fourth Assembly, given the impact that making progress in developing a walking and cycling culture can have on improving public health? While I am aware that the next monitoring report of this initiative is due shortly, what discussions will you have with the responsible Minister to ensure that the implementation of this initiative has greater success in Wales?

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, mae gordewdra yn parhau i fod yn un o'r pryderon iechyd cyhoeddus mwyaf yng Nghymru. Mae ffigurau a gawsom yn gynharach eleni yn awgrymu mai Blaenau Gwent, yn fy rhanbarth i, yw'r ardal sy'n dioddef ail fwyaf o ordewdra ym Mhrydain Fawr. Mae annog ffordd o fyw egnïol yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Gwn fod cynllun gweithredu cerdded a beicio Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau diwylliant o gerdded a beicio yng Nghymru, sy'n hanfodol. Yn anffodus, mae rhai o ganlyniadau'r fenter wedi bod yn siomedig. Yn ystod y Cynulliad diwethaf, cyfaddefodd Jane Davidson fod y diffyg gwelliant mewn cael mwy o oedolion i gerdded neu feicio i'r gwaith yn codi ei gwrychyn. Sut bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y pedwerydd Cynulliad, o ystyried yr effaith y gallai gwneud cynnydd o ran datblygu diwylliant cerdded a seiclo ei gael ar wella iechyd y cyhoedd? Er fy mod yn ymwybodol bod adroddiad monitro nesaf y fenter hon i fod i gyrraedd yn fuan, pa drafodaethau a fyddwch yn eu cael gyda'r Gweinidog sy'n gyfrifol i sicrhau mwy o lwyddiant i weithredu'r fenter hon yng Nghymru?

**The First Minister:** If people travel to work by walking or cycling, it is important that they find the experience pleasant and safe. That is not necessarily the case in all parts of Wales. I would advise you to listen carefully to the statement that I am to make in the Chamber later today, as it contains matters that may be of interest to you with regard to this issue.

**Y Prif Weinidog:** Os yw pobl yn teithio i'r gwaith drwy gerdded neu feicio, mae'n bwysig ei fod yn brofiad dymunol a diogel. Nid yw hynny'n wir o reidrwydd ym mhob rhan o Gymru. Byddwn yn eich cynghori i wrando'n astud ar y datganiad y byddaf yn ei wneud yn y Siambr yn ddiweddarach heddiw, gan ei fod yn cynnwys materion a allai fod o ddiddordeb i chi mewn perthynas â'r mater hwn.

**Christine Chapman:** In March, I mentioned in a debate the number of young people, some as young as 11 years of age, who consume alcohol. Some 7 per cent of boys

**Christine Chapman:** Ym mis Mawrth, soniais mewn dadl am nifer y bobl ifanc, rhai mor ifanc ag 11 oed, sy'n yfed alcohol. Dywedodd rhyw 7 y cant o fechgyn a 4 y

and 4 per cent of girls in Wales said that they drink at least once a week. Recently, Alcohol Concern announced that a survey had found that there has been another rise in the number of young teenagers who have never had a drink. This news is encouraging, and I am pleased that the Welsh Government has included tackling alcohol as one of the five priorities for public health. In an attempt to discourage future alcohol abuse, what is the Government's clear message with regard to alcohol and young people? Is the message one of zero tolerance towards alcohol use by young people, or is it about taking a much more continental approach, in which a moderate intake of alcohol is ingrained in society from an early age? Has the Welsh Government plans to do more to publicise the dangers of alcohol abuse among young people?

cant o ferched yng Nghymru eu bod yn yfed o leiaf unwaith yr wythnos. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Alcohol Concern bod arolwg wedi canfod y bu cynnydd arall yn nifer y bobl yn eu harddegau ifanc nad ydynt erioed wedi cael diod. Mae'r newyddion hyn yn galonogol, ac yr wyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys mynd i'r afael ag alcohol yn un o'r pum blaenoriaeth ar gyfer iechyd cyhoeddus. Mewn ymgais i atal cam-drin alcohol yn y dyfodol, beth yw neges glir y Llywodraeth o ran alcohol a phobl ifanc? A ydyw'r neges yn un o ddiffyg goddefgarwch tuag at y defnydd o alcohol gan bobl ifanc, neu a ydyw'n ymwneud â bod yn llawer mwy cyfandirol, lle mae yfed alcohol yn gymedrol yn rhan annatod o'r gymdeithas o oed cynnar? A ydyw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i beryglon camddefnyddio alcohol ymysg pobl ifanc?

**The First Minister:** The evidence is clear from the Chief Medical Officer for Wales, namely that children under the age of 15 should not drink alcohol. I think that it is important, however, that parents talk to their children to demystify alcohol. We know that, for teenagers, something that has an air of mystery can often become attractive. Certainly, with regard to substance misuse, our strategy includes a public awareness campaign based on guidance from the CMO to help parents to talk to their children about the risks associated with alcohol. Also, the all-Wales school liaison programme to tackle anti-social behaviour, substance misuse and issues of personal safety is being delivered in 98 per cent of schools.

**Y Prif Weinidog:** Mae tystiolaeth Prif Swyddog Meddygol Cymru yn glir, sef na ddylai plant dan 15 oed yfed alcohol. Credaf ei bod yn bwysig, fodd bynnag, bod rhieni yn siarad â'u plant er mwyn chwalu hud alcohol. Gwyddom y gall rhywbeth sydd â sawr dirgelwch yn aml ddod yn ddeniadol i bobl yn eu harddegau. Yn sicr, o ran camddefnyddio sylweddau, mae ein strategaeth yn cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yn seiliedig ar arweiniad gan y prif swyddog meddygol i helpu rhieni i siarad â'u plant am y peryglon sy'n gysylltiedig ag alcohol. Hefyd, mae'r rhaglen gyswllt ysgolion Cymru gyfan i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a materion yn ymwneud â diogelwch personol yn cael ei chyflwyno yn 98 y cant o ysgolion.

**Kenneth Skates:** First Minister, the mental health charity Mind Cymru recently found that, across England and Wales, seven of the top 10 areas for the prescription of anti-depressants are here in Wales. We know that talking treatments are effective means of helping people to overcome emotional difficulties and that, crucially, combination therapies, in which drugs are prescribed alongside talking therapies, have proven to be exceptionally good. What work is the Welsh Government doing to tackle waiting lists for talking therapies and to improve access to

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, darganfu'r elusen iechyd meddwl Mind Cymru yn ddiweddar fod, ledled Cymru a Lloegr, saith o'r 10 ardal uchaf ar gyfer gwneud presgripsiynau ar gyfer gwrthiselyddion yma yng Nghymru. Gwyddom fod triniaethau siarad yn ffordd effeithiol o helpu pobl i oresgyn anawsterau emosiynol a bod, yn hollbwysig, therapïau cyfunol, lle gwneir presgripsiynau ar gyfer cyffuriau ochr yn ochr â therapïau siarad, wedi profi i weithio yn eithriadol o dda. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r

such treatments?

afael â rhestrau aros ar gyfer therapïau siarad ac i wella mynediad at driniaethau o'r fath?

**The First Minister:** One of our manifesto commitments was to undertake a review of access to a range of talking treatments in Wales. Work has been ongoing with a group of representatives from the health boards to seek to improve access to psychological services. This work will assist in taking forward those manifesto commitments.

**Y Prif Weinidog:** Un o ymrwymiadau ein maniffesto oedd cynnal adolygiad o fynediad i ystod o driniaethau siarad yng Nghymru. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda grŵp o gynrychiolwyr o'r byrddau iechyd i geisio gwella mynediad i wasanaethau seicolegol. Bydd y gwaith hwn yn cynorthwyo'r bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau maniffesto hynny.

**Tlodi Tanwydd**

**Fuel Poverty**

***7. Vaughan Gething:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. OAQ(4)0089(FM)*

***7. Vaughan Gething:*** *What is the Welsh Government doing to tackle fuel poverty in Wales. OAQ(4)0089(FM)*

**The First Minister:** Our proposals for tackling fuel poverty were set out in our fuel poverty strategy, which was published last year. Nest, our new fuel poverty programme, is a key action in the strategy. It started on 1 April and targets support for fuel-poor households.

**Y Prif Weinidog:** Gosodwyd ein cynigion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn ein strategaeth tlodi tanwydd, a gyhoeddwyd y llynedd. Mae ein rhaglen newydd ar dlodi tanwydd, Nyth, yn gam gweithredu allweddol yn y strategaeth. Dechreuodd ar 1 Ebrill ac mae'n targedu cymorth i aelwydydd tlawd o ran tanwydd.

**Vaughan Gething:** Everyone will by now be aware of the impact of the winter fuel allowance cut on pensioner households, but there is also the very recent announcement by energy companies that they will hike up fuel prices this year. This could see households pay up to an extra £190 a year. We know that improving energy efficiency is something that the Assembly could help to do something about, thereby helping those in fuel poverty. New homes are already more energy efficient, and they may be more so after building regulations are devolved to the Assembly. The biggest challenge is obviously in the older housing stock, which makes up much of my constituency. What steps will the Welsh Government take to ensure that as many households as possible access the funding support available to help homes to improve energy efficiency?

**Vaughan Gething:** Bydd pawb erbyn hyn yn ymwybodol o effaith torri'r lwfans tanwydd gaeaf ar aelwydydd pensiynwyr, ond cafwyd hefyd y cyhoeddiad diweddar iawn gan gwmnïau ynni y byddant yn codi prisiau tanwydd eleni. Gallai hyn beri bod aelwydydd yn talu hyd at £190 ychwanegol y flwyddyn. Gwyddom y gallai'r Cynulliad helpu i wneud rhywbeth ynghylch gwella effeithlonrwydd, a thrwy hynny helpu'r rheiny sydd mewn tlodi tanwydd. Mae cartrefi newydd eisoes yn fwy effeithlon o ran ynni, ac efallai y byddant yn effeithlonach ar ôl i reoliadau adeiladu gael eu datganoli i'r Cynulliad. Daw'r her fwyaf yn amlwg yn y stoc tai hŷn, sy'n gyffredin yn llawer o'm hetholaeth. Pa gamau a fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan gymaint o deuluoedd â phosibl fynediad at y gefnogaeth ariannol sydd ar gael i helpu gwella effeithlonrwydd ynni cartref?

**The First Minister:** The scheme includes a number of actions to assist people, such as advice and support for householders to

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i helpu pobl, megis cyngor a chefnogaeth i ddeiliaid tai i leihau

reduce fuel bills and to improve the energy efficiency of their homes and maximise their incomes, but it also contains help for householders who are in receipt of a means-tested benefit and live in an energy efficient home. There are also grants towards the cost of loft or cavity-wall insulation for some vulnerable householders. A number of actions are included in the Nest scheme to target those people who are most in need when it comes to fuel poverty.

biliau tanwydd ac i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi a gwneud y mwyaf o'u hincwm, ond mae hefyd yn cynnwys cymorth ar gyfer deiliaid tai sydd yn derbyn budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd ac yn byw mewn cartref sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae hefyd grantiau tuag at gost inswleiddio atig neu waliau ceudod ar gyfer rhai deiliaid tai sy'n agored i niwed. Mae nifer o gamau gweithredu yn cael eu cynnwys yng nghynllun Nyth i dargedu'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf o ran tlodi tanwydd.

**Mark Isherwood:** Nest's predecessor, the home energy efficiency scheme, provided a partial grant of £500, which could be used for heating or insulation, to any person aged over 60. It could be combined with any other offer, including that from CERT, the carbon energy reduction target programme funded by utility companies. However, I am advised that, if people now ring up Nest, they are told that they cannot combine the funding available with CERT, with the consequence that they can no longer fully fund insulation for their homes. If they go for the Nest funding, I am told that they get something like £125 to £150. If they go for CERT, they get between £300 and £500, which in effect means that they do not go for Nest. Can you clarify whether this is correct and, if so, why? Will you look further at this apparent anomaly?

**Mark Isherwood:** Darparai rhagflaenydd Nyth, y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, grant rhannol o £500 y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwresogi neu inswleiddio i unrhyw berson dros 60 oed. Gellid ei gyfuno ag unrhyw gynnig arall, gan gynnwys y rhaglen targed lleihau ynni carbon a ariennir gan gwmnïau cyfleustodau. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael fy nghynghori, os bydd pobl yn awr yn ffonio Nyth, y dywedir wrthynt nad oes modd iddynt gyfuno'r arian sydd ar gael gyda rhaglen CERT. Fel canlyniad, nid ydynt bellach yn gallu ariannu inswleiddio eu cartrefi yn llawn. Os ydynt yn dewis cyllid Nyth, dywedir wrthyf eu bod yn cael rhywbeth fel £125 i £150. Os ydynt yn dewis CERT, maent yn cael rhwng £300 a £500, sydd i bob pwrpas yn golygu nad ydynt yn dewis Nyth. A allwch egluro a ydyw hyn yn gywir ac, os felly, pam? A wnewch chi edrych ymhellach ar yr anghysonder ymddangosiadol hwn?

**The First Minister:** I will write to you with an answer to that question. It is a specific question that needs a detailed answer.

**Y Prif Weinidog:** Ysgrifennaf atoch gydag ateb i'r cwestiwn hwnnw. Mae'n gwestiwn penodol sydd angen ateb manwl.

**Keith Davies:** Yn ôl ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru, mae dros 300,000 o deuluoedd mewn tlodi tanwydd. Ffigurau ar gyfer 2008 oedd y rhai hynny. Mae Llais Defnyddwyr Cymru wedi awgrymu y bydd 90,000 yn fwy o deuluoedd yn syrthio i dlodi tanwydd y gaeaf hwn oherwydd prisiau tanwydd uwch. Mae penderfyniad Nwy Prydain yr wythnos diwethaf i gynyddu prisiau yn tanlinellu tueddiad peryglus gan y chwe chwmni ynni mawr. O ystyried y cynnydd yn y pwysau ar gyllid i lawer o gartrefi yn fy etholaeth i, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod system bresennol

**Keith Davies:** According to the most recent figures from the Welsh Government, more than 300,000 families are in fuel poverty. Those are the figures for 2008. Consumer Focus Wales has suggested that 90,000 more households will fall into fuel poverty this winter because of higher fuel prices. The British Gas decision to increase its prices last week highlights a very concerning trend from the six major fuel companies. Does the First Minister agree that the current system of tariff prices is confusing for consumers, particularly those at risk of fuel poverty? Can the First Minister assure us that the Welsh

prisiau tariff yn drysu cwsmeriaid, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o dlodi tanwydd? A all y Prif Weinidog ein sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i lobïo Ofgem i sicrhau fargen orau i ddefnyddwyr?

Government will continue to lobby Ofgem to get the best deal for consumers?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r system brisio bresennol yn rhy gymhleth o bell ffordd. Yr wythnos diwethaf, cafodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy gyfarfod gydag Ofgem, a thrafodwyd prisiau tariff yn y cyfarfod hwnnw. Mae Ofgem yn cytuno bod y system yn rhy gymhleth, ac mae'n gwthio'r cwmnïau ynni i ddelio â'r mater.

**The First Minister:** The current pricing system is far too complex. Last week, the Minister for Environment and Sustainable Development met Ofgem, and the issue of tariffs was debated at that meeting. Ofgem agrees that the tariffs are too complex and it is now putting pressure on the energy companies to deal with this issue.

**Simon Thomas:** Mae llawer o gartrefi yng nghefn gwlad yn dibynnu ar danwydd sy'n cael ei gludo ar danceri—olew neu nwy—ac nid oes ganddynt fynediad at danwydd ar y rhwydwaith. Mae nifer o'r cartrefi hynny yn gartrefi i bensiynwyr. Maent yn wynebu dwy ergyd y gaeaf hwn—colli lwfans oherwydd penderfyniad y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan ynghyd â'r prisiau amrywiol ac uchel ar y farchnad rydd am danwydd sy'n cael ei gludo ar danceri. Pa gamau sy'n rhan o'r strategaeth a beth mae'r Prif Weinidog yn mynd i'w wneud fel arweinydd y Llywodraeth i sicrhau bod cymorth ar gael i bobl yng nghefn gwlad nad ydynt yn defnyddio'r dulliau traddodiadol o wresogi eu cartrefi, ond sy'n defnyddio olew a nwy a thanwydd sy'n cael ei gludo ar danceri?

**Simon Thomas:** Many homes in rural Wales are dependent on fuel—gas or oil—that is brought in by tankers, and do not have access to network energy. Many of those homes are pensioners' homes. They are now facing two blows this winter—losing their allowance because of the decision taken by the Liberal Democrats and the Conservatives in Westminster and the high and varied costs on the free market for tanker-borne fuel. What steps does the strategy contain and what is he going to do as the leader of this Government to ensure that assistance is available to people in rural areas who do not use the traditional means of heating their homes, but use oil, gas and fuels that are brought in by tanker?

**Y Prif Weinidog:** Ar hyn o bryd, mae prisiau olew yn cwympo, ond mae'n rhaid cofio eu bod yn rhy uchel. Mae'n bwysig sylweddoli bod hwn yn fater mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol amdano. Y Llywodraeth honno benderfynodd dorri'r budd-dal hwn. Mae dyletswydd ar y Llywodraeth i sicrhau nad yw pobl ar eu colled oherwydd y penderfyniadau y maent yn eu gwneud.

**The First Minister:** At present, oil prices are falling, but we must remember that they are much too expensive. It is important to bear in mind that this comes under the jurisdiction of the UK Government. It was that Government that decided to cut the benefit. The Government is duty-bound to ensure that people in rural areas do not lose out because of the decisions that it has taken.

## Polisïau

## Policies

***8. Angela Burns:*** *Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'i pholisïau yn agored ac yn dryloyw i bobl Cymru. OAQ(4)0092(FM)*

***8. Angela Burns:*** *What steps is the First Minister taking to ensure the Welsh Government and its policies are open and transparent to the people of Wales. OAQ(4)0092(FM).*

**The First Minister:** We have for many years been committed to maximising openness and accountability through commitments made in our code of practice on access to information to proactively publish information such as Cabinet papers. Most recently, I announced a decision to publish details of payments made by the Welsh Government over £25,000.

**Y Prif Weinidog:** Ers blynyddoedd lawer, yr ydym wedi ymrwymo i gynyddu bod yn agored ac yn atebol i'r graddau uchaf posibl drwy ymrwymiadau a wnaed yn ein cod ymarfer ar fynediad at wybodaeth i gyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol megis papurau Cabinet. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddais benderfyniad i gyhoeddi manylion y taliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru dros £25,000.

**Angela Burns:** Thank you for that answer, First Minister. I listened very carefully to what you said to Ieuan Wyn Jones about the issue of modelling for fees of £9,000. In fact, he was not entirely correct because I have that information. However, with regard to the assumptions, they are not so well published. The Government says that disclosure of this information is considered to be likely to cause substantial harm to the formulation of Assembly Government policy, but it does not go on to say why. So, it is very hard for us to look at the assumptions to establish whether that £9,000 stacks up. Likewise, with regard to the TB debacle that has been going on—90 days or so before the last vote, it was absolutely fine, there has been no new evidence, but now it is not okay; neither decision was entirely transparent. So, I wonder, First Minister, how you will ensure that all portfolio holders practice transparency in their decision making so that we are able to carry out right and proper scrutiny, which your Government claims it is very keen to have happen.

**Angela Burns:** Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedasoch wrth Ieuan Wyn Jones am y mater o fodelu ar gyfer ffioedd o £9,000. Yn wir, nid oedd ef yn hollol gywir am fod gennyf y wybodaeth honno. Fodd bynnag, o ran y rhagdybiaethau, nid ydynt wedi cael eu cyhoeddi gystal. Dywed y Llywodraeth yr ystyrir y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o achosi niwed sylweddol i lunio polisi Llywodraeth y Cynulliad, ond nid yw'n mynd ymlaen i ddweud pam. Felly, mae'n anodd iawn i ni i edrych ar y tybiaethau i sefydlu a ydyw'r £9,000 yn argyhoeddiadol. Yn yr un modd, o ran y llanastr TB sydd wedi bod yn digwydd—oddeutu 90 diwrnod cyn y bleidlais olaf, yr oedd yn hollol iawn, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth newydd, ond erbyn hyn nid yw'n iawn; nid oedd yr un penderfyniad na'r llall yn gwbl dryloyw. Felly, tybed, Brif Weinidog, sut y byddwch yn sicrhau bod pob deiliad portffolio yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau fel ein bod yn gallu craffu fel sy'n iawn a phriodol, sef yr hwn y mae eich Llywodraeth yn honni ei bod yn awyddus iawn i gael i ddigwydd.

2.15 p.m.

**The First Minister:** I believe that our transparency is second to none. So many papers and correspondence are disclosed, as are the figures regarding tuition fees that you mentioned. For many years, Cabinet meeting minutes have been made public and we are publishing details of any expenditure over £25,000; taken together, we have a very good record on transparency.

**Y Prif Weinidog:** Credaf fod ein tryloywder heb ei ail. Mae cymaint o bapurau a gohebiaeth yn cael eu datgelu, fel y datgelir y ffigurau o ran ffioedd dysgu a grybwyllwyd gennych. Am flynyddoedd lawer, mae cofnodion cyfarfodydd y Cabinet wedi cael eu gwneud yn gyhoeddus ac yr ydym yn cyhoeddi manylion unrhyw wariant dros £25,000. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae gennym record dda iawn ar dryloywder.

**Bethan Jenkins:** Gydag adolygiadau ar gyfer y techniums, y strwythurau benthyciadau grant a'r byrddau cynghori sector—y gallai

**Bethan Jenkins:** With reviews in the pipeline of the techniums, the structures for grant loans and sector advisory boards—

fod wedi dyfeisio polisïau, ond sydd yn awr wedi eu hisraddio i baneli sector—ar y gweill, a fedrwch amlinellu'r meddwl y tu ôl i'r symudiad yn y polisi hwn o wneud penderfyniadau sydd wedi arwain at rannau o'r rhaglen adnewyddu'r economi yn cael eu diystyru, eu hisraddio neu eu newid? A fydd hyn yn rhan o'ch datganiad y prynhawn yma ynghylch yr hyn y mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud o ran datblygu'r economi yng Nghymru?

which could have developed policies, but which have now been downgraded to sector panels—can you outline the thinking behind the movement in this policy of taking decisions that have led to parts of the economic renewal programme being ignored, downgraded, or changed? Will that be part of your statement this afternoon on what the Government will do in terms of developing the economy here in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r sefyllfa wedi newid ers i'r Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidogion Plaid Cymru fod yn y Llywodraeth. Felly, os oes beirniadaeth o'r hyn a ddigwyddodd cyn mis Mai, mae hynny'n feirniadaeth o'ch plaid chi.

**The First Minister:** The situation has not changed since the Deputy First Minister and the Plaid Cymru Ministers were in Government. Therefore, if you are criticising anything that occurred before May, then you are criticising your own party.

**Setliad Cyllideb**

**Budget Settlement**

***9. Leanne Wood:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y setliad cyllideb i Gymru gan Lywodraeth y DU. OAQ(4)0098(FM)*

***9. Leanne Wood:*** *Will the First Minister make a statement on the budget settlement for Wales from the UK Government. OAQ(4)0098(FM)*

**The First Minister:** By 2014-15, the Welsh Government's budget will decline by 12 per cent in real terms. Cuts to the capital budget will be especially severe, as there will be a real-terms reduction of 42 per cent.

**Y Prif Weinidog:** Erbyn 2014-15, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn gostwng o 12 y cant mewn termau real. Bydd y toriadau yn y gyllideb gyfalaf yn arbennig o ddifrifol, gan y bydd gostyngiad mewn termau real o 42 y cant.

**Leanne Wood:** Last week, a Joseph Rowntree Foundation study found that child poverty would need to fall four times faster than it has fallen over the last 10 years if the Welsh Government aim of eradicating child poverty by 2020 is to be realised. Almost one in four children in Wales is defined as living in poverty. When he was here earlier, David Cameron talked about respect. He also talked about the challenges faced by the Welsh economy. When you next have the opportunity, will you impress upon David Cameron the fact that decisions made by his Government, particularly its fast and savage budget cuts to the Assembly, are undermining your Government's aims to eradicate child poverty and are undermining attempts to turn around the Welsh economy? Would you support a different devolution settlement for Wales, so that the UK Government would not be able to undermine Welsh Government policy in this way?

**Leanne Wood:** Wythnos diwethaf, canfu astudiaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree y byddai angen i dlodi plant ostwng bedair gwaith yn gyflymach nag y mae wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf os yw nod Llywodraeth Cymru o ddileu tlodi plant erbyn 2020 i gael ei wireddu. Yn ôl y diffiniad, mae bron un o bob pedwar plentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Pan oedd yma yn gynharach, soniodd David Cameron am barch. Soniodd hefyd am yr heriau sy'n wynebu economi Cymru. Y tro nesaf i chi gael y cyfle, a wnewch chi bwysleisio wrth David Cameron ei fod yn ffaith bod penderfyniadau ei Lywodraeth, yn enwedig ei thoriadau chwim a ffyrnig yng nghyllideb y Cynulliad, yn tanseilio amcanion eich Llywodraeth i ddileu tlodi plant ac yn tanseilio'r ymdrechion i droi economi Cymru o gwmpas? A fyddech yn cefnogi setliad datganoli gwahanol i Gymru, fel na allai Llywodraeth y Deyrnas Unedig danseilio

polisi Llywodraeth Cymru yn y modd hwn?

**The First Minister:** The points that I have made many times to the UK Government are as follows: there is a need to give the Welsh Government borrowing powers, to ensure fair funding for Wales and to investigate the issue of tax devolution. If there is to be a commission to do the latter, it needs to start work this autumn, with a view to reporting back by next autumn. We cannot have a commission that will take many years to report back, especially given the fact that the Holtham commission has done most of the work already. It is important that the Welsh public now sees progress on this so that we can develop a more suitable and fairer financial package for Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r pwyntiau a wneuthum lawer gwaith i Lywodraeth y Deyrnas Unedig fel a ganlyn: mae angen rhoi pwerau benthyca i Lywodraeth Cymru, i sicrhau cyllido teg i Gymru, ac i ymchwilio i ddatganoli trethi. Os oes comisiwn i fod i wneud y pwynt olaf, mae angen iddo ddechrau ar ei waith yn yr hydref, gyda'r bwriad o adrodd yn ôl erbyn hydref nesaf. Ni allwn gael comisiwn a fydd yn cymryd blynyddoedd lawer i adrodd yn ôl, yn enwedig o ystyried y ffaith bod comisiwn Holtham wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith yn barod. Mae'n bwysig bod y cyhoedd yng Nghymru yn awr yn gweld cynnydd ar hyn er mwyn inni allu datblygu pecyn ariannol mwy addas a thecach i Gymru.

**Mick Antoniw:** Does the First Minister agree that the recent interventions on funding by Plaid Cymru Members of Parliament in Westminster to use this issue to propose changes to the boundaries of existing Assembly seats and to the voting system by increasing the proportion of Assembly Members elected by a proportional system are unhelpful, contrary to the outcome of the recent referendum on proportional representation, and, furthermore, undermine devolution? Does he agree that these matters should be determined only with the consent of the Assembly, and that Plaid Cymru in Westminster should stop trying to manipulate the Assembly from London?

**Mick Antoniw:** A ydyw'r Prif Weinidog yn cytuno bod yr ymyriadau diweddar ar gyllid gan Aelodau Seneddol Plaid Cymru yn San Steffan i ddefnyddio'r mater hwn i gynnig newidiadau i ffiniau seddi'r Cynulliad presennol ac i'r system bleidleisio drwy gynyddu'r gyfran o Aelodau'r Cynulliad a fyddai'n cael eu hethol gan system gyfrannol yn ddi-fudd, yn groes i ganlyniad y refferendwm diweddar ar gynrychiolaeth gyfrannol, ac, ar ben hynny, yn tanseilio datganoli? A ydyw'n cytuno mai dim ond gyda chaniatâd y Cynulliad y dylid penderfynu ar y materion hyn, ac y dylai Plaid Cymru yn San Steffan roi'r gorau i geisio siapio'r Cynulliad o Lundain?

**The First Minister:** I do. The reality is that no party has a mandate to change the Assembly's election system; no party mentioned the issue in manifestos, either for Assembly elections or Westminster elections. It would be wrong for this to be imposed upon Wales without the consent of this body as a whole. It would be wrong, as has been advocated by Jonathan Edwards, the Plaid Cymru MP, for this to be imposed on Wales from London; I find that an extraordinary and an amazing position for a Plaid Cymru MP to take. Should there be any changes to the electoral system of this institution, it is essential that, at least, there is the consent of this institution.

**Y Prif Weinidog:** Ydw. Y realiti yw nad oes gan unrhyw blaid fandad i newid system etholiadol y Cynulliad; ni chrybwyllodd unrhyw blaid y mater mewn maniffesto, naill ai ar gyfer etholiadau'r Cynulliad neu etholiadau San Steffan. Byddai'n anghywir i orfodi hyn ar Gymru heb gydsyniad y corff hwn yn ei gyfanrwydd. Byddai'n anghywir, fel sydd wedi'i argymell gan Jonathan Edwards AS Plaid Cymru, i orfodi hyn ar Gymru o Lundain; credaf fod hynny yn safiad rhyfeddol ac anhygoel wrth AS Plaid Cymru. Pe caed unrhyw newidiadau i system etholiadol y sefydliad hwn, byddai'n hanfodol cael, o leiaf, caniatâd y sefydliad hwn.

**The Presiding Officer:** I call on Byron Davies to speak and hope that his question is on the budget.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Byron Davies i siarad gan obeithio bod ei gwestiwn ar y gyllideb.

**Byron Davies:** Indeed, it is. Good afternoon, First Minister. I very much welcomed your constructive language following your meeting with the Conservative Chancellor of the Exchequer last week. That refreshing approach, as you put it, must be in stark contrast to the 12 years of refusal to discuss or admit to any problem, given that an independent inquiry established by the previous Welsh Assembly Government warned in 2009 that the formula risked depriving Wales of £8.5 billion over a decade. It is also worth noting that, early into this fourth Assembly, the Prime Minister has announced a Calman-style commission to address these real concerns—a Cymru Calman. Do you now regret that this important funding issue for Wales was not taken seriously by the previous UK Government?

**Byron Davies:** Ydy'n wir. Prynhawn da, Brif Weinidog. Yr oeddwn yn croesawu'n fawr eich iaith adeiladol yn dilyn eich cyfarfod gyda Changhellor Ceidwadol y Trysorlys yr wythnos diwethaf. Mae'r dull adfywiol hwnnw o weithredu, fel y dywedasoch, o reidrwydd, mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r 12 mlynedd o wrthod trafod neu gyfaddef unrhyw broblem, o ystyried bod ymchwiliad annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn flaenorol wedi rhybuddio yn 2009 bod y fformiwla yn bygwth amddifadu Cymru o £8.5 biliwn dros ddegawd. Mae hefyd yn werth nodi, yn gynnar yn hanes y pedwerydd Cynulliad hwn, fod Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi comisiwn tebyg i Calman i roi sylw i'r pryderon go iawn—Calman Cymru. A ydych yn edifarhau erbyn hyn na chymerodd Lywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig y mater pwysig o ariannu Cymru o ddifrif?

**The First Minister:** I remain to be convinced that there is a timetable in place for this Calman-style process. I welcome the commitment to a Calman-style process, but we need to ensure that there is a timetable in place. In my view, the process must begin this autumn and end after 12 months to ensure that we have a proposal in place that can be taken forward by the Assembly Government, this institution and the UK Government. We have had some good meetings and some warm words, but it is important that they are now translated into firm commitments with regard to a timetable.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn parhau i fod angen cael fy argyhoeddi bod yna amserlen ar waith ar gyfer y broses tebyg i Calman hon. Yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad i broses tebyg i Calman, ond mae angen inni sicrhau bod amserlen mewn lle. Yn fy marn i, mae'n rhaid i'r broses gychwyn yr hydref hwn a dod i ben ar ôl 12 mis i sicrhau bod gennym gynnig mewn lle y gellir eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y Cynulliad, y sefydliad hwn a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yr ydym wedi cael rhai cyfarfodydd da a rhai geiriau cynnes, ond mae'n bwysig eu bod yn awr yn cael eu trosi i fod yn ymrwymiadau cadarn o ran amserlen.

### Diweithdra Ymysg Pobl Ifanc

### Youth Unemployment

***10. Mark Drakeford:*** *Pa asesiad sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o'r hyn sy'n achosi'r cynnydd mewn diweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. OAQ(4)0090(FM).*

***10. Mark Drakeford:*** *What assessment has the Welsh Government made of the causes of the rise in youth unemployment in Wales. OAQ(4)0090(FM)*

**The First Minister:** The main factor behind increases over the last few years has been the recession. Tackling youth unemployment and supporting young people continues to be a priority for us as a Government.

**Y Prif Weinidog:** Y prif ffactor y tu ôl i'r cynnydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu'r dirwasgiad. Mae mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc a chefnogi pobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni

fel Llywodraeth.

**Mark Drakeford:** During the 1980s, when youth unemployment rose so rapidly in Wales, at least young people in that position had the comfort of knowing that, as far as the Government of the time was concerned, it was a price worth paying and something about which it had no regrets. The tone of voice may be different today, but the effect of Government policies at Westminster is no different, as we can see from the rapid rise in youth unemployment in Wales. Will you give an assurance that, as far as the Welsh Government is concerned, the unemployment of any Welsh young person is not a price that we would willingly pay, and that this Government will do everything that it can to address what surely is the single most urgent policy priority facing the fourth Assembly?

**Mark Drakeford:** Yn ystod y 1980au, pan gododd diweithdra ymhlith pobl ifanc mor gyflym yng Nghymru, o leiaf yr oedd gan bobl ifanc yn y sefyllfa honno y cysur o wybod, lle’r oedd y Llywodraeth ar y pryd yn y cwestiwn, ei fod yn bris gwerth ei dalu a rhywbeth nad oedd hi’n gresynu yn ei gylch. Efallai bod tôn y llais yn wahanol heddiw, ond nid yw effaith polisïau’r Llywodraeth yn San Steffan yn wahanol, fel y gwelwn oddi wrth y cynnydd cyflym mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. A wnewch chi roi sicrwydd, cyn belled ag y mae Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn, nad yw unrhyw berson ifanc o Gymru sy’n ddi-waith yn bris y byddem yn barod i’w dalu, ac y bydd y Llywodraeth hon yn gwneud popeth o fewn ei gallu i fynd i’r afael â’r hyn, bid siŵr, yw’r flaenoriaeth polisi mwyaf brys sy’n wynebu’r pedwerydd Cynulliad?

**The First Minister:** You are absolutely right. The level of youth unemployment is unacceptably high, and we have committed to establishing a Wales jobs fund, which will enable 4,000 young people to receive training or an apprenticeship. It will also ensure that the opportunities that were available under the Future Jobs fund continue to be available in Wales, despite the UK Government’s unfortunate decision to end the Future Jobs fund.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn llygad eich lle. Mae lefel diweithdra ymhlith pobl ifanc yn annerbyniol o uchel, ac yr ydym wedi ymrwymo i sefydlu cronfa swyddi Cymru, a fydd yn galluogi 4,000 o bobl ifanc i gael hyfforddiant neu brentisiaeth. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cyfleoedd a oedd ar gael o dan gronfa Swyddi’r Dyfodol yn parhau i fod ar gael yng Nghymru, er gwaethaf penderfyniad anffodus Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi terfyn ar gronfa Swyddi’r Dyfodol.

**Darren Millar:** First Minister, do you welcome the fact that the number of young people not in employment, education or training fell according to the most recent UK statistics? Do you accept that that number rose dramatically in Wales over the past 10 years, only one year during which time we had a UK coalition Government, with your party in Government in Westminster in the previous years? Given the fact that the Future Jobs fund failed to stem the rise in the number of NEETs in Wales and elsewhere in the UK, why are you pursuing such a failed policy again in this country?

**Darren Millar:** Brif Weinidog, a ydych yn croesawu’r ffaith bod nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant wedi gostwng yn ôl yr ystadegau mwyaf diweddar am y Deyrnas Unedig? A ydych yn derbyn bod y nifer hwnnw wedi codi yn sylweddol yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf, pan oedd gennym Lywodraeth clymblaid y Deyrnas Unedig am ddim ond un flwyddyn yn ystod y cyfnod hwnnw, gyda’ch plaid yn y Llywodraeth yn San Steffan yn y blynyddoedd blaenorol? O ystyried y ffaith bod cronfa Swyddi’r Dyfodol wedi methu ag atal y cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, pam ydych yn gweithredu polisi aflwyddiannus o’r fath unwaith eto yn y wlad hon?

**The First Minister:** The proportion of 16 to 18-year-olds who are NEET in Wales has remained about the same since the mid 1990s. The proportion of 19 to 24-year-olds who are NEET in Wales was falling until the recession, and has increased since. The policies being pursued by the UK Government will not help to reduce youth unemployment. We will ensure through the Wales jobs fund and the youth enterprise scheme that opportunities are made available for our young people, while those in party opposite have no response to youth unemployment other than to shrug their shoulders.

**Y Prif Weinidog:** Mae’r gyfran o bobl 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant wedi aros tua’r un fath ers canol y 1990au. Yr oedd y gyfran o 19 i 24 oed yn disgyn tan y dirwasgiad, ac y mae wedi cynyddu ers hynny. Bydd y polisïau a ddilynir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn helpu i leihau diweithdra ymysg pobl ifanc. Byddwn yn sicrhau drwy gronfa swyddi Cymru a’r cynllun menter ieuenctid fod cyfleoedd ar gael ar gyfer ein pobl ifanc, tra nad oes gan y sawl yn y blaid gyferbyn unrhyw ymateb i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc ac eithrio codi eu hysgwyddau.

**Lindsay Whittle:** First Minister, statistics show that disabled young people are four times as likely to be unemployed as non-disabled young people. For those in work, their earnings are less than those of non-disabled young people in comparable jobs. That goes against the important principle of equality of opportunity. First Minister, I am sure that you agree that that is totally unacceptable. Will you tell us how this problem is being addressed, and, in particular, with regard to the youth engagement and employment action plan, which was introduced by the Assembly Government in 2009 to tackle youth unemployment in Wales, can you provide any statistics to show what effect, if any, that that action plan has had on the level of youth unemployment in Wales?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, dengys yr ystadegau fod pobl ifanc anabl bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phobl ifanc nad ydynt yn anabl. Mae enillion y sawl sydd mewn gwaith yn llai nag enillion pobl ifanc nad ydynt yn anabl mewn swyddi tebyg. Mae hynny’n mynd yn erbyn yr egwyddor bwysig o gyfle cyfartal. Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y cytunwch fod hynny’n gwbl annerbyniol. A wnewch chi ddweud wrthym sut mae’r broblem hon yn derbyn sylw, ac, yn benodol, o ran y cynllun gweithredu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2009 i fynd i’r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, a allwch ddarparu unrhyw ystadegau i ddangos pa effaith, os o gwbl, y mae’r cynllun gweithredu wedi ei gael ar lefel diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru?

**The First Minister:** The youth engagement and employment action plan was published in January this year, and it outlines our approach to preventing children and young people from disengaging from learning and supporting them with entry to the labour market. It is still a new scheme, but we are hopeful and confident that this scheme will help young people.

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddwyd y cynllun ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc ym mis Ionawr eleni, ac mae’n amlinellu ein dull o atal plant a phobl ifanc rhag ymddieithrio oddi wrth ddysgu a’u cefnogi i ymuno â’r farchnad lafur. Mae’n dal i fod yn gynllun newydd, ond yr ydym yn obeithiol ac yn hyderus y bydd y cynllun hwn yn helpu pobl ifanc.

With regard to disabled young people, and disabled people in general, entering the labour market, I would not agree with a reduction in the minimum wage in order to make it easier to employ them, as was proposed by a member of the Conservative party.

O ran pobl ifanc anabl, a phobl anabl yn gyffredinol, yn mynd i mewn i’r farchnad lafur, ni fyddwn yn cytuno â gostyngiad yn yr isafswm cyflog er mwyn ei gwneud yn haws eu cyflogi, fel y cynigiwyd gan aelod o’r blaid Geidwadol.

**Addysg Ariannol**

***11. Ann Jones:*** *Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu hyrwyddo addysg ariannol yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0100(FM)*

**The First Minister:** We have set out our financial inclusion strategy, 'Taking Everyone into Account'. The programme of work being taken forward across Wales to support young people and adults in developing the knowledge and skills required to manage money effectively is being effective. We are keen to ensure that it is rolled out across Wales to help our young people to know how to handle money.

**Ann Jones:** Thank you very much for that response. I am pleased to see that action is being taken. Now more than ever it is important that people understand their finances. We have already seen savage cuts to the benefits of those who are perhaps more disadvantaged, who will not be able to understand and will fall prey to loan sharks offering loans with extortionate annual percentage rates. Will you ensure that, as a Government, you will continue to promote financial education at every opportunity to enable those people to have a full understanding of what loans from loan sharks and high annual percentage rates will do to them in the longer term?

**The First Minister:** The Government has a project funded by the European social fund, 'Reach the Heights', which is designed to raise the aims and aspirations of young people, including those who are not in employment, education or training. Part of that project includes ensuring that young people develop the financial capability to exercise better control over their personal finances.

**Mark Isherwood:** The leader of the north Wales financial capability forum, Les Cooper, has recently stood down, after having been its leader for several years and a great champion of financial inclusion and capability. Will you join me in congratulating

**Financial Education**

***11. Ann Jones:*** *How does the Welsh Government plan to promote financial education in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0100(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi cyflwyno ein strategaeth cynhwysiant ariannol, 'Mae Pawb yn Cyfrif'. Mae'r rhaglen o waith sy'n cael ei datblygu ar draws Cymru i gefnogi pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i reoli arian yn effeithiol yn effeithiol. Yr ydym yn awyddus i sicrhau y caiff ei chyflwyno ar draws Cymru i helpu ein pobl ifanc i wybod sut mae trin arian.

**Ann Jones:** Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw. Yr wyf yn falch o weld bod camau'n cael eu cymryd. Yn awr yn fwy nag erioed mae'n bwysig bod pobl yn deall eu cyllid. Gwelsom eisoes doriadau llym at fudd-daliadau'r sawl sydd efallai yn fwy difreintiedig, na fyddant yn gallu deall ac a fyddant yn ysglyfaeth i fenthycwyr arian didrwydded yn cynnig benthyciadau gyda chyfraddau canrannol blynyddol gormesol. A wnewch chi sicrhau, fel Llywodraeth, y byddwch yn parhau i hyrwyddo addysg ariannol ar bob cyfle i alluogi'r bobl hynny i feddu ar ddealltwriaeth lawn o'r hyn y bydd benthyciadau gan fenthycwyr arian didrwydded a chyfraddau canrannol blynyddol uchel yn ei wneud iddynt yn y tymor hwy?

**Y Prif Weinidog:** Mae gan y Llywodraeth brosiect a ariennir gan gronfa gymdeithasol Ewrop, 'Cyrraedd y Nod', sydd wedi'i gynllunio i godi amcanion a dyheadau pobl ifanc, gan gynnwys y rheiny nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae rhan o'r prosiect hwnnw yn cynnwys sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'r gallu ariannol i arfer rheolaeth well dros eu materion ariannol personol.

**Mark Isherwood:** Mae arweinydd fforwm gallu ariannol gogledd Cymru, Les Cooper, wedi sefyll i lawr yn ddiweddar, ar ôl bod yn arweinydd am nifer o flynyddoedd ac yn bencampwr gwych o gynhwysiant a gallu ariannol. A wnewch chi ymuno â mi i'w

him on the work that he has done and thanking him for it? That work will now be carried forward by the forum under its new chair. Will you also tell me, in the context of the Communities and Culture Committee’s report, ‘Financial Inclusion and the Impact of Financial Education’, about the action that your Government is taking to encourage financial organisations to fund financial education programmes? That was a recommendation accepted by the previous Minister. Reference was made, for example, to work by Marks & Spencer, Bank of America, Nationwide’s education resource, and Barclays Money Skills, and the potential to broaden that work in the future.

longyfarch ar y gwaith y mae wedi’i wneud a diolch iddo amdano? Bydd y fforwm o dan ei gadeirydd newydd yn parhau â’r gwaith hwnnw yn awr. A wnewch chi hefyd ddweud wrthyf, yng nghyd-destun adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, ‘Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol’, am y camau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i annog sefydliadau ariannol i ariannu rhaglenni addysg ariannol? Yr oedd hynny’n argymhelliad a dderbyniwyd gan y Gweinidog blaenorol. Cyfeiriwyd, er enghraifft, at waith gan Marks & Spencer, Bank of America, adnoddau addysg Nationwide a Barclays Money Skills, a’r potensial i ehangu’r gwaith hwnnw yn y dyfodol.

**The First Minister:** We are looking to see how we can put systems in place to develop our young people’s ability to deal with money. That also applies to adults, of course. With adults, the Money Advice Service is delivering the national UK strategy for financial capability, and we have been working with MAS to bring its financial capability, resources and expertise to Wales. We are also working with the credit unions to extend their activity and to ensure that all secondary school pupils in Wales, for example, have access to sustainable credit union services.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn edrych i weld sut y gallwn roi systemau ar waith er mwyn datblygu gallu ein pobl ifanc i drin arian. Mae hynny hefyd yn berthnasol i oedolion, wrth gwrs. Gydag oedolion, mae’r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cyflwyno strategaeth genedlaethol y Deyrnas Unedig ar gyfer gallu ariannol, ac yr ydym wedi bod yn gweithio gyda’r gwasanaeth i ddwyn ei allu, adnoddau ac arbenigedd ariannol i Gymru. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda’r undebau credyd i ymestyn eu gweithgarwch ac er mwyn sicrhau bod pob disgybl ysgol uwchradd yng Nghymru, er enghraifft, yn cael mynediad at wasanaethau undeb credyd cynaliadwy.

**Tai Cymdeithasol**

**Social Housing**

***12. Mike Hedges:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i ddelio â phrinder tai cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(4)0099(FM)*

***12. Mike Hedges:*** *What plans does the First Minister have to deal with the shortage of social housing in Wales. OAQ(4)0099(FM)*

**The First Minister:** Improving the supply of housing is one of the three priorities in our housing strategy. Our plans extend beyond using the social housing grant to build more affordable homes to bringing the many empty homes that can be seen in communities across Wales back into use.

**Y Prif Weinidog:** Mae gwella’r cyflenwad tai yn un o’r tair blaenoriaeth yn ein strategaeth dai. Mae ein cynlluniau yn ymestyn y tu hwnt i ddefnyddio’r grant tai cymdeithasol i adeiladu mwy o dai fforddiadwy i ddod â’r nifer o gartrefi gwag sydd i’w gweld mewn cymunedau ledled Cymru i ddefnydd unwaith eto.

**Mike Hedges:** Thank you for your response, First Minister. As you are well aware, some 90,000 households in Wales are on waiting

**Mike Hedges:** Diolch am eich ymateb, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch yn dda, mae 90,000 o deuluoedd neu unigolion yng

lists for social housing, and there are an awful lot of people—our hidden homeless—who are moving around, staying in people's spare bedrooms, hopping from house to house. 'Sofa surfing' is one of the terms used for that, whereby someone does not have a home of their own, and it means that a number of those people disappear from the electoral registers in Wales. That, in itself, has an effect on funding for local authorities, as well as on the number of people that can take part in elections. What specific measures do you have to support local authorities and housing associations to bring more of the empty properties in Wales back into use?

Nghymru ar restrau aros am dai cymdeithasol, ac mae yna lawer iawn o bobl—ein digartref cudd—sy'n symud o gwmpas, yn aros yn ystafelloedd gwely sbâr pobl, gan hercian o dŷ i dŷ. 'Syrffio soffas' yw un o'r termau a ddefnyddir ar gyfer hynny, lle nad oes gan rywun ei gartref ei hun, ac mae'n golygu bod nifer o'r bobl hynny yn diflannu oddi ar y cofrestrau etholiadol yng Nghymru. Mae hynny, ynddo'i hun, yn cael effaith ar gyllid awdurdodau lleol, yn ogystal ag ar nifer y bobl sy'n gallu cymryd rhan mewn etholiadau. Pa fesurau penodol sydd gennych i gefnogi awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddod â mwy o eiddo gwag yng Nghymru i ddefnydd unwaith eto?

**The First Minister:** We are promoting best practice and flexibility, ensuring that local authorities get advice and assistance to ensure that owners bring empty homes back into use. In addition, we are currently looking at the possibility of developing a loan scheme to provide additional funding for bringing empty properties back into use. We know that local authorities have a range of enforcement measures that they can use to bring these empty properties back into use. Five hundred and ninety-six empty homes were brought back into use during the year through direct action by local authorities.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn hyrwyddo arfer gorau a hyblygrwydd, gan sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael cyngor a chymorth i sicrhau bod perchnogion yn dod â chartrefi gwag i ddefnydd unwaith eto. Yn ogystal, yr ydym wrthi'n edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu cynllun benthyciadau i ddarparu cyllid ychwanegol i ddod ag eiddo gwag i ddefnydd unwaith eto. Gwyddom fod gan awdurdodau lleol ystod o fesurau gorfodi y gallant eu defnyddio i ddod â'r eiddo gwag hyn i ddefnydd unwaith eto. Daethpwyd â 596 o dai gwag i ddefnydd unwaith eto yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

2.30 p.m.

**Mark Isherwood:** I strongly support action on empty homes. In the first 12 years of devolution, approximately 12,000 new affordable homes—primarily social housing through housing associations—were delivered in Wales, compared to 28,000 in the last 12 years of Conservative government up to 1997. Your Government has now been given £12 million, related to the budget in England, under the Barnett consequential, for affordable housing for first-time buyers. Will you, or will you not, put that money towards the social housing grant in Wales, which you are cutting by a further 49 per cent? Can we have a categorical answer, and do you agree that that should be prioritised in this area, given the linkages between housing, health and wellbeing, educational attainment and economic activity?

**Mark Isherwood:** Yr wyf yn cefnogi gweithredu ar gartrefi gwag yn gryf. Yn 12 mlynedd gyntaf datganoli, mae tua 12,000 o gartrefi fforddiadwy newydd—yn bennaf tai cymdeithasol drwy gymdeithasau tai—wedi cael eu darparu yng Nghymru, o'i gymharu â 28,000 yn 12 mlynedd diwethaf o lywodraeth Geidwadol hyd at 1997. Mae eich Llywodraeth bellach wedi cael £12 miliwn, yn ymwneud â'r gyllideb yn Lloegr, drwy gyllid canlyniadol Barnett, ar gyfer tai fforddiadwy i brynwyr tro cyntaf. A wnewch chi, neu a wnewch chi ddim, roi'r arian tuag at y grant tai cymdeithasol yng Nghymru yr ydych yn ei dorri gan 49 y cant pellach? A allwn ni gael ateb pendant, ac a ydych yn cytuno y dylid blaenoriaethu hynny yn y maes hwn, o ystyried y cysylltiadau rhwng tai, iechyd a lles, cyrhaeddiad addysgol a

gweithgarwch economaidd?

**The First Minister:** Between 1 April 2007 and 31 March 2010, a total of 6,707 affordable housing units were delivered, exceeding the ‘One Wales’ target of 6,500. As you know, money is not hypothecated to the Welsh Government as a result of Barnett consequentials, and if there are any Barnett consequentials, it is for the Government to decide how that money is allocated. If that money is allocated elsewhere, then it is important that you indicate where the money should come from, and where the cuts should be made to pay for what you want.

**Y Prif Weinidog:** Rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2010, cafodd cyfanswm o 6,707 o unedau tai fforddiadwy eu darparu, gan ragori ar darged ‘Cymru’n Un’ o 6,500. Fel y gwyddoch, nid yw arian i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i symiau canlyniadol Barnett yn cael ei neilltuo, ac os oes unrhyw symiau canlyniadol Barnett, mater i’r Llywodraeth yw penderfynu sut mae dyrannu’r arian hwnnw. Os bydd yr arian yn cael ei ddyrannu mewn man arall, yna mae’n bwysig eich bod yn nodi o ble y dylai’r arian ddod, a ble y dylai’r toriadau gael eu gwneud i dalu am yr hyn yr ydych yn dymuno ei gael.

**Mick Antoniw:** Does the First Minister agree that appropriate borrowing powers without Treasury penalty would enable the Welsh Government to engage in a far more extensive programme of building social housing than exists under the current regime, and that if we are to be able to make any significant inroads to the shortage of social housing, borrowing powers are essential?

**Mick Antoniw:** A ydyw’r Prif Weinidog yn cytuno y byddai pwerau benthyca priodol heb gosb gan y Trysorlys yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymroi mewn rhaglen llawer helaethach o adeiladu tai cymdeithasol nag sydd yn bodoli o dan y drefn bresennol, ac os ydym am allu gwneud unrhyw dolc i’r prinder tai cymdeithasol, fod pwerau benthyca yn hanfodol?

**The First Minister:** They are essential for a number of reasons; housing is one and the transport infrastructure is another. There are great difficulties involved if Wales is the only part of the UK where it is not possible for the Government to borrow to finance large capital projects. It would mean that projects that could go ahead in England, Scotland or Northern Ireland could not go ahead in Wales because of a lack of such a power on the part of the Welsh Government. That would put us at a severe competitive disadvantage.

**Y Prif Weinidog:** Maent yn hanfodol am sawl rheswm; tai yw un ac mae’r isadeiledd trafnidiaeth yn un arall. Mae anawsterau mawr yn canlyn os mai Cymru yw’r unig ran o’r Deyrnas Unedig lle nad yw’n bosibl i’r Llywodraeth i fenthyca i ariannu prosiectau cyfalaf mawr. Byddai’n golygu na allai prosiectau a allai fynd yn eu blaen yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon fynd yn eu blaen yng Nghymru oherwydd diffyg pŵer o’r fath ar ran Llywodraeth Cymru. Byddai hynny’n ein rhoi o dan anfantais gystadleuol ddifrifol.

**Peter Black:** First Minister, the previous One Wales Government, over which you also presided, had a commitment to introduce the Welsh housing investment trust to tackle the shortage of affordable housing. Will you confirm whether your current Government maintains that commitment, and if so, will you tell us what progress has been made and when you envisage that trust being up and running?

**Peter Black:** Brif Weinidog, yr oedd gan Lywodraeth flaenorol Cymru’n Un, yr oeddech chi hefyd yn ben drosti, ymrwymiad i gyflwyno ymddiriedolaeth buddsoddi tai Cymreig i fynd i’r afael â’r prinder tai fforddiadwy. A wnewch chi gadarnhau a ydyw eich Llywodraeth bresennol o hyd wedi ymrwymo i hynny, ac os felly, a wnewch chi ddweud wrthym pa gynnydd sydd wedi’i wneud a phryd ydych yn rhagweld y bydd yr ymddiriedolaeth honno wedi ei sefydlu ac ar waith?

**The First Minister:** We retain that

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cadw’r

commitment, and we are working to ensure that even at a time of difficult capital and revenue funding, we find a way to ensure that the Welsh housing investment trust becomes a reality.

ymrwymiad hwnnw, ac yr ydym yn gweithio i sicrhau ein bod, hyd yn oed ar adeg anodd o ran cyllid cyfalaf a refeniw, yn dod o hyd i ffordd i sicrhau bod yr ymddiriedolaeth buddsoddi tai Cymreig yn dod yn realiti.

**Neilltuo'r Refeniw a Gynhyrchir gan Ffermydd Gwynt**

**Ring-fencing Revenue Generated by Windfarm**

***13. Antoinette Sandbach**: Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i neilltuo'r refeniw a gynhyrchir gan ffermydd gwynt yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol. OAQ(4)0093(FM)*

***13. Antoinette Sandbach**: What consideration has the Welsh Government given to ring-fencing revenue generated by windfarms within Strategic Search Areas. OAQ(4)0093(FM)*

**The First Minister:** It is important that any application for energy generation carries a significant community benefit.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod unrhyw gais ar gyfer cynhyrchu ynni yn cario budd cymunedol sylweddol.

**Antoinette Sandbach:** The Minister for Environment and Sustainable Development confirmed to me, when I asked him about ring-fencing the tens of millions that the Welsh Government will receive from windfarms, that, wherever possible, the Government would seek ways to ensure that communities benefit, particularly when there are very obvious impacts upon them. Given the considerable hardship and disruption to be faced by the communities affected either by the construction and operation of the TAN 8 windfarms, or the high-voltage grid connection, will you give a firm commitment to ring-fence the money generated to the public purse to invest in the communities whose quality of life will be reduced as a consequence of these developments?

**Antoinette Sandbach:** Cadarnhaodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i mi, pan ofynnais iddo am neilltuo'r degau o filiynau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cael gan ffermydd gwynt, y byddai'r Llywodraeth, lle bynnag y bo modd, yn ceisio ffyrdd o sicrhau bod cymunedau yn elwa, yn enwedig pan mae effeithiau amlwg iawn arnynt. O ystyried y caledi a'r tarfu sylweddol y mae'r cymunedau yr effeithir arnynt yn eu hwynebu naill ai drwy adeiladu a gweithredu'r ffermydd gwynt TAN 8, neu'r cysylltiad grid foltedd uchel, a wnewch chi roi ymrwymiad pendant i neilltuo'r arian a gynhyrchir i bwrs y wlad i fuddsoddi yn y cymunedau y bydd eu hansawdd bywyd yn crebachu o ganlyniad i'r datblygiadau hyn?

**The First Minister:** These are not matters for us as a Government; these are non-devolved matters for the UK Government. I notice, however, that the talk is only about onshore windfarms; when it comes to other forms of energy, you are not interested. For example, the people of Port Talbot will tell you, as they have told me and others, that they see before them a gas-fired power station and biomass power stations, and feel equally as strongly in this regard. The question then is where does it all end; do you ring-fence all monies for particular areas, or do you contribute to the general pot that can be used for the benefit of all?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r rhain yn faterion i ni fel Llywodraeth; materion heb eu datganoli a materion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ydynt. Yr wyf yn sylwi, fodd bynnag, bod y sôn am ffermydd gwynt ar y tir yn unig; pan ddaw i fathau eraill o ynni, nid oes gennych ddiddordeb. Er enghraifft, bydd pobl Port Talbot yn dweud wrthych, fel y maent wedi dweud wrthyf fi ac eraill, eu bod yn gweld ger eu bron orsaf ynni nwy a gorsafoedd ynni biomas, a bod eu teimladau yr un mor gryf yn hyn o beth. Y cwestiwn wedyn yw ble y mae hyn oll yn dod i ben; a ydych chi'n neilltuo'r holl arian ar gyfer ardaloedd penodol, neu a ydych yn cyfrannu at y gronfa gyffredinol y gellir ei defnyddio er budd pawb?

**Elin Jones:** Prif Weinidog, gan eich bod chi ond o blaid datganoli grym ynni adnewyddadwy hyd at 100 MW, a allwch egluro pam bod yn well gennych weld cais fel cais Nant-y-Moch yn fy etholaeth i, sy'n 128 MW, a rhyw bump o geisiadau fferm gwynt arall yn y Cymoedd a Powys, sydd dros 100 MW, yn cael eu penderfynu gan Weinidog yn Llywodraeth San Steffan, yn hytrach na Gweinidog yn eich Llywodraeth chi?

**Elin Jones:** First Minister, as you are in favour of devolving responsibility for only those energy projects that are below 100 MW, can you explain why you would prefer an application such as that from Nant-y-Moch in my constituency, which is 128 MW, and some five other windfarm applications in the Valleys and Powys, which have an output greater than 100 MW, being decided by a Minister in Westminster rather than by a Minister in your Government?

**Y Prif Weinidog:** Y peth cyntaf y dylem wneud yw sicrhau bod mwy o ddatganoli—hyd at 100 MW. Wedyn, dylem edrych eto ar yr achos dros ddatganoli mwy o bwerau yn y dyfodol. Un maes lle na fyddem eisiau datganoli yw ynni niwclear. Dim ond un orsaf niwclear sydd gennym yng Nghymru, a byddai costau anferth pe bai'r maes hwnnw yn cael ei ddatganoli.

**The First Minister:** The first thing that we should do is to secure further devolution—up to 100 MW. We should then look again at the case for the devolution of further powers in the future. One area in which we would not want devolution is nuclear energy. We have only one nuclear station in Wales, and the costs would be huge if that area were devolved.

**Cydweithio**

**Joint Working**

***14. Nick Ramsay:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0088(FM)*

***14. Nick Ramsay:** Will the First Minister make a statement on joint working between the UK and Welsh Governments. OAQ(4)0088(FM)*

**The First Minister:** We are committed to seeking the best outcomes for the people of Wales and we continue to work constructively with UK Government to that end.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi ymrwymo i geisio cael y canlyniadau gorau ar gyfer pobl Cymru ac yr ydym yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r perwyl hwnnw.

**Nick Ramsay:** Thank you for that answer, First Minister. I am sure that you will agree that, following the Prime Minister's excellent statement to the Chamber earlier today, it is excellent that the UK Government has made a commitment to delivering not just electrification of the Great Western line—which we did not have under 10 years of the previous Government—but also super-fast broadband. Given that the UK Government is providing £56.9 million to help to take broadband to everyone in Wales, how will you help, by working in partnership with UK Government, to see that the people of Wales receive the maximum benefit from this excellent commitment from the UK coalition Government?

**Nick Ramsay:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, yn dilyn datganiad ardderchog Prif Weinidog y Deyrnas Unedig at y Siambr yn gynharach heddiw, ei fod yn wych bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwneud ymrwymiad i ddarparu nid yn unig trydaneiddio llinell y Great Western—ni chawsom hynny yn ystod 10 mlynedd y Llywodraeth flaenorol—ond hefyd band eang cyflym iawn. O gofio bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn darparu £56.9 miliwn i helpu mynd â band eang i bawb yng Nghymru, sut y byddwch yn helpu, drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel bod pobl Cymru yn cael y budd mwyaf posibl o ymrwymiad ardderchog Llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig?

**The First Minister:** We have just received the news, which we welcome. We have been working to deliver next-generation broadband to all homes in Wales by 2015. We made that commitment in our manifesto back in May and we welcome any extra funds that will help us to deliver that target. With regard to the commitment on electrification, it is not a new commitment, but one that was made some months ago. I now look forward to ensuring that we see progress on delivering a fair funding solution for Wales. That means that that work must start in the autumn and finish next year in order for there to be a proper and fair financial package for our country.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym newydd dderbyn y newyddion, ac fe'u croesawn. Yr ydym wedi bod yn gweithio i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf i bob cartref yng Nghymru erbyn 2015. Gwnaethom yr ymrwymiad hwnnw yn ein maniffesto yn ôl ym mis Mai ac yr ydym yn croesawu unrhyw arian ychwanegol a fydd yn ein helpu i gyflawni'r targed hwnnw. O ran yr ymrwymiad ar drydaneiddio, nid yw'n ymrwymiad newydd, ond yn un a wnaethpwyd rai misoedd yn ôl. Yr wyf bellach yn edrych ymlaen at sicrhau y cawn gynnydd o ran darparu ateb ariannu teg i Gymru. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid bod y gwaith yn dechrau yn yr hydref ac yn gorffen y flwyddyn nesaf fel bod pecyn ariannol priodol a theg ar gyfer ein gwlad.

## Cwestiwn Brys
## Urgent Question

### Cartrefi Southern Cross
### Southern Cross Homes

***Lindsay Whittle:*** *Yng ngoleuni'r datblygiadau diweddaraf, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch lles y rhai sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhedeg gan Southern Cross. EAQ(4)0019(HSS)*

***Lindsay Whittle:*** *In view of the latest developments, what discussions has the Welsh Government had with regard to the welfare of residents in homes operated by Southern Cross. EAQ(4)0019(HSS)*

A civilised society is judged by the way that we care for the elderly and vulnerable, 1,800 residents—

Mae cymdeithas wâr yn cael ei barnu yn ôl y ffordd y mae'n gofalu am yr henoed a phobl sy'n agored i niwed. Gyda 1,800 o breswylwyr—

**The Presiding Officer:** Order. You should just ask the question at this point.

**Y Llywydd:** Trefn. Dylech chi ddim ond gofyn y cwestiwn yn y fan hon.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** Thank you for that. My officials continue to be in close contact with the company over its plans while the Care and Social Services Inspectorate Wales is closely monitoring the quality and standard of care provided to ensure that they are not compromised while the company seeks to resolve its financial difficulties.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Diolch i chi am hynny. Mae fy swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad agos â'r cwmni am ei gynlluniau tra bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn monitro ansawdd a safon y gofal a ddarperir yn fanwl er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cyfaddawdu tra bod y cwmni yn ceisio datrys ei anawsterau ariannol.

**Lindsay Whittle:** Thank you for that, Deputy Minister. I have read your statement.

**Lindsay Whittle:** Diolch i chi am hynny, Ddirprwy Weinidog. Yr wyf wedi darllen

It says 'ooh' and 'ah' in all the right places, but I disagree with you. This is a matter for the Welsh Government, because it has a duty of care. Will you give an assurance that the Welsh Government will not follow the policy of the Westminster Government in proposing to offer up the various public services, including social care, to what amounts to a market economy of care? Will you please reassure Members that, should the situation deteriorate further with Southern Cross, the Assembly will be recalled during the recess to update Members fully?

eich datganiad. Mae'n gwneud y synau iawn ym mhob un o'r mannau iawn, ond yr wyf yn anghytuno â chi. Mater i Lywodraeth Cymru yw hwn, oherwydd mae ganddi ddyletswydd gofal. A wnewch chi roi sicrwydd na fydd Llywodraeth Cymru yn dilyn y polisi a gynigir gan Lywodraeth San Steffan o gynnig y gwahanol wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gofal cymdeithasol, i rywbeth sy'n gyfystyr ag economi marchnad o ofal? A wnewch chi, os gwelwch yn dda, dawelu meddyliau Aelodau, os bydd y sefyllfa gyda Southern Cross yn dirywio ymhellach, y caiff y Cynulliad ei alw yn ôl yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a chyflawn i Aelodau?

**Gwenda Thomas:** Our way forward for social services is clearly set out in 'Sustainable Social Services for Wales', which achieved a good degree of consensus across the Chamber. With regard to the recall of the Assembly, the statement outlined the position of the company. It did not say that Southern Cross is going into administration or that it would be closing any care homes during the transition period. I think that you would all agree that it is important to get that message out to residents, their families and the staff of Southern Cross homes. In the statement, Southern Cross provided an update that its landlords had made their intentions known to seek to provide care themselves in the future, either as an existing care provider or through a care provider, if they are not already one. The company reaffirmed its commitment to maintain the continuity of care in its homes.

**Gwenda Thomas:** Mae ein ffordd ymlaen ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i'w gweld yn glir yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru', a enillodd gryn dipyn o gonsensws ar draws y Siambr. O ran galw'r Cynulliad yn ôl, amlinellodd y datganiad sefyllfa'r cwmni. Nid oedd yn dweud bod Southern Cross yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu y byddai'n cau unrhyw gartrefi gofal yn ystod y cyfnod pontio. Credaf y byddech i gyd yn cytuno ei bod yn bwysig i drosglwyddo'r neges hon i breswylwyr, eu teuluoedd a staff cartrefi Southern Cross. Yn y datganiad, darparodd Southern Cross ddiweddariad bod ei landlordiaid wedi gwneud eu bwriad yn hysbys i geisio darparu gofal eu hunain yn y dyfodol, naill ai fel darparwr gofal sy'n bodoli eisoes neu drwy ddarparwr gofal, os nad ydynt eisoes yn un. Cadarnhaodd y cwmni ei ymrwymiad i gynnal parhad gofal yn ei gartrefi.

**Vaughan Gething:** Thank you for that response and for your earlier statement, Deputy Minister. As you know, two Southern Cross homes are based within my constituency in Rumney and Butetown. You have spoken already of business continuity, but it is important that the staff that provide care are still available because that is part of the standard of care that residents receive—bonds are formed with those who provide care. I am also interested in what you have to say about discussions with the landlords. The GMB union has looked at where the landlords are based—many are in jurisdictions that are well-known tax havens

**Vaughan Gething:** Diolch i chi am yr ymateb hwnnw ac am eich datganiad yn gynharach, Ddirprwy Weinidog. Fel y gwyddoch, mae dau gartref Southern Cross wedi eu lleoli o fewn fy etholaeth yn Nhredelerch a Butetown. Yr ydych wedi sôn eisoes am barhad busnes, ond mae'n bwysig bod y staff sy'n darparu gofal yn dal ar gael oherwydd eu bod yn rhan o ansawdd y gofal y mae preswylwyr yn ei dderbyn—ffurfir clymau gyda'r bobl sy'n darparu gofal. Mae'r hyn sydd gennych i'w ddweud am y trafodaethau gyda'r landlordiaid yn ddiddorol hefyd. Mae undeb y GMB wedi edrych ar leoliadau canolfannau'r landlordiaid—mae

and cannot be trusted to have the best interests of residents at heart. What contact have you had with landlords in Wales about their current intentions and how that impacts on the standard and quality of care that Southern Cross residents will continue to receive?

llawer ohonynt mewn awdurdodaethau sy'n hafanau treth hysbys ac ni ellir ymddiried ynddynt i ymboeni am fuddiannau preswylwyr. Pa gyswllt ydych wedi ei gael â landlordiaid yng Nghymru ynghylch eu bwriadau cyfredol a sut mae hynny'n effeithio ar safon ac ansawdd y gofal y bydd preswylwyr Southern Cross yn parhau i'w dderbyn?

**Gwenda Thomas:** We have been in constant contact with Southern Cross and various stakeholders. You mentioned business continuity and I agree that that is very important to avoid disrupting the lives of vulnerable elderly people. Therefore, we will not be taking any precipitate action. The issues affecting Southern Cross are unique, but we are confident that the plan Southern Cross has to move to a planned, managed and consensual transfer of the operations of its homes to other care home providers will ensure the continuity of care. As regards staffing, Vaughan, I agree that we cannot value the input and commitment of staff enough. Staff provide quality care, and Southern Cross has confirmed that staff based in care homes will transfer to any new provider on their current terms of employment and it is writing to staff with the details. It is too soon to speculate as to what may happen when new providers have had a period of operating their new homes.

**Gwenda Thomas:** Yr ydym wedi bod mewn cysylltiad cyson â Southern Cross a rhanddeiliaid amrywiol. Soniasoch am barhad busnes ac yr wyf yn cytuno bod hynny'n bwysig iawn er mwyn osgoi amharu ar fywydau pobl hŷn sy'n agored i niwed. Felly, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau byrbwyll. Mae'r materion sy'n effeithio ar Southern Cross yn unigryw, ond yr ydym yn hyderus y bydd cynllun Southern Cross i symud i drosglwyddo gweithrediadau ei gartrefi i ddarparwyr cartrefi gofal eraill mewn modd wedi ei gynllunio, ei reoli a'i gydsynio yn sicrhau parhad y gofal. O ran staffio, Vaughan, cytunaf na allwn werthfawrogi mewnbwn ac ymrwymiad staff yn ddigonol. Mae staff yn darparu gofal graenus, ac mae Southern Cross wedi cadarnhau y trosglwyddir staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal i unrhyw ddarparwr newydd ar eu telerau cyflogaeth presennol ac mae'n ysgrifennu at staff gyda'r manylion. Mae'n rhy fuan i ddyfalu ynghylch yr hyn a all ddigwydd pan fydd darparwyr newydd wedi cael cyfnod o weithredu eu cartrefi newydd.

**Janet Finch-Saunders:** The financial issues of one provider—even such a large company—must not be allowed to undermine the principle of independent care provision. Public sector organisations can fail too. It is important to ensure that there are appropriate checks and balances in place and that people can always access the services that they need. Good or effective public services should have a range of providers, including the independent sector, which offers diversity and choice. Deputy Minister, what consideration have you given to ensuring that checks and balances are in place to protect the residents of care homes in the future, in particular in north Wales?

**Janet Finch-Saunders:** Ni ellir caniatáu i faterion ariannol un darparwr—hyd yn oed cwmni mor fawr—danseilio'r egwyddor o ddarpariaeth gofal annibynnol. Gall sefydliadau sector cyhoeddus fethu hefyd. Mae'n bwysig sicrhau bod yna rwystrau a gwrthbwysau priodol ar waith a bod pobl bob amser yn cael mynediad i'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Dylai fod gan wasanaethau cyhoeddus da neu effeithiol ystod o ddarparwyr, gan gynnwys y sector annibynnol, sy'n cynnig amrywiaeth a dewis. Ddirprwy Weinidog, pa ystyriaeth ydych wedi ei rhoi i sicrhau bod rhwystrau a gwrthbwysau mewn lle i ddiogelu preswylwyr cartrefi gofal yn y dyfodol, yn enwedig yn y gogledd?

**Gwenda Thomas:** As regards Southern Cross and its funding, we would not wish to be involved in any financial negotiations or arrangements regarding the company. We are concerned with the public service provided to the residents concerned and seeing restructuring of the company proceeding in a planned and orderly way to ensure a satisfactory outcome for residents and their families. I am sure that you will have noted that I have made clear my intention to set up a task group to look at the future provision of care and accommodation in Wales, and I think that that is the way forward.

**Gwenda Thomas:** O ran Southern Cross a'i gyllid, ni fyddem yn dymuno bod yn rhan o unrhyw drafodaethau neu drefniadau ariannol ynghylch y cwmni. Yr ydym yn ymwneud â'r gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i'r preswylwyr dan sylw a chadw golwg bod ailstrwythuro'r cwmni yn bwrw ymlaen mewn ffordd wedi ei chynllunio a'i threfnu i sicrhau canlyniad boddhaol i breswylwyr a'u teuluoedd. Yr wyf yn siŵr y byddwch wedi sylwi fy mod wedi datgan yn glir fy mod yn bwriadu sefydlu grŵp gorchwyl i edrych ar ddarpariaeth gofal a llety yn y dyfodol yng Nghymru, ac yr wyf yn meddwl mai dyna'r ffordd ymlaen.

**Peter Black:** Deputy Minister, you will know that there are a number of Southern Cross homes in my region. The transition process is going to be particularly difficult and will involve the careful attention of each local authority social services department to ensure that staff are protected and that residents receive assurances and are able to remain in their homes. How are you liaising with each of the local authorities involved to ensure that they are paying due attention to this and are able to provide assurances to staff and to the residents of the homes.

**Peter Black:** Ddirprwy Weinidog, byddwch yn gwybod bod yna nifer o gartrefi Southern Cross yn fy rhanbarth. Bydd y broses drosglwyddo yn anodd iawn a bydd yn golygu sylw gofalus gan bob adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol i sicrhau bod staff yn cael eu diogelu a bod preswylwyr yn derbyn sicrwydd ac yn gallu aros yn eu cartrefi. Sut ydych yn cysylltu â phob un o'r awdurdodau lleol dan sylw er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r sylw dyledus i hyn ac yn gallu darparu sicrwydd i'r staff ac i breswylwyr y cartrefi?

**Gwenda Thomas:** I have met the Welsh Local Government Association and the Association of Directors for Social Services. We have sought to ensure that there are robust contingency plans in place. Local government has responded to that across Wales. As regards the protection of residents' needs, the Welsh Government has issued statutory guidance escalating concerns about the closure of care homes and providing services for adults, which was issued in 2009, and has reinforced the statutory duty placed on local authorities and local health boards to ensure that residents' needs are protected.

**Gwenda Thomas:** Yr wyf wedi cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr ydym wedi ceisio sicrhau bod cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith. Mae llywodraeth leol wedi ymateb i hynny ar draws Cymru. O ran diogelu anghenion preswylwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol yn cynyddu pryderon ynglŷn â chau cartrefi gofal a darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion—fe'u cyhoeddwyd yn 2009—ac y mae wedi atgyfnerthu'r ddyletswydd statudol a osodwyd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i sicrhau bod anghenion preswylwyr yn cael eu hamddiffyn.

2.45 p.m.

**Jeff Cuthbert:** I speak as the Assembly Member for the Caerphilly constituency. I do so because there are six Southern Cross homes in my constituency, which I believe is the largest number in any constituency in Wales. It is right to stress the concerns of

**Jeff Cuthbert:** Yr wyf yn siarad fel Aelod Cynulliad etholaeth Caerffili, gan wneud hynny oherwydd bod chwech o gartrefi Southern Cross yn fy etholaeth i a chredaf mai dyna'r nifer mwyaf mewn unrhyw etholaeth yng Nghymru. Mae'n iawn i

residents and their families, but I would suggest that they have been well articulated, and my particular concerns are to do with the staff. I am pleased to see that TUPE will be applied, but I hope that the staff in those six homes, who are, in the main, my constituents, can be reassured at this time of great worry that the Welsh Government has their best interests at heart, will keep a close eye on the situation and would be prepared to work with the trade unions and that, if necessary, the provisions of ReAct II would apply.

bwysleisio pryderon preswylwyr a'u teuluoedd, ond byddwn yn awgrymu eu bod wedi cael eu mynegi'n dda, ac mae fy mhryderon penodol yn ymwneud â'r staff. Yr wyf yn falch o weld y bydd TUPE yn berthnasol, ond yr wyf yn gobeithio y bydd y staff yn y chwe chartref hwnnw, sydd, ar y cyfan, yn dod o'm hetholaeth, yn gallu cael sicrwydd ar yr adeg hon o bryder mawr bod Llywodraeth Cymru yn ymboeni am eu buddion, y bydd yn cadw golwg manwl ar y sefyllfa ac y byddai yn barod i weithio gyda'r undebau llafur, ac os oes angen, y byddai darpariaethau ReAct II yn berthnasol.

**Gwenda Thomas:** Thank you for that, and for your commitment to the welfare and concerns of the workforce, which is well known. I have, in reply to Vaughan Gething, outlined the position with regard to the staffing of homes and, as you say, the staff would be protected during this transitional period in accordance with TUPE arrangements. We will be keeping a close eye on this: the Care and Social Services Inspectorate Wales will look at the quality of care provided by Southern Cross, and we will continue our open and regular dialogue involving my officials, the UK Government and the company.

**Gwenda Thomas:** Diolch i chi am hynny, ac am eich ymrwymiad i les a phryderon y gweithlu, sydd yn adnabyddus. Yn fy ateb i Vaughan Gething, amlinellais y sefyllfa mewn perthynas â staffio cartrefi ac, fel y dywedwch, bydd y staff yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod trosiannol hwn yn unol â threfniadau TUPE. Byddwn yn cadw llygad barcud ar hyn: bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn edrych ar ansawdd y gofal a ddarperir gan Southern Cross, a byddwn yn parhau â'n deialog agored a rheolaidd a fydd yn cynnwys fy swyddogion, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r cwmni.

**Bethan Jenkins:** Minister, with regard to the task and finish group that you will be setting up, I urge you to ensure that it looks into the future prospects of care homes, and how they are run in Wales. We have councils that are currently looking to privatise care homes and it is not a unique case—other areas of Wales are looking into this very situation. I therefore urge you to look at this, because I do not think that we can look at Southern Cross in isolation, and I do not think that you adequately responded to my colleague Lindsay Whittle in this regard.

**Bethan Jenkins:** Weinidog, o ran y grŵp gorchwyl a gorffen y byddwch yn ei sefydlu, fe'ch anogaf i sicrhau ei fod yn edrych i mewn i ragolygon cartrefi gofal yn y dyfodol, a sut y cânt eu rhedeg yng Nghymru. Mae gennym gynghorau sydd ar hyn o bryd yn ystyried preifateiddio cartrefi gofal ac nid yw'n achos unigryw—mae rhannau eraill o Gymru yn edrych i mewn i'r union sefyllfa hon. Felly, yr wyf yn eich annog i edrych ar hyn, oherwydd nid wyf yn meddwl y gallwn edrych ar Southern Cross ar ei ben ei hun, ac nid wyf yn credu eich bod wedi ymateb yn ddigonol i'm cyd-Aelod Lindsay Whittle ar hyn.

**Gwenda Thomas:** I agree that we have to look at all aspects of this. I think that you are referring to market stability and, of course, the task group will look at the absolute need for that. It is already the case that the regulation of care providers under the Care Standards Act 2000 includes considering their financial ability to offer care. That said,

**Gwenda Thomas:** Yr wyf yn cytuno bod yn rhaid i ni edrych ar bob agwedd ar hyn. Credaf eich bod yn cyfeirio at sefydlogrwydd y farchnad ac, wrth gwrs, bydd y grŵp gorchwyl yn edrych ar yr angen absoliwt ar gyfer hynny. Mae eisoes yn wir bod rheoleiddio darparwyr gofal o dan y Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn cynnwys ystyried eu

the experience of Southern Cross has raised important questions, as you say, both in terms of commissioning and the regulation of services. We will, as part of our social services reforms, be examining what steps need to be taken to develop a better understanding of commercial risk, and what changes need to be made both in relation to commissioning practice and the regulatory framework to manage this. Of course, as you say, I have announced the setting up of a task group to examine the future care and accommodation needs of older people in Wales.

gallu ariannol i gynnig gofal. Wedi dweud hynny, mae'r profiad gyda Southern Cross wedi codi cwestiynau pwysig, fel y dywedwch, o ran comisiynu a rheoleiddio gwasanaethau. Fel rhan o'n diwygiadau i wasanaethau cymdeithasol, byddwn yn archwilio pa gamau y mae angen eu cymryd i ddatblygu dealltwriaeth well o risg fasnachol, a pha newidiadau y mae angen eu gwneud mewn perthynas ag arferion comisiynu a'r fframwaith rheoleiddio i reoli hyn. Wrth gwrs, fel y dywedwch, yr wyf wedi cyhoeddi sefydlu grŵp gorchwyl i edrych ar anghenion gofal a llety pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have two changes to make to this week's business. The First Minister's statement on the Government's legislative programme later this afternoon will be extended by 30 minutes so that it will now run for 90 minutes. The Minister for Education and Skills will make a statement to Plenary tomorrow afternoon following the publication of a report by Her Majesty's Inspectorate of Education and Training in Wales, Estyn, on Blaenau Gwent County Borough Council's education services. Business for the three weeks following recess is shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf ddau newid i'w cyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Bydd datganiad y Prif Weinidog ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn nes ymlaen y prynhawn yma yn cael ei ymestyn gan 30 munud fel y bydd yn awr yn rhedeg am 90 munud. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn brynhawn yfory yn dilyn cyhoeddi adroddiad gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn, ar wasanaethau addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos ar ôl y toriad ar y datganiad a chyhoeddiad busnes y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau'n electronig.

**Darren Millar:** I wonder whether we could have a statement from the Minister for Health and Social Services on the future of maternity and neonatal services in Wales. Your Government has promised to focus on delivery and, of course, this relates to delivery of quite a different kind. There is concern over the future of consultant-led maternity services at a number of hospitals in Wales, not least in north Wales, at those hospitals that serve my constituents. This is also the case in west Wales and I visited Withybush hospital just last week with the leader of the opposition. I understand that a debate is to take place after the summer recess, but some clarity on the future of

**Darren Millar:** Tybed a allem gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddyfodol gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru? Mae eich Llywodraeth wedi addo canolbwyntio ar ddarpariaeth ac, wrth gwrs, y mae hyn yn ymwneud â darpariaeth o fath cwbl wahanol. Mae pryder ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol mewn nifer o ysbytai yng Nghymru, yn enwedig yng ngogledd Cymru, yr ysbytai hynny sy'n gwasanaethu fy etholwyr. Mae hyn hefyd yn wir yng ngorllewin Cymru, ac ymwelais ag ysbyty Llwynhelyg wythnos diwethaf gydag arweinydd yr wrthblaid. Yr wyf yn deall y

maternity services is certainly needed in some parts of Wales at the moment.

bydd dadl yn cael ei chynnal ar ôl toriad yr haf, ond yn sicr mae angen rhywfaint o eglurder ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth mewn rhai rhannau o Gymru ar hyn o bryd.

**Jane Hutt:** You clearly welcome the fact that a debate has been tabled on maternity and neonatal services, and of course good work has already been done. We have worked with a range of organisations, including the Royal College of Midwives, to develop our maternity neonatal plans and to continue to enhance services for the benefit of mothers and babies. Indeed, £2 million-worth of Welsh Government funding has gone into improving the care for sick and premature babies, which improves clinical safety and neonatal intensive care services.

**Jane Hutt:** Yr ydych yn amlwg yn croesawu'r ffaith bod dadl wedi'i chyflwyno ar y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, ac wrth gwrs mae gwaith da eisoes wedi cael ei wneud. Yr ydym wedi gweithio gydag ystod o sefydliadau, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Bydwragedd, i ddatblygu ein cynlluniau mamolaeth newyddenedigol ac i barhau i wella gwasanaethau er lles mamau a babanod. Yn wir, mae gwerth £2 filiwn o arian Llywodraeth Cymru wedi mynd at wella'r gofal ar gyfer babanod sâl a chynamserol, sy'n gwella diogelwch clinigol a gwasanaethau gofal dwys newyddenedigol.

**Jenny Rathbone:** Could the Minister tell us how it might be possible to keep Members informed about matters relating to Southern Cross during the recess? We are reassured by the Deputy Minister for Children and Social Services' statement, but it is important that, during the recess, we are kept informed as to what the Welsh Government is doing to protect the interests of these vulnerable residents.

**Jenny Rathbone:** A allai'r Gweinidog ddweud wrthym sut y gallai fod yn bosibl i roi gwybod i Aelodau am faterion yn ymwneud â Southern Cross yn ystod y toriad? Yr ydym wedi cael sicrwydd gan ddatganiad y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, ond mae'n bwysig ein bod, yn ystod y toriad, yn cael ein hysbysu am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu buddiannau'r preswylwyr bregus hyn.

**Jane Hutt:** This important point has been raised by Members across the Chamber. I know that the Deputy Minister will want to ensure that Members are kept informed. I can assure the Member for Cardiff Central that that is something that we will be taking into account as Ministers.

**Jane Hutt:** Mae'r pwynt pwysig hwn wedi cael ei godi gan Aelodau ar draws y Siambr. Gwn y bydd y Dirprwy Weinidog yn awyddus i sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybodaeth. Gallaf sicrhau'r Aelod dros Ganol Caerdydd fod hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei gymryd i ystyriaeth fel Gweinidogion.

**Bethan Jenkins:** Would the Welsh Government be able to provide us with a statement as to whether it will have any input into the regulatory pathway that exists with regard to the BSkyB saga, which has now been referred to the Competition Commission? Sky broadcasts in Wales, although it does not take much interest in Wales. I would like to know what the Welsh Government will be doing, given that we may not be able to have as much input as we would have liked to that process during the

**Bethan Jenkins:** A fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi datganiad ynghylch a fydd yn cael unrhyw fewnbwn i'r llwybr rheoliadol sy'n bodoli o ran saga BSkyB, sydd bellach wedi ei gyfeirio at y Comisiwn Cystadlu? Mae Sky yn darlledu yng Nghymru, er nad yw'n ymddiddori rhyw lawer yng Nghymru. Hoffwn wybod beth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud, o gofio efallai na fyddwn yn gallu cael cymaint o fewnbwn ag y byddem wedi ei ddymuno yn y broses honno yn ystod y toriad.

recess period.

In addition, could the Welsh Government tell us whether it intends to comment on the UK Government's statement yesterday on removing the reference to S4C from Schedule 4 of the Public Bodies Bill to a new statutory funding clause, which would amend how S4C is funded? Does the Government intend to take part in consultation on that?

Yn ogystal, a allai Llywodraeth Cymru ddweud wrthym a ydyw'n bwriadu gwneud sylw ar ddatganiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddoe ar gael gwared ar y cyfeiriad at S4C o Atodlen 4 o'r Bil Cyrff Cyhoeddus i gymal cyllido statudol newydd, a fyddai'n diwygio sut y mae S4C yn cael ei ariannu? A ydyw'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar hynny?

**Jane Hutt:** The fact that the First Minister met the Secretary of State Jeremy Hunt when he went to London to meet the Chancellor, and that S4C was on that meeting's agenda, is important in terms of our responsibility. There will be no shortage of news over the summer months with regard to the other matters that you raised, which are not devolved.

**Jane Hutt:** Mae'r ffaith y cyfarfu'r Prif Weinidog â'r Ysgrifennydd Gwladol Jeremy Hunt pan aeth i Lundain i gwrdd â'r Canghellor ac y bu S4C ar agenda'r cyfarfod hwnnw yn bwysig o ran ein cyfrifoldeb. Ni fydd unrhyw brinder newyddion yn ystod misoedd yr haf o ran y materion eraill a godwyd gennych, sydd heb gael eu datganoli.

**Peter Black:** You know that there is some concern when the Minister for Education and Skills makes statements and speeches outside the Chamber rather than to Assembly Members. I note that a speech will be made tonight by the Minister for Housing, Regeneration and Heritage on the housing, regeneration and heritage agenda for the fourth term. Given that Members would like to quiz the Minister on his views on that agenda, are you likely to schedule a statement from that Minister on these subjects, so that we will be able to deal with those in the sort of detail that we would like to?

**Peter Black:** Yr ydych yn gwybod bod peth pryder pan fydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiadau ac areithiau y tu allan i'r Siambr yn hytrach nag i Aelodau'r Cynulliad. Nodaf y bydd araith yn cael ei thraddodi heno gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar yr agenda tai, adfywio a threftadaeth ar gyfer y pedwerydd tymor. O ystyried y byddai Aelodau'n dymuno holi'r Gweinidog am ei farn ar yr agenda hwnnw, a ydych yn debygol o drefnu datganiad gan y Gweinidog ar y pynciau hyn, fel y byddwn yn gallu eu trin gyda'r fath fanylder ag yr hoffem?

**Jane Hutt:** The Minister for Housing, Regeneration and Heritage, as a Minister in the Cabinet, is driving forward the Wales programme of government. I am pleased that housing is a priority, not just in terms of Cabinet support, but in terms of the work that the Minister is now doing in engaging with stakeholders and answering questions in this Chamber, not only during question time, but in terms of statements made.

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, fel Gweinidog yn y Cabinet, yn bwrw ymlaen â'r rhaglen lywodraethu yng Nghymru. Yr wyf yn falch bod tai yn flaenoriaeth, nid dim ond o ran cefnogaeth y Cabinet, ond o ran y gwaith y mae'r Gweinidog yn awr yn ei wneud o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn ateb cwestiynau yn y Siambr hon, nid yn unig yn ystod y cwestiynau, ond o ran y datganiadau a wnaed.

**Mark Isherwood:** I call for a Welsh Government statement on respite care, following the figures that were obtained and published last week from 21 of the 22 local authorities—excluding Anglesey—which showed that nine of the Welsh local

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar ofal seibiant yn dilyn y ffigurau a gafwyd ac a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan 21 o'r 22 awdurdod lleol—ac eithrio Ynys Môn—a oedd yn dangos bod naw o awdurdodau lleol Cymru

authorities had reduced how much they plan to spend. I know that you fully appreciate that respite care is essential for carers who need to take a break from caring for their families and loved ones. That statement could include reference to the role that the broader third sector in communities can play, given the workshops delivered last October and November in Bala and Cardiff by the Wales participatory budgeting unit for the Social Services Improvement Agency in Wales on devolving proportions of respite care budgets in Wales. Those workshops were attended by 14 local authorities, Disability Wales and others who were impressed by the solutions that could be delivered, which were identified by carers themselves and proposed by service users, rather than service providers, and could make existing funds go further.

wedi lleihau faint y maent yn cynllunio ei wario. Gwn eich bod yn llwyr werthfawrogi bod gofal seibiant yn hanfodol i ofalwyr sydd angen cael seibiant oddi wrth ofalu am eu teuluoedd a'u hanwyliaid. Gallai'r datganiad hwnnw gynnwys cyfeiriad at y rôl y gall y trydydd sector ehangach mewn cymunedau ei chwarae, o ystyried y gweithdai a gynhaliwyd fis Hydref y llynedd a mis Tachwedd yn y Bala a Chaerdydd gan uned cyllidebu cyfranogol Cymru ar gyfer yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ar ddatganoli cyfrannau o gyllidebau gofal seibiant yng Nghymru. Yn y gweithdai hynny yr oedd cynrychiolwyr 14 awdurdod lleol, Anabledd Cymru ac eraill a oedd yn meddwl yn fawr o'r datrysiadau y gellid eu darparu, a gafodd eu nodi gan ofalwyr ac a gynigiwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn hytrach na darparwyr gwasanaethau, ac a allai wneud i'r cyllid presennol fynd ymhellach.

**Jane Hutt:** I know that Mark Isherwood would recognise that the important role that respite care plays in supporting individuals and families is at the top of the Government's agenda. We are demonstrating that by protecting the social services budget and through the local government settlement, and funding for social services will increase in cash terms by £35 million by 2013-14. As Mark Isherwood said, it is a matter for local authorities to ensure that they have the necessary respite placements. It is about consulting, as we have done, on improved access to respite care, and we are considering responses from local authorities.

**Jane Hutt:** Gwn y byddai Mark Isherwood yn cydnabod bod y rôl bwysig y mae gofal seibiant yn ei chwarae wrth gefnogi unigolion a theuluoedd ar frig agenda'r Llywodraeth. Yr ydym yn dangos hynny drwy amddiffyn y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol a thrwy'r setliad i lywodraeth leol, a bydd ariannu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cynyddu yn nhermau arian parod o £35 miliwn erbyn 2013-14. Fel y dywedodd Mark Isherwood, mae'n fater i awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt y lleoliadau seibiant angenrheidiol. Mae'n ymwneud ag ymgynghori, fel yr ydym wedi'i wneud, ar fynediad gwell i ofal seibiant, ac yr ydym yn ystyried ymatebion gan awdurdodau lleol.

**Andrew R.T. Davies:** Minister for Finance and Leader of the House, the First Minister commissioned a report from the Food Standards Agency into food hygiene as a result of the findings of the Pennington inquiry and Consumer Focus Wales's progress report, which was presented here in the Assembly some 12 or 18 months ago. I understand that the Food Standard Agency's report arrived in the First Minister's department in May. Are you aware of any intention on the part of the First Minister, or, indeed, of the Welsh Government as a whole, to make a statement about the report and the actions that the Government might take given

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, comisiynodd y Prif Weinidog adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i hylendid bwyd o ganlyniad i ganfyddiadau ymchwiliad Pennington ac adroddiad cynnydd Llais Defnyddwyr Cymru, a gyflwynwyd yma yn y Cynulliad ryw 12 neu 18 mis yn ôl. Deallaf fod adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyrraedd adran y Prif Weinidog ym mis Mai. A ydych chi'n ymwybodol a ydyw'r Prif Weinidog, neu, yn wir, Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, yn bwriadu gwneud datganiad am yr adroddiad a'r camau gweithredu y gallai'r Llywodraeth eu cymryd

that it is now in possession of it? If you are unaware of such an intention, could you write to me to let me know how the report will be dealt with in Government departments?

o ystyried ei bod yn awr yn meddu ar yr adroddiad? Os ydych yn ymwybodol o'r fath fwriad, a allech ysgrifennu ataf i adael i mi wybod sut y bydd yr adroddiad yn cael ei drin yn adrannau'r Llywodraeth?

**Jane Hutt:** This is a cross-cutting matter for a number of Ministers, and I will ask the First Minister to report on the progress that has been made following the receipt of the report.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn fater trawsbynciol ar gyfer nifer o Weinidogion, a byddaf yn gofyn i'r Prif Weinidog i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn dilyn derbyn yr adroddiad.

**Nick Ramsay:** I am sure that the Leader of the House is aware that, last week—I think it was last Tuesday—a very successful event was held in the Pierhead building, which was the launch of the report on Parkinson's. It was attended by a large number of Assembly Members. I sat at a table with Gwyn Price and the Plaid Cymru Member for South Wales East. We were most concerned to hear that, with regard to service provision for Parkinson's patients, throughout south-east Wales there is only one dedicated nurse. Following on from what Lindsay Whittle, Gwyn Price and I heard there, could the Minister for health make a statement about the action that is being taken and the guidance that is being given to the Aneurin Bevan Local Health Board to see that everything is being done to ensure that sufferers of Parkinson's disease in south-east Wales have equal access to the treatment that they require? Although Parkinson's is an incurable condition, having a dedicated Parkinson's nurse as opposed to a normal nurse can make a huge difference to the quality of life of a Parkinson's sufferer.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn siŵr bod Arweinydd y Tŷ yn ymwybodol, wythnos diwethaf—yr wyf yn meddwl mai dydd Mawrth ydoedd—y cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus iawn yn adeilad y Pierhead, sef lansiad yr adroddiad ar glefyd Parkinson. Daeth nifer fawr o Aelodau Cynulliad iddo. Eisteddais wrth fwrdd gyda Gwyn Price ac Aelod Plaid Cymru dros Ddwyrain De Cymru. Yr oeddem yn bryderus iawn o glywed, o ran darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion Parkinson ledled de-ddwyrain Cymru, mai dim ond un nyrs benodedig y sydd. Yn dilyn yr hyn a glywodd Lindsay Whittle, Gwyn Price a minnau yno, a all y Gweinidog dros iechyd wneud datganiad am y camau sy'n cael eu cymryd a'r arweiniad sy'n cael ei roi i Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan fel bod popeth yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod dioddefwyr clefyd Parkinson yn ne-ddwyrain Cymru yn cael mynediad cyfartal at y driniaeth y mae arnynt ei hangen? Er bod clefyd Parkinson yn gyflwr na ellir ei wella, mae cael nyrs clefyd Parkinson pwrpasol yn hytrach na nyrs arferol yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i ansawdd bywyd y dioddefwr o glefyd Parkinson.

**Jane Hutt:** The Member for Monmouth will know that this is an area of concern for Assembly Members across the Chamber. We have the Wales care pathways, which were proposed by the Welsh neuroscience expert group. That was done as part of an independent review, which recommended that the generic characteristics that local health boards need to ensure are embedded in the care pathways include Parkinson's disease. The Wales care pathways were published in August 2010. It is for Members to ensure that they are kept up to date by their health boards on the delivery of those important care pathways.

**Jane Hutt:** Bydd yr Aelod dros Fynwy yn gwybod bod hwn yn faes sy'n peri pryder i Aelodau'r Cynulliad ar draws y Siambr. Mae gennym lwybrau gofal Cymru, a gynigiwyd gan y grŵp arbenigol niwrowyddoniaeth yng Nghymru. Gwnaethpwyd hynny fel rhan o adolygiad annibynnol, a oedd yn argymell bod y nodweddion generig y mae angen i fyrddau iechyd lleol sicrhau sydd yn cael eu hymgorffori yn y llwybrau gofal yn cynnwys clefyd Parkinson. Cyhoeddwyd llwybrau gofal Cymru ym mis Awst 2010. Mater i Aelodau yw sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan eu byrddau iechyd ar ddarparu'r llwybrau gofal pwysig

hynny.

## Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Atodol
## Motion to Approve a Supplementary Budget

*Cynnig NDM4748 Jane Hutt*

*Motion NDM4748 Jane Hutt*

*Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30 , yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 21 Mehefin 2011.*

*To propose that the Assembly, in accordance with Standing Order 20.30, approves the Supplementary Budget for the financial year 2011-12 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 21 June 2011.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

It is our usual practice to have two in-year supplementary budgets each year, and I am continuing with that arrangement this year. I laid the first supplementary budget on 21 June. The main purpose of this supplementary budget is to align 2011-12 budget structures with the changes to ministerial portfolios and responsibilities that were announced by the Welsh Government in May. It is worth noting, however, that the changes are entirely structural and have no impact on the total resources that are allocated overall to Welsh Government departments as set out in the final budget that was approved by the Assembly in February.

Ein trefn arferol yw cael dwy gyllideb atodol bob blwyddyn, ac yr wyf yn parhau â'r trefniant hwnnw eleni. Gosodais y gyllideb atodol gyntaf ar 21 Mehefin. Prif bwrpas y gyllideb atodol hon yw alinio strwythurau cyllidebol 2011-12 â'r newidiadau i bortffolios a chyfrifoldebau Gweinidogion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod y newidiadau yn gwbl strwythurol ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar gyfanswm yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu yn gyfan gwbl i adrannau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y gyllideb derfynol a gymeradwyodd y Cynulliad ym mis Chwefror.

The supplementary budget also makes a small number of allocations from reserves that have been agreed since the final budget was approved by the Assembly in March. This includes an additional £21.5 million to cut orthopaedic waiting times this year and £5 million for Adapt, which is a scheme to help the public sector to meet workforce challenges. A total of £18.4 million has been allocated to environment and sustainable development for animal health and welfare, and £200,000 has been allocated to central services and administration for running costs associated with the devolution of animal health and welfare.

Mae'r gyllideb atodol hefyd yn gwneud nifer fach o ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn y cytunwyd arnynt ers i'r gyllideb derfynol gael ei chymeradwyo gan y Cynulliad ym mis Mawrth. Mae hyn yn cynnwys £21.5 miliwn yn ychwanegol i dorri amserau aros orthopedig eleni a £5 miliwn ar gyfer Adapt, sy'n gynllun i helpu'r sector cyhoeddus i gwrdd â heriau gweithlu. Mae cyfanswm o £18.4 miliwn wedi cael ei ddyrannu i amgylchedd a datblygu cynaliadwy ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid, ac mae £200,000 wedi cael ei ddyrannu i wasanaethau canolog a gweinyddu ar gyfer y costau rhedeg sy'n gysylltiedig â datganoli maes iechyd a lles anifeiliaid.

3.00 p.m.

Finally, £8.8 million has been allocated for the cost of the Assembly elections, and

Yn olaf, mae £8.8 miliwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer cost etholiadau'r

£150,000 has been allocated to the National Botanic Garden of Wales. These changes are an uplift in departmental allocations as set out in the final budget. Other changes include adjustments to our resource and capital baselines as a result of consequentials and transfers received since the final budget and revised annually managed expenditure forecasts.

Cynulliad, ac mae £150,000 wedi cael ei ddyrannu i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn cynyddu dyraniadau adrannol fel y nodir yn y gyllideb derfynol. Mae newidiadau eraill yn cynnwys addasiadau i'n llinellau sylfaen adnoddau a chyfalaf o ganlyniad i symiau canlyniadol a throsglwyddiadau a dderbyniwyd ers y gyllideb derfynol a rhagolygon gwariant a reolir yn flynyddol wedi eu diwygio.

An explanatory note providing a detailed description of all of these changes, along with a detailed schedule of budget transfers, was published alongside the budget motion. Bringing forward a supplementary budget now, rather than waiting until later in the year to include those changes in a single supplementary budget, which would be after the draft budget, will, I hope, ensure greater transparency of the changes to budget structures in line with ministerial portfolios. Restating the indicative allocations for 2012-13 and 2013-14, based on the new structure, will also, I hope, help to facilitate scrutiny of next year's draft budget.

Cyhoeddwyd nodyn esboniadol yn darparu disgrifiad manwl o bob un o'r newidiadau hyn, ynghyd â rhestr fanwl o drosglwyddiadau cyllidebol, ochr yn ochr â'r cynnig cyllidebol. Bydd cyflwyno cyllideb atodol yn awr, yn hytrach nag aros tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn i gynnwys y newidiadau hynny mewn cyllideb atodol sengl, a fyddai ar ôl y gyllideb ddrafft, yr wyf yn gobeithio, yn sicrhau mwy o dryloywder am y newidiadau i strwythurau cyllidebol yn unol â phortffolios gweinidogol. Bydd ailddatgan y dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-13 a 2013-14, yn seiliedig ar y strwythur newydd, hefyd, yr wyf yn gobeithio, yn helpu i hwyluso craffu ar gyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf.

Finally, I thank the Assembly's Finance Committee for its scrutiny of the supplementary budget and for its report, which was published last week. As I said at the committee, I very much value its role in scrutinising budget proposals. I welcome the committee's positive comments, particularly on the presentation of the supplementary budget and the constructive suggestions for further improving transparency.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad am graffu ar y gyllideb atodol ac am ei adroddiad, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Fel y dywedais yn y pwyllgor, yr wyf yn gwerthfawrogi ei rôl o ran craffu cynigion cyllideb yn fawr iawn. Yr wyf yn croesawu sylwadau cadarnhaol y pwyllgor, yn enwedig ar sut y cyflwynwyd y gyllideb atodol a'r awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwella tryloywder ymhellach.

I also welcome the committee's position on the new budget exchange system, which replaces the end-year flexibility scheme. It is essential that the new system fully recognises the realities of devolution and the responsibilities of the devolved administration to deliver for the people of Wales. Under the new system, we would have to notify the UK Government of any planned underspend by November each year. In 2010-11, we ensured that we maximised the use of our resources, and we achieved our best ever outturn against budget. Provisional figures show that we underspent by a small residual amount of £3.5 million in capital and

Yr wyf hefyd yn croesawu safbwynt y pwyllgor ar y system cyfnewid cyllideb newydd, sy'n disodli'r cynllun hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Mae'n hanfodol bod y system newydd yn cydnabod yn llawn realiti datganoli a chyfrifoldebau'r weinyddiaeth ddatganoledig i gyflawni dros bobl Cymru. O dan y system newydd, byddai'n rhaid i ni roi gwybod i Lywodraeth y DU am unrhyw danwariant a gynlluniwyd erbyn mis Tachwedd bob blwyddyn. Yn 2010-11, bu i ni sicrhau ein bod wedi manteisio ar ein defnydd o'n hadnoddau i'r eithaf, a chyflawnasom ein halldro gorau erioed yn erbyn cyllideb. Mae ffigurau dros dro yn

nearly £19 million in revenue. This relatively small underspend, which equates to only 0.14 per cent of revenue and 0.2 per cent of capital, is a credit to strong financial management within the Welsh Government, and we feel that this is money that we should be able to retain. Under the new scheme, this is money that we would lose.

dangos ein bod wedi tanwario ychydig bach dros ben o £3.5 miliwn mewn cyfalaf a bron £19 miliwn mewn refeniw. Mae'r tanwariant cymharol fach hwn, sy'n cyfateb i ddim ond 0.14 y cant o refeniw a 0.2 y cant o gyfalaf, yn glod i'r rheolaeth ariannol gref o fewn Llywodraeth Cymru, a theimlwn fod hwn yn arian y dylem allu ei gadw. O dan y cynllun newydd, mae hwn yn arian y byddem yn ei golli.

The Ministers for finance of the devolved administrations share our concerns, and we will be pressing for greater flexibility in how the scheme operates at our quadrilateral meeting on Thursday.

Mae Gweinidogion cyllid y gweinyddiaethau datganoledig yn rhannu ein pryderon, a byddwn yn pwyso am fwy o hyblygrwydd yn y modd y mae'r cynllun yn gweithredu yn ein cyfarfod pedairochrog ddydd Iau.

**Ieuan Wyn Jones:** I do not have any substantial questions on the supplementary budget. As I think the Minister has indicated, this is an exercise that needs to take into account the new ministerial portfolios, together with the allocation of resources that had been agreed by the previous Government.

**Ieuan Wyn Jones:** Nid oes gennyf unrhyw gwestiynau sylweddol ar y gyllideb atodol. Fel yr wyf yn meddwl bod y Gweinidog wedi ei nodi, mae hyn yn ymarfer sydd angen ystyried y portffolios gweinidogol newydd, ynghyd â dyrannu adnoddau a oedd wedi cael eu cytuno gan y Llywodraeth flaenorol.

I have two short questions. In committee, you gave us an indication that the changes to the way in which student finance is to be calculated are the result of changes in the way that the Treasury calls for those payments to be shown in the accounts. Can you confirm that that will not impact in cash terms on your budget? Also, do the announcements that have now been made on the issue of student fees call for you to revisit some of your projections for spending in future years?

Mae gennyf ddau gwestiwn byr. Yn y pwyllgor, dynodwyd gennych fod y newidiadau yn y ffordd y bydd cyllid myfyrwyr yn cael ei gyfrifo yn ganlyniad i newidiadau yn y ffordd y mae'r Trysorlys yn galw am i'r taliadau hynny gael eu dangos yn y cyfrifon. A allwch gadarnhau na fydd hynny yn effeithio yn nhermau arian parod ar eich cyllideb? Yn ogystal, a ydyw'r cyhoeddiadau sydd wedi cael eu gwneud erbyn hyn am ffioedd myfyrwyr yn alwad i chi ailedrych ar rai o'ch amcanestyniadau ar gyfer gwariant yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** As Ieuan Wyn Jones said, the supplementary budget is mainly administrative in nature. It is important that we align the budget structures to the changes in ministerial portfolios before we publish a draft budget.

**Jane Hutt:** Fel y dywedodd Ieuan Wyn Jones, mae'r gyllideb atodol yn bennaf yn weinyddol ei natur. Mae'n bwysig ein bod yn alinio strwythurau'r gyllideb i'r newidiadau mewn portffolios gweinidogol cyn i ni gyhoeddi cyllideb ddrafft.

I replied to the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies, on the matter of student finance on 7 July. I can confirm that the change is technical in nature; there will be no impact on student finance. There is an annex to indicate this—

Atebais gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies, am gyllid myfyrwyr ar 7 Gorffennaf. Gallaf gadarnhau bod y newid yn dechnegol ei natur; ni fydd unrhyw effaith ar gyllid myfyrwyr. Mae atodiad i ddangos hyn—

**The Presiding Officer:** Order. This is a

**Y Llywydd:** Trefn. Mae hon yn ddadl ar

debate on a motion, and not a statement. I call Mike Hedges.

gynnig, nid datganiad. Galwaf ar Mike Hedges.

**Mike Hedges:** I welcome the supplementary budget. The importance of making full use of available resources is something that the Minister appears to have recognised, and it is something that I hope will be carried forward. The alignment with ministerial portfolios will make the budget transparent to scrutiny by the Finance Committee and the Assembly. Will the Minister ask the Minister for Local Government and Communities to ask local authorities to do the same things when they change their budgets, to make them easier to scrutinise?

**Mike Hedges:** Croesawaf y gyllideb atodol. Ymddengys bod y Gweinidog wedi deall pwysigrwydd gwneud defnydd llawn o’r adnoddau sydd ar gael, ac mae’n rhywbeth yr wyf yn gobeithio y caiff ei gario ymlaen. Bydd yr aliniad â phortffolios y Gweinidogion yn gwneud y gyllideb yn dryloyw ar gyfer craffu gan y Pwyllgor Cyllid a’r Cynulliad. A wnaiff y Gweinidog ofyn i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn i awdurdodau lleol i wneud yr un pethau pan fyddant yn newid eu cyllidebau, i’w gwneud yn haws i’w craffu?

I strongly support the transfer of £21.5 million targeted funding to reduce waiting times for orthopaedic services. It is something that I believe will be of great benefit to my constituents. I also strongly support the transfer of £5 million in respect of funding for Adapt, the career transition single point of contact service. These are examples of using resources for the benefit of the people of Wales, and I strongly support the motion.

Yr wyf yn cefnogi’n gryf trosglwyddo £21.5 miliwn o arian wedi’i dargedu i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau orthopedeg. Credaf y bydd o fudd mawr i’m hetholwyr. Yr wyf hefyd yn cefnogi’n gryf trosglwyddo £5 miliwn o ran cyllid ar gyfer Adapt, y gwasanaeth pwynt unigol o gyswllt ar gyfer pontio gyrfa. Mae’r rhain yn enghreifftiau o ddefnyddio adnoddau er budd pobl Cymru, ac yr wyf yn cefnogi’r cynnig yn gryf.

**Peter Black:** I also support the motion. The supplementary budget is largely a technical one. I just want to reinforce the point that the Minister made in relation to what used to be known as end-year flexibility. It is important that the Assembly once again reaffirms the need for the Welsh Government to have the flexibility to carry money forward. The committee had a particular concern about the deadlines that were being imposed by the Westminster Government with regard to when the Government here needed to decide whether money should be carried forward. There was unanimity in the Finance Committee that that needed to be later in the financial year, to give the Welsh Government some flexibility, and that the current deadline was very difficult to work with and could well lead to underspends—money that would not be spent and that would have to be returned to Westminster. That point needs to be underlined and sent back to Westminster. I am happy, on behalf of the Welsh Liberal Democrats, to add my voice to that concern.

**Peter Black:** Yr wyf innau yn cefnogi’r cynnig. Mae’r gyllideb atodol yn bennaf yn un technegol. Yr wyf eisiau atgyfnerthu’r pwynt a wnaeth y Gweinidog mewn perthynas â’r hyn a arferai gael ei adnabod fel hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Mae’n bwysig bod y Cynulliad unwaith eto yn cadarnhau bod angen i Lywodraeth Cymru gael yr hyblygrwydd i gario arian ymlaen. Yr oedd gan y pwyllgor bryder penodol ynghylch y terfynau amser a oedd yn cael eu gosod gan y Llywodraeth yn San Steffan ynghylch pryd yr oedd angen i’r Llywodraeth hon benderfynu a ddylai arian gael ei gario ymlaen. Yr oedd unfrydedd yn y Pwyllgor Cyllid bod angen i hynny fod yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol, er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru, a bod y terfyn amser ar hyn o bryd yn anodd iawn i weithio gydag ef, a gallai hefyd arwain at danwariant—arian na fyddai’n cael ei wario ac y byddai’n rhaid ei ddychwelyd i San Steffan. Mae angen tanlinellu’r pwynt hwnnw a’i anfon yn ôl i San Steffan. Yr wyf yn fodlon, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ychwanegu fy llais at y pryder

hwnnw.

The only question that I have for the Minister—I know that this is a motion and not a statement, but perhaps she can address it in her summing up—relates to whether there might be a need for a further supplementary budget with regard to the announcement yesterday on setting tuition fees of £9,000 as opposed to the limit of £7,000 on which the Government's calculations have been based. Given that the Government used the figure of £7,000 to ensure that its sums added up, the fact that we are now looking at an average of about £8,800 means that further moneys may need to be found. Can the Minister confirm whether a further transfer will be necessary? If so, is she likely to be bringing back another supplementary budget or will she incorporate that in the second supplementary budget of this financial year?

Mae'r unig gwestiwn sydd gennyf i'r Gweinidog—gwn mai cynnig yw hwn ac nid datganiad, ond efallai y gall hi ei ateb wrth ymateb i'r ddadl—yn ymwneud â pha un ai a fydd angen am gyllideb atodol bellach o ran cyhoeddiad ddoe ar bennu ffioedd dysgu o £9,000 yn hytrach na'r terfyn o £7,000 y mae cyfrifiadau'r Llywodraeth wedi cael eu seilio arnynt. O ystyried bod y Llywodraeth wedi defnyddio'r ffigur o £7,000 i sicrhau bod ei symiau yn gwneud y cyfanswm cywir, mae'r ffaith ein bod yn awr yn edrych ar gyfartaledd o ryw £8,800 yn golygu y gall fod angen dod o hyd i arian pellach. A all y Gweinidog gadarnhau a fydd angen trosglwyddiad pellach? Os felly, a ydyw hi'n debygol o ddychwelyd â chyllideb atodol arall neu a fydd yn ymgorffori hynny yn ail gyllideb atodol y flwyddyn ariannol hon?

**Nick Ramsay:** The Welsh Conservatives will be supporting the supplementary budget. As the Minister for Finance has said in comments to the Finance Committee and in the Chamber today, and as we recognise, this is a broadly technical supplementary budget, in part due to the realignment of portfolios. Following on from previous comments—I am also probably treating this like a statement; I will try to 'motionise' it—I have two questions that I would like the Minister to respond to in summing up. The one recommendation of the committee was that steps be taken to improve transparency and presentation of the budget. Can you clarify, Minister, how you intend to improve transparency? Although good steps have been taken, there is still some way to go.

**Nick Ramsay:** Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r gyllideb atodol. Fel y mae'r Gweinidog Cyllid wedi ei ddweud wrth y Pwyllgor Cyllid ac yn y Siambr heddiw, ac fel yr ydym yn cydnabod, mae hon yn gyllideb atodol sydd yn fras yn dechnegol, yn rhannol oherwydd yr adlinio portffolios. Yn dilyn sylwadau blaenorol—yr wyf yn ôl pob tebyg hefyd yn trin hyn fel datganiad; fe geisiaf ei droi yn gynnig—mae gennyf ddau gwestiwn yr hoffwn i'r Gweinidog ymateb iddynt wrth grynhoi. Un argymhelliad gan y pwyllgor oedd y dylid cymryd camau i wella tryloywder a chyflwyniad y gyllideb. A allwch egluro, Weinidog, sut y bwriadwch wella tryloywder? Er bod camau da wedi'u cymryd, mae cryn ffordd i fynd eto.

Secondly, with regard to a point that has been broadly made by Peter Black about the issue of the new budget exchange system by which we access money that has been underspent, in previous years, the Finance Committee has often criticised end-year flexibility and suggested that it could be done better. However, there are clearly issues with the new budget exchange system, primarily, as Peter Black has said, with regard to the fact that the Welsh Government has to notify the Treasury of underspends so far in advance. You have told the Finance Committee that

Yn ail, o ran pwynt a wnaed yn fras gan Peter Black am y system cyfnewid cyllideb newydd a ddefnyddiwn i gael gafael ar arian sydd wedi cael ei danwario, yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor Cyllid yn aml wedi beirniadu hyblygrwydd diwedd blwyddyn ac awgrymu y gellid ei wneud yn well. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod trafferthion gyda'r system cyfnewid cyllideb newydd, yn bennaf, fel y dywedodd Peter Black, o ran y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gorfod hysbysu'r Trysorlys am danwariant mor bell ymlaen llaw. Yr ydych

you intend to enter a dialogue with the Westminster Government about the ability to access this money to ensure that it is not lost. In summing up, can you tell us what progress you have made in that dialogue with the Westminster Government and how you think underspends can be protected? It is on both sides that we need to make progress. It is not just a case of the Westminster Government accepting that the current system is not perfect; we need the Welsh Government to put forward a coherent case so that we ensure, as Peter Black said, that we are able to access those underspends in difficult financial times.

wedi dweud wrth y Pwyllgor Cyllid am eich bwriad i ddechrau deialog gyda Llywodraeth San Steffan am y gallu i gael gafael ar yr arian hwn er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei golli. Wrth grynhoi, a allwch ddweud wrthym pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud yn y trafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan a sut yr ydych yn meddwl y gellir diogelu tanwariant? Mae agen i ni wneud cynnydd ar y ddwy ochr. Nid yw'n unig yn achos o gael Llywodraeth San Steffan i dderbyn nad yw'r system bresennol yn berffaith; mae angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno achos sy'n dal dŵr er mwyn i ni sicrhau, fel y dywedodd Peter Black, y gallwn gael mynediad at y tanwariant hwnnw mewn cyfnodau ariannol anodd.

**Julie Morgan:** I also wish to express concern about Wales and the Welsh Government being treated in the same way as a UK Government department with regard to the budget exchange system. Most of the comments that I was going to make have already been made, but it is obvious that the Welsh Government will clearly be disadvantaged if planned underspends are to be agreed in November. As the Finance Committee's report says, public expenditure is volatile and November is very early to make a decision about planned underspends. So, I urge the Minister to continue that struggle.

**Julie Morgan:** Yr wyf hefyd yn dymuno mynegi pryder ynghylch trin Cymru a Llywodraeth Cymru yn yr un modd ag un o adrannau Llywodraeth y DU o ran y system cyfnewid cyllideb. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau yr oeddwn yn mynd i'w gwneud eisoes wedi cael eu gwneud, ond mae'n amlwg y bydd Llywodraeth Cymru o dan anfantais glir os yw tanwariant a gynlluniwyd i fod i gael ei gytuno ym mis Tachwedd. Fel y dywed adroddiad y Pwyllgor Cyllid, mae gwariant cyhoeddus yn gyfnewidiol ac mae mis Tachwedd yn gynnar iawn i wneud penderfyniad am danwariant a gynlluniwyd. Felly, yr wyf yn annog y Gweinidog i barhau'r frwydr.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I thank Members who have contributed. I have provided clarification on Ieuan Wyn Jones's point on the technical nature of the provision of student loans; the issue is also highlighted in the letter to the Chair of the Finance Committee. I wish to reassure Ieuan Wyn Jones and Peter Black that we are confident in our costings on tuition fees up to 2016-17. We have done considerable financial modelling to ensure that these pioneering changes are sustainable. There is no indication that a further supplementary budget would be needed.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Diolch i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu. Yr wyf wedi darparu eglurhad ar bwynt Ieuan Wyn Jones ar natur dechnegol darparu benthyciadau i fyfyrwyr; mae'r mater hefyd yn cael ei amlygu yn y llythyr at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Hoffwn roi sicrwydd i Ieuan Wyn Jones a Peter Black ein bod yn hyderus yn ein costio o ran ffioedd dysgu hyd at 2016-17. Yr ydym wedi gwneud modelu ariannol sylweddol i sicrhau bod y newidiadau arloesol hyn yn gynaliadwy. Nid oes unrhyw arwydd y byddai angen cyllideb atodol bellach.

**Peter Black:** Thank you for taking an intervention. The costings that were published when the announcement was made were based on a figure of £7,000. Have you

**Peter Black:** Diolch i chi am dderbyn ymyriad. Roedd y costio a gyhoeddwyd pan wnaed y cyhoeddiad yn seiliedig ar ffigur o £7,000. A ydych chi wedi ailweithio eich

reworked your costings? If so, when will they be published? Are you going to have to carry out further costings?

costio? Os felly, pryd fydd yn cael ei gyhoeddi? A ydych yn mynd i orfod cynnal costio pellach?

**Jane Hutt:** In his response to questions, the First Minister provided an assurance that we would give an update on the financial modelling; that will be shared with the Assembly as appropriate.

**Jane Hutt:** Yn ei ymateb i gwestiynau, rhoddodd y Prif Weinidog sicrwydd y byddem yn rhoi diweddariad ar y modelu ariannol; caiff ei rannu gyda'r Cynulliad fel sy'n briodol.

I also thank Nick, Peter and Julie for making clear their support for negotiations on the negative impact that the new budget exchange system would have on flexibility. I will be discussing this on Thursday with fellow Ministers for finance at our quadrilateral meeting. As Julie Morgan pointed out, we should not be treated like another Whitehall department. I am grateful to Mike for his recognition that the transfer of £21.5 million in orthopaedic funding will make a difference to the lives of people in Wales; that is part of an allocation of £63 million that we will make over the next three years to improve orthopaedic services.

Diolchaf hefyd i Nick, Peter a Julie am wneud yn glir eu bod yn cefnogi trafodaethau ar yr effaith negyddol y byddai'r system cyfnewid cyllideb newydd yn ei chael ar hyblygrwydd. Byddaf yn trafod hyn ddydd Iau gyda chyd-Weinidogion cyllid yn ein cyfarfod pedairochrog. Fel y dywedodd Julie Morgan, ni ddylem gael ein trin fel adran Whitehall arall. Yr wyf yn ddiolchgar i Mike am ei gydnabyddiaeth y bydd trosglwyddo £21.5 miliwn o gyllid orthopedig yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru; mae hynny'n rhan o'r dyraniad o £63 miliwn y byddwn yn ei wneud yn ystod y tair blynedd nesaf i wella gwasanaethau orthopedig.

**The Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei gytuno. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, yr wyf, felly, yn datgan bod y cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynigion i Gymeradwyo Gorchymyn (Diwygio) Gorchymyn Eithrio Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Cymru) 2011 a Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011
## Motions to Approve the Construction Contracts (England and Wales) Exclusion Order 1998 (Amendment) (Wales) Order 2011 and the Scheme for Construction Contracts (England and Wales) Regulations 1998 (Amendment) (Wales) Regulations 2011

**The Presiding Officer:** It is proposed under Standing Order No. 12.24 that these two items be debated together, but voted on separately, unless any Member objects. I see that there are no objections.

**Y Llywydd:** Cynigir o dan Reol Sefydlog Rhif 12.24 y dylid trafod y ddwy eitem gyda'i gilydd, ond pleidleisio arnynt ar wahân, oni bai fod Aelod yn gwrthwynebu. Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad.

*Cynnig NDM4781 Jane Hutt*

*Motion NDM4781 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order*

*27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2011.*

*Approves that the draft The Construction Contracts (Wales) Exclusion Order 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 21 June 2011.*

*Cynnig NDM4782 Jane Hutt*

*Motion NDM4782 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2011.*

*Approves that the draft The Scheme for Construction Contracts (England and Wales) Regulations 1998 (Amendment) (Wales) Regulations 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 20 June 2011.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motions.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynigion.

I welcome this opportunity to introduce the two statutory instruments before you. The Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 sought to address common co-ordination failures between contractors. It gave parties to a construction contract the right to refer a dispute to adjudication, provided entitlement to stage payments and required that contracts should have an adequate mechanism for dealing with what should be paid and when. Where construction contracts do not comply with these requirements, the relevant provisions of the Scheme for Construction Contracts (England and Wales) Regulations 1998 applied. Part 8 of the Local Democracy, Economic Development and Construction Act 2009 followed extensive consultation undertaken jointly by the Welsh, Scottish and Whitehall Governments with industry stakeholders in 2005 and 2007. It amended the 1996 Act, where weaknesses had been identified to deal with common areas of disputes, to reduce burdens and to yield cost savings to both contractors and subcontractors. These amendments were passed in primary legislation in 2009 and are to be accompanied by related changes to secondary legislation. These changes are the subject of the two statutory instruments that

Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno'r ddau offeryn statudol sydd o'ch blaenau. Yr oedd Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 yn ceisio mynd i'r afael â methiannau cydlynu cyffredin rhwng contractwyr. Rhoddodd yr hawl i bartïon i gontract adeiladu gyfeirio anghydfod gael ei ddyfarnu, darparodd hawl i drefnu taliadau a gwnaeth yn ofynnol bod gan gontractau fecanwaith digonol ar gyfer ymdrin â'r hyn a ddylai gael ei dalu a pha bryd. Lle nad yw contractau adeiladu yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, mae darpariaethau perthnasol y Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 yn weithredol. Dilynodd Rhan 8 Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 ymgynghori helaeth a gynhaliwyd ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a Whitehall gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant yn 2005 a 2007. Diwygiodd Ddeddf 1996, lle cafodd gwendidau eu nodi yn ymdrin â meysydd cyffredin o anghydfodau, i leihau beichiau ac i arwain at arbedion cost i gontractwyr ac isgontractwyr. Pasiwyd y gwelliannau hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol yn 2009 ac maent i fynd gyda newidiadau cysylltiedig i is-ddeddfwriaeth. Mae'r newidiadau hyn yn destun y ddau offeryn statudol yr ydym yn eu hystyried

we are considering today, and equivalent instruments are to be made in Scotland and England.

heddiw, a bydd offerynnau cyfatebol yn cael eu gwneud yn yr Alban a Lloegr.

The changes proposed in the Scheme for Construction Contracts (England and Wales) Regulations 1998 (Amendment) (Wales) Regulations 2011 are intended to increase transparency and clarity over payments to assist management of cash flow and encourage the parties to resolve disputes by adjudication wherever that is appropriate.

Bwriad y newidiadau a gynigir yn y Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011 yw cynyddu tryloywder ac eglurder ynghylch taliadau i helpu rheoli llif arian ac annog y partïon i ddatrys anghydfodau drwy ddyfarnu, lle bynnag y bo hynny'n briodol.

3.15 p.m.

The Construction Contracts (England and Wales) Exclusion Order 1998 (Amendment) (Wales) Order 2011 is intended to supplement the Construction Contracts (England and Wales) Exclusion Order 1998. The 2009 Act supplements the 2006 Act's prohibition of 'pay when paid' clauses. It does this by preventing contracts from making payment conditional on the performance of an obligation under another contract. The 1998 exclusion Order already excludes private finance initiative contracts from the relevant provisions of the 1996 Act. The new exclusion Order supplements that by excluding construction subcontracts entered into by the non-public body party to a PFI contract from the provision of the 1996 Act.

Bwriad Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011 yw ychwanegu at Orchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998. Mae Deddf 2009 yn ategu gwaharddiad Deddf 2006 o gymalau cyflog pan delir. Gwna hyn drwy atal contractau rhag gwneud talu yn amodol ar berfformiad rhwymedigaeth dan gontract arall. Mae Gorchymyn hepgor 1998 eisoes yn eithrio contractau menter cyllid preifat o ddarpariaethau perthnasol Deddf 1996. Mae'r Gorchymyn hepgor newydd yn ychwanegu at hynny drwy eithrio is-gontractau adeiladu a wneir gan y corff nad yw'n gyhoeddus sy'n barti i gontract PFI o ddarpariaeth Deddf 1996.

PFI construction contracts are different from general construction contracts. The contract is often a standard one, developed by Government, which addresses issues of clarity and certainty of payment. Different incentives exist in PFI contracts. The construction contractor is, in almost all cases, part of a PFI special purpose company. Excluding PFI subcontracts from the provision of the 1996 Act removes the need to provide a contingency for funding a payment from a special purpose company to the construction contractor, which reduces the amount of capital required by the special purpose company.

Mae contractau adeiladu PFI yn wahanol i gontractau adeiladu cyffredinol. Mae'r contract yn aml yn un safonol, a ddatblygwyd gan y Llywodraeth, sy'n mynd i'r afael â materion o eglurder a sicrwydd talu. Ceir gwahanol gymhellion mewn contractau PFI. Mae'r contractwr adeiladu, bron ym mhob achos, yn rhan o gwmni pwrpas arbennig PFI. Mae eithrio is-gontractau PFI wrth ddarpariaeth Deddf 1996 yn dileu'r angen am ddarpariaeth wrth gefn ar gyfer ariannu taliad gan gwmni pwrpas arbennig i'r contractwr adeiladu, sy'n lleihau swm y cyfalaf sy'n ofynnol gan y cwmni pwrpas arbennig.

**The Presiding Officer:** Thank you for that clarity, Minister. [*Laughter.*]

**Y Llywydd:** Diolch i chi am yr eglurder hwnnw, Weinidog. [*Chwerthin.*]

**Andrew R.T. Davies:** Yes, thank you for that clarity, Minister. We do not object to the regulations before us, but I understand that

**Andrew R.T. Davies:** Ie, diolch i chi am yr eglurder hwnnw, Weinidog. Nid ydym yn gwrthwynebu'r rheoliadau sydd ger ein bron,

the Government undertook a consultation exercise between March and May of this year, and that its outcomes were due to be published on the Government's website by 24 June. Sadly, no such consultation outcomes have appeared on the website. So, while I take everything that you said at face value, Minister, it is a little difficult if those consultation outcomes have not appeared so that they could have been read with vigour and any issues that came up could have been raised. Therefore, I ask you take note of that, inform us of what went wrong, and ensure that it does not happen again.

ond deallaf y cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad rhwng mis Mawrth a mis Mai eleni, a bod ei ganlyniadau i fod i gael eu cyhoeddi ar wefan y Llywodraeth erbyn 24 Mehefin. Yn anffodus, nid yw canlyniadau'r ymgynghoriad wedi ymddangos ar y wefan. Felly, er fy mod yn cymryd popeth a ddywedasoch ar ei olwg, Weinidog, mae ychydig yn anodd os nad yw canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wedi ymddangos fel y gellid bod wedi eu darllen gydag egni a chodi unrhyw faterion a sylwyd arnynt. Felly, yr wyf yn gofyn i chi gymryd sylw o hynny, rhoi gwybod i ni beth a aeth o'i le a sicrhau na fydd yn digwydd eto.

**John Griffiths:** There has been extensive consultation on the changes that the statutory instruments will bring, and the response has been very positive. So, this has been generally welcomed in the industry, but I take on board the comments that Andrew R.T. Davies made. I will look into those matters and ensure that they are rectified.

**John Griffiths:** Bu ymgynghori helaeth ar y newidiadau y bydd yr offerynnau statudol yn eu sbarduno, ac y mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol iawn. Felly, mae hyn wedi cael ei groesawu yn gyffredinol yn y diwydiant, ond yr wyf yn derbyn y sylwadau a wnaeth Andrew R.T. Davies. Byddaf yn ymchwilio i'r materion hynny ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cywiro.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion to approve the Construction Contracts (England and Wales) Exclusion Order 1998 (Amendment) (Wales) Order 2011. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare that motion agreed.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, datganaf y cytunwyd ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion to approve the Scheme for Construction Contracts (England and Wales) Regulations 1998 (Amendment) (Wales) Regulations 2011. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare that motion agreed.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig i gymeradwyo'r Cynllun ar gyfer Rheoliadau Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 Rheoliadau (Diwygio) (Cymru) 2011. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, datganaf y cytunwyd ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2011**
**Motion to Approve the Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2011**

*Cynnig NDM4783 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) Diwygio 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2011.*

*Motion NDM4783 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:*

*Approves that the draft The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 21 June 2011.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

The regulations that we are debating today amend the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010. The environmental permitting regime requires businesses in Wales that may cause pollution to apply to the Environment Agency or to local authorities for an operating permit. These permits impose limits on emissions to air, water and land and impose conditions on the operation of those businesses.

Mae'r rheoliadau yr ydym yn eu trafod heddiw yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r gyfundrefn drwyddedu amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau yng Nghymru a all achosi llygredd wneud cais i Asiantaeth yr Amgylchedd neu i awdurdodau lleol am drwydded weithredu. Mae'r trwyddedau yn gosod terfynau ar allyriadau i'r aer, dŵr a thir ac yn gosod amodau ar weithredu'r busnesau hynny.

This environmental permitting regime aims to replace a range of different environmental licensing and permitting regimes that had grown up over time with a single effective and coherent permitting system. The first elements of this came into force in Wales and England in April 2008 and brought together pollution prevention and control permitting with waste management licensing into a single piece of legislation. The Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 took this further and added other waste, water and radioactive substances regulations.

Mae'r gyfundrefn drwyddedu amgylcheddol yn anelu i ddisodli amrywiaeth o wahanol gyfundrefnau o ddarparu trwyddedau a thrwyddedu amgylcheddol a oedd wedi tyfu i fyny dros gyfnod o amser gydag un system trwyddedu effeithiol a chyson. Daeth elfennau cyntaf hwn i rym yng Nghymru a Lloegr ym mis Ebrill 2008 a daethant ynghyd â thrwyddedu atal a rheoli llygredd gyda thrwyddedu rheoli gwastraff o fewn un darn o ddeddfwriaeth. Cymerodd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 hyn ymhellach ac ychwanegodd rheoliadau sylweddau gwastraff, dŵr ac ymbelydredd eraill.

The environmental permitting regime has streamlined the procedural parts of this highly technical and complex legislation. It has enabled the simplification of the operation of the permitting system without

Mae'r gyfundrefn drwyddedu amgylcheddol wedi symleiddio rhannau gweithdrefnol y ddeddfwriaeth hynod dechnegol a chymhleth hon. Mae wedi galluogi symleiddio gweithredu'r system drwyddedu heb beryglu

compromising environmental or human health standards. This environmental permitting regime also transposes and enacts, in whole or part, a significant number of European directives.

safonau iechyd yr amgylchedd neu ddynol. Mae’r gyfundrefn drwyddedu amgylcheddol hefyd yn trosi ac yn deddfu, yn llawn neu’n rhannol, nifer sylweddol o gyfarwyddebau Ewropeaidd.

The regulations that we are considering today take this forward in two areas: first, in updating the radioactive substances exemption Orders, and, secondly, in the transposition of the carbon capture and storage directive. The provisions relating to the regulation of radioactive substances in the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 were to provide a more modern, transparent and user-friendly system for the regulation of radioactive substances, while, at the same time, strictly applying the best standards of radiation protection. The new regulations add to that by considerably simplifying and updating the often complex system of regulation that applies to the use of some radioactive substances and which has hardly changed over the past 50 years. That will be particularly important for those users of radioactive substances that present a very low risk to human health and the environment, while, at the same time, fully maintaining the necessary level of protection.

Mae’r rheoliadau yr ydym yn eu hystyried heddiw yn bwrw ymlaen â hyn mewn dau faes: yn gyntaf, drwy ddiweddaru’r Gorchmynion esemptio sylweddau ymbelydrol, ac, yn ail, drwy drosi’r gyfarwyddeb dal a storio carbon. Mae’r darpariaethau sy’n ymwneud â rheoleiddio sylweddau ymbelydrol yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 yn darparu system fwy modern, tryloyw a hawdd ei defnyddio ar gyfer rheoleiddio sylweddau ymbelydrol, tra, ar yr un pryd, eu bod yn rhoi’r safonau gorau o amddiffyn rhag ymbelydredd mewn grym yn llym. Mae’r rheoliadau newydd yn ychwanegu at hynny drwy symleiddio a diweddaru’r system, sydd yn aml yn gymhleth, o reoleiddio sy’n berthnasol i’r defnydd o rai sylweddau ymbelydrol ac sydd prin wedi newid dros y 50 mlynedd diwethaf. Bydd hynny’n arbennig o bwysig i’r defnyddwyr hynny o sylweddau ymbelydrol sy’n peri risg isel iawn i iechyd pobl a’r amgylchedd, tra, ar yr un pryd, eu bod yn cynnal y lefel angenrheidiol o ddiogelwch yn llawn.

These amendments update and bring in a new regulatory framework for the 18 exemption Orders that define the levels of radioactivity that are exempt from permitting. They replace 18 statutory instruments, mostly dating from the 1960s and written in archaic language, with a single modern, logical exemption provision in the environmental permitting regulations. The new exclusion and exemption levels are underpinned by rigorous radiological assessments by the European Union and by the UK’s Health Protection Agency.

Mae’r gwelliannau hyn yn diweddaru ac yn hebrwng fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer y 18 Gorchymyn esemptio sy’n diffinio lefelau o ymbelydredd sydd wedi’u hesemptio rhag trwyddedu. Maent yn disodli 18 o offerynnau statudol, yn dyddio’n bennaf o’r 1960au ac wedi eu hysgrifennu mewn iaith hynafol, gyda darpariaeth esemptio unigol, modern a rhesymegol yn y rheoliadau trwyddedu amgylcheddol. Mae’r lefelau eithrio ac esemptio newydd yn cael eu hategu gan asesiadau radiolegol trylwyr gan yr Undeb Ewropeaidd a gan Asiantaeth Diogelu Iechyd y Deyrnas Unedig.

Where we have relaxed limits, that reflects the low toxicity of the radioactivity concerned, and, where we have had to tighten limits, that reflects the need to comply with modern radiological protection standards. We expect more users of radioactive substances to fall out of regulation than to come into it, therefore, the overall impact should be

Lle mae gennym terfynau wedi eu llacio, adlewyrcha hynny wenwyndra isel yr ymbelydredd o dan sylw, a, lle y bu’n rhaid i ni dynhau cyfyngiadau, adlewyrcha’r angen i gydymffurfio â safonau diogelwch radiolegol modern. Yr ydym yn disgwyl mwy o ddefnyddwyr sylweddau ymbelydrol i syrthio allan o reoliad nag i ddod i mewn i un, felly,

deregulatory. We estimate a saving of up to £1 million to stakeholders who require an operating permit.

dylai'r effaith gyffredinol fod yn ddadreoleiddiol. Yr ydym yn amcangyfrif arbediad o hyd at £1 filiwn i randdeiliaid sydd angen trwydded gweithredu.

The new regulations will meet modern requirements of practicality, durability, flexibility, legal robustness, and a proportionate, risk-informed regulatory approach for stakeholders. They will also demonstrate clearer compliance with the European Union basic safety standards directive than the present legislation. In addition, for the first time since 1982, the revised regime will be supported by clear guidance. Stakeholders and regulators have welcomed the changes.

Bydd y rheoliadau newydd yn bodloni gofynion modern o ymarferoldeb, gwydnwch, hyblygrwydd, cadernid cyfreithiol a dull rheoleiddio cymesur, gwybodus am risg ar gyfer rhanddeiliaid. Byddant hefyd yn dangos cydymffurfiaeth gliriach gyda chyfarwyddeb safonau diogelwch sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd na'r ddeddfwriaeth bresennol. Yn ogystal, am y tro cyntaf ers 1982, caiff y drefn ddiwygiedig ei chefnogi gan ganllawiau clir. Mae rhanddeiliaid a rheoleiddwyr wedi croesawu'r newidiadau.

The carbon capture and storage directive is a significant strand in our means of mitigating the contribution of fossil fuel emissions to global warming. The process is based on capturing carbon dioxide gases from large point sources, such as fossil fuel power plants, and storing them in such a way that they do not enter the atmosphere. The captured carbon dioxide can then be injected into geological formations. Pilot installations are beginning to come online as this technology develops. It is important that these technologies, which mitigate climate change, do not cause pollution to the local environment. Therefore, article 37 of the carbon capture and storage directive appropriately amends the integrated pollution prevention and control directive. In addition to mitigating any local pollution caused, article 32 of the carbon capture and storage directive amends the water framework directive. It adds a prohibition of direct discharges of pollutants into ground water. The new amendment adds to the exceptions the injection of carbon dioxide streams into geological formations that, for natural reasons, are permanently unsuitable for other purposes, which is important. That is a vital amendment, without which carbon dioxide storage in geological formations would be prohibited. It thus removes what would otherwise be a regulatory obstacle to most future carbon capture and storage schemes.

Mae'r gyfarwyddeb dal a storio carbon yn llinyn sylweddol yn ein dull o liniaru cyfraniad allyriadau tanwydd ffosil i gynhesu byd-eang. Mae'r broses yn seiliedig ar ddal nwyon carbon deuocsid o ffynonellau unigol mawr, megis gweithfeydd pŵer tanwydd ffosil, a'u storio yn y fath fodd nad ydynt yn mynd i mewn i'r atmosffer. Yna gall y carbon deuocsid sydd wedi cael ei ddal ei chwistrellu i mewn i ffurfiannau daearegol. Mae safleoedd peilot yn dechrau dod ar-lein wrth i'r dechnoleg hon ddatblygu. Mae'n bwysig nad yw'r technolegau hyn, sy'n lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn achosi llygredd i'r amgylchedd lleol. Felly, mae erthygl 37 o'r gyfarwyddeb dal a storio carbon yn diwygio'r gyfarwyddeb atal llygredd a rheoli integredig yn briodol. Yn ogystal â lliniaru unrhyw lygredd lleol a achosir, mae erthygl 32 o'r gyfarwyddeb dal a storio carbon yn diwygio'r gyfarwyddeb fframwaith dŵr. Mae'n ychwanegu gwaharddiad rhag gollwng llygryddion yn uniongyrchol i ddŵr daear. Mae'r gwelliant newydd yn ychwanegu at yr esemptio chwistrellu ffrydiau carbon deuocsid i mewn i ffurfiannau daearegol sydd, am resymau naturiol, yn anaddas yn barhaol at ddibenion eraill, ac mae hynny'n bwysig. Mae hynny'n welliant hanfodol; hebddi, byddai storio carbon deuocsid mewn ffurfiannau daearegol yn cael ei wahardd. Felly, mae'n cael gwared ar yr hyn a fyddai fel arall yn rhwystr rheoleiddiol i'r rhan fwyaf o gynlluniau dal a storio carbon yn y dyfodol.

I hope that Assembly Members agree that these regulations are much needed. I very much support them.

Gobeithiaf fod Aelodau'r Cynulliad yn cytuno bod mawr angen y rheoliadau hyn. Yr wyf yn eu cefnogi yn fawr iawn.

**The Presiding Officer:** I have no speakers to call and you have no time left in which to wind up. [*Laughter.*] The proposal is to agree the motion. Does any Member dare to object? [*Laughter.*] I see that no-one does. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Y Llywydd:** Nid oes gennyf siaradwyr i'w galw ac nid oes gennych unrhyw amser yn weddill i ddirwyn i ben. [*Chwerthin.*] Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn meiddio gwrthwynebu? [*Chwerthin.*] Gwelaf nad oes. Felly, datganaf y cytunwyd ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog
## Motion to Suspend Standing Orders

*Cynnig NDM4790 Jane Hutt*

*Motion NDM4790 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:*

*Yn atal Reol Sefydlog 12.20 (i) er mwyn caniatáu i NNDM4785 gael ei ystyried yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 12 Gorffennaf 2011.*

*Suspends Standing Order 12.20 (i) to allow NNDM4785 to be considered in Plenary on Tuesday 12 July 2011.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, datganaf y cytunwyd ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth
## Supplementary Legislative Consent Motion—Localism Bill

*Cynnig NNDM4785 Huw Lewis*

*Motion NNDM4785 Huw Lewis*

*Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau pellach hynny y daethpwyd â hwy gerbron yn y Bil Lleoliaeth sy'n ymwneud â Chynlluniau Adneuon Tenantiaeth a thrwyddedu tai*

*That the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that, in addition to the provisions referred to in motions NNDM4642 and NNDM4722, those further provisions which have been brought forward in the Localism Bill relating*

*amlfeddiannaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynigion NNDM4642 a NNDM4722.*

*to Tenancy Deposit Schemes and HMO licensing, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I move the motion.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Cynigiaf y cynnig.

Thank you for the opportunity to explain the background to this supplementary legislative consent motion in relation to the Localism Bill, Presiding Officer. We have had an active discussion with the UK Government on the contents of the Bill and areas of particular interest to Welsh Ministers. This supplementary legislative consent motion is required because several of the Government's amendments to the Bill's provisions fall within the Assembly's legislative competence in relation to devolved areas. The supplementary consent motion refers to a number of relevant provisions within the Localism Bill. First, it refers to tenancy deposit schemes and, secondly, to the licensing of houses in multiple occupation. The Welsh Government holds the view that a supplementary legislative consent motion is required on the issues identified and I will briefly explain, as best I can, why these legislative proposals are being sought.

Diolch i chi am y cyfle i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn mewn perthynas â'r Bil Lleoliaeth, Lywydd. Yr ydym wedi cael trafodaeth weithgar gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gynnwys y Bil a meysydd o ddiddordeb arbennig i Weinidogion Cymru. Mae angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol oherwydd bod amryw o welliannau'r Llywodraeth i ddarpariaethau'r Mesur yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae'r cynnig cydsyniad atodol yn cyfeirio at nifer o ddarpariaethau perthnasol yn y Bil Lleoliaeth. Yn gyntaf, mae'n cyfeirio at gynlluniau blaendal tenantiaeth ac, yn ail, at drwyddedu tai amlfeddiannaeth. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y materion a nodwyd ac egluraf yn fyr, hyd eithaf fy ngallu, pam fo'r cynigion deddfwriaethol hyn yn cael eu ceisio.

In relation to tenancy deposit schemes, it is proposed that the Housing Act 2004 is amended to make minor technical amendments to sections of the Act covering the protection of tenancy deposits paid in connection with assured short-hold tenancies of dwellings. The intention is to ensure that the legislation protects fully tenants' deposits and closes loopholes in the current legislation as drafted. The new provisions are also intended to make the law fairer to landlords by changing the way that penalties for non-compliance are calculated. In accordance with Part 4 of and Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, the National Assembly for Wales has legislative competence in the subject area of housing. As tenancy deposit schemes relate to privately rented housing, it is considered that the new provisions are within the legislative competence of the Assembly and, therefore,

O ran cynlluniau blaendal tenantiaeth, cynigir bod Deddf Tai 2004 yn cael ei diwygio er mwyn gwneud mân newidiadau technegol i adrannau o'r Ddeddf sy'n cwmpasu diogelu blaendaliadau tenantiaeth a dalwyd mewn cysylltiad â thenantiaethau anheddau byrdaliadol sicr. Y bwriad yw sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn amddiffyn blaendaliadau tenantiaid yn llawn ac yn cau bylchau yn y ddeddfwriaeth gyfredol fel y'i drafftiwyd. Bwriedir i'r darpariaethau newydd hefyd wneud y gyfraith yn decach i landlordiaid drwy newid y ffordd y mae cosbau am beidio â chydymffurfio yn cael eu cyfrifo. Yn unol â Rhan 4 o ac Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ym maes tai. Am fod cynlluniau blaendal tenantiaeth yn ymwneud â thai a rentir yn breifat, ystyrir bod y darpariaethau newydd o fewn cymhwysedd

they must be the subject of a legislative consent motion.

deddfwriaethol y Cynulliad ac, felly, mae’n rhaid iddynt fod yn destun cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**Peter Black:** There has been a huge increase in the number of privately rented properties given the difficulties with the housing market. The number has virtually doubled in Wales over the last few years. The protection of tenants’ deposits is a critical part of ensuring that tenants are able to access that accommodation. As the new Minister taking over responsibility for housing, do you have any plans to review the way that tenants’ deposits are dealt with across Wales and to look at this particular aspect of how we can improve the experience of tenants of privately rented properties and their security?

**Peter Black:** Bu cynnydd anferth yn faint o eiddo a rentir yn breifat o ystyried yr anawsterau sydd wedi bod gyda’r farchnad dai. Mae’r nifer wedi dyblu bron yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae diogelu blaendaliadau tenantiaid yn rhan hanfodol o sicrhau bod tenantiaid yn gallu cael gafael ar y llety hwnnw. Fel Gweinidog newydd yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am dai, a oes gennych unrhyw gynlluniau i adolygu’r ffordd y caiff blaendaliadau tenantiaid eu trin ledled Cymru ac i edrych ar yr agwedd benodol hon o sut y gallwn wella profiad tenantiaid o eiddo a rentir yn breifat a’u diogelwch?

**Huw Lewis:** I thank Peter for his intervention. We are concerned with a narrow technical discussion today about small areas of legislative change that we can use to push things forward just a little. However, I assure Peter and all other Members present that the discussions surrounding housing will be comprehensive. The proposals that the Welsh Government will be making very soon are very exciting and I urge Peter to have a little more patience with regard to how that agenda will open up. Perhaps we can have discussions between now and then that might calm him down a little. Tenants’ deposits will be a small part of the comprehensive agenda that we must approach.

**Huw Lewis:** Diolch i Peter am ei ymyriad. Yr ydym yn canolbwyntio ar drafodaeth dechnegol gul heddiw am feysydd bychain o newid deddfwriaethol y gallwn eu defnyddio i wthio pethau ymlaen rhyw fymryn. Fodd bynnag, yr wyf yn sicrhau Peter a phob Aelod arall sy’n bresennol y bydd y trafodaethau ynghylch tai yn gynhwysfawr. Mae’r cynigion y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud yn fuan iawn yn gyffrous iawn ac yr wyf yn annog Peter i gael ychydig mwy o amynedd o ran sut y bydd yr agenda honno yn agor i fyny. Efallai y gallwn gael trafodaethau rhwng yn awr a’r pryd hwnnw a allai ei dawelu ychydig. Bydd blaendaliadau tenantiaid yn rhan fechan o’r agenda cynhwysfawr y mae’n rhaid i ni fynd i’r afael ag ef.

To turn to the provisions in the Bill in respect of HMOs, these are also minor technical changes to the existing provision in the Housing Act 2004, which create a scheme for the licensing of houses in multiple occupation.

I droi at y darpariaethau yn y Bil mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth, mae’r rhain hefyd yn fân newidiadau technegol i’r ddarpariaeth bresennol yn Neddf Tai 2004, sy’n creu cynllun ar gyfer trwyddedu tai amlfeddiannaeth.

3.30 p.m.

The intention of the new provisions is to exempt from the licensing requirements buildings managed or controlled by fully mutual housing co-operatives. These are buildings occupied and managed by a co-operative’s members, so the occupiers are effectively the owners. Applying the full

Bwriad y darpariaethau newydd yw esemptio adeiladau a reolir gan gwmnïau cydweithredol tai hollol gydfuddiannol o’r gofynion trwyddedu. Mae’r rhain yn adeiladau wedi eu meddiannu a’u rheoli gan aelodau’r cwmni cydweithredol, felly mae’r deiliaid i bob diben yn berchnogion. Mae

rigour of HMO licensing regimes to such buildings is unnecessarily onerous. In accordance with Part 4 and Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, the Assembly has legislative competence in the area of housing, as I have said. As such, it is considered that the Assembly could legislate for Wales in connection with the licensing of HMOs that is provided for within the Bill.

gweithredu trylwyredd llawn cyfundrefnau trwyddedu tai amlfeddiannaeth ar adeiladau o'r fath yn ddiangen o feichus. Yn unol â Rhan 4 ac Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ym maes tai, fel y dywedais. Felly, ystyrir y gallai'r Cynulliad ddeddfu ar gyfer Cymru mewn cysylltiad â'r darpariaethau trwyddedu tai amlfeddiannaeth yn y Bil.

As these provisions are within the legislative competence of the Assembly, they must also be the subject of an LCM. I considered it appropriate to deal with these provisions within this UK Bill, as it represents the most appropriate and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in Wales and an ideal opportunity to enable those provisions and apply them at the earliest possible opportunity. It will also allow Welsh Ministers to introduce appropriate legislation in accordance with Welsh priorities and concerns. The tenancy deposit protection legislation is very important, as it protects the interests of vulnerable people, and therefore, this legislative consent motion, I hope, will be supported.

Gan fod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, rhaid iddynt hefyd fod yn destun cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Yr oeddwn o'r farn ei bod yn briodol i drin y darpariaethau hyn o fewn y Bil hwn ar gyfer y Deyrnas Unedig, gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod mewn grym yng Nghymru ac am ei fod yn gyfle delfrydol i alluogi'r darpariaethau hynny a'u cymhwyso ar y cyfle cyntaf posibl. Bydd hefyd yn caniatáu Gweinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau a phryderon Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth diogelu blaendaliadau tenantiaeth yn bwysig iawn, gan ei bod yn amddiffyn buddiannau pobl sy'n agored i niwed, ac felly, gobeithiaf y cefnogwch y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

In summary, this LCM is placed before the Assembly for approval on the terms that I have outlined and I move the motion.

I grynhoi, mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn cael ei osod gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo ar y telerau yr wyf wedi'u hamlinellu, a chynigiaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** Thank you. I have no speakers. The proposal it to agree the motion. Does any Member object? I see that no-one does. The proposal is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr. Nid oes gennyf siaradwyr. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.32 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.32 p.m.*

## Cam-drin Domestig
## Domestic Abuse

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Nick Ramsay and amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Nick Ramsay a gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

*Cynnig NDM4784 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn ystyried y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn gyntaf yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel; ac*

*2. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella diogelwch unigolion a'u teuluoedd sy'n destun cam-drin domestig ac i roi cefnogaeth iddynt.*

*Motion NDM4784Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Considers the progress made in the first year against the priorities of the Right to be Safe Strategy; and*

*2. Notes the Welsh Government's commitment to improve the safety of and support for individuals and their families who experience domestic abuse.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion and accept the proposed amendments. The role of all partners, both statutory and voluntary, has enabled us to deliver effectively in line with 'The Right to be Safe' strategy. Progress is reviewed by the violence against women and domestic abuse working group. This includes key third sector organisations. Therefore, I accept Nick Ramsay's amendment today. Improving the response of criminal justice agencies is one of our four key priorities in the strategy. We also therefore accept Jocelyn Davies's amendment.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig a derbyniaf y gwelliannau arfaethedig. Mae rôl yr holl bartneriaid, yn statudol a gwirfoddol, wedi ein galluogi i gyflawni'n effeithiol yn unol â'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'. Mae cynnydd yn cael ei adolygu gan y gweithgor ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Mae'r gweithgor yn cynnwys sefydliadau allweddol yn y trydydd sector. Felly, yr wyf yn derbyn gwelliant Nick Ramsay heddiw. Mae gwella ymateb yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn un o'n pedair blaenoriaeth allweddol yn y strategaeth. Yr ydym hefyd, felly, yn derbyn gwelliant Jocelyn Davies.

Last year, I launched 'The Right to be Safe', our six-year integrated strategy tackling violence against women and domestic abuse. I am pleased today to be able to provide Members with an update on the progress achieved during the first year. I will also take the opportunity to reaffirm the Welsh Government's commitment to improving the quality of services and support for individuals and their families who are victims of domestic abuse. 'The Right to be Safe' identified four key priority areas: prevention and raising awareness; providing support for victims and children; improving the response from the criminal justice agencies; and improving the response of health services and other agencies. During the last year, we have raised public awareness through two publicity campaigns—One Step too Far and Stop Blame. These campaigns were developed to challenge attitudes and behaviours towards women and generated significant interest and debate on the website,

Y llynedd, lansiais 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', ein strategaeth integredig chwe blynedd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Yr wyf yn falch o allu darparu diweddariad i Aelodau heddiw ar y cynnydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Byddaf hefyd yn manteisio ar y cyfle i gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella ansawdd gwasanaethau a chymorth i unigolion a'u teuluoedd sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' yn nodi pedwar maes blaenoriaeth allweddol: atal a chodi ymwybyddiaeth; darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant; gwella'r ymateb gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol; a gwella ymateb y gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy ddwy ymgyrch cyhoeddusrwydd—Cam yn Ormod a Paid Beio. Datblygwyd yr ymgyrchoedd hyn er mwyn herio agweddau ac ymddygiad

with hits from almost 80 different countries.

tuag at fenywod a bu iddynt ennyn cryn ddiddordeb a thrafodaeth ar y wefan, gydag ymwelwyr o bron i 80 o wahanol wledydd.

The Welsh Government is committed to further campaigns to raise awareness. Later this year, One for the Summer will focus on tackling sexual violence against women and there will be another campaign at Christmas to raise awareness of the impact of domestic abuse on children. We have also developed our website to include online directories of support services across Wales, and this information can be easily accessed and used by individuals seeking help, by a friend or family member, or by professional or front-line staff. The Wales domestic abuse helpline has been extended to enhance support and advice for victims of sexual violence. The 24-hour helpline provides an essential service to people in desperate need of support. During the last year, there were almost 15,000 calls to the helpline.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgyrchoedd pellach i godi ymwybyddiaeth. Yn ddiweddarach eleni, bydd ymgyrch dros yr haf yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais rhywiol yn erbyn menywod a bydd ymgyrch arall adeg y Nadolig i godi ymwybyddiaeth am effaith cam-drin domestig ar blant. Yr ydym hefyd wedi datblygu ein gwefan i gynnwys cyfeiriaduron ar-lein o wasanaethau cymorth ar draws Cymru, a bydd y wybodaeth hon yn hawdd cael gafael arni ac i'w defnyddio gan unigolion sy'n chwilio am gymorth, gan ffrind neu aelod o'r teulu, neu staff proffesiynol neu reng flaen. Mae llinell gymorth cam-drin domestig Cymru wedi cael ei ymestyn i wella cefnogaeth a chyngor i ddioddefwyr trais rhywiol. Mae'r llinell gymorth 24-awr yn darparu gwasanaeth hanfodol i bobl ag angen dybryd am gymorth. Llynedd, cafwyd bron 15,000 o alwadau i'r llinell gymorth.

We need to educate our young people about domestic abuse and healthy relationships. We have published guidance on safeguarding children and young people for use by professionals working in education and youth settings. We have also developed online guidance to assist teachers in covering domestic abuse within the personal and social education programme.

Mae angen i ni addysgu ein pobl ifanc am gam-drin domestig a pherthnasoedd iach. Yr ydym wedi cyhoeddi canllawiau ar ddiogelu plant a phobl ifanc i'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn addysg a gyda ieuenctid. Yr ydym hefyd wedi datblygu canllawiau ar-lein i gynorthwyo athrawon wrth ymdrin â cham-drin domestig o fewn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

To raise awareness of forced marriage, we have funded a training package that has been delivered within health, education, social services and voluntary organisations. We have also worked with the Equality and Human Rights Commission to encourage employers to develop workplace policies. We hosted a very successful anti-domestic abuse conference in February this year. That brought together some of Wales's largest public and private sector employers, including Marks and Spencer and Admiral, human resources specialists and trade unions. The feedback was extremely positive. We are building on this success, and another event will be held in north Wales in September.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o briodas dan orfod, yr ydym wedi ariannu pecyn hyfforddiant sydd wedi cael ei gyflwyno o fewn iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol. Yr ydym hefyd wedi gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i annog cyflogwyr i ddatblygu polisïau yn y gweithle. Cynaliasom gynhadledd lwyddiannus iawn gwrth-gam-drin domestig ym mis Chwefror eleni. Daeth honno ynghyd â rhai o gyflogwyr mwyaf Cymru yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys Marks and Spencer ac Admiral, arbenigwyr adnoddau dynol ac undebau llafur. Yr oedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Yr ydym yn adeiladu ar y llwyddiant hwn, a chynhelir

digwyddiad arall yn y gogledd ym mis Medi.

It is estimated that 75 per cent of women who experience domestic abuse continue to be harassed at work by the perpetrator. This costs the UK £2.7 billion in lost economic output every year. The Welsh Government is therefore committed to ensuring that all relevant public sector bodies have a strategy in place to tackle domestic abuse and violence against women.

Amcangyfrifir bod 75 y cant o fenywod sy'n profi cam-drin domestig yn parhau i gael eu haflonyddu yn y gwaith gan y troseddwr. Mae hyn yn costio £2.7 biliwn i'r DU mewn cynnyrch economaidd coll bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru felly yn ymrwymedig i sicrhau bod gan yr holl gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus strategaeth ar waith i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod.

Human trafficking is widely regarded as the fastest growing black market crime across the world. The Welsh Government is determined to make Wales a hostile environment for human traffickers. We have funded the first anti-human trafficking co-ordinator in Wales. The co-ordinator will initially scope the extent of the problem in Wales and will then develop a co-ordinated multi-agency approach to prevent and tackle human trafficking in Wales.

Mae masnachu pobl yn cael ei ystyried yn eang fel y drosedd farchnad ddu sy'n tyfu gyflymaf ledled y byd. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol y bydd Cymru yn amgylchedd gelyniaethus i fasnachwyr pobl. Yr ydym wedi ariannu'r cydlynydd atal masnachu pobl cyntaf yng Nghymru. I ddechrau, bydd y cydlynydd yn ymchwilio i faint y broblem yng Nghymru ac yna bydd yn datblygu dull amlasiantaeth cydlynol o atal a mynd i'r afael â masnachu pobl yng Nghymru.

For perpetrators wanting to change their behaviour, we have supported a number of programmes including NSPCC's Caring Dads programme; Choose2Change, which is run by Relate Cymru in north Wales; and the Move on to Change initiative, which is run by Relate and Carmarthenshire domestic abuse forum. We have also established an access to justice pilot project in Swansea, to support elderly and vulnerable victims of domestic abuse. This is the first of its type in the UK.

Yr ydym wedi cefnogi nifer o raglenni ar gyfer troseddwyr sydd am newid eu hymddygiad, gan gynnwys rhaglen Tadau Gofalgar NSPCC; Choose2Change, sy'n cael ei redeg gan Relate Cymru yng ngogledd Cymru; a'r fenter Move on to Change, sy'n cael ei redeg gan Relate a fforwm cam-drin domestig sir Gaerfyrddin. Yr ydym hefyd wedi sefydlu prosiect peilot mynediad i gyfiawnder yn Abertawe, i gefnogi dioddefwyr oedrannus ac agored i niwed o gam-drin domestig. Dyma'r cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.

Our first 'The Right to be Safe' annual report will be launched on our website on Thursday. This will provide progress against the four priority areas and an implementation plan. Members will be provided with a link to this report. I am sure that you will join me in acknowledging the good progress made during the first year. The implementation plan included 90 actions for delivery and, to date, 41 have been completed. Work has progressed on a further 40 actions and these are at varying stages of delivery; work on the remaining actions will also commence shortly.

Bydd ein hadroddiad blynyddol 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' cyntaf yn cael ei lansio ar ein gwefan ddydd Iau. Bydd hwn yn darparu cynnydd yn erbyn y pedwar maes blaenoriaeth a chynllun gweithredu. Bydd linc i'r adroddiad hwn yn cael ei ddarparu i Aelodau. Yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi yn cydnabod y cynnydd da a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf. Yr oedd y cynllun gweithredu yn cynnwys 90 o gamau gweithredu ar gyfer darparu. Hyd yma, mae 41 wedi eu cwblhau. Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar 40 cam pellach ac mae'r rhain mewn stadau amrywiol o gael eu darparu. Bydd gwaith ar y camau gweithredu sy'n

weddill hefyd yn cychwyn yn fuan.

Delivery has been achieved by working in collaboration with key partners and agencies. I am committed to ensuring the provision of high-quality services and am pleased to announce today the roll-out of the domestic abuse 10,000 safer lives project. This project will ensure that any man, woman or child who experiences domestic abuse will receive effective support to ensure their safety and minimise the risk of further abuse. The project will build on work undertaken in Rhondda Cynon Taf, Merthyr and Newport and existing best practice to further improve services. Workshops will be held throughout Wales with key front-line staff and professionals. These will identify opportunities for further improvements to service delivery and greater collaboration between service providers. I want Wales to be a country where people are safe in their local communities and where people can live their lives free from domestic abuse. The Welsh Government is committed to achieving this and will work with partners and agencies to protect and support victims of domestic abuse and violence. This is imperative. I present the motion to you and I look forward to a healthy debate in the Chamber.

Cyflawnwyd darpariaeth drwy gydweithredu â phartneriaid ac asiantaethau allweddol. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel ac mae’n bleser gennyf gyhoeddi heddiw y broses o gyflwyno’r prosiect cam-drin domestig 10,000 o fywydau diogelach. Bydd y prosiect hwn yn sicrhau y bydd unrhyw ddyn, menyw neu blentyn sy’n cael eu cam-drin yn ddomestig yn cael cymorth effeithiol i sicrhau eu diogelwch a lleihau’r perygl o gam-drin pellach. Bydd y prosiect yn adeiladu ar waith a wnaed yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chasnewydd ac arfer gorau sy’n bodoli eisoes i wella gwasanaethau yn bellach. Cynhelir gweithdai ledled Cymru gyda staff a gweithwyr proffesiynol rheng flaen allweddol. Bydd y rhain yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach i gyflenwi gwasanaethau a mwy o gydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau. Yr wyf am i Gymru fod yn wlad lle mae pobl yn ddiogel yn eu cymunedau lleol a lle gall pobl fyw eu bywydau yn rhydd o gam-drin domestig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni hyn a bydd yn gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau i ddiogelu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a thrais. Mae hyn yn hanfodol. Cyflwynaf y cynnig i chi ac edrychaf ymlaen at ddadl iach yn y Siambr.

*Gwelliant 1 Nick Ramsay*

*Amendment 1 Nick Ramsay*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi ymhellach:*

*Further notes:*

*a) Rôl ac arbenigedd mudiadau’r Trydydd Sector o ran mynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, yn ogystal â darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant;*

*a) The role and expertise of the Third Sector organisations in tackling violence against women and domestic abuse and providing support for victims and children;*

*b) Yr angen i ymgysylltu â mudiadau’r Trydydd Sector yn llawn wrth fesur y cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel.*

*b) The need to fully engage with Third Sector Organisations in measuring progress achieved against the priorities of the Right to be Safe Strategy.*

**Mark Isherwood:** I move amendment 1 in the name of Nick Ramsay.

**Mark Isherwood:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Nick Ramsay.

Our amendment notes the role of third sector organisations in tackling violence against women and domestic abuse and providing support for victims and children, and the need to engage fully with third sector organisations in measuring the progress achieved against the priorities of 'The Right to be Safe' strategy. When gathering evidence for the Communities and Culture Committee report on domestic abuse in the last Assembly, I had the privilege of visiting several of the third sector organisations—including Women's Aid refuges—which were delivering front-line services and had real knowledge of what was going on. Although the Police Family Protection Unit on Deeside advised me that the number of domestic abuse offences has increased over the last decade, Women's Aid figures for domestic abuse, including serious cases, are not always reflected in police statistics.

Mae ein gwelliant yn nodi rôl sefydliadau trydydd sector o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig a darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant, a'r angen i ymgysylltu'n llawn â sefydliadau trydydd sector wrth fesur y cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn blaenoriaethau'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'. Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gam-drin domestig yn y Cynulliad diwethaf, cefais y fraint o ymweld â llawer o'r sefydliadau trydydd sector—gan gynnwys llochesau Cymorth i Fenywod—a oedd yn darparu gwasanaethau rheng flaen ac a oedd â gwybodaeth go iawn o'r hyn a oedd yn mynd ymlaen. Er bod Uned Gwarchod y Teulu heddlu Glannau Dyfrdwy wedi fy nghynghori bod nifer y troseddau cam-drin domestig wedi cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf, nid yw ffigurau Cymorth i Fenywod ar gyfer cam-drin domestig, gan gynnwys achosion difrifol, bob amser yn cael eu hadlewyrchu yn ystadegau'r heddlu.

In February, the Minister told the Communities and Culture Committee that the scale of the problem is not growing; it was already there, but it is increasingly being identified. However, the police told me that increases in domestic abuse offences over the last decade reflected greater confidence in reporting, higher incidence, or both. Unfortunately, we just do not know; all we know is that it is going up.

Ym mis Chwefror, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant nad yw maint y broblem yn tyfu; yr oedd yno eisoes, ond mae'n cael ei enwi'n gywir yn gynyddol. Fodd bynnag, mae'r heddlu yn dweud wrthyf fod cynnydd mewn troseddau cam-drin domestig dros y ddegawd ddiwethaf yn adlewyrchu mwy o hyder mewn adrodd, nifer uwch o droseddau, neu'r ddau. Yn anffodus, nid ydym yn gwybod; y cyfan yr ydym yn gwybod yw ei fod ar i fyny.

Speaking in the October 2009 debate on domestic abuse, I referred to a statement by the coalition of charities comprising the Wales violence against women action group; it said that the new strategy then being considered by the Welsh Government was not fit for purpose, not gender-specific, it was not a cross-Government strategy, and did not tackle all forms of violence effectively. The group added that it had no minimum standards or targets for reducing violence against which progress could be measured. That group has now welcomed progress since the introduction of the strategy, but also identified areas where more progress is required—tackling what the group calls a postcode lottery of services, providing secure funding for key services, ensuring that

Wrth siarad yn y ddadl ym mis Hydref 2009 ar gam-drin domestig, cyfeiriais at ddatganiad gan y glymblaid o elusennau sy'n ffurfio grŵp gweithredu ar drais yn erbyn menywod Cymru. Dywedodd nad oedd y strategaeth newydd, a oedd yn cael ei ystyried ar y pryd gan Lywodraeth Cymru, yn addas i'r diben, nad oedd yn rhyw-benodol, nad oedd yn strategaeth ar draws y Llywodraeth, ac nad oedd yn mynd i'r afael â phob math o drais yn effeithiol. Ychwanegodd y grŵp nad oedd ganddo unrhyw safonau neu dargedau gofynnol ar gyfer lleihau trais y gellid ei fesur yn eu herbyn. Mae'r grŵp hwnnw yn awr wedi croesawu cynnydd ers cyflwyno'r strategaeth, ond y mae hefyd yn nodi meysydd lle y mae angen mwy o gynnydd—

someone in every school is trained to advise young women, and working effectively across all Welsh Government departments and with the UK Government.

mynd i'r afael â'r hyn y mae'r grŵp yn ei alw yn loteri cod post gwasanaethau, gan ddarparu cyllid diogel ar gyfer gwasanaethau allweddol, gan sicrhau bod rhywun ym mhob ysgol wedi ei hyfforddi i gynghori menywod ifanc, a gan weithio'n effeithiol ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru a gyda Llywodraeth y DU.

The group states that, although there are areas where progress has been made, the strategy contains no measurable targets or outcomes, so we cannot say that women in Wales are safer in 2011 than they were in 2010—which is surely what we are all working towards. Chillingly, the group also notes that in just one month in Wales, 150 women are likely to enter refuge following abuse, with 160 turned away. Some 35 sexual assault cases will be taken to court, with over 150 victims of rape or sexual abuse seeking counselling, help and support from the voluntary sector. Five women will be victims of trafficking, and three will report forced marriage. It is also quite likely that a woman will die this month at the hands of a family member or partner.

Mae'r grŵp yn nodi, er bod meysydd lle y mae cynnydd wedi cael ei wneud, nad yw'r strategaeth yn cynnwys unrhyw dargedau neu ganlyniadau mesuradwy, felly ni allwn ddweud bod menywod yng Nghymru yn fwy diogel yn 2011 nag yr oeddent yn 2010—sef yr hyn yr ydym i gyd yn gweithio tuag ato, onid e? Yn iasol, mae'r grŵp hefyd yn nodi, mewn dim ond un mis yng Nghymru, bod 150 menyw yn debygol o fynd i loches yn dilyn cam-drin, gyda 160 yn cael eu gwrthod. Bydd tua 35 o achosion o ymosodiadau rhywiol yn cael eu cymryd i'r llys, gyda dros 150 o ddioddefwyr trais rhywiol neu gam-drin rhywiol yn ceisio cwnsela, cymorth a chefnogaeth gan y sector gwirfoddol. Bydd pump o fenywod yn ddioddefwyr masnachu pobl, a bydd tair yn adrodd priodas dan orfod. Mae hefyd yn eithaf tebygol y bydd menyw yn marw'r mis hwn dan law aelod o'r teulu neu bartner.

Welsh Women's Aid believes that there is a lot of commitment from the Minister, but adds that, unfortunately, that is not mirrored across the Welsh Government—especially as this was billed as a cross-departmental strategy. It acknowledges significant progress during year 1, but asks what mechanism there is for cross-departmental working, so that the aims of the strategy are met. It asks whether the Minister will work with others to ring-fence budgets for domestic abuse provision, including supported housing, and support for children affected by domestic abuse. It also asks when the pledge to monitor local authorities' compliance with public sector equality duties will happen. Welsh Women's Aid highlights research showing that male and female victims of domestic abuse have different levels of need, often requiring different kinds of services where gender-neutral responses are not helpful. In order to provide the best possible service and protection to all domestic abuse victims, we need to take into account context,

Cred Cymorth i Ferched Cymru fod llawer o ymrwymiad gan y Gweinidog, ond ychwanega, yn anffodus, nad yw hynny wedi ei adlewyrchu ar draws Llywodraeth Cymru—yn enwedig gan fod hyn wedi cael ei hysbysebu fel strategaeth ar draws adrannau. Mae'n cydnabod y cafwyd cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond mae'n gofyn pa fecanwaith sydd ar gyfer gweithio ar draws adrannau, fel bod amcanion y strategaeth yn cael eu gwireddu. Mae'n gofyn a fydd y Gweinidog yn gweithio gydag eraill i glustnodi cyllidebau ar gyfer darpariaeth cam-drin domestig, gan gynnwys tai â chymorth, a chymorth i blant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig. Mae hefyd yn gofyn pryd y bydd yr addewid i fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cael ei wireddu. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn tynnu sylw at ymchwil sy'n dangos bod gan ddynion a menywod sy'n dioddef cam-drin domestig wahanol lefelau o angen, sydd yn aml angen gwahanol

consequences and different-gendered need.

fathau o wasanaethau lle nad yw ymatebion niwtral o ran rhyw yn ddefnyddiol. Er mwyn darparu'r gwasanaeth a'r diogelwch gorau posibl i holl ddioddefwyr cam-drin domestig, mae angen i ni ystyried y cyd-destun, canlyniadau ac anghenion gwahanol y rhywiau.

A repeated theme during the domestic abuse inquiry of the third Assembly's Communities and Culture Committee was the lack of sustainable funding for third sector posts. I recently visited the north Wales sexual assault referral centre, or SARC, which welcomes self-referral and notes that a steering group is trying to co-ordinate funding from three different sources. However, the third sector north Wales rape and sexual abuse support centre, which received referrals from police, the NHS and the SARC, still needs £20,000 to meet budget requirements for this financial year. It hosts the only independent sexual violence adviser in north Wales, who has to go part-time due to a lack of funding. With the demand for services being so high, I am sure that the Minister would agree that unsustainable funding should not marginalise services. I hope that he would therefore agree that a mechanism needs to be put in place to address that.

Thema a gododd, dro ar ôl tro, yn ystod ymchwiliad cam-drin domestig Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y trydydd Cynulliad oedd y diffyg cyllid cynaliadwy ar gyfer swyddi yn y trydydd sector. Yn ddiweddar, ymwelais â chanolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol y gogledd, neu SARC, sy'n croesawu hunan-gyfeirio ac yn nodi bod y grŵp llywio yn ceisio cydlynu cyllid o dair ffynhonnell wahanol. Fodd bynnag, mae canolfan gymorth trais a cham-drin rhywiol trydydd sector gogledd Cymru, a dderbyniodd atgyfeiriadau gan yr heddlu, y GIG a'r SARC, o hyd angen £20,000 i gwrdd â gofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Dyna lle y ceir yr unig gynghorydd trais rhywiol annibynnol yn y gogledd, sydd wedi gorfod mynd yn rhan amser oherwydd diffyg cyllid. Gyda'r galw am wasanaethau mor uchel, yr wyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno na ddylai cyllid anghynaliadwy wthio gwasanaethau i'r ymylon. Yr wyf yn gobeithio y byddai felly yn cytuno bod angen rhoi mecanwaith ar waith i fynd i'r afael â hynny.

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i sicrhau bod dioddefwyr trais domestig yn parhau i gael mynediad at gyfiawnder.*

*Calls on the Welsh Government to take action to ensure continued access to justice for victims of domestic violence.*

**Jocelyn Davies:** I move amendment 2 in my name, and on behalf of Plaid Cymru, relating to access to justice.

**Jocelyn Davies:** Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i, ac ar ran Plaid Cymru, yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder.

In doing so, I welcome 'The Right to be Safe' and its action plan, and the progress outlined by the Minister today, although I am sure that we have a great deal more to do. It is well known that domestic abuse often results in contact with the justice system, and I am sure that we would all agree that our justice

Wrth wneud hynny, yr wyf yn croesawu 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' a'i chynllun gweithredu, a'r cynnydd a amlinellwyd gan y Gweinidog heddiw, er fy mod yn siŵr bod gennym lawer iawn mwy i'w wneud. Mae'n hysbys bod cam-drin domestig yn aml yn arwain at gysylltiad â'r system cyfiawnder,

system must be based on an established number of principles if it is to serve us well.

ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno bod yn rhaid i'n system gyfiawnder fod yn seiliedig ar nifer sefydledig o egwyddorion os ydyw i'n gwasanaethu yn dda.

3.45 p.m.

No-one can be allowed to be above the law, and it must be fair to all parties. However, to be fair and effective, it must be well-organised and adequately resourced. Therefore, the availability of legal aid has been a vital component. Proposals to change the legal aid system to exclude some cases that are currently funded and restrict others will have far-reaching consequences and will affect some of the victims of domestic abuse that this strategy seeks to protect. The loss of entitlement to legal aid will affect a staggering 71 per cent of cases in Wales, as there is a higher proportion of Welsh people relying on legal aid the moment. Some of those affected will, of course, be the victims of domestic abuse.

Ni all unrhyw un fod yn uwch na'r gyfraith, a rhaid iddi fod yn deg i bob parti. Fodd bynnag, i fod yn deg ac yn effeithiol, rhaid iddi fod yn drefnus a chael adnoddau digonol. Felly, mae argaeledd cymorth cyfreithiol wedi bod yn elfen hanfodol. Bydd cynigion i newid y system cymorth cyfreithiol i eithrio rhai achosion sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd a chyfyngu eraill yn cael canlyniadau pellgyrhaeddol a bydd yn effeithio ar rai o'r dioddefwyr cam-drin domestig y mae'r strategaeth hon yn ceisio eu diogelu. Bydd colli'r hawl i gymorth cyfreithiol yn effeithio ar ganran syfrdanol o 71 y cant o achosion yng Nghymru, gan fod cyfran uwch o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar gymorth cyfreithiol ar hyn o bryd. Bydd rhai o'r bobl yr effeithir arnynt, wrth gwrs, yn ddioddefwyr cam-drin domestig.

I of course welcome the UK Government announcement that domestic violence cases will still attract legal aid, but the criteria have been too narrowly drawn and will only be available where physical violence has been proven, where there is a criminal conviction or a non-molestation order, where a multi-agency risk assessment conference has concluded that there is a high risk of harm or where there is a child protection plan in place. Does this mean that non-physical abuse is somehow less deserving? This is in direct conflict with the Minister's strategy that is in front of us today, which has adopted the UN declaration on the elimination of violence against women, which states that

Yr wyf, wrth gwrs, yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd achosion o drais domestig yn dal i gael cymorth cyfreithiol, ond mae'r meini prawf wedi cael eu llunio'n rhy gul a byddant ar gael yn unig lle mae trais corfforol wedi ei brofi, lle mae euogfarn droseddol neu orchymyn peidio ag ymyrryd, lle mae cynhadledd asesu risg amlasiantaeth wedi dod i'r casgliad bod yna risg uchel o niwed neu lle mae cynllun amddiffyn plant ar waith. A ydyw hyn yn golygu bod cam-drin nad yw'n gorfforol rywsut yn llai teilwng? Mae hyn yn mynd yn hollol groes i strategaeth y Gweinidog sydd ger ein bron heddiw, sydd wedi mabwysiadu datganiad y Cenhedloedd Unedig ar ddileu trais yn erbyn menywod, sy'n datgan bod

'the term "violence against women" means any act of gender-based violence that results in, or is likely to result in, physical, sexual or psychological harm or suffering to women, including threats of such acts, coercion or arbitrary deprivation of liberty'.

y term 'trais yn erbyn menywod' yn golygu unrhyw weithred o drais yn seiliedig ar ryw sy'n arwain at, neu sy'n debygol o arwain at, niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol neu seicolegol i fenywod, gan gynnwys

bygwth gweithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu rhyddid yn fympwyol.

These changes will therefore result in victims being denied the support of professional lawyers and will then have to represent themselves. This is wholly inappropriate in domestic abuse cases. In those cases, mediation is highly unlikely to be effective, and we already know that in a high proportion—over half—of contested child contact cases, domestic abuse is a feature.

Bydd y newidiadau hyn, felly, yn arwain at ddioddefwyr yn cael eu hamddifadu o gefnogaeth cyfreithwyr proffesiynol ac yna bydd yn rhaid iddynt gynrychioli eu hunain. Mae hyn yn gwbl amhriodol mewn achosion o gam-drin domestig. Yn yr achosion hynny, mae cyfryngu yn annhebygol iawn o fod yn effeithiol, a gwyddom eisoes fod cam-drin domestig yn nodweddu cyfran uchel—dros hanner—o achosion cyswllt plant a wrthwynebir.

Survivors of domestic abuse do not routinely seek protection from the courts, nor do they secure convictions through the criminal justice system, as we heard earlier from Mark Isherwood. They often go to refuges or relocate, and even though they are domestic abuse victims, no legal aid will be available to them for other family law proceedings. It simply cannot be right for them to be forced to face their perpetrator by becoming litigants in person.

Nid yw goroeswyr cam-drin domestig yn ceisio gwarchodaeth y llysoedd yn rheolaidd, ac nid ydynt yn sicrhau euogfarnau drwy'r system cyfiawnder troseddol, fel y clywsom yn gynharach gan Mark Isherwood. Maent yn aml yn mynd i lochesi neu yn adleoli, ac er eu bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig, ni fydd unrhyw gymorth cyfreithiol ar gael iddynt ar gyfer achosion eraill o gyfraith teulu. Yn syml, ni all fod yn iawn iddynt gael eu gorfodi i wynebu eu troseddwr drwy ddod yn ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.

The UK Government's own equality impact assessment demonstrates that legal aid cuts will affect women more than men, in a ratio of 6 to 4. Therefore, there is every likelihood that a disproportionate number of those women will be Welsh and will need this strategy to be as effective as possible. I therefore urge the Minister to re-examine its contents to identify whether there is anything that he can do to mitigate the UK Government's plans to deny access to justice for our most vulnerable women.

Dengys asesiad effaith cydraddoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hun y bydd toriadau cymorth cyfreithiol yn effeithio ar fenywod yn fwy na dynion, mewn cymhareb o 6:4. Felly, mae'n debygol dros ben y bydd nifer anghymesur o'r menywod hynny yng Nghymru a byddant angen i'r strategaeth hon fod mor effeithiol â phosibl. Yr wyf felly yn annog y Gweinidog i ailystyried ei chynnwys i ganfod a oes unrhyw beth y gall ef ei wneud i liniaru cynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wrthod mynediad at gyfiawnder gan ein menywod mwyaf agored i niwed.

Finally, I would like to place on record my thanks to Julie Morgan, Mark Isherwood and Peter Black for agreeing to join me in setting up an all-party group on violence against women and girls, and I look forward to returning to this important topic in future.

Yn olaf, hoffwn gofnodi fy niolch i Julie Morgan, Mark Isherwood a Peter Black am gytuno i ymuno â mi yn sefydlu grŵp hollbleidiol ar drais yn erbyn menywod a merched, ac edrychaf ymlaen at ddychwelyd at y pwnc pwysig hwn yn y dyfodol.

**Rebecca Evans:** I am grateful for the opportunity to speak in this important debate this afternoon. I welcome the fact that a key aim of 'The Right to be Safe' strategy is to build a society where violence against women is never acceptable and where people are prepared to challenge the abusive behaviour of others. However, if we are to achieve this aim, children and young people must be engaged from an early age and must be supported to learn about acceptable behaviour and healthy relationships, and I am glad to hear that the Minister has acknowledged this in his opening remarks.

**Rebecca Evans:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Croesawaf y ffaith mai un o amcanion allweddol y strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' yw adeiladu cymdeithas lle nad yw trais yn erbyn menywod byth yn dderbyniol a lle mae pobl yn barod i herio ymddygiad camdriniol pobl eraill. Fodd bynnag, os ydym am gyrraedd y nod hwn, mae'n rhaid ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o oedran cynnar a rhaid eu cefnogi i ddysgu am ymddygiad derbyniol a pherthnasau iach, ac yr wyf yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi cydnabod hyn yn ei sylwadau agoriadol.

To that end, I warmly welcome the all-Wales schools programme, which has been developed in partnership with the Welsh police forces. That programme includes a module on domestic abuse and is being delivered in virtually all primary and secondary schools in Wales, including pupil support units. I also welcome the Government's commitment to look carefully at the reviews into the links between sexualisation and violence, and how sexualised images and messages may affect the development of children and young people and, in turn, influence cultural norms and ideas of what is acceptable. I ask the Government to consider this matter carefully when it next reviews the personal and social education curriculum, and to ensure that it is dealt with comprehensively so that we do not end up with a generation of young women who think that it is okay to be treated like an object, and a generation of young men who are unable to establish healthy relationships with women.

I'r perwyl hwnnw, yr wyf yn croesawu'n fawr y rhaglen ysgolion Cymru gyfan, sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â heddluoedd Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys uned ar gam-drin domestig ac yn rhedeg ym mron pob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru, gan gynnwys unedau cymorth i ddisgyblion. Yr wyf hefyd yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i edrych yn ofalus ar yr adolygiadau o'r cysylltiadau rhwng rhywioli a thrais, a sut y gall delweddau a negeseuon rhywioledig effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc ac, yn ei dro, dylanwadu ar syniadau cyffredinol am yr hyn sy'n arferol a derbyniol. Gofynnaf i'r Llywodraeth ystyried y mater hwn yn ofalus y tro nesaf y bydd yn adolygu'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol, ac i sicrhau y caiff ei drin yn gynhwysfawr fel nad oes gennym genhedlaeth o fenywod ifanc sy'n meddwl ei bod yn iawn i gael eich trin fel gwrthrych, a chenhedlaeth o ddynion ifanc nad ydynt yn gallu cychwyn perthynas iach gyda menywod.

Clearly, schools and colleges have an important role to play in challenging attitudes and in raising awareness. Professionals need to be able to recognise the signs of violence, intimidation and control, and to then assess the level of risk and respond appropriately. I welcome the conferences that the Welsh Government has provided for PSE teachers and healthy schools co-ordinators to promote best practice in dealing with domestic abuse education in schools. I also

Mae'n amlwg bod gan ysgolion a cholegau ran bwysig i'w chwarae yn herio agweddau ac yn codi ymwybyddiaeth. Mae angen i weithwyr proffesiynol allu adnabod arwyddion trais, bygwth a rheolaeth, ac yna asesu lefel y risg ac ymateb yn briodol. Croesawaf y cynadleddau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu darparu ar gyfer athrawon ABCh a chydgysylltwyr ysgolion iach i

welcome the production of the online guidance for professionals, which the Minister has spoken about. However, we can go further.

hyrwyddo arfer gorau wrth ymdrin ag addysg am gam-drin domestig mewn ysgolion. Yr wyf hefyd yn croesawu cynhyrchu'r canllawiau ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol, fel y mae'r Gweinidog wedi ei drafod. Fodd bynnag, gallwn fynd ymhellach.

I back the calls for gender awareness and education about violence against women to be embedded in teacher training. I am pleased that the Government has said that it will ensure that all school-based counsellors are able to identify and support victims, and I would ask for that to be prioritised as the plan moves into its second year. I would also like to see that expertise being extended to school nurses, and to see schools being directed to develop specific policies on domestic abuse that clearly address the known causes and types of abuse and the identification of victims, along with clear pathways to support. That is particularly important because some girls and young women whose boyfriends abuse them physically, emotionally or sexually may not recognise themselves as being victims of domestic abuse.

Yr wyf yn cefnogi'r galwadau ar gyfer ymgorffori ymwybyddiaeth rhyw ac addysg am drais yn erbyn menywod mewn hyfforddiant athrawon. Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi dweud y bydd yn sicrhau bod pob cynghorydd sy'n seiliedig mewn ysgol yn gallu adnabod a chefnogi dioddefwyr, a byddwn yn gofyn bod hynny yn cael ei flaenoriaethu wrth i'r cynllun dreiglo i'w ail flwyddyn. Hoffwn hefyd weld yr arbenigedd hwnnw yn ymestyn at nyrsys ysgol, a gweld ysgolion yn cael eu cyfeirio at ddatblygu polisïau penodol ar gam-drin domestig sy'n mynd i'r afael yn glir ag achosion a mathau o gamdriniaeth hysbys a sut i adnabod dioddefwyr, ynghyd â llwybrau clir at gefnogaeth. Mae hynny'n arbennig o bwysig gan nad yw rhai merched a menywod ifanc sydd â chariadon sy'n eu cam-drin yn gorfforol, yn emosiynol neu'n rhywiol, efallai, yn gweld eu hunain fel dioddefwyr cam-drin domestig.

Recent research undertaken by the National Society for the Prevention of Cruelty to Children found that a quarter of girls aged 13 to 17 had experienced physical violence from a boyfriend, and a third had been pressurised into taking part in sexual acts that they did not want. Those figures are alarming and it will require a sea change in attitudes to address them. We have come a long way in a year, putting in place a range of positive initiatives and measures to help to tackle domestic violence. Going forward, we must continue to prioritise prevention through education, information and leadership to ensure that girls and young women are treated with respect and can feel safe.

Darganfu ymchwil ddiweddar gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant fod chwarter merched 13 i 17 oed wedi profi trais corfforol gan gariad, a bod traean wedi cael eu darbwyllo i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol nad oeddent eisiau eu gwneud. Mae'r ffigurau hynny yn frawychus a bydd angen gweddnewidiad i fynd i'r afael â hwy. Yr ydym wedi dod yn bell mewn blwyddyn, gan sefydlu ystod o fentrau a mesurau cadarnhaol i helpu i fynd i'r afael â thrais domestig. Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid i ni barhau i roi blaenoriaeth i atal drwy addysg, gwybodaeth ac arweiniad i sicrhau bod merched a menywod ifanc yn cael eu trin â pharch ac yn gallu teimlo'n ddiogel.

**Nick Ramsay:** I am pleased to contribute to the debate today and to support the motion and amendment 1 that was tabled by my party in my

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn falch o gyfrannu at y ddadl heddiw ac i gefnogi'r cynnig a gwelliant 1 a gyflwynwyd gan fy

name. In putting forward the amendment, we decided to augment the motion by recognising:

mhlaid i yn fy enw i. Wrth gyflwyno'r gwelliant, penderfynasom ychwanegu at y cynnig trwy gydnabod:

'The role and expertise of the Third Sector organisations in tackling violence against women and domestic abuse and providing support for victims and children.'

'Rôl ac arbenigedd mudiadau'r Trydydd Sector o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, yn ogystal â darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant.'

We also call on the Welsh Government to engage with third sector organisations, which is a point that was well made by my colleague Mark Isherwood at the start of the debate. Another point that he made related to the concern about the lack of Wales-specific data on abuse. One statistic is clear and chilling, that one in four women experience abuse at some time or another. As we have discussed in previous debates on this issue, on average, a woman will be assaulted 35 times before reporting it. That is a staggering statistic for many of us, but it shows how difficult it is, if you are not in that position, to understand the mental anguish in which many of those who are suffering domestic abuse find themselves. Often, it is not possible for women in particular to face up to an abusive situation unless they feel that they have support and that the Government has appropriate mechanisms of support for them.

Yn ogystal, galwn ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector, sydd yn bwynt a wnaed yn dda gan fy nghyd-Aelod Mark Isherwood ar ddechrau'r ddadl. Gwnaeth bwynt arall yn ymwneud â'r pryder ynghylch y diffyg data penodol i Gymru ar gam-drin. Mae un ystadegyn yn glir ac yn oeri'r gwaed, sef bod un o bob pedair menyw yn dioddef cam-drin ar ryw adeg neu'i gilydd. Fel yr ydym wedi ei drafod mewn dadleuon blaenorol ar y mater hwn, ar gyfartaledd, bydd menyw yn dioddef 35 o ymosodiadau cyn adrodd y cam-drin. Mae hwnnw'n ystadegyn syfrdanol i lawer ohonom, ond mae'n dangos pa mor anodd yw hi, os nad ydych yn y sefyllfa honno, i ddeall gwewyr meddwl llawer o ddioddefwyr cam-drin domestig. Yn aml, nid yw'n bosibl i fenywod yn benodol i wynebu sefyllfa dreisiol oni bai eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a bod gan y Llywodraeth fecanweithiau priodol ar gyfer eu cefnogi.

For a long time, the consequences of domestic abuse were simply not recognised by society and I am extremely thankful that has changed. I am pleased that initiatives have been brought forward and that several groups have been set up over the last few years that focus on the issue of supporting women, men and, indeed, children who are victims of abuse. Another statistic that I saw was that 90 per cent of domestic abuse incidents take place with children in the same room as the perpetrator or in the next room. That is horrific.

Am amser maith, ni chafodd canlyniadau cam-drin domestig eu cydnabod o gwbl gan gymdeithas ac yr wyf yn hynod ddiolchgar bod hynny wedi newid. Yr wyf yn falch bod cynlluniau wedi cael eu dwyn ymlaen, a bod nifer o grwpiau wedi cael eu sefydlu yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n canolbwyntio ar gefnogi menywod, dynion ac, yn wir, plant sy'n ddioddefwyr cam-drin. Ystadegyn arall a welais oedd bod 90 y cant o ddigwyddiadau cam-drin domestig yn digwydd gyda phlant yn yr un ystafell â'r troseddwr neu yn yr ystafell nesaf. Mae hynny'n arswydus.

I visited recently a care centre in my area that is run by the Abergavenny branch of Women's Aid. It was humbling to see the work that has been done by Women's Aid over the past few

Ymwelais yn ddiweddar â chanolfan gofal yn fy ardal sy'n cael ei redeg gan gangen y Fenni o Gymorth i Fenywod. Yr oedd yn gwneud i mi deimlo'n wylaidd i weld y

years in raising the profile of this issue and in providing much-needed support and safe havens for the women and children who are victims of abuse.

gwaith y mae Cymorth i Fenywod wedi ei wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i godi proffil y mater hwn ac wrth ddarparu cefnogaeth, sydd mawr ei hangen, a noddfeydd i fenywod a phlant sy’n ddioddefwyr cam-drin.

I welcome the roll-out of the 10,000 safer lives project—I think that that is what it was called. We will certainly be keeping a close eye on how that progresses. We are grateful for anything that is done to support the victims of abuse.

Yr wyf yn croesawu cyflwyno’r prosiect 10,000 o fywydau diogelach—yr wyf yn meddwl mai dyna beth oedd ei enw. Byddwn yn sicr yn cadw llygad barcud ar sut mae hynny’n mynd yn ei flaen. Yr ydym yn ddiolchgar am unrhyw beth sy’n cael ei wneud i gefnogi dioddefwyr cam-drin.

I was a bit disappointed by Jocelyn Davies’s remarks. I think that they overemphasised the issue of legal aid, and that broke with the spirit of the debate preceding them and the motion tabled by the Government, which we are happy to support. I will not, therefore, support the Plaid Cymru amendment. There are issues to do with access to legal aid that Plaid Cymru oversimplified, and I hope that they can be clarified during the course of this debate.

Cefais ychydig siom o glywed sylwadau Jocelyn Davies. Yr wyf yn meddwl eu bod yn gorbwysleisio cymorth cyfreithiol, a bod hynny wedi amharu ar ysbryd blaenorol y ddadl a’r cynnig a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, sydd yn gynnig yr ydym yn fodlon i’w gefnogi. Ni fyddaf, felly, yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru. Mae yna faterion yn ymwneud â mynediad i gymorth cyfreithiol y mae Plaid Cymru wedi eu gorsymleiddio, ac yr wyf yn gobeithio y gellir eu hegluro yn ystod y ddadl hon.

**Jenny Rathbone:** As others, including Nick Ramsay, have remarked, this issue is widespread. That is why it requires a whole-system approach. It is therefore absolutely right that we include the voluntary and community sectors in our strategy as much as the public sector, because all organisations that serve the community must be aware of abuse and be able to deal with it when they hear of it or see it.

**Jenny Rathbone:** Fel y mae siaradwyr eraill, gan gynnwys Nick Ramsay, wedi ei ddweud, mae’r mater hwn yn digwydd ar raddfa eang. Dyna pam y mae angen ymagwedd system gyfan. Felly, mae’n hollol iawn ein bod yn cynnwys y sectorau gwirfoddol a chymunedol yn ein strategaeth i’r un graddau â’r sector cyhoeddus, oherwydd bod yn rhaid i bob sefydliad sy’n gwasanaethu’r gymuned fod yn ymwybodol o gam-drin ac yn abl i ymdrin ag ef pan fyddant yn clywed amdano neu yn ei weld.

I particularly welcome the strategy’s focus on honour-based violence, forced marriages and female genital mutilation, which, in Cardiff, is not an uncommon concern. I recall the tragic death of Aamir Siddiqi in April 2010 in Ninian Road. He was the innocent victim of attackers who had mistaken him for somebody else. They were endeavouring to carry out a so-called honour-based killing. I am aware that it happens and it is therefore something that we need to be concerned about, and we need to ensure that

Croesawaf yn arbennig ffocws y strategaeth ar drais ar sail anrhydedd, priodasau dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod, sydd, yng Nghaerdydd, yn bryder nad yw’n anghyffredin. Yr wyf yn cofio marwolaeth drasig Aamir Siddiqi ym mis Ebrill 2010 yn Ninian Road. Yr oedd ef yn ddioddefwr diniwed ymosodwyr a oedd wedi ei gamgymryd am rywun arall. Yr oeddent yn ymdrechu i gyflawni’r hyn a

services are fit for purpose and alive to these issues so that, where possible, they can take preventative action.

elwir yn lladd ar sail anrhydedd. Yr wyf yn ymwybodol ei fod yn digwydd ac felly mae angen i ni fod yn bryderus amdano, ac mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'r diben ac yn effro i'r materion hyn fel y gallant, lle bo hynny'n bosibl, gymryd camau ataliol.

Female genital mutilation is carried out on girls as young as seven. It is therefore particularly important that teachers and teaching assistants are fully aware of the potential risks to girls, because they are members of what is probably the only organisation that a girl might come across that might be in a position to do something, were she to be taken abroad to be put through this illegal practice. I would like to know from the Minister what training is given to teaching assistants and teachers to ensure that they are aware of this possible risk. Additionally, do we have a midwife who specialises in the care of women who have had to endure female genital mutilation, as these women require specialist care when they become pregnant?

Anffurfir organau cenhedlu benywod merched mor ifanc â saith. Felly, mae'n arbennig o bwysig bod athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gwbl ymwybodol o'r risgiau posibl i ferched, oherwydd eu bod yn aelodau o beth mae'n debyg yw'r unig sefydliad y gallai merch ddod ar ei draws a allai wneud rhywbeth, pe bai hi yn cael ei dwyn dramor i ddioddef yr arfer anghyfreithlon hwn. Hoffwn pe bai'r Gweinidog yn fy hysbysu pa hyfforddiant a roddir i gynorthwywyr addysgu ac athrawon i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r risg posibl hwn. Yn ogystal, a oes gennym fydwraig sy'n arbenigo mewn gofalu am fenywod sydd wedi gorfod dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod, gan fod angen gofal arbenigol ar y menywod hyn pan fyddant yn beichiogi?

I would also like more detail on how the Welsh Government is ensuring that community safety partnerships and the multi-agency risk assessment conferences are effective in dealing with these new responsibilities. I noted that a report on domestic violence that the Assembly published in December 2008 called for community safety partnerships and MARACs to be evaluated within six months, but I have not been able to find these evaluations. I would be very interested to know the outcome of those evaluations, if they have been carried out.

Hoffwn fwy o fanylion heddiw am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y partneriaethau diogelwch cymunedol a'r cynadleddau asesu risg amlasiantaethol yn effeithiol wrth ymdrin â'r cyfrifoldebau newydd hyn. Nodais fod adroddiad ar drais domestig a gyhoeddodd y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2008 yn galw am werthuso'r partneriaethau a chynadleddau hyn o fewn chwe mis, ond nid wyf wedi gallu dod o hyd i'r gwerthusiadau hyn. Byddai gwybod beth oedd canlyniad y gwerthusiadau hyn, os ydynt wedi cael eu cyflawni, o ddiddordeb mawr i mi.

**Peter Black:** On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I welcome the progress that has been made with regard to the 'Right to be Safe' strategy, although we do recognise that a lot more needs to be done.

**Peter Black:** Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yr wyf yn croesawu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', er ein bod yn cydnabod bod angen gwneud llawer mwy.

The Labour manifesto—we are all waiting to hear how that will transform into a legislative programme later today—recognises the fact that much more work needs to be done. The

Mae maniffesto Llafur—yr ydym i gyd yn aros i glywed sut y bydd hynny'n trawsnewid i fod yn rhaglen ddeddfwriaethol yn ddiweddarach

manifesto outlines a number of policies that the Government intends to implement. It would therefore be helpful if the Government could provide an evaluation of the progress that it has made, along with its implementation plan. That will give a clear view of how many actions have already been implemented and of how much more work needs to be done.

heddiw—yn cydnabod y ffaith bod angen gwneud llawer mwy o waith. Mae'r maniffesto yn amlinellu nifer o'r polisïau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu rhoi ar waith. Felly, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Llywodraeth roi gwerthusiad o'r cynnydd y mae wedi ei wneud, ynghyd â'i chynllun gweithredu. Bydd hynny'n rhoi darlun clir o faint o gamau sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith ac o faint yn fwy o waith sydd i'w wneud.

4.00 p.m.

The Government's implementation plan includes 90 action points, the majority of which are to be taken by the Government or the public sector. The remaining 11 action points are to be taken by the voluntary sector. So, there is a substantial amount of work that needs to be done outside the direct control of the Government, so the Government needs to work much more closely with the voluntary sector and the voluntary organisations concerned in order to achieve the greater result that is needed.

Mae cynllun gweithredu'r Llywodraeth yn cynnwys 90 o bwyntiau gweithredu, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gyfrifoldeb y Llywodraeth neu'r sector cyhoeddus. Mae'r 11 pwynt gweithredu sy'n weddill yn gyfrifoldeb i'r sector gwirfoddol. Felly, mae llawer iawn o waith i'w wneud y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Llywodraeth, felly mae angen i'r Llywodraeth weithio'n llawer agosach gyda'r sector gwirfoddol a'r cyrff gwirfoddol dan sylw er mwyn cyflawni'r canlyniad gwell sydd ei angen.

Given that Welsh Women's Aid has raised concerns about the Government's internal cross-departmental working, there will obviously be some concerns about how effectively the Government is able to work with those outside organisations, particularly if they are outside the Government's direct control in terms of grants and so on. So, I would be interested to hear how the Government intends to improve its cross-departmental working in the Minister's response.

O ystyried bod Cymorth i Ferched Cymru wedi codi pryderon ynglŷn â gweithio mewnol ar draws adrannau'r Llywodraeth, mae'n amlwg y bydd rhai pryderon ynghylch pa mor effeithiol y mae'r Llywodraeth yn gallu gweithio gyda'r cyrff allanol hynny, yn enwedig os ydynt y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Llywodraeth o ran grantiau ac yn y blaen. Felly, byddai gennyf ddiddordeb clywed sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwella ei gwaith ar draws adrannau yn ymateb y Gweinidog.

The Minister has focused much of his attention lately on trying to improve collaboration between local authorities. So, in theory, addressing this need to work collaboratively between different departments within the Government should be fairly simple by comparison. However, I note from the briefing that we all received from the Wales violence against women action group that there is concern that the commitment of the Welsh Government to tackling violence against women and girls has not been mirrored at local authority level across Wales. It is suggested that there is a need for stronger guidance to local

Mae'r Gweinidog wedi canolbwyntio llawer yn ddiweddar ar geisio gwella cydweithio rhwng awdurdodau lleol. Felly, yn ddamcaniaethol, dylai mynd i'r afael â'r angen hwn i wahanol adrannau o fewn y Llywodraeth i weithio ar y cyd fod yn eithaf syml mewn cymhariaeth. Fodd bynnag, nodaf o'r briff a dderbyniasom i gyd gan y grŵp gweithredu ar drais yn erbyn menywod Cymru fod pryder nad yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched wedi cael ei adlewyrchu ar lefel awdurdod lleol ledled Cymru. Awgrymir bod angen canllawiau cryfach i lywodraeth leol, a addawyd, ond

government, which was promised but which has not been delivered. It says that, in some instances, local authorities continue to misunderstand equalities legislation, endangering much needed specialist support services within the women's voluntary sector.

sydd heb gael eu cyflwyno. Mae'r grŵp yn dweud bod awdurdodau lleol mewn rhai achosion yn parhau i gamddeall deddfwriaeth cydraddoldeb, gan beryglu gwasanaethau cymorth arbenigol mawr eu hangen o fewn sector gwirfoddol y menywod.

I think that there is also an element of misunderstanding of the impact of certain decisions taken by local government in relation to equality legislation. A good example of that is the fate of the Swansea Women's Aid office, which I understand is currently under threat. There seems to be a huge amount of confusion about exactly why that is. I think that it boils down to the fact that the grants that the council gives it for rent are being stopped. I know that discussions are under way as part of that. However, that is a good example of a decision that has been taken by one arm of local government having an impact on the policy imperatives of the council and of the Welsh Government. That needs to be addressed. Perhaps the Minister can say whether he has been involved in that and whether he is having discussions with the council in that regard. I have written to the council on this, and I hope that the Minister will be able to support that action.

Credaf fod yna hefyd elfen o gamddealltwriaeth o effaith penderfyniadau penodol a wneir gan lywodraeth leol mewn perthynas â deddfwriaeth cydraddoldeb. Enghraifft dda o hynny yw tynged swyddfa Cymorth i Fenywod Abertawe, sydd, yr wyf yn deall, o dan fygythiad ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod llawer iawn o ddryswch ynghylch pam yn union y mae hynny. Credaf ei fod yn y bôn yn ganlyniad i'r ffaith bod y grantiau y mae'r cyngor yn eu rhoi iddi ar gyfer rhent yn cael eu stopio. Gwn fod trafodaethau ar y gweill fel rhan o hynny. Fodd bynnag, mae hynny yn enghraifft dda o benderfyniad sydd wedi cael ei gymryd gan un adain o lywodraeth leol yn effeithio ar orchmynion polisi'r cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae angen mynd i'r afael â hynny. Efallai y gall y Gweinidog ddweud a ydyw wedi bod yn rhan o hynny ac a ydyw'n cael trafodaethau gyda'r cyngor yn hynny o beth. Yr wyf wedi ysgrifennu at y cyngor ar hyn, ac yr wyf yn gobeithio y gall y Gweinidog gefnogi'r camau hynny.

The Welsh Liberal Democrats support all policies to tackle domestic abuse, and we are pleased that the Government is taking the issue seriously. However, there are a number of other approaches that could be taken, things that are not included in the Labour manifesto, difficult as that is to understand. For example, the Government could introduce a training strategy for professionals working in the education and health sectors and could provide additional information for schools on domestic abuse. The Wales violence against women action group identified the need to focus more on preventive work, and it seems that these policies could make some significant progress in that area. We would be interested to know whether the Government could consider adopting approaches such as these in its overall strategy.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r holl bolisïau i fynd i'r afael â cham-drin domestig, ac yr ydym yn falch bod y Llywodraeth yn cymryd y mater o ddifrif. Fodd bynnag, mae nifer o ddulliau eraill y gellid eu cymryd, pethau nad ydynt wedi eu cynnwys ym maniffesto'r Blaid Lafur, er mor astrus y bo'r syniad hwnnw. Er enghraifft, gallai'r Llywodraeth gyflwyno strategaeth hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sectorau addysg ac iechyd a gallai ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ysgolion ar gam-drin domestig. Nododd y grŵp gweithredu ar drais yn erbyn menywod Cymru'r angen i ganolbwyntio mwy ar waith ataliol, ac mae'n ymddangos y gallai'r polisïau hyn wneud peth cynnydd sylweddol yn y maes hwnnw. Byddai gennym ddiddordeb mewn cael gwybod a allai'r Llywodraeth ystyried mabwysiadu dulliau o'r fath yn ei strategaeth gyffredinol.

It is important to remember that domestic

Mae'n bwysig cofio bod cam-drin domestig

abuse affects men as well as women, but the nature of that abuse can often be quite different. In the Welsh Liberal Democrat manifesto, we said that we believed that strategies for tackling domestic abuse against men and against women should be kept distinct and always based on evidence. I would be grateful if the Minister could confirm whether that is the approach that his Government is taking.

yn effeithio ar ddynion yn ogystal â menywod, ond yn aml gall natur y cam-drin hwnnw fod yn dra gwahanol. Ym maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, dywedasom ein bod yn credu y dylai strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig yn erbyn dynion ac yn erbyn menywod gael eu cadw ar wahân a bod yn seiliedig ar dystiolaeth bob tro. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gadarnhau ai dyna'r dull y mae ei Lywodraeth yn ei gymryd.

This is a huge agenda and one that the Government is clearly taking seriously. I have already outlined a couple of things that were in the Welsh Liberal Democrat manifesto that were not in the Labour manifesto, but the progress that has been made so far is good. However, more certainly needs to be done, and I am grateful that this debate is being undertaken in a constructive atmosphere. I hope that the Minister can take my remarks in that context as well.

Mae hwn yn agenda anferth ac yn un y mae'r Llywodraeth yn amlwg yn ei gymryd o ddifrif. Yr wyf eisoes wedi amlinellu un neu ddau o bethau a oedd ym maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru nad oedd ym maniffesto'r Blaid Lafur, ond mae'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn dda. Fodd bynnag, yn sicr mae angen gwneud mwy, ac yr wyf yn ddiolchgar bod y ddadl hon yn cael ei chynnal mewn awyrgylch adeiladol. Yr wyf yn gobeithio y gall y Gweinidog gymryd fy sylwadau yn y cyd-destun hwnnw hefyd.

**Julie Morgan:** I congratulate the Minister on the progress that has been made so far. I want to focus briefly on three issues. One is the issue of women living in Wales who have been abused who have no recourse to public funds. Another is the effect of legal aid cuts on women in particular, which Jocelyn Davies has already alluded to. The third is the importance of looking at the needs of children, which has already been mentioned by other Members. I want to highlight the work of the Black Association of Women Step Out, which is the voluntary organisation providing specialist services for black, Asian and minority ethnic women and children experiencing, or at risk of experiencing, domestic abuse. For many years, there has been a huge problem with providing a service for abused women living in Wales who have no access to public funds. These women are from other countries, mainly outside the European Community, who are victims of domestic violence and were either married to British citizens or had partners who had settled in the UK. BAWSO has been running the sojourner project in Wales since November 2009, and I know that the Welsh Government is assessing the success of that project. Before it was introduced, women

**Julie Morgan:** Yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Yr wyf am ganolbwyntio'n gryno ar dri mater. Un yw menywod sy'n byw yng Nghymru sydd wedi cael eu cam-drin ond sydd heb hawl i gael arian cyhoeddus. Un arall yw effaith y toriadau mewn cymorth cyfreithiol ar fenywod yn arbennig, y cyfeiriodd Jocelyn Davies ato eisoes. Y trydydd yw pwysigrwydd edrych ar anghenion plant, sydd eisoes wedi cael ei grybwyll gan Aelodau eraill. Yr wyf am dynnu sylw at waith Black Association of Women Step Out, sef y corff gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i fenywod a phlant duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n dioddef, neu mewn perygl o brofi, cam-drin domestig. Am flynyddoedd lawer, mae problem enfawr wedi bodoli gyda darparu gwasanaeth i fenywod wedi eu cam-drin sydd yn byw yng Nghymru nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus. Mae'r menywod hyn yn dod o wledydd eraill, yn bennaf o'r tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd, yn ddioddefwyr trais domestig ac yr oeddent naill ai'n briod i ddinasyddion Prydeinig neu yr oedd ganddynt bartneriaid a oedd wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig. Mae BAWSO wedi bod yn rhedeg y prosiect

from other countries with no recourse to public funds were not able to access benefits such as housing benefit and income support, they were much more vulnerable and their children suffered in particular.

alltud yng Nghymru ers Tachwedd 2009, a gwn fod Llywodraeth Cymru yn asesu llwyddiant y prosiect hwnnw. Cyn iddo gael ei gyflwyno, yr oedd menywod o wledydd eraill heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus yn methu â chael mynediad i fudd-daliadau megis budd-dal tai a chymhorthdal incwm, yr oeddent yn llawer mwy agored i niwed ac yr oedd eu plant yn dioddef yn arbennig.

The money for this project was initiated by the Labour UK Government in November 2009, and funding has been extended until March 2012. There is a continuing need for the project to tackle a continuing problem for women living in Wales whose children need to receive Welsh services and who do not have access to resources. BAWSO has long supported women in this position from its own resources. Up to 1 April, BAWSO received 117 referrals of women with no recourse to public funds, and 65 of those were eligible for help. BAWSO statistics show that many of those women have experienced other types of abuse as well; they have been trafficked, subjected to forced marriages, undergone female genital mutilation or have been raped. BAWSO has produced a report that describes these statistics. I ask the Minister to tell us what assessment the Government has made of the situation. It is important that pressure is kept on the UK Government to continue this programme; I hope that the Minister will be able to reassure us on that.

Cychwynnwyd ariannu’r prosiect hwn gan Lywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2009, ac mae cyllid wedi cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2012. Mae angen parhaus am y prosiect er mwyn mynd i’r afael â phroblem barhaus i fenywod sy’n byw yng Nghymru â phlant sydd angen derbyn gwasanaethau Cymreig a heb fynediad at adnoddau. Mae BAWSO wedi cefnogi menywod yn y sefyllfa hon o’i adnoddau ei hun am sbel. Hyd at 1 Ebrill, derbyniodd BAWSO 117 o atgyfeiriadau o fenywod heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus, ac yr oedd 65 ohonynt a oedd yn gymwys i gael cymorth. Dengys ystadegau BAWSO fod llawer o’r menywod hynny wedi profi mathau eraill o gam-drin yn ogystal; maent wedi cael eu masnachu, wedi dioddef priodasau dan orfod, dioddef anffurfio organau rhywiol benywod neu wedi cael eu treisio. Mae BAWSO wedi cynhyrchu adroddiad sy’n disgrifio’r ystadegau hyn. Gofynnaf i’r Gweinidog ein hysbysu pa asesiad y mae’r Llywodraeth wedi ei wneud o’r sefyllfa. Mae’n bwysig bod y pwysau yn cael ei gadw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig er parhad y rhaglen hon. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gallu tawelu ein meddyliau ar hynny.

Jocelyn Davies covered the issue of legal aid. Even though the UK Government says that domestic violence cases will still receive legal aid, poorer women will be disproportionately hit by the general cuts. As Amnesty International points out, poverty and marginalisation are both causes and consequences of violence against women.

Trafododd Jocelyn Davies gymorth cyfreithiol. Er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud y bydd achosion o drais domestig yn dal i dderbyn cymorth cyfreithiol, bydd menywod tlotach yn cael eu taro yn anghymesur gan y toriadau cyffredinol. Fel y nododd Amnest Rhyngwladol, mae tlodi a chael eich gwthio i’r neilltu ill dau yn achosion a chanlyniadau trais yn erbyn menywod.

Other Members have mentioned the effects on children of being able to see and hear domestic abuse, and we are all aware of those awful situations. I welcome the initiatives to

Mae Aelodau eraill wedi sôn am yr effeithiau ar blant o allu gweld a chlywed cam-drin domestig, ac yr ydym i gyd yn ymwybodol o’r sefyllfaoedd ofnadwy hynny. Yr wyf yn

make it a key part of the strategy in schools and with professionals so that they can recognise when abuse has occurred. 'The Right to be Safe' is an important statement to make, and this right extends beyond women to cover children as well.

croesawu'r mentrau i'w wneud yn rhan allweddol o'r strategaeth mewn ysgolion a gyda gweithwyr proffesiynol er mwyn iddynt allu adnabod pan fydd cam-drin wedi digwydd. Mae 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' yn ddatganiad pwysig i'w wneud, ac mae'r hawl hon yn ymestyn y tu hwnt i fenywod i gynnwys plant yn ogystal.

**Mohammad Asghar:** Violence against women cannot be tolerated in any civilised society, and I welcome any progress made since this strategy was published. I am aware that this is a six-year strategy with a three-year implementation plan, so there is still a long way to go in terms of the targets that the Welsh Government has set itself. Worryingly, domestic abuse is under-reported and estimates suggest that, on average, a woman will be assaulted 35 times before reporting abuse to the police. It is terrible to learn that, in nine out of 10 cases, a child is either present or in the next room when domestic abuse takes place. Clearly, this can have hugely damaging consequences on the child and adds another dimension to this distressing issue.

**Mohammad Asghar:** Ni ellir goddef trais yn erbyn menywod mewn unrhyw gymdeithas wâr, ac yr wyf yn croesawu unrhyw gynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r strategaeth hon. Yr wyf yn ymwybodol ei bod yn strategaeth chwe blynedd gyda chynllun gweithredu tair blynedd, felly mae llawer o ffordd i fynd o ran y targedau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu iddi ei hun. Mae'n fater gofid bod cam-drin domestig yn cael ei dan-adrodd ac mae amcangyfrifon yn awgrymu, ar gyfartaledd, y bydd menyw yn dioddef 35 o ymosodiadau cyn adrodd cam-drin i'r heddlu. Mae'n ofnadwy i ddysgu, mewn naw allan o 10 achos, fod plentyn naill ai'n bresennol neu yn yr ystafell nesaf pan fydd cam-drin domestig yn digwydd. Yn amlwg, gall hyn gael effaith niweidiol iawn ar y plentyn ac mae'n ychwanegu dimensiwn arall at y mater gofidus hwn.

As our amendment suggests, the invaluable role that the third sector plays in tackling violence against women cannot be underestimated. I take this opportunity to pay tribute to the work that so many third sector organisations do in tackling the problems that exist in Wales. Those with the experience of working closest with the victims are best placed to offer effective support. Specialist third sector organisations can also offer invaluable input to ensure that this strategy is based on the most relevant and up-to-date research available. I hope that the Welsh Government will outline how it intends to fully embrace the expertise that the third sector offers and how it will engage with the sector as the strategy is taken forward.

Fel yr awgryma ein gwelliant, mae'n rhaid gweld gwerth amhrisiadwy'r rôl y mae'r trydydd sector yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod. Manteisiaf ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i waith cymaint o fudiadau trydydd sector wrth fynd i'r afael â'r problemau sy'n bodoli yng Nghymru. Y bobl sydd â phrofiad o weithio agosaf â'r dioddefwyr sydd yn y sefyllfa orau i gynnig cefnogaeth effeithiol. Gall mudiadau arbenigol trydydd sector hefyd gynnig mewnbwn amhrisiadwy i sicrhau bod y strategaeth hon yn seiliedig ar yr ymchwil mwyaf perthnasol a diweddar sydd ar gael. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu cofleidio'r arbenigedd y mae'r trydydd sector yn ei gynnig a sut y bydd yn ymgysylltu â'r sector wrth i'r strategaeth gael ei datblygu.

Welsh Women's Aid has raised concerns about cross-departmental work on the strategy. We raised this issue in the build-up to the election in May, when we highlighted the importance of a cross-departmental

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi codi pryderon am waith ar draws adrannau ar y strategaeth. Codwyd y mater hwn gennym yn y cyfnod cyn yr etholiad ym mis Mai, pan dynasom sylw at bwysigrwydd ymagwedd ar

approach in our manifesto. Given the concern that exists, I hope that the Minister can outline how different Welsh Government departments are working together to ensure that the objectives of this strategy are realised. As it stands, it is concerning to hear lobby groups accuse many Welsh Government departments of not having considered the matter at all. The Minister must work with other departments to ensure that they are engaged with this hugely important strategy, and that they understand their responsibilities.

draws adrannau yn ein maniffesto. O ystyried y pryder sy’n bodoli, yr wyf yn gobeithio y gall y Gweinidog amlinellu sut y mae gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau bod amcanion y strategaeth hon yn cael eu gwireddu. Fel y mae, mae’n peri pryder i glywed grwpiau lobïo yn cyhuddo nifer o adrannau Llywodraeth Cymru o beidio ag ystyried y mater o gwbl. Mae’n rhaid i’r Gweinidog weithio gydag adrannau eraill i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â’r strategaeth hynod o bwysig hon, a’u bod yn deall eu cyfrifoldebau.

I am also concerned to hear evidence from the Wales violence against women action group that suggests that there has been only minimal progress of raising awareness of all forms of violence against women in schools. While I am aware that new personal and social education guidance on domestic abuse is now available, it seems that more needs to be done in schools to raise awareness and to extend advice.

Yr wyf hefyd yn bryderus i glywed tystiolaeth y grŵp gweithredu ar drais yn erbyn menywod Cymru sy’n awgrymu mai dim ond cynnydd bach sydd wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o bob math o drais yn erbyn menywod mewn ysgolion. Er fy mod yn ymwybodol bod canllawiau addysg bersonol a chymdeithasol newydd ar gam-drin domestig ar gael yn awr, mae’n ymddangos bod angen gwneud mwy mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth ac i ymestyn cyngor.

I also want to briefly focus on rural communities. The strategy’s implementation plan says that the Welsh Government will develop and issue publicity based on the accessibility of services and support in rural areas, and implement local plans to improve access to services in Wales’s rural communities. Unfortunately, the Wales violence against women action group says that there are areas of rural Wales with little or no service provision. Given the common problem in our rural communities of isolation, knowledge of, and access to, abuse services, it is clearly vital that the Welsh Government needs to take action here.

Yr wyf hefyd am ganolbwyntio am ychydig ar gymunedau gwledig. Mae cynllun gweithredu’r strategaeth yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi cyhoeddusrwydd yn seiliedig ar hygyrchedd gwasanaethau a chymorth mewn ardaloedd gwledig, a gweithredu cynlluniau lleol i wella mynediad i wasanaethau yng nghefn gwlad Cymru. Yn anffodus, mae’r grŵp gweithredu ar drais yn erbyn menywod Cymru yn dweud bod yna ardaloedd yng nghefn gwlad Cymru gydag ychydig neu ddim darpariaeth gwasanaethau. O ystyried y broblem gyffredin yn ein cymunedau gwledig o arunigedd, gwybodaeth am, a mynediad at, wasanaethau cam-drin, mae’n amlwg yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar hyn.

To conclude, there are many areas that Julie eloquently mentioned, as did some of my colleagues, that I will not mention again. However, you should seriously consider that the people who handle local domestic abuse must be local people, such as Neighbourhood Watch and many other elements. Most people know each other in local communities, so

I gloi, mae llawer o feysydd a grybwyllodd Julie yn huawdl, fel y gwnaeth rhai o’m cyd-Aelodau, na chrybwyllaf eto. Fodd bynnag, dylech ystyried o ddifrif fod yn rhaid i’r bobl sy’n gweithio gyda cham-drin domestig yn lleol fod yn bobl leol, megis Gwarchod Cymdogaeth a llawer o elfennau eraill. Mae’r rhan fwyaf o bobl yn adnabod ei gilydd

being local helps them to know what is going in each house, especially during crucial times when, for example, a drunk person comes home and abuses the victim soon after before coming to their senses the next day. If the family is taken away, most abuse can be avoided. Similarly, we have to look seriously at different cultural values in order to sort it out.

mewn cymunedau lleol, felly mae bod yn lleol yn eu helpu i wybod beth sy'n digwydd ym mhob tŷ, yn enwedig yn ystod adegau allweddol pan, er enghraifft, fo person meddw yn dod adref ac yn cam-drin y dioddefwr yn fuan wedi hynny, cyn callio drannoeth. Os bydd y teulu yn cael ei gymryd i ffwrdd, gellir osgoi'r rhan fwyaf o gam-drin. Yn yr un modd, rhaid i ni edrych o ddifrif ar werthoedd diwylliannol gwahanol er mwyn datrys y broblem.

**Joyce Watson:** I welcome the progress that has been made on the 'Right to be Safe' strategy. It has been mentioned that we are only in year one of what is, after all, a six-year strategy, as the Minister and others said. In that first year, we have completed 41 out of the 90 actions set out in the plan. Therefore, I pay tribute to the Minister's decision to protect the budget for tackling violence against women in this term. Over the last six years, funding in this area has gone up by nearly £5.5 million. By protecting the budget, the Minister has taken an important and commendable decision, especially in the face of the worst funding settlement since devolution.

**Joyce Watson:** Yr wyf yn croesawu'r cynnydd a wnaed ar strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'. Mae wedi cael ei grybwyll mai dim ond y flwyddyn gyntaf yw hon o'r hyn sydd, wedi'r cyfan, yn strategaeth chwe blynedd, fel y dywedodd y Gweinidog ac eraill. Yn y flwyddyn gyntaf honno, yr ydym wedi cwblhau 41 allan o'r 90 o gamau gweithredu a nodwyd yn y cynllun. Felly, rhoddaf deyrnged i benderfyniad y Gweinidog i amddiffyn y gyllideb ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod yn y tymor hwn. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r cyllid yn y maes hwn wedi cynyddu o bron £5.5 miliwn. Drwy amddiffyn y gyllideb, mae'r Gweinidog wedi cymryd penderfyniad pwysig a chlodwiw, yn enwedig yn wyneb y setliad cyllido gwaethaf ers datganoli.

The Minister will be well aware of the particular barriers to getting end to violence against women services into rural communities. For example, there is a mobile sexual assault referral centre currently active in the Dyfed Powys area, which will be monitored and evaluated for the next six months. I look forward to an update report in six months' time to see how that has worked.

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r rhwystrau penodol i gael gwasanaethau terfyn ar drais yn erbyn menywod i gymunedau gwledig. Er enghraifft, mae canolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol symudol yn weithredol ar hyn o bryd yn ardal Dyfed Powys, a fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso yn ystod y chwe mis nesaf. Edrychaf ymlaen at adroddiad diweddaru ymhen chwe mis i weld sut y mae hynny wedi gweithio.

4.15 p.m.

The Government has also invested in raising awareness of domestic abuse among small rural organisations that are not necessarily specialist, but who may come into contact with victims—organisations such as the Women's Institute, the National Farmers Union, the Women's Food and Farming Union and community councils. Therefore, there has been progress. However, what is

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi buddsoddi mewn codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymysg mudiadau bach gwledig nad ydynt o reidrwydd yn rai arbenigol, ond a allai ddod i gysylltiad â dioddefwyr—sefydliadau megis Sefydliad y Merched, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Bwyd a Ffermio'r Menywod a chynghorau cymunedol. Felly, bu cynnydd. Fodd bynnag,

most important is that funding for the sort of specialist support services that are delivered by the women's voluntary sector are supported in that community. Unfortunately, the commitment in the Minister's department, and across the Welsh Government, to tackling violence against women and girls is not always entirely mirrored at local authority level. The danger is that if local authorities do not understand these issues fully, vital services will be put at risk as councils look to cut costs. I would ask the Minister to ask any local authority considering cutting its budget to help to end violence against women to put forward a business case justifying any such proposed cut. I also urge the Minister to issue strong guidance for local government and to ensure that front-line services are prioritised.

yr hyn sydd fwyaf pwysig yw bod cyllid ar gyfer y math o wasanaethau cymorth arbenigol sy'n cael eu darparu gan sector gwirfoddol y menywod yn cael eu cefnogi yn y gymuned honno. Yn anffodus, nid yw'r ymrwymiad yn adran y Gweinidog, ac ar draws Llywodraeth Cymru, i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched bob amser yn cael ei adlewyrchu'n gyfan gwbl ar lefel awdurdod lleol. Y perygl yw, os nad yw awdurdodau lleol yn deall y materion hyn yn llawn, bydd gwasanaethau hanfodol yn cael eu rhoi mewn perygl wrth i gynghorau ystyried torri costau. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog i ofyn i unrhyw awdurdod lleol sy'n ystyried torri ei gyllideb er mwyn helpu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod i gyflwyno achos busnes i gyfiawnhau unrhyw doriad arfaethedig o'r fath. Rwyf hefyd yn annog y Gweinidog i gyhoeddi canllawiau cryf i lywodraeth leol ac i sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn cael eu blaenoriaethu.

I would ask for another step forward—I have a wish list—by asking the Minister to recommend training on ending violence against women for all councillors, and to make it a statutory requirement to become a councillor. All too often it is all too easy to remove a service and funding if you do not understand what the funding and the service does.

Byddwn yn gofyn am gam arall ymlaen—mae gennyf restr o ddymuniadau—gan ofyn i'r Gweinidog argymell hyfforddiant ar roi terfyn ar drais yn erbyn menywod ar gyfer pob cynghorydd, ac i'w gwneud yn ofyniad statudol i fod yn gynghorydd. Yn rhy aml, mae'n rhy hawdd i gael gwared ar wasanaeth a chyllid os nad ydych yn deall yr hyn y mae'r cyllid a'r gwasanaeth yn ei wneud.

As others have mentioned, earlier in the year, the Welsh Government published a review of domestic abuse education in schools, highlighting a need for age-appropriate preventive education. I understand that the Government intends to consult on this, and include it within personal and social education lessons. However, given that no date has been set for a review of the curriculum, how can we introduce this issue into schools in the near future?

Fel y mae eraill wedi ei grybwyll, yn gynharach yn y flwyddyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o addysg cam-drin domestig mewn ysgolion, gan dynnu sylw at yr angen am addysg ataliol briodol i'w hoedran. Deallaf fod y Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar hyn, a'i gynnwys o fewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Fodd bynnag, gan nad oes dyddiad wedi'i osod ar gyfer adolygiad o'r cwricwlwm, sut y gallwn gyflwyno'r mater hwn i ysgolion yn y dyfodol agos?

I thank the Welsh Government for the commitment it has shown. All secondary schools in Wales now have access to counselling services, and a primary school pilot scheme is running in Pembrokeshire, as well as in other places, to support early intervention. I look forward to the evaluation that will emerge from those projects when the

Diolchaf i Lywodraeth Cymru am yr ymrwymiad y mae wedi ei ddangos. Mae pob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn hyn yn cael mynediad i wasanaethau cynghori, ac y mae cynllun peilot ysgolion cynradd yn rhedeg yn Sir Benfro, yn ogystal â mewn mannau eraill, i gefnogi ymyrraeth gynnar. Edrychaf ymlaen at y gwerthusiad a fydd yn

pilot scheme ends in April.

deillio o'r prosiectau hynny pan fydd y cynllun peilot yn dod i ben ym mis Ebrill.

**Antoinette Sandbach:** I am delighted to have the opportunity to speak in this debate as someone who prosecuted and defended domestic abuse cases for some time. I have a number of matters that I wish to raise.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf wrth fy modd o gael y cyfle i siarad yn y ddadl hon fel rhywun sydd wedi erlyn ac amddiffyn achosion cam-drin domestig ers peth amser. Mae gennyf nifer o faterion yr wyf am eu codi.

Perhaps I could assist the Minister in relation to some of the queries raised by Joyce Watson. I know that local councils are now required to carry out an equality impact assessment of any new policies that they introduce. The Equality and Human Rights Commission has provided a useful guide in that respect.

Efallai y gallwn gynorthwyo'r Gweinidog mewn perthynas â rhai o'r cwestiynau a godwyd gan Joyce Watson. Gwn ei fod yn ofynnol ar gynghorau lleol bellach i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisïau newydd y maent yn eu cyflwyno. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi darparu canllaw defnyddiol yn hynny o beth.

One of the principal concerns is that men are significantly more likely to be repeat offenders when it comes to domestic abuse. A recent study found that 83 per cent of male perpetrators had at least two incidents recorded. From my experience of working in the justice system, a key aspect is the way that these incidents are recorded and the very first actions of the police on the scene. I say that because there is evidence to suggest that, sometimes, men are reporting as victims when, in fact, they may be perpetrators. Welsh Women's Aid has indicated that approximately one third of men who initially present as victims would appear to be perpetrators. Therefore, the first actions taken on arrival at those incidents are crucial. Even if incidents are not reported initially, the recording of those incidents can be used later, as was referred to with regard to concerns about the Plaid amendment, to justify actioning legal aid. I therefore do not agree that the legal aid changes will, in effect, target this group of women.

Un o'r prif bryderon yw bod dynion yn llawer mwy tebygol o fod yn droseddwyr dro ar ôl tro pan ddaw'n fater o gam-drin domestig. Canfu astudiaeth ddiweddar fod gan 83 y cant o droseddwyr gwrywaidd o leiaf ddau ddigwyddiad a gofnodwyd. O'm profiad i o weithio yn y system gyfiawnder, agwedd allweddol yw'r ffordd y mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu cofnodi yn ogystal â chamau cyntaf yr heddlu yn lleoliad y digwyddiad. Dywedaf hynny oherwydd bod tystiolaeth i awgrymu bod dynion weithiau yn dweud mai y nhw yw'r dioddefwyr pan, mewn gwirionedd, efallai mai nhw yw'r troseddwyr. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi nodi bod tua thraean o ddynion sydd yn y lle cyntaf yn cyflwyno eu hunain fel dioddefwyr yn ymddangos i fod yn droseddwyr. Felly, mae'r camau cyntaf a gymerir wrth gyrraedd y digwyddiadau hynny'n hanfodol. Hyd yn oed os nad yw digwyddiadau yn cael eu hadrodd yn y lle cyntaf, gellir defnyddio cofnod o'r digwyddiadau hynny yn nes ymlaen, fel y cyfeiriwyd ato mewn perthynas â phryderon am welliant Plaid Cymru, i gyfiawnhau gweithredu cymorth cyfreithiol. Felly, nid wyf yn cytuno y bydd y newidiadau cymorth cyfreithiol, i bob pwrpas, yn targedu'r grŵp hwn o ferched.

The list that you read out, which Jocelyn Davies referred to, is pretty comprehensive in terms of use of the courts. There are offences such as those under the Protection from

Mae'r rhestr yr ydych wedi ei ddarllen i ni, y cyfeiriodd Jocelyn Davies ato, yn eithaf cynhwysfawr o ran y defnydd o'r llysoedd. Mae troseddau megis y rhai o dan y Ddeddf

Harassment Act 1997, where the Act can be used to address behaviour in the home that is not actual violence. Fear of violence or the threat of violence and actions taken by any member of the public that would constitute harassment would be sufficient for a criminal prosecution and, potentially, would bring the case into that domain.

Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, lle gellir defnyddio'r Ddeddf i fynd i'r afael ag ymddygiad yn y cartref nad yw'n trais gwirioneddol. Byddai ofn trais neu fygythiad o drais a chamau gweithredu a gymerwyd gan unrhyw aelod o'r cyhoedd a fyddai'n gyfystyr i aflonyddu yn ddigonol ar gyfer erlyniad troseddol ac, o bosibl, byddai'n dod â'r achos i mewn i'r parth hwnnw.

**Jocelyn Davies:** The point is that yes, courts would take action in that case, but the fact is that women do not report it, and this strategy is intended to cover a much wider range of abuse than domestic violence alone.

**Jocelyn Davies:** Y pwynt yw y byddai llysoedd yn cymryd camau yn yr achos hwnnw, ond y ffaith yw nad yw merched yn rhoi gwybod am y peth, a bwriad y strategaeth hon yw ymdrin ag ystod llawer ehangach o gam-drin na thrais yn y cartref yn unig.

**Antoinette Sandbach:** I accept that, but, therefore, there is a role for education and a need for notes to be made. A report could be made, for example, to Welsh Women's Aid. An incident needs to be reported to an independent third party and contemporaneous notes made. That could be a sufficient to count as a report; it would not necessarily need to be reported to a police officer.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn derbyn hynny, ond, felly, mae rôl ar gyfer addysg ac y mae angen gwneud nodiadau. Gallai adroddiad cael ei wneud, er enghraifft, i Gymorth i Ferched Cymru. Mae angen rhoi gwybod am ddigwyddiad i'r trydydd parti annibynnol a gwneud nodiadau cyfoes arno. Gallai hynny fod yn ddigon i gyfrif fel adroddiad; ni fyddai angen rhoi gwybod i swyddog yr heddlu o reidrwydd.

I echo the concern raised by both Mohammad Asghar and Joyce Watson that there is a particular need for services in rural Wales, as has been identified by the Wales Violence Against Women Action Group. Furthermore, that group has indicated that the commitment within the Welsh Government to tackling violence against women and girls has not been mirrored at the local authority level across Wales, and that stronger guidance for local government was promised by the Welsh Government but has not been delivered. Therefore, I would be grateful to hear an update on that.

Ategaf y pryder a godwyd gan Mohammad Asghar a Joyce Watson fod angen arbennig am wasanaethau yn y Gymru wledig, fel y'i nodwyd gan Grŵp Gweithredu Cymru Trais yn Erbyn Menywod. Ar ben hynny, mae'r grŵp hwnnw wedi dangos nad yw'r ymrwymiad o fewn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched wedi cael ei adlewyrchu ar lefel awdurdodau lleol ledled Cymru, a bod canllawiau cryfach ar gyfer llywodraeth leol wedi'u haddo gan Lywodraeth Cymru ond nid yw wedi'u cyflwyno. Felly, byddwn yn ddiolchgar o glywed y newyddion diweddaraf am hynny.

I would also like to hear whether the Minister is proposing to support the roll-out of a domestic violence protection order in Wales that would give police and courts the power to exclude perpetrators from the victim's home for up to 28 days and whether or not the Government is looking at the performance of the specialist domestic violence courts. It is clear that a dialogue is needed within local authorities and within

Hoffwn hefyd glywed a ydyw'r Gweinidog yn bwriadu cefnogi cyflwyno'r gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig yng Nghymru a fyddai'n rhoi i'r heddlu a'r llysoedd y grym i wahardd drwgweithredwyr o gartref y dioddefwr am hyd at 28 niwrnod ac a ydyw'r Llywodraeth yn edrych ar berfformiad y llysoedd arbenigol trais yn y cartref. Mae'n amlwg bod angen deialog o fewn awdurdodau lleol ac o fewn Cymru, ond

Wales, but also between the Welsh Government and Whitehall, including with regard to the immigration system and in relation to aspects of the criminal justice system to which I have just referred.

hefyd rhwng Llywodraeth Cymru a Whitehall, gan gynnwys o ran y system fewnfudo ac mewn perthynas ag agweddau ar y system cyfiawnder troseddol yr wyf newydd gyfeirio ato.

This is a major issue and one that many women face. I am grateful that the Government has brought forward these measures so that progress can be monitored and we can have a debate of this kind, but, clearly, there are issues that still need to be addressed.

Mae hwn yn fater pwysig ac yn un sy'n wynebu llawer o fenywod. Rwyf yn ddiolchgar bod y Llywodraeth wedi cyflwyno'r mesurau hyn er mwyn i'r cynnydd gael ei fonitro a gallwn gael dadl o'r math hwn, ond, yn amlwg, y mae materion y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd.

**Ann Jones:** Like many across the Chamber, as an Assembly Member, I have been around my constituency and I also pay tribute to all those who work closely with the victims of domestic abuse, and, in particular, to those at the North Wales Women's Centre in Rhyl. I am proud to have brought many Ministers to the centre to see the excellent work carried out there. I am pleased that working to support the third sector experts in this field has always been the focus of Welsh Labour in Government. The funding that backs up 'The Right to be Safe' strategy is testament to that approach. That financial backing is incredibly important, because it is not possible to do this work when it is under-resourced or if you have concerns about funding. People working in this field need to know that they can concentrate on the victims of domestic abuse rather than worrying about whether they will have a job next month, which, inevitably, would take their focus away from their work and expertise.

**Ann Jones:** Fel llawer ar draws y Siambr, fel Aelod o'r Cynulliad, yr wyf wedi bod o gwmpas fy etholaeth ac yr wyf hefyd yn talu teyrnged i bawb sy'n gweithio'n agos gyda dioddefwyr trais yn y cartref, ac, yn arbennig, i'r rheiny yng Nghanolfan Merched Gogledd Cymru yn y Rhyl. Yr wyf yn falch o fod wedi dod â llawer o Weinidogion i'r ganolfan i weld y gwaith ardderchog a wneir yno. Yr wyf yn falch bod gweithio i gefnogi'r arbenigwyr trydydd sector yn y maes hwn bob amser wedi bod yn ffocws i Lafur Cymru yn y Llywodraeth. Mae'r cyllid sy'n ategu'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' yn dyst i'r dull hwnnw. Mae'r gefnogaeth ariannol honno'n hynod o bwysig, oherwydd nid yw'n bosibl gwneud y gwaith hwn pan fydd yn brin o adnoddau, neu os oes gennych bryderon ynghylch cyllid. Mae angen i bobl sy'n gweithio yn y maes hwn wybod eu bod yn gallu canolbwyntio ar ddioddefwyr trais yn y cartref yn hytrach na phoeni ynghylch a fydd ganddynt swydd fis nesaf, sydd, yn anochel, yn cymryd eu ffocws i ffwrdd oddi wrth eu gwaith a'u harbenigedd.

Despite Welsh Assembly Government support, victims of domestic violence in England and Wales are set to become less safe because of the UK Government's proposed cuts to legal aid. I have heard the Tories try to defend that, but there will be cuts to legal aid for the very women who need that support. In addition, there are cuts in the funding for independent domestic violence advocates in Denbighshire, Monmouthshire, Torfaen and Anglesey. IDVAs help women through the criminal justice system, and support them, and perhaps also their families, emotionally in often complex and extremely traumatic

Er gwaethaf cefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae dioddefwyr trais yn y cartref yng Nghymru a Lloegr yn debygol o fod yn llai diogel oherwydd toriadau arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gymorth cyfreithiol. Yr wyf wedi clywed y Torïaid yn ceisio amddiffyn hynny, ond bydd toriadau i gymorth cyfreithiol ar gyfer yr union fenywod sydd angen y gefnogaeth honno. Yn ogystal, mae toriadau yn y cyllid ar gyfer eiriolwyr annibynnol trais yn y cartref yn Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Torfaen ac Ynys Môn. Mae eiriolwyr annibynnol trais yn y cartref yn helpu merched drwy'r system cyfiawnder troseddol, ac yn eu cefnogi, ac

circumstances. You do not have to listen to me: it is quite telling that in a survey of women who have used these services, women called for IDVAs to be present in accident and emergency departments.

efallai hefyd eu teuluoedd, yn emosiynol mewn amgylchiadau sy'n aml yn gymhleth ac yn hynod o drawmatig. Nid oes yn rhaid i chi wrando arnaf fi: mae'n eithaf arwyddocaol bod merched, mewn arolwg o fenywod sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn, yn galw am eiriolwyr annibynnol trais yn y cartref i fod yn bresennol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

**Antoinette Sandbach:** You may want to direct the independent domestic violence advocates to the People and Places funding available from the Big Lottery Fund. It supports projects such as this and is available for advocacy projects of all kinds, including mental health advocates and other independent advocates. Ultimately, those funding issues relate to local council funding.

**Antoinette Sandbach:** Efallai y byddwch am gyfarwyddo'r eiriolwyr annibynnol trais yn y cartref i'r arian ar gyfer Pawb a'i Le sydd ar gael gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'n cefnogi prosiectau fel hyn ac y mae ar gael ar gyfer prosiectau eiriolaeth o bob math, gan gynnwys eiriolwyr iechyd meddwl ac eiriolwyr annibynnol eraill. Yn y pen draw, y mae'r materion ariannu hynny'n ymwneud â chyllid cynghorau lleol.

**Ann Jones:** I accept that, but the Home Office and the Welsh Government match-funded the IDVA posts. The callous proposed actions of the Home Office make me very angry—not as a politician, but on behalf of all those women and victims of domestic violence who will be hopelessly let down by the UK Government. I thought that there were going to be limits as to what would be deemed okay for the chopping block, but we have plans here that will possibly contravene the United Nations convention on human rights. The IDVAs offer high-quality intervention for among the most traumatised people in society and we should support them. Furthermore, they have a record of real success. A study by the London Metropolitan University showed that, with the help of an IDVA, the majority of victims do not experience any further violent abuse. The report states that

**Ann Jones:** Yr wyf yn derbyn hynny, ond cynigiwyd arian cyfatebol gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ar gyfer y swyddi eiriolwyr annibynnol trais yn y cartref. Mae camau arfaethedig dideimlad y Swyddfa Gartref yn gwneud i mi deimlo'n ddig—nid fel gwleidydd, ond ar ran yr holl ferched a dioddefwyr trais yn y cartref hynny a fydd yn cael eu siomi'n anobeithiol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Roeddwn i'n meddwl y byddai terfynau o ran yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol ar gyfer cael ei gwtogi, ond mae gennym gynlluniau yma a fydd o bosibl yn groes i gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau dynol. Mae'r eiriolwyr annibynnol trais yn y cartref yn cynnig ymyrraeth o ansawdd uchel ar gyfer rhai o'r bobl sydd wedi ei trawmateiddio fwyaf mewn cymdeithas a dylem eu cefnogi. Ar ben hynny, mae ganddynt record o lwyddiant go iawn. Mae astudiaeth gan Brifysgol Fetropolitan Llundain yn dangos, gyda chymorth eiriolwr annibynnol trais yn y cartref, nad yw mwyafrif y dioddefwyr yn profi unrhyw gam-drin treisgar pellach. Mae'r adroddiad yn datgan bod

'the cost per service user of between £363-£711, with the majority not experiencing further violence, is undoubtedly a worthwhile investment.'

y gost fesul defnyddiwr gwasanaeth o rhwng £363 a £711, gyda'r mwyafrif yn peidio â phrofi trais pellach, yn ddi-os yn fuddsoddiad gwerth chweil.

It is incredible that the UK Government does not share that view and seems content to risk the lives of even more victims in order to save a few hundred pounds each time. Even that arithmetic is wrong, because we all know that the NHS and the criminal justice system will incur higher costs. I have mentioned the cuts in legal aid. I still do not know how the Tories on the other side of the Chamber can defend them. The NSPCC and Women's Aid have issued strong warnings to the coalition Government about the consequences of the cuts, which will undoubtedly undermine the help that the Welsh Government can provide, however good its strategy is. Welsh Women's Aid revealed that the new restrictions on legal aid will leave many women who are experiencing violence having to represent themselves in proceedings involving the perpetrator of their abuse. Women will now be expected to get advice from the so-called community legal advice helpline, which goes against all the advice from professionals that people who have suffered from domestic violence are more likely to want to see somebody face-to-face than to talk to them over the telephone. Instead of the Tories here trying to amend the motion today, I suggest that each and every one of them—particularly those who represent the four affected authority areas—talk to the Home Office and to their colleagues in London and ensure that we have funding for IDVAs. That is the least that they can do for their constituents with regard to this debate today.

Mae'n anhygoel nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhannu'r farn honno ac yn ymddangos yn fodlon i beryglu bywydau hyd yn oed mwy o ddioddefwyr er mwyn arbed ychydig gannoedd o bunnoedd bob tro. Mae hyd yn oed y rhifyddeg yn anghywir, oherwydd rydym i gyd yn gwybod y bydd y gwasanaeth iechyd gwladol a'r system cyfiawnder troseddol yn dioddef costau uwch. Yr wyf wedi sôn am y toriadau mewn cymorth cyfreithiol. Nid wyf dal yn gwybod sut y mae'r Torïaid ar ochr arall y Siambr yn gallu eu hamddiffyn. Mae'r NSPCC a Chymorth i Fenywod wedi cyhoeddi rhybuddion cryf i Lywodraeth y glymblaid am ganlyniadau'r toriadau, a fydd yn sicr yn tanseilio'r cymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu, waeth pa mor dda yw ei strategaeth. Datgelodd Cymorth i Ferched Cymru y bydd y cyfyngiadau newydd ar gymorth cyfreithiol yn golygu y byddai llawer o fenywod sy'n dioddef trais yn gorfod cynrychioli eu hunain mewn achosion yn ymwneud â'r sawl a gyflawnodd y trais yn eu herbyn. Bellach bydd disgwyl i'r menywod gael cyngor gan y llinell gymorth cyngor cyfreithiol cymunedol honedig, sy'n mynd yn erbyn yr holl gyngor gan weithwyr proffesiynol fod pobl sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn fwy tebygol o fod am weld rhywun wyneb-yn-wyneb yn hytrach na siarad gyda hwy dros y ffôn. Yn lle ceisio newid y cynnig heddiw, awgrymaf fod pob un o'r Torïaid yma—yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli ardaloedd y pedwar awdurdod yr effeithir arnynt—yn siarad â'r Swyddfa Gartref a gyda'u cydweithwyr yn Llundain a sicrhau bod gennym arian ar gyfer eiriolwyr annibynnol trais yn y cartref. Dyna'r lleiaf y gallant ei wneud ar gyfer eu hetholwyr o ran y ddadl hon heddiw.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** Thank you, Members, for your contributions today. There is clearly a great deal of consensus in the Chamber recognising the scourge of domestic abuse and violence against women. We have made good progress but there is still much to be done. One in four women and one in six men will be victims of domestic abuse or violence at some time in their lives. I will pick up on some of the points that have been raised today and I will write to Members with regard to those that I cannot comment on

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i chi, Aelodau, am eich cyfraniadau heddiw. Mae'n amlwg bod llawer iawn o gonsensws yn y Siambr yn cydnabod y pla o gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod. Rydym wedi gwneud cynnydd da, ond mae llawer i'w wneud o hyd. Bydd un o bob pedair menyw ac un o bob chwe dyn yn dioddef cam-drin domestig neu drais ar ryw adeg yn eu bywydau. Yr wyf am gyfeirio at rai o'r pwyntiau a godwyd heddiw, ac ysgrifennaf at Aelodau ar y rhai na allaf wneud sylwadau

now. I will take the comments in the spirit that they were made—such as with Peter Black's comments earlier.

arnynt ar hyn o bryd. Byddaf yn cymryd y sylwadau yn yr ysbryd y cawsant eu gwneud—megis sylwadau Peter Black yn gynharach.

First, with regard to Jocelyn Davies's comments on concerns about legal aid, I share her concerns about that issue. I have spoken to Jonathan Djanogly, the relevant Minister, about this, because domestic abuse does not often come alone. There are related issues of housing, benefits, and family and children matters being taken out of the scope of legal aid. I have written to the Minister about that process.

Yn gyntaf, o ran sylwadau Jocelyn Davies ar bryderon am gymorth cyfreithiol, yr wyf yn rhannu ei phryderon ynghylch y mater hwnnw. Yr wyf wedi siarad â Jonathan Djanogly, y Gweinidog perthnasol, am hyn, gan nad yw cam-drin domestig yn aml yn dod ar ei ben ei hun. Mae materion cysylltiedig o dai, budd-daliadau, a materion teulu a phlant yn cael eu cymryd allan o'r cwmpas cymorth cyfreithiol. Yr wyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog am y broses honno.

Mark Isherwood mentioned funding and working across Government. I meet all my colleagues to discuss domestic abuse issues. An example of that is working with the Minister for Education and Skills with regard to getting the profile of personal and social education online.

Soniodd Mark Isherwood am ariannu a gweithio ar draws y Llywodraeth. Yr wyf yn cwrdd â'm holl gydweithwyr i drafod materion trais domestig. Un enghraifft o hynny yw gweithio gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau o ran cael y proffil addysg bersonol a chymdeithasol ar-lein.

4.30 p.m.

I recognise some of the issues that Members have raised, in particular those raised by Rebecca Evans. I would be pleased if she would write to me regarding the teacher-training element of this, and I thank her for her positive response. Jenny Rathbone mentioned female genital mutilation; in the report that will be issued on Thursday, recommendation 1.7 relates to the issuing of specialist guidance and leaflets to professionals; that is, front-line staff in health and education. I can inform you that we issued the direction on 29 March in collaboration with Black Association of Women Step Out, and so that action is completed.

Yr wyf yn cydnabod rhai o'r materion a godwyd gan yr Aelodau, yn enwedig y rhai a godwyd gan Rebecca Evans. Byddwn yn falch pe byddai'n ysgrifennu ataf am yr elfen hyfforddi athrawon ar hyn, ac yr wyf yn diolch iddi am ei hymateb cadarnhaol. Soniodd Jenny Rathbone ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod; yn yr adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau, mae argymhelliad 1.7 yn ymwneud â chyhoeddi canllawiau arbenigol a thaflenni i weithwyr proffesiynol; hynny yw, staff rheng flaen ym maes iechyd ac addysg. Gallaf roi gwybod i chi ein bod yn cyhoeddi'r cyfarwyddyd ar 29 Mawrth mewn cydweithrediad â chymdeithas y Black Association of Women Step Out, ac felly mae camau'n cael eu cwblhau.

Peter, regarding 'The Right to be Safe' plan that will be issued later this week, I have tried to make it easy reading for people, because we need to work on this with our partners. Across the 90 action points, I have used a traffic-light system to show what we have achieved and to show where there is work still to be done; that might be helpful in terms of the detail. There are issues around the provision of services beyond the Welsh

Peter, ynghylch y cynllun 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr wythnos hon, yr wyf wedi ceisio ei gwneud yn hawdd i bobl i'w ddarllen, oherwydd y mae angen inni weithio ar hyn gyda'n partneriaid. Ar draws y 90 o bwyntiau gweithredu, yr wyf wedi defnyddio system goleuadau traffig—i ddangos yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni ac i ddangos lle y mae gwaith i'w wneud o hyd; gallai hynny

Government. Local authorities need to tackle this issue as well, and recommendation 2.26, advises the Society of Local Authority Chief Executives and the National Community Safety Partnership about the actions that they should take in tackling domestic abuse. Later, in the First Minister's statement, there will be a more interesting discussion around local authorities, which I am sure you will wait to hear.

fod yn ddefnyddiol o ran y manylion. Mae materion yn ymwneud â darparu gwasanaethau y tu hwnt i Lywodraeth Cymru. Mae angen i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r mater hwn hefyd, ac y mae argymhelliad 2.26, yn cynghori Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Genedlaethol ynghylch y camau y dylent eu cymryd i fynd i'r afael â thrais domestig. Yn ddiweddarach, yn natganiad y Prif Weinidog, bydd trafodaeth fwy diddorol ar yr awdurdodau lleol, yr wyf yn siŵr y byddwch yn aros i'w glywed.

Julie Morgan touched on many issues that I know she has championed across Wales, not just in the Assembly, but elsewhere. It is about working with partners; Welsh Women's Aid is a partner that gives me a lot of help, support and guidance, and I would not be able to do a lot of my work without that support. That is also true of many others, such as BAWSO, Children in Need, Hafan, and so on. There are many organisations out there that have people's best interests at heart. However, going back to a point that Peter raised, we have to better understand the art of co-ordinating activity. Often, individual organisations are offering support in areas that could join up, providing much better cover across both rural and urban areas, which I know has been a concern for Members today. That is something that I look forward to working on.

Cyffyrddodd Julie Morgan â llawer o faterion y gwn ei bod wedi eu hyrwyddo ledled Cymru, nid dim ond yn y Cynulliad, ond mewn mannau eraill. Mae'n ymwneud â gweithio gyda phartneriaid; mae Cymorth i Fenywod Cymru yn bartner sy'n rhoi llawer o help, cefnogaeth ac arweiniad i mi, ac ni fyddwn yn gallu gwneud llawer o'm gwaith heb y gefnogaeth honno. Mae hynny hefyd yn wir am lawer o bobl eraill, megis BAWSO, Plant mewn Angen, Hafan, ac yn y blaen. Mae yna lawer o sefydliadau sydd â lles gorau pobl yn agos at eu calon. Fodd bynnag, gan fynd yn ôl at bwynt a godwyd gan Peter, mae'n rhaid i ni ddeall y grefft o gydlynu gweithgarwch yn well. Yn aml, mae sefydliadau unigol yn cynnig cymorth mewn meysydd a allai ymuno â'i gilydd, gan gynnig darpariaeth llawer gwell ar draws ardaloedd gwledig a threfol, a gwn fod hynny wedi bod yn bryder i Aelodau heddiw. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn edrych ymlaen at weithio arno.

Joyce Watson mentioned putting this on a statutory footing, and there will more on that from the First Minister shortly. What I would like to say today is that I am pleased with the work that we have completed over the last 12 months. There is much still to be done, but I still have my eye on the ball, and with the support of colleagues across the Chamber, I will continue to press this case. Let us hope that we can put an end to domestic abuse and violence against women in Wales and in the UK.

Crybwyllodd Joyce Watson rhoi hyn ar sail statudol, a bydd mwy ar hynny gan y Prif Weinidog yn fuan. Yr hyn yr hoffwn i ei ddweud heddiw yw fy mod yn fodlon â'r gwaith yr ydym wedi ei gwblhau dros y 12 mis diwethaf. Mae llawer i'w wneud eto, ond yr wyf yn dal i gadw'm llygad ar y bêl, a gyda chefnogaeth cydweithwyr ar draws y Siambr, byddaf yn parhau i bwyso ar yr achos hwn. Gadewch inni obeithio y gallwn roi terfyn ar gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn

Member object? I see not. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Mae gwelliant 1, felly, wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? I see that there are objections, and therefore voting is deferred until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod gwelliant 2 yn cael ei gytuno. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, ac felly gohirir y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.34 p.m.*
*The Presiding Officer took the Chair at 4.34 p.m.*

## Datganiad am Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16
## The Welsh Assembly Government's Legislative Programme 2011-16

**The First Minister:** It is with great pleasure that I announce the Welsh Government's legislative programme for the next five years. This Government will be doing its utmost to improve public services and create opportunities for everyone.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bleser mawr gennyf gyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd y Llywodraeth yn gwneud ei gorau glas i wella gwasanaethau cyhoeddus a chreu cyfleoedd i bawb.

Sustainability lies at the heart of the Welsh Government's agenda for Wales; it also lies at the heart of this legislative programme. Taken as whole, it will promote economic, social and environmental wellbeing, and enhance people's quality of life in Wales. Our approach to sustainable development has been to focus on fairness, social justice and the protection of our outstanding culture and heritage. However, sustainability is more than just a green idea. It is about defining the long-term development path for our nation. It means healthy, productive people; vibrant, inclusive communities; a diverse and resilient environment and an advanced and innovative economy. This legislative programme provides new powers, duties and institutional capacity to advance our goals of building a sustainable Wales.

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru; mae hefyd wrth wraidd y rhaglen ddeddfwriaethol. O'i ystyried yn ei gyfanrwydd, bydd yn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru. Mae ein hymagwedd at ddatblygu cynaliadwy wedi canolbwyntio ar degwch, cyfiawnder cymdeithasol a diogelu ein diwylliant a'n treftadaeth eithriadol. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd yn fwy na dim ond syniad gwyrdd. Mae'n ymwneud â diffinio llwybr datblygu hirdymor ar gyfer ein cenedl. Mae'n golygu pobl iach, gynhyrchiol; cymunedau bywiog, cynhwysol; amgylchedd amrywiol ac economi wydn, blaengar ac arloesol. Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn darparu pwerau newydd a dyletswyddau a gallu sefydliadol i ddatblygu ein nodau o adeiladu Cymru gynaliadwy.

We will legislate to embed sustainable development as the central organising

Byddwn yn deddfu i gynnwys datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog i drefnu

principle in all of our actions across Government and all public bodies, by bringing forward a sustainable development Bill. The approach will set Wales apart as a sustainable nation, leading from the front. We were disappointed at the UK Government's decision to withdraw funding for the UK Sustainable Development Commission, which led to its closure. That commission served us well in Wales, and the Bill will provide for the establishment of an independent body to continue the legacy of the Sustainable Development Commission in a way that best reflects Welsh interests and needs.

ein holl weithredoedd ar draws y Llywodraeth a phob corff cyhoeddus, drwy gyflwyno Bil datblygu cynaliadwy. Bydd y dull yn gosod Cymru ar wahân fel cenedl gynaliadwy, yn arwain o'r tu blaen. Roeddem yn siomedig am benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i dynnu cyllid ar gyfer Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y Deyrnas Unedig, a arweiniodd at ei derfyn. Bu'r comisiwn hwnnw yn ein gwasanaethu'n dda yng Nghymru, a bydd y Bil yn darparu ar gyfer sefydlu corff annibynnol i barhau ag etifeddiaeth y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n well ddiddordebau ac anghenion Cymru.

We will also introduce a duty to provide cycle routes in key areas. The highways and transport (Wales) Bill will be a short Bill that will legislate to put a duty on local authorities to provide and maintain cycle paths in key areas. The Bill is intended to make walking and cycling a more practical and enjoyable option for people in Wales. Benefits from this will include the promotion of sustainable travel, and the resultant reduction in carbon emissions and improvement in air quality; the health benefits of a more active nation; and the economic benefits from recreation, tourism, and the wider rural economy. We intend to bring forward this legislation within the next two years.

Byddwn hefyd yn cyflwyno dyletswydd i ddarparu llwybrau beicio mewn ardaloedd allweddol. Bydd y Bil priffyrdd a thrafnidiaeth (Cymru) yn Fil byr a fydd yn deddfu i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llwybrau beicio mewn mannau allweddol. Bwriad y Bil yw gwneud cerdded a beicio yn ddewis mwy ymarferol a phleserus i bobl yng Nghymru. Bydd y manteision hyn yn cynnwys hyrwyddo teithio cynaliadwy, a'r lleihad canlyniadol mewn allyriadau carbon a gwelliant mewn ansawdd aer; manteision iechyd cenedl fwy egnïol; a'r manteision economaidd o hamdden, twristiaeth, a'r economi wledig ehangach. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Historic buildings and monuments are an important part of our heritage, helping to make Wales distinctive and the special place that it is. There is currently a wide range of controls to help protect historic assets, but they have been in place for many years and would benefit from streamlining and modernisation. We are therefore seeking to introduce a heritage Bill, which is more fitting to modern-day issues, which reduces bureaucracy and is specifically geared to the needs of Wales. There is scope to encourage a more positive, engaged approach with owners and specific interest groups, while at the same time addressing issues associated with neglectful owners who might leave significant aspects of our heritage to deteriorate and decay.

Mae adeiladau hanesyddol a henebion yn rhan bwysig o'n treftadaeth, gan helpu i wneud Cymru yn wahanol a'r lle arbennig ydyw. Ar hyn o bryd, mae ystod eang o reolaethau i helpu i ddiogelu asedau hanesyddol, ond maent wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer a byddent yn elwa o gael eu symleiddio a'u moderneiddio. Felly, rydym yn awyddus i gyflwyno Bil treftadaeth, sy'n fwy addas ar gyfer materion cyfoes, sy'n lleihau biwrocratiaeth ac sy'n cael ei anelu'n benodol at anghenion Cymru. Mae lle i annog ymagwedd fwy cadarnhaol sy'n ymgysylltu â pherchnogion a grwpiau buddiant penodol, tra, ar yr un pryd, mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â pherchnogion esgeulus a allai gadael agweddau sylweddol o'n treftadaeth i ddirywio a dadfeilio.

Before we introduce any proposals formally, we want to have a full discussion with a wide range of interested parties. This period of debate will help us to refine initial ideas, and perhaps attract new ones, on what is needed to provide a clear and simple system that not only protects our heritage, but is also easy to understand by owners, third parties and the Government. We therefore intend to bring this Bill in the fourth year of our legislative programme.

Cyn i ni gyflwyno unrhyw gynigion yn ffurfiol, rydym yn awyddus i gael trafodaeth lawn gydag ystod eang o grwpiau buddiant. Bydd y cyfnod hwn o ddadl yn ein helpu i fireinio syniadau cychwynnol, ac efallai yn denu rhai newydd, ar yr hyn y mae ei angen i ddarparu system glir a syml sydd, nid yn unig yn diogelu ein treftadaeth, ond hefyd yn hawdd i'w deall gan berchnogion, trydydd partïon a Llywodraeth. Felly, bwriadwn ddod â'r Bil hwn yn y bedwaredd flwyddyn o'n rhaglen ddeddfwriaethol.

Throughout history, we have modified and managed the environment to secure food, shelter, energy and livelihoods, providing great benefits to the people of Wales, but also increasing risks that we damage the very ecology on which we depend. Developing a new natural environment framework to enable more integrated management of the environment in Wales is a Government manifesto commitment. Our aim is to ensure that Wales has increasingly resilient and diverse ecosystems that deliver economic, environmental and social benefits. We are therefore aiming to introduce an environment Bill during the life of this Assembly. We want the proposed Bill to enhance environmental protection and deliver ecological gains, while easing the regulatory burden. Further development of these proposals for legislative changes are likely to evolve from the ongoing 'A Living Wales' development work over the next 12 to 18 months.

Drwy gydol hanes, rydym wedi addasu a rheoli'r amgylchedd i sicrhau bwyd, lloches, egni a bywoliaethau, gan ddarparu manteision mawr i bobl Cymru, ond hefyd gan gynyddu'r risgiau ein bod yn niweidio'r union ecoleg yr ydym yn dibynnu arno. Mae datblygu fframwaith amgylchedd naturiol newydd er mwyn galluogi rheolaeth fwy integredig ar yr amgylchedd yng Nghymru yn un o ymrwymiadau maniffesto'r Llywodraeth. Ein nod yw sicrhau bod gan Gymru ecosystemau fwyfwy gwydn ac amrywiol sy'n cyflwyno manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Felly, rydym yn anelu at gyflwyno Bil amgylchedd yn ystod oes y Cynulliad hwn. Yr ydym am i'r Bil arfaethedig wella diogelu'r amgylchedd a sicrhau enillion ecolegol, tra'n ysgafnhau'r baich rheoleiddio. Mae datblygiad pellach o'r cynigion hyn ar gyfer newidiadau deddfwriaethol yn debygol o esblygu o waith datblygu parhaus 'Cymru Fyw' dros y 12 i 18 mis nesaf.

There has also been an increase in demand over recent years for allotment plots. In many parts of Wales, the demand for allotments is not met by supply and there are vast differences in waiting times for plots across Wales. Therefore, to support local communities in becoming more sustainable and healthier, we will seek to use the environment Bill to legislate on the amount of land to be used for allotments. It will also ensure a minimum standard across Wales.

Cafwyd cynnydd hefyd dros y blynyddoedd diwethaf yn y galw am leiniau rhandiroedd. Mewn sawl rhan o Gymru, nid yw'r galw am randiroedd yn cael ei fodloni gan gyflenwad ac mae gwahaniaethau enfawr mewn amseroedd aros ar gyfer lleiniau ledled Cymru. Felly, er mwyn cefnogi cymunedau lleol i ddod yn fwy cynaliadwy ac iach, byddwn yn ceisio defnyddio'r Bil amgylchedd i ddeddfu ar faint o dir i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd. Bydd hefyd yn sicrhau safon sylfaenol ar draws Cymru.

We cannot underestimate the importance of planning for sustainable economic renewal, and we intend to bring forward a planning Bill that will consolidate existing planning legislation, making it more transparent and

Ni allwn danbrisio pwysigrwydd cynllunio ar gyfer adnewyddu economaidd cynaliadwy, ac yr ydym yn bwriadu cyflwyno Bil cynllunio a fydd yn atgyfnerthu deddfwriaeth cynllunio presennol, gan ei wneud yn fwy tryloyw a

accessible. It will also provide an opportunity to reconsider roles and responsibilities, helping us to ensure that we have a planning system that can help deliver economic renewal. A White Paper setting out our proposals will be published towards the end of 2012, and that will be followed by the introduction of a planning Bill in 2014.

hygyrch. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ailystyried rolau a chyfrifoldebau a fydd yn ein helpu i sicrhau bod gennym system gynllunio a all helpu i gyflawni adnewyddu economaidd. Bydd Papur Gwyn sy’n nodi ein cynigion yn cael ei gyhoeddi tua diwedd 2012, a bydd hwnnw’n cael ei ddilyn gan gyflwyniad Bil cynllunio yn 2014.

We want to ensure better life chances for our young people by helping them to achieve their potential. Education is fundamental to building a just, inclusive and fair society. The Minister for Education and Skills has already set out his 20 action points to improve standards and performance in Wales and, in the early part of next year, we will introduce our first education Bill, which will focus on schools and standards. The school standards and organisation (Wales) Bill will put in place actions to drive up school improvement. It will also make changes to the process of reorganising schools following our extensive consultation earlier this year. The Bill will also make provision for statutory Welsh in education strategic plans, fulfilling another of our manifesto pledges, and will enable the streamlining of a number of grants payable to local authorities.

Rydym am sicrhau bod cyfleoedd bywyd gwell i’n pobl ifanc drwy eu helpu i gyflawni eu potensial. Mae addysg yn hanfodol er mwyn adeiladu cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a theg. Mae’r Gweinidog Addysg a Sgiliau eisoes wedi gosod allan ei 20 pwynt gweithredu i wella safonau a pherfformiad yng Nghymru ac, yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflwyno ein Bil addysg cyntaf, a fydd yn canolbwyntio ar ysgolion a safonau. Bydd y Bil safonau a threfniadaeth ysgolion (Cymru) yn rhoi camau ar waith i ysgogi gwella ysgolion. Bydd hefyd yn gwneud newidiadau i’r broses o ad-drefnu ysgolion yn dilyn ein hymgynghoriad eang yn gynharach eleni. Bydd y Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymraeg statudol mewn cynlluniau strategol addysg, gan gyflawni addewid maniffesto arall, a bydd yn galluogi symleiddio’r nifer o grantiau sy’n daladwy i awdurdodau lleol.

The second education Bill, the structures, governance and special educational needs (Wales) Bill, will be introduced in year 2. The Minister for Education and Skills has been very clear about the value that the Government places on excellent teaching. To that end, the Bill will include provisions in several areas of teaching, including performance management and continuing professional development. We are committed to consortia working as the model for delivering educational services in the future, and we expect our local authorities to commit to working together to deliver the regional working agenda. The Bill will support that collaborative model. It will also deliver the changes in the law that are required to reform our higher education sector, realising our manifesto commitment of bringing coherence and efficiency to higher education in Wales. We will also use the Bill to take forward changes to the governance of further education institutions and to reform the

Bydd yr ail Fil addysg, y Bil strwythurau, llywodraethu ac anghenion addysgol arbennig (Cymru) yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn 2. Mae’r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi bod yn glir iawn am y gwerth y mae’r Llywodraeth yn ei osod ar addysgu rhagorol. I’r perwyl hwnnw, bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau mewn sawl maes addysgu, gan gynnwys rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol parhaus. Rydym wedi ymrwymo i weithio drwy gonsortia fel model ar gyfer darparu gwasanaethau addysg yn y dyfodol, ac rydym yn disgwyl i’n hawdurdodau lleol i ymrwymo i weithio gyda’i gilydd i gyflawni’r agenda gweithio rhanbarthol. Bydd y Bil yn cefnogi’r model cydweithredol hwnnw. Bydd hefyd yn sicrhau’r newidiadau yn y gyfraith sy’n ofynnol i ddiwygio ein sector addysg uwch, gan wireddu ein hymrwymiad maniffesto o ddod â chydlyniad ac effeithlonrwydd i addysg uwch yng Nghymru. Byddwn hefyd yn defnyddio’r Bil i fwrw ymlaen â

existing system of statements for children and young people with special educational needs, following our extensive pilot programmes.

newidiadau i lywodraethu sefydliadau addysg bellach ac i ddiwygio'r system bresennol o ddatganiadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, yn dilyn ein rhaglenni peilot helaeth.

We want to improve the status of children and young people who are made vulnerable through offending. International research has shown a correlation between offending behaviour among children and economic exclusion and poverty. We want to see significant changes to the environment in which youth justice operates, and to increase the Welsh Government's influence over the delivery of youth justice services in Wales. Over the next two years, we will consult on a prevention of youth offending Bill, which would strengthen the delivery of services to children and young people who are entering and leaving the youth justice system. It would do so by making clear the vulnerabilities of those within the system and by establishing duties on local partnerships to address them, thus conferring equivalent entitlements on those entering juvenile custodial detention to those for children and young people who are currently looked after.

Rydym am wella statws plant a phobl ifanc sy'n cael eu gwneud yn agored i niwed drwy droseddu. Mae ymchwil rhyngwladol wedi dangos cydberthynas rhwng ymddygiad troseddol ymysg plant ac allgau economaidd a thlodi. Rydym am weld newidiadau sylweddol i'r amgylchedd y mae cyfiawnder ieuenctid yn gweithredu ynddo, ac i gynyddu dylanwad Llywodraeth Cymru dros gyflwyno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn ymgynghori ar Fil atal troseddau ieuenctid, a fydd yn cryfhau'r cyflwyniad o wasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n mynd i mewn ac sy'n gadael y system cyfiawnder ieuenctid. Byddai'n gwneud hynny drwy wneud yn glir wendidau'r rhai o fewn y system a thrwy sefydlu dyletswyddau ar bartneriaethau lleol i fynd i'r afael â hwy, a thrwy hynny rhoi hawliau cyfatebol i'r rhai sy'n mynd i mewn i ganolfannau cadw gwarchodol pobl ifanc ac i'r plant a phobl ifanc sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal.

In the second half of the legislative programme, we will also introduce the children and young persons (Wales) Bill, which will build on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which was introduced during the last Assembly, and which will expand the role of the Children's Commissioner for Wales.

Yn ail hanner y rhaglen ddeddfwriaethol, byddwn hefyd yn cyflwyno'r Bil plant a phobl ifanc (Cymru), a fydd yn adeiladu ar y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad diwethaf, ac a fydd yn ehangu rôl Comisiynydd Plant Cymru.

We have said that the economic challenges that will inevitably occur will put additional strains on families in Wales. The Government wants to introduce a series of Bills that provide for the right kind of support when it is needed. The first Bill to be introduced, the social services (Wales) Bill, will provide, for the first time, a coherent Welsh legal framework for social services that is based on the principles that we hold dear in Wales. It will ensure a strong voice and real control for people, of whatever age, enabling them to maximise their wellbeing. It will set the legal framework and infrastructure to transform services to meet changing social expectations and changing

Yr ydym wedi dweud y bydd yr heriau economaidd a fydd yn digwydd yn anochel yn rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth am gyflwyno cyfres o Filiau sy'n darparu ar gyfer y math cywir o gymorth pan fydd ei angen. Mae'r Bil cyntaf i gael ei gyflwyno, Bil gwasanaethau cymdeithasol (Cymru), yn darparu, am y tro cyntaf, fframwaith cyfreithiol Cymreig cydlynol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion sydd yn bwysig i ni yng Nghymru. Bydd yn sicrhau llais cryf a rheolaeth go iawn i bobl, o ba oedran bynnag, gan eu galluogi i wneud y gorau o'u lles. Bydd yn gosod y fframwaith cyfreithiol ac

demography. Developing a Bill of this scale and importance will take time to get right. We will therefore consult on the content of the Bill from the winter onwards, building on the vision and commitments in 'Sustainable Social Services for Wales', with a view to introducing it in October 2012.

isadeiledd i drawsnewid gwasanaethau i fodloni disgwyliadau cymdeithasol sy'n newid a demograffeg sy'n newid. Bydd datblygu Bil ar y fath raddfa a phwysigrwydd yn cymryd amser i'w gael yn iawn. Felly byddwn yn ymgynghori ar gynnwys y Bil o'r gaeaf ymlaen, gan adeiladu ar y weledigaeth a'r ymrwymiadau yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru', gyda golwg ar ei gyflwyno yn Hydref 2012.

Our proposed housing Bill will also protect our most vulnerable citizens and help to improve their health and wellbeing. The Bill will enable us to meet our manifesto commitments, which include tackling homelessness, as well as improving standards and tenants' rights in the private rented sector. It will also build on the three strategic priorities identified in our national housing strategy, which was launched in April 2010: increasing the supply of housing; improving its quality; and improving housing-related services, particularly for those who are vulnerable or homeless. With more people having to opt for accommodation in the private rented sector as a result of continuing difficulties in obtaining mortgages, we will seek to improve the quality of accommodation to enhance the sector's image as an acceptable housing choice. We will publish our proposals for inclusion in the Bill in due course.

Bydd ein Bil tai arfaethedig hefyd yn diogelu ein dinasyddion mwyaf agored i niwed ac yn helpu i wella eu hiechyd a'u lles. Bydd y Bil yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiadau maniffesto, sy'n cynnwys mynd i'r afael â digartrefedd, yn ogystal â gwella safonau a hawliau tenantiaid yn y sector rhentu preifat. Bydd hefyd yn adeiladu ar y tair blaenoriaeth strategol a nodwyd yn ein strategaeth dai genedlaethol, a gafodd ei lansio yn Ebrill 2010: cynyddu'r cyflenwad o dai; gwella ei ansawdd; a gwella gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed neu'n ddigartref. Gyda mwy o bobl yn gorfod dewis llety yn y sector rhentu preifat o ganlyniad i anawsterau parhaus wrth gael morgeisi, byddwn yn ceisio gwella ansawdd y llety i wella delwedd y sector hwnnw fel dewis derbyniol o dai. Byddwn yn cyhoeddi ein cynigion i'w cynnwys yn y Bil maes o law.

The Government wants to do more to tackle the social problems of domestic abuse. Therefore, we will introduce, in the next two years, the domestic abuse (Wales) Bill, which will be designed to place a duty on relevant public sector bodies to have in place a strategy to tackle domestic abuse and violence against women. The Bill will not seek to address criminal justice issues; rather, the purpose of the provisions will be concerned with social welfare and the prevention, protection and support elements of a strategy to deal with domestic abuse and violence against women.

Mae'r Llywodraeth am wneud mwy i fynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol o gam-drin domestig. Felly, yn y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn cyflwyno Bil cam-drin domestig (Cymru), a fydd yn cael ei gynllunio i roi dyletswydd ar gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus i gael strategaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod. Ni fydd y Bil yn ceisio mynd i'r afael â materion cyfiawnder troseddol; yn hytrach, bydd diben y darpariaethau yn ymwneud â lles cymdeithasol ac elfennau atal, amddiffyn a chefnogi strategaeth i ymdrin â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod.

4.45 p.m.

Protecting the health of our citizens remains a priority for this Government. The E. coli outbreak in south Wales in 2005 showed how

Mae diogelu iechyd ein dinasyddion yn dal yn flaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth hon. Mae'r achosion o E. coli yn ne Cymru yn

important food safety is. While the voluntary scheme has achieved good results, it suffers from a lack of coverage. Since food hygiene is essential to improving food safety, we will be bringing forward a draft food hygiene rating scheme (display of information) (Wales) Bill for consultation at the end of this year. It will allow the Welsh Government to make mandatory arrangements for providing consumers with easily understandable, at-a-glance information on the hygiene standards of the food business, so that they can make better informed choices about where they eat out or shop for food.

2005 yn dangos pa mor bwysig y mae diogelwch bwyd. Er bod y cynllun gwirfoddol wedi cyflawni canlyniadau da, mae'n dioddef o ddiffyg sylw. Gan fod hylendid bwyd yn hanfodol i wella diogelwch bwyd, byddwn yn cyflwyno Bil cynllun sgorio hylendid bwyd (arddangos gwybodaeth) (Cymru) drafft ar gyfer ymgynghoriad ar ddiwedd y flwyddyn hon. Bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau gorfodol ar gyfer darparu defnyddwyr gyda gwybodaeth hawdd i'w deall ac ar gipolwg ar safonau hylendid y busnes bwyd, fel y gallant wneud dewisiadau mwy gwybodus ynglŷn â ble y maent yn bwyta allan neu'n siopa am fwyd.

There are nearly 300 Welsh residents on the active waiting list for a transplant. Last year, roughly one person a week died in Wales while waiting for an organ donation. The shortage of human organs continues to cause otherwise preventable deaths and suffering. We will therefore launch a White Paper consultation on an organ donation (Wales) Bill before the end of this year. The Bill will provide for an opt-out system of organ donation, backed by a comprehensive communication programme.

Mae bron i 300 o drigolion Cymru ar y rhestr aros weithredol am drawsblaniad. Y llynedd, bu farw tua un person yr wythnos yng Nghymru wrth aros am organau. Mae prinder organau dynol yn dal i achosi marwolaethau a dioddefaint y gellir eu hatal fel arall. Byddwn, felly, yn lansio ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar y Bil rhoi organau (Cymru) cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer system o optio allan o roi organau, gyda chefnogaeth rhaglen gyfathrebu gynhwysfawr.

We will be considering further the legislative basis for delivering improved life expectancy and wellbeing and for reducing health inequality in Wales, as we promised in our manifesto and in our policy document, 'Fairer Health Outcomes For All'. We plan to consult next year on a public health (Wales) Bill, with a view to introducing the legislation in the second half of our legislative programme.

Byddwn yn ystyried ymhellach y sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer darparu gwell disgwyliad oes a lles ac ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, fel yr addawyd yn ein maniffesto ac yn ein dogfen bolisi, 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb'. Rydym yn bwriadu ymgynghori y flwyddyn nesaf ar Fil iechyd y cyhoedd (Cymru), gyda golwg ar gyflwyno'r ddeddfwriaeth yn ail hanner ein rhaglen ddeddfwriaethol.

Cosmetic piercing has become increasingly popular in recent years. Over a quarter of the people who undergo a cosmetic piercing procedure other than in their earlobes experience complications. Informed parental consent will ensure that parents are aware of their child's desire to have a cosmetic piercing and the possible implications of that. We intend to consult on the introduction of a cosmetic piercing (age of consent) (Wales) Bill shortly.

Mae tyllu cosmetig wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae dros chwarter y bobl sy'n mynd drwy driniaeth tyllu cosmetig heblaw yn llabedi eu clustiau yn dod ar draws cymhlethdodau. Bydd caniatâd rhieni gwybodus yn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o awydd eu plentyn i gael triniaeth tyllu cosmetig a'r goblygiadau posibl. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar gyflwyno Bil tyllu cosmetig (oedran cydsynio) (Cymru) cyn bo hir.

We want a strong public service ethos in

Rydym am gael ethos gwasanaeth cyhoeddus

Wales, and one that is not prevented from delivering good quality services by unnecessary bureaucracy or governmental control. After the summer recess, we will therefore bring forward a draft Wales Audit Office Bill, with the aim of strengthening the Wales Audit Office's governance and accountability arrangements without restricting the Auditor General for Wales's crucial independence to examine whatever subjects he or she chooses. Provisions in the Bill will establish the Wales Audit Office as a body corporate, with the majority of non-executive members appointed by public appointments procedures, including pre-appointment hearings in the Assembly. The Bill will also set out the relationship between the Wales Audit Office and the Auditor General for Wales, who will become the accounting officer for the Wales Audit Office. The Auditor General for Wales, whose terms and conditions of service will be set by the Assembly, on the recommendation of the Public Accounts Committee and independently of the Welsh Government, will become the chief executive officer of the Wales Audit Office.

cryf yng Nghymru, ac un nad yw'n cael ei atal rhag cyflwyno gwasanaethau o ansawdd da gan fiwrocratiaeth ddiangen neu reolaeth y llywodraeth. Ar ôl toriad yr haf, felly, byddwn yn cyflwyno Bil Swyddfa Archwilio Cymru drafft, gyda'r nod o gryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru heb gyfyngu ar annibyniaeth hollbwysig Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio pa bynciau bynnag y mae'n eu dewis. Bydd darpariaethau yn y Bil yn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol, gyda'r mwyafrif o'r aelodau anweithredol yn cael eu penodi gan weithdrefnau penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys gwrandawiadau cyn penodi yn y Cynulliad. Bydd y Bil hefyd yn nodi'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, a fydd yn dod yn swyddog cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, y mae eu telerau ac amodau gwasanaeth yn cael eu gosod gan y Cynulliad, ar argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn dod yn brif swyddog gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru.

To further the aims of this Government to reduce complexity and the burdens being placed on local authorities, this year, we will introduce a local government (bye-laws) (Wales) Bill, which will reform bye-law procedures and include the removal of Welsh Ministers' roles in confirming certain proposed bye-laws. This is designed to simplify the process, resulting in greater responsibility for, and ownership of, these local laws. We will also propose alternative enforcement proceedings through fixed penalty notices. The aim is to facilitate enforcement through a more direct approach, and these proposals are in keeping with the Welsh Government's well-established recognition of the community leadership role of local authorities.

Er mwyn hyrwyddo amcanion y Llywodraeth hon i leihau cymhlethdod a'r beichiau sy'n cael eu rhoi ar awdurdodau lleol, y flwyddyn hon, byddwn yn cyflwyno Bil is-ddeddfau llywodraeth leol (Cymru), a fydd yn diwygio gweithdrefnau'r is-ddeddf ac yn cynnwys cael gwared ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru wrth gadarnhau rhai is-ddeddfau arfaethedig. Mae hyn wedi'i gynllunio i symleiddio'r broses, gan arwain at fwy o gyfrifoldeb am, a pherchnogaeth, y deddfau lleol hyn. Byddwn hefyd yn cynnig camau gorfodi amgen drwy hysbysiadau cosb benodedig. Y nod yw hwyluso gorfodaeth drwy ddull mwy uniongyrchol, ac mae'r cynigion hyn yn unol â chydnabyddiaeth sefydledig Llywodraeth Cymru o rôl arweinyddiaeth gymunedol awdurdodau lleol.

We will also introduce a local government (collaborative measures) (Wales) Bill. This will facilitate the process of local authorities making joint appointments, requiring them to consider doing so for posts of specified seniority, and create powers for the Auditor General for Wales to inspect and report on

Byddwn hefyd yn cyflwyno Bil llywodraeth leol (mesurau cydweithredol) (Cymru). Bydd hyn yn hwyluso'r broses o awdurdodau lleol yn gwneud apwyntiadau ar y cyd, gan ofyn iddynt ystyried gwneud hynny ar gyfer swyddi o hynafedd penodedig, ac yn creu pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru i

compliance with this duty, and for the Welsh Ministers to intervene in cases of failure.

arolygu ac adrodd ar gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, ac i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn achosion o fethiant.

We also wish to bring greater transparency to the appointment, status and funding of returning officers, so that the public can be satisfied that elections and other polls are run efficiently and cost-effectively. To this end, in the second year of this legislative programme, we will bring forward the democracy and elections (Wales) Bill, which will redesign the rules within which the Local Government Boundary Commission for Wales will operate. The Bill will make reforms to the structure and functions of the Local Government Boundary Commission for Wales and to the process of appointing and funding returning officers.

Dymunwn hefyd ddod â mwy o dryloywder i benodiad, statws ac ariannu swyddogion canlyniadau, fel y gall y cyhoedd fod yn fodlon bod etholiadau ac arolygon barn eraill yn cael eu rhedeg yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. I'r perwyl hwn, yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol, byddwn yn cyflwyno Bil democratiaeth ac etholiadau (Cymru), a fydd yn ail-lunio'r rheolau y mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn gweithredu ynddynt. Bydd y Bil yn gwneud diwygiadau i strwythur a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac i'r broses o benodi ac ariannu swyddogion canlyniadau.

We will also consult on legislation that would make third sector compact arrangements between local authorities and third sector intermediary bodies a statutory requirement. Currently established on a voluntary basis, most local authorities have embraced the ethos of establishing formal relationships with the third sector. However, the scope and make-up of compacts differ from area to area, with varying degrees of engagement and effectiveness. If the evidence and consultation suggest that it is necessary to place compacts on a statutory basis, we will bring forward a statutory third sector compacts Bill towards the end of this Assembly.

Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ddeddfwriaeth a fyddai'n gwneud trefniadau compact trydydd sector rhwng awdurdodau lleol a chyrff cyfryngol y trydydd sector yn ofyniad statudol. Ar hyn o bryd maent yn cael eu sefydlu ar sail wirfoddol ac y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cofleidio'r ethos o sefydlu perthynas ffurfiol gyda'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae cwmpas a chyfansoddiad compactau yn amrywio o ardal i ardal, gyda graddau amrywiol o ymgysylltu ac effeithiolrwydd. Os bydd y dystiolaeth a'r ymgynghoriad yn awgrymu bod angen gosod compactau ar sail statudol, byddwn yn cyflwyno Bil compactau statudol y trydydd sector tua diwedd y Cynulliad hwn.

It is very true that with Government comes responsibility, and Plaid Cymru above all will understand when I say to the other parties in this Chamber that we all have a responsibility to the people of Wales. It is inevitable and proper that the opposition will seek to hold this Government to account. However, it should not be about political point scoring, but working together and finding consensus where possible in developing distinctive Welsh policies for the betterment of the communities we all represent. The Welsh Government will keep to its end of the bargain in ensuring that we carry out robust regulatory impact assessments, consult appropriately, engage meaningfully with our business and other

Mae'n wir iawn gyda Llywodraeth y daw cyfrifoldeb, a bydd Plaid Cymru yn anad dim, yn deall pan fyddaf yn dweud wrth y pleidiau eraill yn y Siambr hon bod gennym oll gyfrifoldeb i bobl Cymru. Mae'n anochel a phriodol y bydd yr wrthblaid yn ceisio dal y Llywodraeth hon i gyfrif. Fodd bynnag, ni ddylai ymwneud â sgorio pwyntiau gwleidyddol, ond gweithio gyda'n gilydd a dod o hyd i gonsensws lle bo hynny'n bosibl i ddatblygu polisïau arbennig i Gymru er lles y cymunedau yr ydym i gyd yn eu cynrychioli. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw at ei bargen o ran sicrhau ein bod yn cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol cadarn, ymgynghori'n briodol, ymgysylltu'n ystyrlon gyda'n busnes a phartneriaid cymdeithasol

social partners, and provide sufficient time for you to scrutinise the Welsh Government's legislation. My Ministers and I will make ourselves available to attend committees to explain our policy decisions when appropriate. In return, we ask the Assembly to play its part by considering the legislation that comes before it in committee in a timely manner.

eraill, ac yn rhoi digon o amser i chi i graffu ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Bydd fy Ngweinidogion a minnau ar gael i fynychu pwyllgorau i egluro ein penderfyniadau polisi pan fo hynny'n briodol. Yn gyfnewid am hyn, byddwn yn gofyn i'r Cynulliad i chwarae ei rhan drwy ystyried y ddeddfwriaeth a ddaw ger ei fron yn y pwyllgor mewn modd amserol.

I commend the legislative statement to the Assembly.

Yr wyf yn cymeradwyo'r datganiad deddfwriaethol i'r Cynulliad.

**Paul Davies:** I thank the First Minister for his statement this afternoon. I think that the Government statement today must be read in the context of three factors. First, given the failures over the past 12 years, it is clear that we need to see a dramatic improvement in public services and in the Welsh economy over the next five years. The Minister for Education and Skills has said that there has been a systemic failure in the Welsh education system. We have recently seen an increase in waiting lists in the Welsh NHS and independent commentators are warning that next to nothing has been achieved with Government spending on economic development. The Welsh Government needs to show and prove that it has the ideas and policies to turn around this state of affairs. Secondly, it will be able to do so with primary law-making powers. Thanks to the historic vote in March, the Welsh Government now has the tools at its disposal to do the job of improving the life chances of the people of Wales. The time for excuses has passed. Thirdly, I think that we must be conscious of the fact that most people in Wales did not vote for this programme. Indeed, the First Minister himself has made reference to this in previous statements. Obviously, the Welsh Government does not have a majority of seats, and it does not have a majority of votes. It is worth remembering that five in six people in Wales did not vote for Welsh Labour, so it needs to work hard to convince the vast majority of people in Wales that its policies are worthwhile.

**Paul Davies:** Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Credaf y dylid darllen datganiad y Llywodraeth heddiw yng nghyd-destun tri ffactor. Yn gyntaf, o ystyried y methiannau dros y 12 blynedd diwethaf, mae'n amlwg bod angen i ni weld gwelliant dramatig yn y gwasanaethau cyhoeddus ac yn economi Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dweud y bu methiant systematig yn y system addysg yng Nghymru. Rydym wedi gweld cynnydd yn y rhestrau aros yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn ddiweddar ac y mae sylwebyddion annibynnol yn rhybuddio bod y nesaf peth i ddim wedi'i gyflawni gyda gwariant y Llywodraeth ar ddatblygu economaidd. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos a phrofi bod ganddi'r syniadau a'r polisïau i weddnewid y sefyllfa hon. Yn ail, bydd yn gallu gwneud hynny gyda phwerau deddfu sylfaenol. Diolch i'r bleidlais hanesyddol ym mis Mawrth, mae gan Lywodraeth Cymru erbyn hyn yr offer i wneud y gwaith o wella cyfleoedd bywyd pobl Cymru. Mae'r amser am esgusodion wedi pasio. Yn drydydd, credaf fod yn rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r ffaith nad yw'r rhan fwyaf o bobl Cymru wedi pleidleisio dros y rhaglen hon. Yn wir, mae'r Prif Weinidog ei hun wedi cyfeirio at hyn mewn datganiadau blaenorol. Mae'n amlwg nad oes gan Lywodraeth Cymru y mwyafrif o seddi ac nid oes ganddi'r mwyafrif o bleidleisiau. Mae'n werth cofio nad yw pump o bob chwech o bobl yng Nghymru wedi pleidleisio dros Lafur Cymru, felly mae angen iddo weithio'n galed i ddarbwyllo'r mwyafrif helaeth o bobl yng Nghymru fod ei bolisïau'n werth chweil.

I have made it clear that, when the Welsh Government brings forward legislation that is

Yr wyf wedi ei gwneud yn glir, pan fydd Llywodraeth Cymru yn dwyn ymlaen

well crafted, well thought through and fully costed, the Welsh Conservatives will work constructively and in the national interest to support the Government in steering the legislation through the Assembly. It is now crucial that the Government concentrates on outcomes and that it delivers for the people of Wales. That is what the First Minister promised during the Assembly election campaign.

deddfwriaeth sy'n cael ei saernïo'n dda, sydd wedi'i ystyried yn drwyadl ac sydd wedi'i gostio'n llawn, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio'n adeiladol ac er budd cenedlaethol i gefnogi'r Llywodraeth i lywio'r ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad. Mae'n hollbwysig bellach fod y Llywodraeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'i bod yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Dyna yr addawodd y Prif Weinidog yn ystod ymgyrch etholiadol y Cynulliad.

Turning to some specific questions on the Government's legislative programme, announcing his legislative priorities on 14 June, the First Minister told the Assembly that the Welsh Government would be,

Gan droi at rai cwestiynau penodol ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, wrth gyhoeddi ei flaenoriaethau deddfwriaethol ar 14 Mehefin, dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cynulliad y byddai Llywodraeth Cymru,

'reflecting upon lessons learnt from our experiences in taking legislation forward over the past four years.'

'yn myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o'n profiadau wrth inni fwrw ymlaen â deddfwriaeth dros y pedair blynedd diwethaf.'

Given his statement today, can he tell us what lessons his Government has learned in particular and how he proposes to implement these lessons? The First Minister also told us in June of his laudable aim to create communities that are safe, sustainable and attractive places for people to live and work—something that he has confirmed in his statement today. Can he outline in more detail how exactly he believes that allotments and cycle lanes will create such communities in Wales, given what he has said in his statement?

O ystyried ei ddatganiad heddiw, a all ddweud wrthym pa wersi yn benodol y mae ei Lywodraeth wedi eu dysgu a sut y mae'n cynnig gweithredu'r gwersi hynny? Dywedodd y Prif Weinidog wrthym hefyd ym mis Mehefin o'i nod clodwiw i greu cymunedau sy'n lleoedd diogel, cynaliadwy a deniadol i bobl fyw a gweithio ynddynt—rhywbeth y mae wedi ei gadarnhau yn ei ddatganiad heddiw. A all amlinellu'n fanylach sut yn union y mae'n credu y bydd rhandiroedd a lonydd beicio yn creu cymunedau o'r fath yng Nghymru, o ystyried yr hyn y mae wedi ei ddweud yn ei ddatganiad?

There are key areas that we, on this side of the Chamber, would wish to see being prioritised that were missing from the previous statement; I am afraid to say that they are missing from today's statement as well. The Welsh Government's legislative priorities fail to prioritise job creation, for instance: something that was picked up on not just on this side of the Chamber, but by several other Assembly Members. The First Minister's statement is certainly lacking in detail on how the Government intends to support the creation of jobs and how it will support the expansion of the private sector. The First Minister has said that legislation alone cannot create investment and jobs. I

Mae meysydd allweddol yr ydym, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn dymuno eu gweld yn cael eu blaenoriaethu a oedd ar goll o'r datganiad blaenorol; Yr wyf yn ofni dweud eu bod ar goll o ddatganiad heddiw yn ogystal. Mae blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn methu â blaenoriaethu creu swyddi, er enghraifft: rhywbeth a nodwyd nid yn unig ar yr ochr hon i'r Siambr, ond gan nifer o Aelodau eraill y Cynulliad. Mae datganiad Prif Weinidog Cymru yn sicr yn brin o fanylion ynghylch sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu cefnogi creu swyddi a sut y bydd yn cefnogi ehangu'r sector preifat. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud na all y ddeddfwriaeth honno ar ei phen ei hun

accept that, but it can help, so what does the Welsh Government intend to do to boost enterprise and create jobs?

greu buddsoddiad a swyddi. Yr wyf yn derbyn hynny, ond gall helpu, felly beth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i hybu mentergarwch a chreu swyddi?

I agree with the First Minister that we need to see urgent improvements in the delivery of public services in Wales as well as in the opportunities that are provided by the Welsh economy. The First Minister has told us that his Government's focus remains on improving public services. Given his statement today, perhaps the First Minister would be kind enough to tell us what specific improvements he expects to see in the Welsh NHS and in the education system by 2016. What particular targets and improvements has he set for the Welsh education system and health service for the next five years? How will outcomes against these targets be measured?

Cytunaf â'r Prif Weinidog fod angen inni weld gwelliannau brys o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal ag yn y cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan economi Cymru. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud wrthym fod ffocws ei Lywodraeth yn parhau i fod ar wella gwasanaethau cyhoeddus. O ystyried ei ddatganiad heddiw, efallai y byddai'r Prif Weinidog yn ddigon caredig i ddweud wrthym ba welliannau penodol y mae'n disgwyl eu gweld yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru ac yn y system addysg erbyn 2016. Pa dargedau a gwelliannau penodol y mae ef wedi eu gosod ar gyfer y system addysg a'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf? Sut y bydd y canlyniadau yn erbyn y targedau hyn yn cael eu mesur?

All of us in the Chamber wish to see people's health getting better. I note that the First Minister said that his Government will bring forward a public health (Wales) Bill, with a view to introducing legislation in the second half of its legislative programme. Perhaps the First Minister would be kind enough to expand on that, given the importance of this issue for the health and wellbeing of our nation. Can he confirm, for example, whether his Government intends to legislate on minimum alcohol pricing and the banning of smoking in cars?

Mae pob un ohonom yn y Siambr yn dymuno gweld iechyd pobl yn gwella. Sylwaf y dywedodd y Prif Weinidog y bydd ei Lywodraeth yn cyflwyno Mesur iechyd cyhoeddus (Cymru), gyda'r bwriad o gyflwyno deddfwriaeth yn ail hanner ei rhaglen ddeddfwriaethol. Efallai y byddai'r Prif Weinidog mor garedig ag ymhelaethu ar hynny, o ystyried pwysigrwydd y mater hwn ar gyfer iechyd a lles ein cenedl. A all gadarnhau, er enghraifft, a ydyw ei Lywodraeth yn bwriadu deddfu ar brisio isafswm alcohol a gwahardd ysmygu mewn ceir?

I also note that the First Minister's Government will bring forward a planning Bill, which intends to consolidate existing planning legislation. In the circumstances, will the First Minister confirm whether this will include a wholesale review of the planning process? This is important, given the fact that planning plays a key role in all of our lives, individually and collectively.

Nodaf hefyd y bydd Llywodraeth y Prif Weinidog yn cyflwyno Bil cynllunio, sy'n bwriadu atgyfnerthu deddfwriaeth cynllunio presennol. Yn yr amgylchiadau, a wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a fydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r broses gynllunio ar raddfa eang? Mae hyn yn bwysig, o ystyried y ffaith bod cynllunio yn chwarae rhan allweddol ym mhob un o'n bywydau, yn unigol ac ar y cyd.

On education, my party has supported the work of the Minister for Education and Skills to raise standards in our schools. We need to close the attainment gap in our schools; that

O ran addysg, mae fy mhlaid wedi cefnogi gwaith y Gweinidog Addysg a Sgiliau i godi safonau yn ein hysgolion. Mae angen i ni gau'r bwlch cyrhaeddiad yn ein hysgolion;

is what parents want this Government to do. We shall be a constructive opposition in word and in deed. I wish however to seek clarification on three points today. I note the proposal to bring forward a school and standards Bill. The First Minister has pledged to increase spending on education by 1 per cent above the block grant. Is it his intention to enshrine this pledge in law? The Welsh Labour manifesto also commits the Welsh Government to establishing teaching as a master's level vocation. On 2 February, the Minister for education confirmed that he had asked officials to examine whether initial teacher training could be revised to become a two-year master's qualification. Can the First Minister update us on what advice the Minister for education has been given on future changes to teacher training? Can he tell us which key stakeholders, such as teaching unions, have been consulted on these proposals and whether they back the Government's plans? We also heard yesterday that Welsh universities will now be allowed to charge £9,000 in tuition fees. How confident is the First Minister that this policy can be afforded over the next five years and beyond?

dyna y mae rhieni yn ei ddymuno i'r Llywodraeth hon ei wneud. Byddwn yn wrthblaid adeiladol mewn gair a gweithred. Hoffwn, fodd bynnag ofyn am eglurhad ar dri phwynt heddiw. Nodaf y cynnig i gyflwyno Bil ysgol a safonau. Mae'r Prif Weinidog wedi addo cynyddu gwariant ar addysg 1 y cant yn uwch na'r grant bloc. A ydyw'n fwriad ganddo i ymgorffori'r addewid hwn yn y gyfraith? Mae maniffesto Llafur Cymru hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i sefydlu addysgu fel galwedigaeth ar lefel meistr. Ar 2 Chwefror, cadarnhaodd y Gweinidog dros addysg ei fod wedi gofyn i swyddogion i archwilio a allai hyfforddiant cychwynnol i athrawon cael ei ddiwygio i fod yn gymhwyster meistr dwy flynedd. A all y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch pa gyngor y mae'r Gweinidog dros addysg wedi ei roi ar newidiadau i hyfforddiant athrawon yn y dyfodol? A all ddweud wrthym pa rhanddeiliaid allweddol, fel undebau athrawon, yr ymgynghorwyd â hwy ar y cynigion hyn ac a ydynt yn cefnogi cynlluniau'r Llywodraeth? Clywsom hefyd ddoe y bydd prifysgolion Cymru yn awr yn cael yr hawl i godi £9,000 mewn ffioedd dysgu. Pa mor hyderus y mae'r Prif Weinidog y gellir fforddio'r polisi hwn dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt?

Finally, I thank the First Minister once again for his statement. I welcome some of the points made in today's announcement and I hope that the Government will now focus its efforts on delivering for the people of Wales.

Yn olaf, diolchaf i'r Prif Weinidog unwaith eto am ei ddatganiad. Yr wyf yn croesawu rhai o'r pwyntiau a wnaed yn y cyhoeddiad heddiw ac yr wyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn awr yn canolbwyntio ei hymdrechion ar gyflawni ar gyfer pobl Cymru.

5.00 p.m.

**The First Minister:** I was disappointed to hear the leader of the opposition question the Government's responsibility to bring forward a legislative programme. I am aware of the arithmetic in this place as well as he is, but to suggest that the programme does not have the support of the people of Wales is rich, coming from someone leading a party that commanded the support of one in six of the Welsh population. We heard earlier from the Prime Minister; he also had the support of one in six of the population, yet he is Prime Minister, but I did not question his right to be Prime Minister. Apparently, the same cannot

**Y Prif Weinidog:** Yr oeddwn yn siomedig i glywed arweinydd yr wrthblaid yn cwestiynu cyfrifoldeb y Llywodraeth i gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol. Yr wyf yn ymwybodol o'r rhifyddeg yn y lle hwn gystal ag y mae ef, ond mae'r awgrym nad oes gan y rhaglen gymorth pobl Cymru yn hy, a hynny'n dod o rywun sy'n arwain plaid a orchmynnodd gefnogaeth un o bob chwech o boblogaeth Cymru. Clywsom yn gynharach gan y Prif Weinidog; roedd gan yntau gefnogaeth un o bob chwech o'r boblogaeth, ac eto mae'n Brif Weinidog, ond ni chwestiynais ei hawl i fod yn Brif Weinidog.

be said of the side opposite. If his party had genuinely wished to do better in the election in May, it would have ditched its commitments to privatisation and to making a swingeing cut of 20 per cent in the education budget, which we heard the previous Conservative leader say live on *Wales Today*.

Mae'n debyg na ellir dweud yr un peth o'r ochr gyferbyn. Os oedd ei blaid wirioneddol yn dymuno gwneud hynny i wneud yn well yn yr etholiad ym mis Mai, byddai wedi cael gwared ar ei ymrwymiadau i breifateiddio a gwneud toriadau llym o 20 y cant yn y gyllideb addysg, fel y clywsom yr arweinydd Ceidwadol blaenorol yn dweud yn fyw ar *Wales Today*.

I will deal with the questions relevant to the statement that were put by the leader of the opposition. What have we learned? First, the need to put forward a detailed programme—which we have done; there are 19 Bills included here. Secondly, the need to put forward a programme that lasts for the full five years of the Assembly. I emphasise that there is scope for other Bills to come forward during the course of this Assembly, and I do not suggest that these are the only Bills that will come forward, nor that there is no scope for Bills from other parties to be considered as well. Nevertheless, this is the programme of Bills that the Government wishes to see passed over the next five years.

Byddaf yn ymdrin â'r cwestiynau sy'n berthnasol i'r datganiad sy'n cael eu rhoi gan arweinydd yr wrthblaid. Beth ydym wedi'i ddysgu? Yn gyntaf, yr angen i gyflwyno rhaglen fanwl—fel yr ydym wedi ei wneud; mae 19 o Filiau wedi'u cynnwys yma. Yn ail, yr angen i gyflwyno rhaglen sydd yn parhau am bum mlynedd lawn y Cynulliad. Pwysleisiaf fod sgôp ar gyfer Biliau eraill i'w cyflwyno yn ystod y Cynulliad hwn, ac nid wyf yn awgrymu mai'r rhain fydd yr unig Filiau i'w cyflwyno, nac ychwaith nad oes unrhyw sgôp ar gyfer Biliau o bleidiau eraill i gael eu hystyried yn ogystal. Serch hynny, dyma'r rhaglen o Filiau y dymuna'r Llywodraeth ei weld yn cael eu phasio dros y pum mlynedd nesaf.

On creating sustainable communities, I am surprised that the leader of the opposition decries cycling and attacks allotments. It is clear that many people gain pleasure from allotments and cycling. Cycling is important in creating a more sustainable form of transport—a form of transport that is accepted in many other European countries but which has had difficulty gaining acceptance here. I also made mention of the prevention of youth offending Bill, among others, that seeks to address the problems of anti-social behaviour and offending in our communities.

O safbwynt creu cymunedau cynaliadwy, yr wyf yn synnu bod arweinydd yr wrthblaid yn bychanu beicio ac yn ymosod ar randiroedd. Mae'n amlwg bod llawer o bobl yn cael pleser mewn rhandiroedd a beicio. Mae seiclo'n bwysig i greu ffordd mwy cynaliadwy o drafnidiaeth—dull o drafnidiaeth y derbynnir mewn llawer o wledydd Ewropeaidd eraill ond sydd wedi cael anhawster ennill derbyniad yma. Soniais hefyd am y Bil atal troseddau ieuenctid, ymhlith eraill, sy'n ceisio ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn ein cymunedau.

In terms of job creation, I have said it before and I will say it again—you cannot create jobs by making laws. You create jobs through policy and through funding. It is not realistic to suggest—unless he has any suggestions to the contrary—that you can legislate to create jobs.

O ran creu swyddi, yr wyf wedi dweud o'r blaen a dywedaf eto—ni allwch greu swyddi drwy wneud deddfau. Rydych yn creu swyddi drwy bolisi a thrwy gyllid. Nid yw'n realistig i awgrymu—oni bai bod ganddo unrhyw awgrymiadau i'r gwrthwyneb—y gallwch ddeddfu i greu swyddi.

In terms of two other points that he made, we lack the powers over minimum alcohol pricing. If we had the power, we should

O ran dau bwynt arall a wnaeth, mae diffyg pwerau gennym dros isafbrisio alcohol. Pe bai gennym y pŵer, dylem ystyried un mater

consider one issue carefully: if there was a significant price difference between Wales and England, there is no question that we would see smuggling. That would mean employing our own customs officers. So, there are effects that need to be considered carefully when it comes to minimum alcohol pricing, sound though the policy is.

yn ofalus: os oedd gwahaniaeth pris sylweddol rhwng Cymru a Lloegr, nid oes unrhyw amheuaeth y byddem yn gweld smyglo. Byddai hynny'n golygu cyflogi swyddogion tollau ein hunain. Felly, mae effeithiau y mae angen eu hystyried yn ofalus pan ddaw'n fater o isafbrisio alcohol, cyn gryfed ag y mae'r polisi.

When it comes to smoking in cars, the Minister for Health and Social Services and I will tomorrow attend an event that will look at the issue of smoking in cars with children under the age of 16. If needs be—if voluntary action is not effective—we will look to legislate.

Pan ddaw'n fater o ysmygu mewn ceir, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau yn mynd i ddigwyddiad yfory a fydd yn edrych ar y mater o ysmygu mewn ceir gyda phlant o dan 16 oed. Os oes angen—os nad yw gweithredu gwirfoddol yn effeithiol—byddwn yn edrych ar ddeddfu.

In terms of the planning process, the planning Bill is looking to improve and simplify the planning system in Wales. It will look at all aspects of planning—there is no area of planning that is off limits as far as that Bill is concerned. We need to ensure that the planning system that we have inherited is right for the people of Wales, and we will produce a Bill that will provide greater transparency and simplification.

O ran y broses gynllunio, mae'r Bil cynllunio yn bwriadu gwella a symleiddio'r system gynllunio yng Nghymru. Bydd yn edrych ar bob agwedd ar gynllunio—nid oes yr un rhan o gynllunio sydd y tu hwnt i derfynau o safbwynt y Bil. Mae angen inni sicrhau bod y system gynllunio a etifeddwyd gennym yn iawn ar gyfer pobl Cymru, a byddwn yn cynhyrchu Bil a fydd yn darparu mwy o dryloywder a symleiddio.

With regard to the suggestion that there should be a budget commitment included in primary legislation, that is not appropriate. Budgets are budgets and legislation is legislation. If we were to include a specific funding pledge on education, that would also bind subsequent Governments, which would be forced to produce a new Bill and to pass a new Act to deal with it. It is right that these issues are dealt with through budget commitments rather than legislative commitments.

O ran yr awgrym y dylid cynnwys ymrwymiad cyllideb mewn deddfwriaeth sylfaenol, nid yw'n briodol. Cyllidebau yw cyllidebau a deddfwriaeth yw deddfwriaeth. Pe baem yn cynnwys addewid ariannu penodol ar addysg, byddai hynny hefyd yn rhwymo Llywodraethau dilynol, a fyddai'n cael eu gorfodi i lunio Bil newydd ac i basio Deddf newydd i ymdrin ag ef. Mae'n iawn bod y materion hyn yn cael eu trin drwy ymrwymiadau cyllidebol yn hytrach nag ymrwymiadau deddfwriaethol.

I was disappointed not to hear some suggestions from the leader of the opposition as to which Bills he feels are important and which Bills he thinks deserve the support of this Assembly and the people of Wales, but I look forward to listening to him or his successor in the future providing us with more detail as to what Bills might be suggested by the Conservative Members here over the next five years.

Yr oeddwn yn siomedig na chlywais rai awgrymiadau gan arweinydd yr wrthblaid ynghylch pa Filiau y mae'n teimlo sy'n bwysig a pha Filiau, yn ei farn ef, sy'n haeddu cefnogaeth y Cynulliad hwn a phobl Cymru, ond edrychaf ymlaen at wrando arno ef neu ei olynydd yn y dyfodol yn rhoi mwy o fanylion inni ynghylch pa Filiau y gall yr Aelodau Ceidwadol yma awgrymu dros y pum mlynedd nesaf.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr wyf innau, hefyd, yn diolch yn gynnes iawn i'r Prif Weinidog am y

**Ieuan Wyn Jones:** I, too, thank the First Minister for the statement. We need to

datganiad. Mae'n rhaid inni ein hatgoffa ein hunain bod hwn yn ddatganiad hanesyddol—y tro cyntaf i Brif Weinidog allu sefyll mewn corff etholedig yng Nghymru a ganddo'r hawl i gyflwyno rhestr o Filiau y mae'n dymuno eu cyflwyno ar ran y Llywodraeth. Mae'r ffaith ei fod yn gallu rhestru nifer o Filiau fel hyn yn dangos bod y frwydr a gafwyd yn ystod y refferendwm i roi'r hawl i bobl Cymru ethol Llywodraeth i ddeddfu wedi bod yn werth chweil.

remind ourselves that today's statement is a historic one—it is the first time that a First Minister has had the right to stand up in an elected body in Wales to introduce a list of Bills that he wishes to see put forward on behalf of the Government. The fact that he is able to list a number of Bills demonstrates that the referendum campaign to give the people of Wales the right to elect a Government that could legislate was worthwhile.

Mater arall, wrth gwrs, yw cynnwys y Biliau. Yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog yn falch o glywed bod nifer o Filiau y byddem yn dymuno eu cefnogi—a'u gwella, efallai. Mae gennyf nifer o gwestiynau ar rai Biliau eraill.

The content of the Bills is another issue, of course. I am sure that the First Minister will be pleased to hear that there are a number of Bills that I would wish to support—and, perhaps, improve. I have a number of questions on other Bills.

Dechreuaf drwy gyfeirio at baragraff olaf ei ddatganiad, lle mae'n gosod her i'r pleidiau eraill yn y Cynulliad gydweithio â'r Llywodraeth i gyflwyno'r rhaglen hon. Mae wedi cydnabod bod Plaid Cymru bob amser yn rhoi buddiannau pobl Cymru yn gyntaf, ac, yn naturiol, byddwn am gydweithio â'r Llywodraeth lle bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol a lle bo hynny'n cryfhau'r ddeddfwriaeth. Yr wyf yn gobeithio y bydd yr ymrwymiad hwnnw yn cael ei roi gan y gwrthbleidiau eraill hefyd.

I start by making reference to the final paragraph of his statement, which is the challenge that he has set for other parties in the Assembly to collaborate with the Government to deliver on this programme. He has recognised that Plaid Cymru always puts the interests of the people of Wales first, and, naturally, we wish to collaborate with the Government where that is possible and practical and where that strengthens the legislation. I hope that that commitment can also be given by the other opposition parties.

Un mater yr wyf wedi'i godi gyda'r Prif Weinidog sawl tro yw'r angen i gael dadl lawn ar raglen y Llywodraeth. Mae'r Prif Weinidog wedi gwneud datganiad heddiw, ac mae mwy o fanylion yn hwn nag a gafwyd yn y datganiad blaenorol, ond yr wyf yn dal i gredu y byddai trafodaeth eang ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn adeiladol. Byddem wedyn yn gallu adeiladu consensws go iawn y tu ôl i rai o'r Biliau hyn.

One issue that I have raised with the First Minister on a number of occasions is the need for a full debate on the Government's programme. He has made a statement today, and there is more detail here than in the previous statement, but I still believe that a broad-ranging discussion on the Government's legislative programme would be constructive. We would then be in a position to build real consensus behind some of these Bills.

Un peth y mae'n rhaid i'r Prif Weinidog ei wneud—yr wyf yn siŵr ei fod yn sylweddoli—yw sicrhau bod y wybodaeth, y gwaith cefndir a'r gwaith paratoi i gyd yn nwylo'r Llywodraeth. Y tro cyntaf y mae gwrthblaid yn gweld unrhyw beth yw pan fo'r Bil yn cael ei gyflwyno yn gyhoeddus. Yr wyf yn estyn gwahoddiad iddo: os yw'n teimlo bod angen cefnogaeth i Fil penodol—a bydd arno angen hynny; yr unig ffordd y bydd yn sicrhau llwyddiant rhai o'r Biliau

One thing that the First Minister must do—I am sure that he realises—is to ensure that the information and the background and preparatory work is all in the Government's hands. The first time that an opposition party sees anything is when the Bill is made public. I extend an invitation to the First Minister: if he feels that he needs support for specific Bills—he will need that support; the only way to get some of these Bills through is by building consensus—we are happy to discuss

hyn yw drwy adeiladu consensws—yr ydym yn hapus i drafod cynnwys Biliau cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Gobeithiaf y bydd yn derbyn hynny yn yr ysbryd yr wyf yn gwneud y cynnig.

the content of Bills prior to their publication. I hope that he accepts that in the spirit in which it is proposed.

Un mater yr wyf yn ei gael yn rhyfedd, o ran terminoleg, yw bod y gair ‘Cymru’ yn cael ei gynnwys yn nheitlau rhai Biliau drafft ond nid mewn rhai eraill. Pam, er enghraifft, mae gennych ‘Fil cynllunio’, tra bo Bil arall yn ‘Fil priffyrdd a thrafnidiaeth (Cymru)’? Byddwn yn meddwl mai Cymru yw tiriogaeth amlwg y ddeddfwriaeth, felly pam nodi hynny? Os oes angen ei gynnwys, pam nad yw wedi’i gynnwys yn nheitl pob Bil? Gobeithiaf y byddwch yn gallu ateb y cwestiwn hwnnw ar derminoleg.

One issue that I find quite strange, in terms of terminology, is that the word ‘Wales’ is included in some draft Bills, but not in others. Why, for example, do you have a ‘planning Bill’, while another Bill is the ‘highways and transport (Wales) Bill’? I would have thought that Wales was the obvious subject of the legislation, so why does it need to be noted? If it does need to be included, why is it not included in all Bills? I hope that you will be able to respond to that question on terminology.

Mae yma gyfuniad o Filiau: rhai yn strwythurol, rhai yn drefniadol ac eraill yn cynnwys cynigion polisi. Un mater yr oeddwn yn ymwybodol iawn ohono—yr oedd y Prif Weinidog hefyd yn cyfeirio at hyn—oedd bod nifer ohonynt yn ymwneud â llywodraeth leol. Yr ydym i gyd yn ymwybodol y bydd pwysau ariannol ar lywodraeth leol, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Tybed a fyddai’r Prif Weinidog yn gallu dweud wrthym a yw ei Lywodraeth a’i swyddogion wedi gwneud asesiad o beth yn union yw’r gost ychwanegol ar lywodraeth leol o gyflwyno nifer o’r Biliau hyn. Yr wyf yn gobeithio y bydd yn cael trafodaethau buan â chynrychiolwyr llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy’n effeithio ar lywodraeth leol yn cael ei hystyried o safbwynt cost cyn ei chyflwyno.

We have here a combination of Bills: some are structural, others are procedural and some make policy proposals. One issue of which I was very aware—the First Minister also made reference to this—was that a number of these relate to local government. We are all aware that there will be financial pressures on local government, as is the case for the Welsh Government and other public bodies in Wales. I wonder whether the First Minister could tell us whether his Government and his officials have carried out an assessment of the additional cost for local government in introducing many of these Bills. I hope that he will have early discussions with representatives of local government in order to ensure that any new legislation that impacts on local government is considered for cost implications before it is introduced.

Mae’r Prif Weinidog hefyd wedi ei gwneud yn glir y bydd rhai Biliau yn cael eu cyflwyno’n uniongyrchol, rhai Biliau yn cael eu cyflwyno ar ffurf drafft a rhai Biliau y ceir ymgynghori arnynt cyn eu cyflwyno. Beth yw’r amserlen ar gyfer rhai o’r penderfyniadau hynny? Os yw’n mynd i ymgynghori, mae’n amlwg na chyflwynir rhai Biliau—os o gwbl—tan ail hanner y Cynulliad.

The First Minister has also made it clear that some Bills will be introduced directly, some Bills will be introduced in draft form and some Bills will be consulted upon prior to their introduction. What is the timetable for that? If there is to be consultation, it is clear that some Bills will not be introduced—if at all—until the second half of this Assembly.

Yr wyf am sôn yn gryno am rai o’r materion sydd wedi dod i’m sylw; unwaith eto, yr wyf wedi cael ychydig amser i’w hystyried.

I will briefly mention some issues that have come to my attention; once again, I have only had a short time to consider them. The Bill

Mae'r Bil y mae'n cyfeirio ato fel Bil priffyrdd a thrafnidiaeth yn ymwneud, mewn gwirionedd, â cherdded a seiclo. A yw wedi ystyried y posibilrwydd o ehangu'r Bil hwnnw i gynnwys ymrwymiad llawnach o blaid trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth integredig? Mae'n ymwybodol bod mwy o gytundeb yng Nghymru, bellach, ar yr angen i ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy ac integredig, gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mewn ffordd llawer mwy blaengar, nac unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Gyfunol. Felly, a yw'n fodlon ystyried ehangu'r Bil hwnnw i gynnwys ymrwymiad ehangach?

that he refers to as the highways and transport (Wales) Bill is, in fact, a Bill on walking and cycling. Has he considered the possibility of expanding that Bill to include a fuller commitment to public transport and to integrated transport? He is aware that there is, now, greater agreement in Wales on the need to develop a sustainable and integrated transport system, using public transport in a far more innovative way, than in any other part of the United Kingdom. Therefore, is he willing to consider the expansion of that Bill to include a broader commitment?

Hoffwn gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Bil treftadaeth. Nid wyf yn siŵr fy mod yn deall yn llwyr beth mae eisiau ei gyflawni yn y maes hwnnw.

I would like more information about the heritage Bill. I am not sure that I fully understand what he wants to achieve in that area.

O ran y Bil amgylchedd, nid oeddwn yn siŵr, o ddarllen yr hyn a ddywedodd a gwrando arno'n siarad, pam fod angen Bil i gyflawni'r amcanion a nodwyd. Yr oedd yn sôn am bethau y gellid eu cyflawni heb ddeddfwriaeth, felly nid wyf yn hollol siŵr pam fod angen deddfu ar y meysydd hynny. Yr wyf yn gweld pam y byddai angen Bil cynllunio, a byddwn yn cefnogi'r Bil hwnnw, ar yr amod ei fod yn gynhwysfawr. Yr wyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Paul Davies ar hyn. Mae'n rhaid i'r Bil gynnwys adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system gynllunio. Gobeithiwn y bydd y Llywodraeth yn fodlon mynd i'r afael â hynny. Mae ganddo ein cefnogaeth lwyr ar y sail y bydd hynny yn sicrhau adnewyddiad economaidd Cymru.

Turning to the environment Bill, I was not sure, from reading what he said and having listened to him speak, why a Bill was needed to achieve the aims that he mentioned. He talked about things that could be achieved without legislation, so I am unclear as to why legislation is needed in those areas. I can see why a planning Bill would be necessary, and we will support that Bill, on the condition that it is comprehensive. I agree with what Paul Davies said on this matter. The Bill must include a root and branch review of the planning system. We hope that the Government is willing to do that. He has our full support on the basis that that delivers Wales's economic recovery.

Caiff ein cefnogaeth hefyd ar y Biliau addysg, ond hoffwn gael sicrwydd y bydd yn fodlon derbyn rhai o'r syniadau a gyflwynwyd gennym yn ein maniffesto ar wella lefelau llythrennedd, cyllido ysgolion, trefn archwilio ysgolion ac yn y blaen. Mae angen cynnwys yr holl bethau hynny mewn Bil addysg. Yr wyf yn gobeithio, os bydd eraill yn dal eich llygad, Lywydd, y bydd modd trafod hynny'n fanylach. Fodd bynnag, mae lle amlwg, fel y dylai fod, yn y rhaglen i Fil yn ymwneud ag addysg.

He will also have our support for the education Bills, but I would like an assurance that he is willing to accept some of the ideas that we put forward in our manifesto on improving literacy levels, school funding, school inspections and so on. All those things need to be included in an education Bill. I hope that, if others catch your eye, Presiding Officer, that can be debated in more detail. However, the programme includes a prominent place for an education Bill, and that is as it should be.

Yr wyf yn teimlo y gellid bod wedi rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â thai. Gwelaf ei fod yn

I feel that more information could have been included on housing. I see that he is

canolbwyntio'n benodol ar y sector rhentu preifat, ond hoffwn wybod faint o waith paratoi sydd wedi'i wneud ar hynny. Fy argraff, o ddarllen yr hyn a ddywedodd, yw bod tipyn o ffordd i fynd cyn y gellir cyflwyno Bil tai. Fodd bynnag, hoffwn wybod pa fath o bethau mae'n ystyried eu cynnwys. Un o'r pethau amlwg yw lefelau rhent yn y sector preifat. Dyna sydd yn golygu bod nifer o bobl yn methu â chael mynediad i'r sector—mae rhenti, ar hyn o bryd, yn rhy uchel ac mae cymhorthdal tai yn cael ei gwtogi.

concentrating specifically on the private rented sector, but I would like to know how much preparatory work has been done on that. My impression, having read the statement, is that there is some way to go before a housing Bill can be introduced. However, I would like to know what kind of things he is thinking of including. One obvious issue is rent levels in the private sector, which is what makes it impossible for many people to access the sector—rents are, at the moment, too high and housing benefit is being cut.

Caiff ein cefnogaeth ar y Bil cam-drin domestig (Cymru). Yr wyf yn hollol sicr o hynny, a gobeithiaf y gallwn i gyd gytuno ar ei gynnwys.

He will also have our support on the domestic abuse (Wales) Bill. I am sure of that, and I hope that we can all agree on its content.

Gan ruthro ymlaen at y Bil iechyd, yr wyf yn synnu braidd ei fod yn cael ei adael tan ail hanner y rhaglen. Hoffwn gael mwy o fanylion yn ei gylch. Pam nad yw'r Llywodraeth yn gallu cyflwyno Bil mor bwysig tan ail hanner y Cynulliad? Mae tuedd mewn llywodraeth i'r ddeddfwriaeth lai pwysig ddod yn ail hanner y rhaglen a'r ddeddfwriaeth bwysicaf ddod ar y dechrau. Y Bil cynllunio, y Bil addysg a'r Bil iechyd yw'r ddeddfwriaeth yr hoffwn ein gweld yn symud arnynt yn fuan. Yr wyf yn hynod o ddiolchgar i'r Llywydd am ganiatáu imi ofyn nifer o gwestiynau ar y datganiad.

Moving on quickly to the health Bill, I was surprised that it was being left to the second half of the programme. I would like more information. Why is the Government unable to introduce such an important Bill until the second half of the Assembly? Governments tend to introduce less important legislation in the second half of their programmes, dealing with the more important legislation first. The planning Bill, the education Bill and the health Bill are the pieces of legislation that I would like to see us moving to deal with quickly. I am very grateful to the Presiding Officer for allowing me to ask a number of questions on the statement.

5.15 p.m.

**Y Prif Weinidog:** Dechreuaf drwy ddweud bod lle ar gyfer deddfwriaeth arall. Bydd amser ar gael yn ystod y bum mlynedd nesaf ar gyfer deddfwriaeth sy'n dod o'r pleidiau eraill. Credaf ei fod yn beth synhwyrol i'w wneud. O ran yr hyn sy'n mynd i ddigwydd yn weddol gyflym, hynny yw cyn y Nadolig, yr ydym am ymgynghori ar Fil drafft ynghylch Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi, ac, ym mis Hydref, yr ydym yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ynglŷn â Bil ar roi organau. Hefyd, yr ydym am gyflwyno Bil ar is-ddeddfau awdurdodau lleol i'r Cynulliad ym mis Hydref. Yn ein barn ni, mae'n Fil weddol syml, felly, gallwn ddod â Bil gerbron y Cynulliad y gall y pleidiau eraill ei gefnogi heb i ni orfod cyhoeddi Bil ar ffurf drafft. Ym mis Rhagfyr, byddwn yn

**The First Minister:** I will say at the outset that there is room for further legislation. There will be time available during the next five years for legislation from other parties. I think that it is a sensible thing to do. On what will happen relatively soon, that is, before Christmas, we will consult on a draft Bill on the Wales Audit Office in September and, in October, we intend to publish a White Paper in relation to the organ donation Bill. We also intend to introduce to the Assembly a Bill on local authority bye-laws in October. In our opinion, it is quite a simple Bill; therefore, we will be able to bring a Bill before the Assembly that the other parties will be able to support without us having to publish a draft Bill. In December, we will introduce a Bill on the national food hygiene rating scheme. It

cyflwyno'r Bil ynghylch y cynllun sgorio hylendid bwyd cenedlaethol. Caiff ei gyhoeddi cyn y Nadolig er mwyn ymgynghori arno.

will be published before Christmas so that we can consult on it.

Nod y Llywodraeth, lle bo Biliau yn weddol gymhleth neu gyflawn, yw cyflwyno Bil drafft er mwyn caniatáu i'r Aelodau a'r cyhoedd fynegi barn ar yr adeg honno. Byddwn yn cyhoeddi Papurau Gwyn mewn perthynas â rhai o'r Biliau—er enghraifft, bydd hynny yn digwydd ym mis Hydref mewn perthynas â'r Bil ynghylch rhoi organau. O ran y teitlau, bydd y gair 'Cymru' yn ymddangos yn nheitl pob Deddf a gaiff ei phasio gan y Cynulliad. Mae hynny o ganlyniad i'r ffaith bod yr un peth yn digwydd yn yr Alban. Yn swyddogol—o'r hyn yr wyf yn ei ddeall—bydd pob Deddf a gaiff ei phasio gan y Cynulliad yn cynnwys y gair 'Cymru' yn y teitl.

It is the Government's intention, where a Bill is quite complicated or complete, to introduce a draft Bill in order to allow Members and members of the public to express their views at that time. We will publish White Papers in relation to some Bills—for example, that will happen in October in relation to the organ donation Bill. On the titles, the word 'Wales' will appear in the title of every Act that will be passed by the Assembly. That is a result of the fact that the same thing happens in Scotland. Officially, from what I understand, every Act that will be passed by the Assembly will include the word 'Wales' in the title.

O ran awdurdodau lleol, ni fyddwn yn dymuno iddynt fod mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid iddynt wario mwy o arian heb inni gwrdd â'r costau hynny. Felly, ni fydd awdurdodau lleol yn cario baich costau ychwanegol o ganlyniad i ddeddfwriaeth. O ran y Bil ynghylch priffyrdd a thrafnidiaeth, yr ydym yn barod i'w ehangu neu edrych ar Fil arall er mwyn hybu'r syniadau y gwnaeth yr Aelod sôn amdanynt. O ran y Bil ynghylch yr amgylchedd, y nod yw iddo fod yn Fil mawr a chyflawn a felly bydd manylion ynghylch y Bil hwnnw yn dod gerbron y Cynulliad dros y blynyddoedd nesaf.

On local authorities, we would not wish for them to have to spend more money without us meeting those costs. Therefore, local authorities will not have to bear additional costs as a result of legislation. On the highways and transport Bill, we are ready to extend it or to look at another Bill in order to promote the ideas that the Member mentioned. On the environment Bill, the aim is for it is to be a large and complete Bill and therefore the details of that Bill will be brought before the Assembly in the next few years.

O ran y Bil ynghylch ysgolion, unwaith eto, yr ydym yn barod i ystyried unrhyw welliannau a allai sicrhau gwell ddeddfwriaeth. O ran y Bil ynghylch tai, y nod yw sicrhau y bydd Papur Gwyn mewn perthynas â'r Bil hwnnw yn cael ei gyhoeddi rywbryd yn 2013, felly bydd cyfle i Aelodau fynegi barn unwaith eto. O ran y Bil ynghylch iechyd cyhoeddus, mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae'n wir i ddweud bod sawl Bil yn barod i fynd ar hyn o bryd, ond mae mwy o waith i wneud ar y Bil hwnnw. Rhaid cofio hefyd y bydd y Bil ynghylch hylendid bwyd yn barod i gael ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Mai 2012 a bydd Bil drafft yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr.

On the Bill on schools, once again, we are ready to consider any amendments that could lead to better legislation. On the housing Bill, the aim is to ensure that the White Paper will be published some time in 2013 and therefore Members will once again have an opportunity to express their views. The public health Bill is currently being developed. It is true to say that several Bills are ready to go at the moment, but there is more work to be done on that one. You should bear in mind that the Bill on food hygiene will be ready to be introduced to the Assembly in May 2012 and a draft Bill will be published in December.

**Kirsty Williams:** I consider it to be a huge privilege to be present in the Assembly Chamber listening to this legislative statement. For the first time in many years, the laws that affect only Wales will be made in Wales. A huge responsibility has been placed upon the Welsh Government and the National Assembly. We must demonstrate to the people of Wales that their putting their trust and faith in us in March was the right thing to do and that all the arguments deployed by those of us who campaigned for a ‘yes’ vote in the referendum were right. We now have to live up to those expectations. There can be no more excuses. The days of Governments being able to come here and say that they would like to do something about a problem but do not have the powers are over. As a National Assembly, we have to demonstrate that we can scrutinise this legislation properly, hold the Government to account, and amend legislation for the better, where necessary. We need to demonstrate that our legislative choices are the right ones and will transform the society in which we live, driving the better outcomes for our citizens that, collectively, we all desire.

**Kirsty Williams:** Ystyriaf ei bod yn fraint enfawr i fod yn bresennol yn Siambr y Cynulliad yn gwrando ar y datganiad deddfwriaethol hwn. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, gwneir y deddfau sy’n effeithio dim ond ar Gymru yng Nghymru. Rhoddwyd cyfrifoldeb enfawr ar Lywodraeth Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae’n rhaid inni ddangos i bobl Cymru mai rhoi eu hymddiriedaeth a ffydd ynom ni ym mis Mawrth oedd y peth iawn i’w wneud a bod pob un o’r dadleuon a wnaed gan y rheiny ohonom a ymgyrchodd dros bleidlais ‘ie’ yn y refferendwm yn iawn. Mae’n rhaid inni bellach wireddu’r disgwyliadau hynny. Ni all fod esgusodion pellach. Mae’r dyddiau pan oedd Llywodraethau’n gallu dod yma a dweud yr hoffent wneud rhywbeth am y broblem ond nad oes ganddynt y pwerau i’w gwneud drosodd. Fel Cynulliad Cenedlaethol, mae’n rhaid inni ddangos y gallwn graffu ar y ddeddfwriaeth hon yn briodol, dwyn y Llywodraeth i gyfrif, a diwygio deddfwriaeth er gwell, lle y bo angen. Mae angen inni ddangos mai ein dewisiadau deddfwriaethol yw’r rhai cywir a fydd yn trawsnewid y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi, ac yn gyrru canlyniadau gwell ar gyfer ein dinasyddion—awydd sydd gennym ni i gyd.

The First Minister and his Government have made it clear that those Bills that are outlined before us in this statement are the legislation that they believe will transform our society and make Wales a better place in which to live. Whether those are the right choices, and whether they will succeed, we will see in the years to come. However, I welcome the fact that the Government has now set out its stall, and I welcome the commitment from the First Minister, in response to a question from Ieuan Wyn Jones, that he intends to be flexible in his legislative programme. We cannot predict what events will happen in the next five years, and so it is wise to ensure that the Government can remain fleet of foot and bring forward legislation in response to events. I also welcome the mixture of approaches, with the Government sometimes intending to simply bring forward the legislation, and, in others, to bring forward White Papers so that there can be pre-legislative scrutiny. I think that that will make all the difference in getting the legislation right first time.

Mae’r Prif Weinidog a’i Lywodraeth wedi ei gwneud yn glir mai’r Biliau hynny a amlinellir ger ein bron yn y datganiad hwn yw’r ddeddfwriaeth y credant y bydd yn trawsnewid ein cymdeithas a gwneud Cymru yn le gwell i fyw. P’un ai’r rheiny yw’r dewisiadau cywir a ph’un a fyddant yn llwyddo, fe welwn yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, rwyf yn croesawu’r ffaith bod y Llywodraeth yn awr wedi nodi ei hamcanion, ac yr wyf yn croesawu ymrwymiad y Prif Weinidog, wrth ymateb i gwestiwn Ieuan Wyn Jones, ei fod yn bwriadu bod yn hyblyg yn ei raglen ddeddfwriaethol. Ni allwn ragweld pa ddigwyddiadau fydd yn y pum mlynedd nesaf, ac felly mae’n synhwyrol i sicrhau y gall y Llywodraeth barhau yn chwim a chyflwyno deddfwriaeth mewn ymateb i ddigwyddiadau. Rwyf hefyd yn croesawu’r cymysgedd o ddulliau, gyda’r Llywodraeth weithiau yn bwriadu cyflwyno’r ddeddfwriaeth yn unig, ac, mewn achosion eraill, cyflwyno Papurau Gwyn fel y gellir craffu cyn y broses ddeddfu. Rwy’n credu y

bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth sylfaenol o ran cael y ddeddfwriaeth yn iawn y tro cyntaf.

There is a strong emphasis in the statement on placing duties on bodies to make a difference. I do not know that there is a huge amount of evidence to show that simply placing a duty on someone to do something is a catalyst for a huge amount of change. It certainly focuses attention, but with an ever growing list of duties placed upon organisations, one wonders whether we are in danger of diluting that focus. After all, if you have too many priorities, you have none at all. However, at this stage I do not rule out the possibility that this mechanism will effect change; it is just that I would like to see the evidence, as these pieces of legislation progress, that that is what is required to make the difference.

Ceir pwyslais cryf yn y datganiad ar osod dyletswyddau ar gyrff i wneud gwahaniaeth. Ni wn a oes llawer o dystiolaeth i ddangos bod rhoi dyletswydd ar rywun i wneud rhywbeth yn gatalydd ar gyfer newid anferthol. Yn sicr, mae'n canolbwyntio sylw, ond gyda rhestr gynyddol o ddyletswyddau a osodir ar sefydliadau, tybed a ydym mewn perygl o wanhau'r ffocws. Wedi'r cwbl, os oes gennych ormod o flaenoriaethau, nid oes gennych rai o gwbl. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid wyf yn diystyru'r posibilrwydd y bydd y mecanwaith hwn yn peri newid, ond hoffwn weld y dystiolaeth, wrth i'r darnau hyn o ddeddfwriaeth fynd yn eu blaen, mai dyna sydd ei angen i wneud y gwahaniaeth.

I will go through each section quickly, Presiding Officer, and ask some questions. On the face of it, I have no objection to the sustainable development Bill. Goodness knows there needs to be a body that keeps an eye on the Government in this regard. The evidence given to the Sustainability Committee in the third Assembly suggested that Ministers who understood their responsibilities in this area were few and far between. In fact, with the exception of the then Minister for Health and Social Services, there seemed to be a lack of understanding and acceptance across the Cabinet of their responsibilities in this area. If this body is to keep the Government to its word, then I welcome this Bill.

Af drwy bob adran yn gyflym, Lywydd, a gofyn rhai cwestiynau. Ar yr wyneb, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r Bil datblygu cynaliadwy. Duw a ŵyr fod angen corff sy'n cadw llygad ar y Llywodraeth yn hyn o beth. Awgrymodd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn y trydydd Cynulliad bod Gweinidogion sy'n deall eu cyfrifoldebau yn y maes hwn yn brin. Mewn gwirionedd, ac eithrio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ymddengys fod diffyg dealltwriaeth a derbyniad ar draws y Cabinet o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Os yw'r corff hwn i gadw'r Llywodraeth at ei gair, yna croesawaf y Bil hwn.

On highways and transport, I do not want to denigrate cycling, but I hope that we can persuade the Government to look at the re-regulation of bus services. If we are to make a dent in the issue of the availability and attractiveness of public transport, re-regulating the buses would bring more benefits than simply creating more cycle routes. One wonders whether simply placing a duty on councils to do that will really make a difference, given the budgetary constraints upon them.

O ran priffyrdd a thrafnidiaeth, nid wyf am ddifrïo seiclo, ond rwy'n gobeithio y gallwn berswadio'r Llywodraeth i edrych ar ail-reoleiddio gwasanaethau bws. Os ydym i wneud tolc yn y mater o argaeledd a gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol, byddai ail-reoleiddio'r bysiau yn dod â mwy o fanteision na fyddai creu mwy o lwybrau seiclo. Tybed a fyddai rhoi dyletswydd ar gynghorau i wneud hynny yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol arnynt.

As for the heritage Bill, in principle I think that it is right to look at legislation in this

O ran y Bil treftadaeth, mewn egwyddor credaf ei fod yn iawn i edrych ar

area. Members will be aware of the issues around the Vulcan pub in Cardiff, and the fact that there are too many limitations on what can be listed and what is seen as of value within our communities. If this Bill goes some way towards addressing that, then I welcome it, but I would like to see further details.

ddeddfwriaeth yn y maes hwn. Bydd Aelodau yn ymwybodol o'r materion ynghylch tafarn y Vulcan yng Nghaerdydd, a'r ffaith bod gormod o gyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei restru a'r hyn a welir o werth o fewn ein cymunedau. Os yw'r Bil hwn yn mynd beth o'r ffordd tuag at ymdrin â hynny, yna rwyf yn ei groesawu, ond hoffwn weld rhagor o fanylion.

The environment Bill is a curious one. When we were taking evidence as a Sustainability Committee in the third Assembly on why Wales had missed its biodiversity targets so badly, not one person said that we needed a new law to address the situation. What they said was that we need concerted action to make the bodies that are already out there, supposedly doing this job, do the job. I wonder whether legislation in this area will make a difference, unless it will do something about the structures of the Environment Agency, the Countryside Council for Wales and the Forestry Commission, but that has not been laid out in the statement this afternoon.

Mae'r Bil amgylchedd yn un rhyfedd. Pan oeddem yn cymryd tystiolaeth fel Pwyllgor Cynaliadwyedd yn y trydydd Cynulliad ar pam y methodd Gymru ei thargedau bioamrywiaeth mor ddifrifol, ni ddywedodd yr un person fod arnom angen deddf newydd i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Yr hyn a ddywedasant oedd bod angen inni weithredu ar y cyd i wneud y cyrff sydd eisoes wedi bodoli ac y tybir eu bod yn gwneud y gwaith hwn, i wneud y gwaith. Tybiaf a fydd deddfwriaeth yn y maes hwn yn gwneud gwahaniaeth, oni bai iddo wneud rhywbeth ynghylch strwythurau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ond nid yw hynny wedi'i osod yn y datganiad y prynhawn yma.

As I said in response to the previous statement by the First Minister on legislation, I hope that the planning Bill will not be a consolidation exercise; what we need is a transformation in our planning laws.

Fel y dywedais mewn ymateb i'r datganiad blaenorol gan y Prif Weinidog ar ddeddfwriaeth, rwyf yn gobeithio na fydd y Bil cynllunio yn ymarferiad o gydgrynhoi; mae arnom angen gweddnewidiad yn ein deddfau cynllunio.

On education, I believe, on the face of it, that it is right to look to legislate in the area of school standards, as well as of structures and governance. While it is impossible, given the lack of detail before us today, to know whether we will want to support the legislation, we certainly think that the Government is right to look to legislate in this area. I look forward to seeing the detail, because it will be crucial.

Ar addysg, credaf, ar yr wyneb, ei bod yn iawn i edrych i ddeddfu yn y maes safonau ysgolion, yn ogystal â strwythurau a llywodraethu. Er ei bod yn amhosibl, o ystyried y diffyg manylion ger ein bron heddiw, i wybod p'un a fyddem eisiau cefnogi'r ddeddfwriaeth, yn sicr, credwn fod y Llywodraeth yn iawn i edrych i ddeddfu yn y maes hwn. Edrychaf ymlaen at weld y manylion, oherwydd y bydd yn hanfodol.

On the prevention of youth offending Bill, could the First Minister give more detail in relation to what he said about wanting the Welsh Government to take more of a role in this area and tell us whether that Bill will look to address issues around restorative justice? Again, we have very little detail on the children and young persons (Wales) Bill.

O ran y Bil atal troseddau ieuenctid, a all y Prif Weinidog roi mwy o fanylion mewn perthynas â'r hyn a ddywedodd am awydd Llywodraeth Cymru i gymryd mwy o rôl yn y maes hwn a dweud wrthym a fydd y Bil yn edrych i fynd i'r afael â materion o amgylch cyfiawnder adferol? Unwaith eto, ychydig iawn o fanylion sydd gennym ar y Bil plant a

phobl ifanc (Cymru).

On the social service (Wales) Bill, I think that the Government is right to look to consult significantly on this before bringing forward the legislation, because it will be a massive piece of legislation that will have consequences for huge sections of our society, and it will have to tackle big issues.

Ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol (Cymru), credaf fod y Llywodraeth yn iawn i edrych i ymgynghori'n sylweddol ar hyn cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, oherwydd bydd yn ddarn anferth o ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar rannau enfawr o'n cymdeithas, a bydd yn rhaid iddo fynd i'r afael â materion mawr.

On the housing Bill, I am disappointed that there is no specific mention of the need to address those who live in park homes, and perhaps the First Minister could comment on that. The Minister for Housing, Regeneration and Heritage gave a large hint during his last question time that he would seek to legislate in this area, something that I have long campaigned for, and something that I know that the Minister himself feels strongly about. Therefore, I would welcome some clarification on that.

Ar y Bil tai, rwy'n siomedig nad oes unrhyw sôn penodol am yr angen i fynd i'r afael â'r rhai sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau, ac efallai y gall y Prif Weinidog wneud sylw ar hynny. Rhoddodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth gliw mawr yn ystod ei sesiwn gwestiynau diwethaf y bydd yn ceisio deddfu yn y maes hwn, rhywbeth yr wyf wedi ymgyrchu'n hir amdano, a rhywbeth y gwn fod y Gweinidog ei hun yn teimlo'n gryf amdano. Felly, byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad ar hynny.

We look forward to seeing the details of the domestic abuse Bill, which I think that we would look to support, as we would the food hygiene rating scheme Bill. The current system is clearly inadequate. Consumers should have access to that information, and so I welcome that. It is impossible to say whether we will be able to support the public health Bill until we see the details of it. However, the focus on public health is welcome, as is the focus on the statutory third sector.

Edrychwn ymlaen at weld manylion y Bil cam-drin domestig, y credaf y byddem yn edrych i'w gefnogi, yn ogystal â'r Bil sgorio hylendid bwyd. Mae'r system bresennol yn amlwg yn annigonol. Dylai fod gan ddefnyddwyr fynediad at y wybodaeth honno, ac felly croesawaf hynny. Mae'n amhosibl dweud a fyddwn yn gallu cefnogi Bil iechyd y cyhoedd hyd nes y gwelwn fanylion. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar iechyd y cyhoedd i'w groesawu, fel y mae'r ffocws ar y trydydd sector statudol.

I am in danger of sounding far too positive about this legislative statement, therefore I will finish with the legislation that gives me the most cause for concern, which is the local government (collaborative measures) (Wales) Bill, which I think should be renamed 'the reorganisation of local government by the back door Bill'. It will be the third piece of primary legislation on local government that we have had since 2009. If the Minister for Local Government and Communities is convinced that the current local government structure in Wales is not fit for purpose, then he should do the right thing and publish a White Paper and consult upon it, rather than bringing forward pieces of legislation such as this that state, 'Do as I say or I will force you'. That is not the kind of relationship that

Rwyf mewn perygl o swnio'n llawer yn rhy gadarnhaol ynglŷn â'r datganiad deddfwriaethol hwn, felly byddaf yn gorffen gyda'r ddeddfwriaeth sy'n peri'r pryder mwyaf imi, sef y Bil llywodraeth leol (mesurau cydlafurio) (Cymru), a ddylai ei ailenwi'n Fil 'ad-drefnu llywodraeth leol drwy'r drws cefn'. Hwn fydd y trydydd darn o ddeddfwriaeth sylfaenol ar lywodraeth leol a gawsom ers 2009. Os yw'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn argyhoeddedig nad yw'r strwythur llywodraeth leol presennol yng Nghymru yn addas at y diben, yna fe ddylai wneud y peth iawn a chyhoeddi Papur Gwyn ac ymgynghori arno, yn hytrach na chyflwyno darnau o ddeddfwriaeth fel hyn sy'n dweud, 'Gwnewch fel y dywedaf neu fe wnaf eich

we need between this National Assembly and the Welsh Government and local government. The Minister should be upfront about what he truly wants, which is a reorganisation, and publish a White Paper and consult on it properly, rather than bringing forward pieces of legislation such as this.

gorfodi chi'. Nid dyna'r math o berthynas y mae ei angen rhwng y Cynulliad Cenedlaethol hwn, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Dylai'r Gweinidog fod yn agored am yr hyn y mae gwirioneddol ei eisiau, sef ad-drefnu, a chyhoeddi Papur Gwyn ac ymgynghori arno'n briodol, yn hytrach na chyflwyno darnau o ddeddfwriaeth fel hyn.

**The First Minister:** I thank the leader of the Liberal Democrats, in the main, for her comments. [*Laughter.*] On occasions such as this, it is impossible to have published full draft Bills in every area. Therefore, there will be some areas where Members may think that the devil is in the detail, which is inevitable. Those Bills will be published in due course.

**Y Prif Weinidog:** Diolchaf i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, ar y cyfan, am ei sylwadau. [*Chwerthin.*] Ar achlysuron fel hyn, mae'n amhosibl cyhoeddi Biliau drafft llawn ym mhob maes. Felly, fe fydd rhai meysydd lle gall Aelodau gredu mai yn y manylion y mae'r maglau, sy'n anochel. Caiff y Biliau hynny eu cyhoeddi maes o law.

5.30 p.m.

I was accused of not being detailed enough in June, but now I am being accused of being too detailed about the Government's programme. Several issues were raised by the leader of the Liberal Democrats. They are all issues that are perhaps best dealt with as the Bills go through the Assembly, but I can talk about one or two of the issues. On the issue of cycling, in this country, cycling is not seen as a form of transport in the way that it is in other countries in Europe. It is important that we have in place a system of transport that enables people to get to work, so that they are not dependent on cars.

Fe'm cyhuddwyd o ddiffyg manylder ym mis Mehefin, ond bellach, rwy'n cael fy nghyhuddo o fod yn rhy fanwl am raglen y Llywodraeth. Codwyd nifer o faterion gan arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Maent oll yn faterion sydd efallai yn well ymdrin â hwy wrth i'r Biliau fynd drwy'r Cynulliad, ond gallaf sôn am un neu ddau o'r materion. Ar y mater o seiclo, yn y wlad hon, ni ystyrir seiclo fel math o drafnidiaeth yn y ffordd y'i hystyrir yng ngwledydd eraill yn Ewrop. Mae'n bwysig bod gennym system drafnidiaeth sy'n galluogi pobl i gyrraedd eu gwaith, fel nad ydynt yn dibynnu ar geir.

On the heritage Bill, we know of situations where historic buildings are not being kept in a good state of repair, and the present legislation makes it difficult to enforce the fact that the owners should be keeping those buildings in a good state of repair. There have also been issues regarding some buildings not having listed status, whereas other structures are listed in a way that is often difficult to see. Therefore, we want to see legislation passed that simplifies the system.

Ar y Bil treftadaeth, gwyddom am sefyllfaoedd lle nad yw adeiladau hanesyddol yn cael eu cadw mewn cyflwr da, ac mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn anodd i orfodi'r ffaith y dylai'r perchnogion gadw'r adeiladau mewn cyflwr da. Hefyd cafwyd materion sy'n ymwneud â rhai adeiladau sydd heb gael statws rhestredig, tra rhestrir strwythurau eraill mewn ffordd sy'n aml yn anodd i'w gweld. Felly, mae arnom eisiau gweld deddfwriaeth yn cael ei phasio sydd yn symleiddio'r system.

With regard to planning, you are right to say that it is not simply a consolidation Bill; we want to put in place a planning system that is appropriate for the needs of Wales.

O ran cynllunio, rydych yn iawn i ddweud nad Bil cydgrynhoi'n unig ydyw; rydym am sefydlu system gynllunio sy'n briodol ar gyfer anghenion Cymru.

With regard to the prevention of youth

O ran y Bil atal troseddau ieuenctid, sail y

offending Bill, the basis of the legislation is to secure equality of provision for those who are vulnerable and not in the criminal justice system and those who are made vulnerable because of their offending. That is where the legislation is coming from: it aims to strengthen the entitlements of children and young people who are made vulnerable through offending, thus reducing the number of children presenting with complex needs that are associated with involvement with the criminal justice system.

ddeddfwriaeth yw sicrhau cydraddoldeb y ddarpariaeth sydd ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed a ddim yn y system cyfiawnder troseddol a'r rhai sy'n agored i niwed oherwydd eu troseddu. Dyna o ble mae'r ddeddfwriaeth yn dod: ei nod yw cryfhau hawliau plant a phobl ifanc sy'n cael eu gwneud yn agored i niwed drwy droseddu, gan leihau nifer y plant sydd ag anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol.

With regard to the point on park homes, again, that issue can be considered as part of the housing Bill, and we will see what can be done to accommodate that.

O ran y pwynt ar gartrefi mewn parciau, unwaith eto, gellir ystyried y mater hwnnw fel rhan o'r Bil tai, ac fe welwn beth y gellir ei wneud i gymhwyso hynny.

There are a number of issues in relation to local government reorganisation, but a major issue is the cost. There is a significant cost associated with it; some estimates place it at around £490 million. The Government must be mindful of the cost of wholesale reorganisation. However, it is our strong view that local authorities in Wales are simply not able to provide every service themselves, and therefore there is a need to collaborate with other local authorities. While there has been much discussion on collaboration, the evidence of actual collaboration has been disappointing. That is why there is a need to introduce a Bill, to ensure that collaboration happens. It is worth saying that, if collaboration does not happen, there will be little choice but to reorganise, even though significant costs are associated with reorganisation. Duties will be imposed on bodies as a result of the Bills—that is what law is; it imposes duties on organisations or people, and, as a result, behaviour changes. Bear in mind that, where a statutory duty is imposed on a body, that duty is then potentially enforceable in law in a way that is not possible in the case of more informal obligations that are placed on public bodies.

Mae nifer o faterion ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol, ond mae'r gost yn fater o bwys. Mae cost sylweddol yn gysylltiedig â'r mater hwn; mae rhai amcangyfrifon yn ei osod oddeutu £490 miliwn. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth fod yn ystyriol o'r gost gyfanwerthol o ad-drefnu. Fodd bynnag, ein barn gref yw nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu darparu pob gwasanaeth eu hunain, ac felly mae angen cydweithio ag awdurdodau lleol eraill. Er y bu llawer o drafodaeth ar gydweithredu, mae'r dystiolaeth o gydweithredu gwirioneddol wedi bod yn siomedig. Dyna pam y mae angen cyflwyno Bil, i sicrhau bod cydweithredu'n digwydd. Mae'n werth dweud, os nad yw cydweithio yn digwydd, na fydd llawer o ddewis ond i ad-drefnu, er bod costau sylweddol yn gysylltiedig ag ad-drefnu. Gosodir dyletswyddau ar gyrff o ganlyniad i'r Biliau—dyna beth yw cyfraith; mae'n gosod dyletswyddau ar sefydliadau neu bobl, ac, o ganlyniad, mae ymddygiad yn newid. Mae'n rhaid cadw mewn cof, pan osodir dyletswydd statudol ar gorff, bod y ddyletswydd honno wedyn, o bosibl, yn orfodadwy yn ôl y gyfraith mewn ffordd nad yw'n bosibl o ran rhwymedigaethau mwy anffurfiol sy'n cael eu gosod ar gyrff cyhoeddus.

**Christine Chapman:** First Minister, I thank you for your statement on the legislative programme. It is based on Labour's ambitious and comprehensive manifesto, which was backed by the people of Wales in May. As other Members have said, this is a

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, diolch am eich datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol. Mae'n seiliedig ar faniffesto cynhwysfawr ac uchelgeisiol y Blaid Lafur, a gefnogwyd gan bobl Cymru ym mis Mai. Fel y dywedwyd gan Aelodau

truly historic occasion.

eraill, mae hwn yn achlysur gwirioneddol hanesyddol.

I want to ask a question on the heritage Bill. I am aware that the Government is committed to delivery and that more information will be provided on the delivery unit. Could you comment on how the heritage Bill can assist in town and village regeneration? A well-loved historical landmark can help to encourage residents to enjoy public space and enhance tourism. Will there be scope in the heritage Bill in that respect?

Yr wyf am ofyn cwestiwn ar y Bil treftadaeth. Yr wyf yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflawni ac y darperir mwy o wybodaeth ar yr uned gyflawni. A allech chi roi sylwadau ar sut y gall y Bil treftadaeth helpu i adfywio trefi a phentrefi? Gall tirnod hanesyddol poblogaidd helpu i annog trigolion i fwynhau mannau cyhoeddus a gwella twristiaeth. A fydd sgôp yn y Bil treftadaeth yn hynny o beth?

As Chair of the Children and Young People Committee, I am sure that I speak for other Members in saying that we are looking forward to scrutinising aspects of the legislative programme over the next few years.

Fel cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, rwyf yn siŵr fy mod yn siarad ar gyfer Aelodau eraill pan ddywedaf ein bod yn edrych ymlaen at graffu ar agweddau’r rhaglen ddeddfwriaethol dros y blynyddoedd nesaf.

I have a few questions on the two education Bills. You will be aware of the Estyn report published earlier today that sets out some of the challenges facing schools and learners with regard to underachievement. At the heart of the Bills is the need to support all of our young people to reach their potential. Clear indicators are vital in allowing us to monitor the achievement of our objectives. Again, it comes down to delivery. We need to realise when we have achieved this, because there could be a lot of young people slipping through the net if we do not. Can you give any more information on how we can assess performance in meeting these priorities? Of course, these are long-term aims.

Mae gennyf rai cwestiynau ar y ddau Fil addysg. Byddwch yn ymwybodol o adroddiad Estyn a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw, sy’n nodi rhai o’r heriau sy’n wynebu ysgolion a dysgwyr o ran tangyflawni. Mae’r angen i gefnogi pob un o’n pobl ifanc i gyrraedd eu potensial wrth wraidd y Biliau hyn. Mae dangosyddion clir yn hanfodol i’n galluogi i fonitro cyrhaeddiad ein hamcanion. Unwaith eto, mater o gyflawni ydyw. Mae angen inni sylweddoli pryd y byddwn wedi cyflawni hyn, oherwydd gallai fod llawer o bobl ifanc sy’n llithro drwy’r rhwyd os na wnawn hynny. A allwch chi roi rhagor o wybodaeth am sut y gallwn asesu perfformiad o ran bodloni’r blaenoriaethau hyn? Wrth gwrs, amcanion hirdymor yw’r rhain.

I would just say something about teachers, as they were mentioned. We must recognise the pivotal role that teachers play. We know that a good teacher can give his or her pupils a lifelong enthusiasm for learning and really make a difference to a young person’s life chances. We know that Wales has some excellent teachers, but we want them all to reach the standards of the best. What more, First Minister, can be done within this legislative programme to ensure that we attract the very best to a profession that is regarded as a good career choice?

Fe ddywedaf rywbeth ynglŷn ag athrawon yn glou, gan y cawsant eu crybwyll. Mae’n rhaid inni gydnabod y rôl ganolog y mae athrawon yn ei chwarae. Gwyddom y gall athro da roi i’w disgyblion brwdfrydedd gydol oes ar gyfer dysgu a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd person ifanc. Rydym yn gwybod bod gan Gymru rai athrawon rhagorol, ond rydym am iddynt i gyd gyrraedd y safonau gorau. Beth yn fwy, Brif Weinidog, y gellir ei wneud o fewn y rhaglen ddeddfwriaethol hon i sicrhau ein bod yn denu’r gorau i broffesiwn a ystyrir yn ddewis gyrfa da?

As was mentioned last week, we need to have the highest ambitions for our children to stop the cycle of underachievement. In particular, there is the known danger of teenage boys in particular losing interest in school and succumbing to peer pressure and ideas that education is not cool. Could you give a response on this? What plans do you have to tackle underachievement, particularly among teenage boys?

Fel y soniwyd yr wythnos diwethaf, mae'n rhaid inni gael yr uchelgeisiau uchaf ar gyfer ein plant i atal y cylch o dangyflawni. Yn benodol, mae'r perygl hysbys o fechgyn yn eu harddegau yn colli diddordeb mewn ysgol ac yn ildio i bwysau gan gyfoedion a syniadau nad yw addysg yn cŵl. A allech roi ymateb i hyn? Pa gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â thangyflawni, yn enwedig ymhlith bechgyn yn eu harddegau?

**The First Minister:** With regard to the heritage Bill, the intention is to ensure that communities do not lose much-loved buildings. They may not be of particular architectural merit on occasion, but they may nevertheless be much loved within their communities. It is right to say that, in the 1960s, Carmarthenshire lost a large number of manor houses—*plastai* in Welsh—which, in this day and age, probably would have been saved, despite the money needed to preserve them. In the 1960s, a large number of our town and village centres were effectively destroyed by a form of architecture that has since been discredited. We know that anything that won a design award in the 1960s has probably fallen down by now. However, a number of buildings were lost at that time, and we do not want to see that situation continue.

**Y Prif Weinidog:** O ran y Bil treftadaeth, y bwriad yw sicrhau nad yw cymunedau'n colli adeiladau a werthfawrogir yn fawr. Efallai na fyddant o deilyngdod pensaernïol arbennig ar brydiau, serch hynny gallant fod yn hoff iawn ohonynt o fewn eu cymunedau. Mae'n iawn i ddweud bod sir Gaerfyrddin, yn y 1960au, wedi colli nifer fawr o dai manor—'plastai' yn Gymraeg—a fyddai, mwy na thebyg yn y dyddiau hyn, wedi'u hachub, er gwaethaf yr arian angenrheidiol i'w cadw. Yn y 1960au, cafodd nifer fawr o'n canolfannau tref a phentref eu dinistrio drwy ffurf ar bensaernïaeth a ddifrïwyd bellach. Rydym yn gwybod bod unrhyw beth a enillodd wobr dylunio yn y 1960au fwy na thebyg wedi cwympo i lawr erbyn hyn. Fodd bynnag, collwyd nifer o adeiladau ar yr adeg honno, ac ni hoffwn weld y sefyllfa honno yn parhau.

With regard to education and teaching, the structures, governance and SEN Bill will provide the power to determine the future of the General Teaching Council for Wales. A number of options will be put forward with regard to how that should be dealt with in the future, and there will be consultation on what the future of the body should be. Several options are being considered, from abolition to strengthening, and whether a different body should be put in its place.

O ran addysg ac addysgu, bydd y strwythurau, y llywodraethu a'r Bil AAA yn darparu'r pŵer i benderfynu ar ddyfodol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Caiff sawl opsiwn eu cyflwyno o ran sut y dylid ymdrin â hynny yn y dyfodol, a bydd ymgynghori ynghylch dyfodol y corff. Mae sawl opsiwn yn cael eu hystyried, o'i ddiddymu i'w gryfhau, ac a ddylid sefydlu corff gwahanol yn ei le.

Many of the issues of standards revolve around school reorganisation. At the moment, more than half of the school reorganisation proposals put forward by local authorities end up on the desk of the Minister to be decided. That cannot be right. There will be some occasions when the Minister needs to take a decision, such as on some major school reorganisations, but it cannot be right that one objection can lead to a decision on school reorganisation being taken, not by the local

Mae llawer o'r materion safonau ynghylch ad-drefnu ysgolion. Ar hyn o bryd, mae mwy na hanner o'r cynigion ad-drefnu ysgolion a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn cyrraedd desg y Gweinidog i'w penderfynu. Ni all hynny fod yn iawn. Bydd rhai adegau pan fydd angen i'r Gweinidog wneud penderfyniad, megis ar ryw fater o bwys o ad-drefnu ysgolion, ond ni all fod yn iawn y gall un gwrthwynebiad arwain at benderfyniad yn cael ei gymryd ar ad-drefnu

authority proposing the reorganisation, but ultimately by a Minister.

ysgolion, nid gan yr awdurdod lleol sy'n cynnig yr ad-drefnu, ond yn y pen draw gan Weinidog.

With regard to failing schools, we are looking to ensure that we strengthen the provision for dealing with them. We know that many young people do not get the education they should because of a particular problem in some schools in Wales. We want to ensure that the role of Ministers is strengthened in early intervention in failing schools and that Ministers have a full range of powers to ensure that schools are turned around as quickly as possible.

O ran ysgolion sy'n methu, rydym yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer ymdrin â hwy. Gwyddom nad yw llawer o bobl ifanc yn cael yr addysg y dylent oherwydd problem benodol mewn rhai ysgolion yng Nghymru. Rydym am sicrhau bod rôl Gweinidogion yn cael ei chryfhau yn yr ymyrraeth gynnar mewn ysgolion sy'n methu a bod gan Weinidogion amrywiaeth llawn o bwerau i sicrhau bod ysgolion yn gwella mor gyflym â phosibl.

I think that I dealt with some of the other issues that you raised in my opening statement. Of course, we are in the exciting position now of being able to produce, for the Assembly's consideration in due course, two education Bills for the first time.

Credaf imi ymdrin â rhai o'r materion eraill a godwyd gennych yn fy natganiad agoriadol. Wrth gwrs, rydym bellach yn y sefyllfa gyffrous o allu cynhyrchu, ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad maes o law, dau Fil addysg am y tro cyntaf.

**The Presiding Officer:** Well, this is obviously a historic day, and there is a huge amount of interest, with people wishing to speak on this statement. We have already had a speaker from each party and a lot of this area has been covered, so I ask the next speakers to be as concise as they can so that I can try to fit everyone in who wishes to speak.

**Y Llywydd:** Wel, mae'n amlwg bod hwn yn ddiwrnod hanesyddol, ac y mae llawer o ddiddordeb, gyda phobl yn dymuno siarad ar y datganiad hwn. Rydym eisoes wedi cael siaradwr o bob plaid, ac fe ddeliwyd â llawer o'r maes hwn, felly gofynnaf i'r siaradwyr nesaf fod mor gryno ag y gallant fel y gallaf geisio boddhau pawb sy'n dymuno siarad.

**Nick Ramsay:** I look forward to seeing the detail of all of the Bills that have been mentioned by the First Minister. Until we get that, I wish to ask him some specific questions. First, on the planning Bill that he referred to in his statement, I am all for making planning more transparent and accessible, which seems to be the motive behind the Bill. This is clearly the holy grail in terms of developing planning policy. I wish you well in that endeavour. Will you undertake to engage fully with local authorities during that process to ensure that local authorities' opinions about the way that the planning process can be progressed are included? Will this also apply to the appeals process part of the planning process? We have had freedom of information requests from this side of the Chamber in the past that have shown that a very large number—the percentage escapes me, but I think that it

**Nick Ramsay:** Edrychaf ymlaen at weld manylion pob un o'r Biliau a grybwyllwyd gan y Prif Weinidog. Hyd nes y cawn hynny, hoffwn ofyn rhai cwestiynau penodol iddo. Yn gyntaf, ar y Bil cynllunio y cyfeiriodd ato yn ei ddatganiad, yr wyf yn llwyr gefnogi gwneud cynllunio'n fwy tryloyw a hygyrch, sef y cymhelliad y tu ôl i'r Bil, mae'n ymddangos. Dyma'r greal sanctaidd o ran datblygu polisi cynllunio, yn amlwg. Dymunaf yn dda ichi yn yr ymdrech honno. A fyddech yn ymdrechu i ymgysylltu'n llawn ag awdurdodau lleol yn ystod y broses honno i sicrhau y caiff barn awdurdodau lleol am y ffordd y gellir datblygu'r broses gynllunio ei gynnwys? A fyddai hyn hefyd yn berthnasol i ran y broses apeliadau o'r broses gynllunio? Yr ydym wedi cael ceisiadau rhyddid gwybodaeth gan ochr hon y Siambr yn y gorffennol sydd wedi dangos bod nifer fawr iawn—ni chofiaf y ganran, ond credaf y

might be a third—of planning refusals are overturned on appeal. In many cases, this leads to a large degree of disillusionment locally with the planning process. Therefore, I would be grateful if you could comment on that.

gallai fod yn un rhan o dair—o wrthodiadau cynllunio'n cael eu gwrthdroi ar apêl. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn arwain at raddau helaeth o ddadrithiad lleol gyda'r broses gynllunio. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud sylw ar hynny.

Following on from the debate earlier, with regard to the domestic abuse Bill, which would place a duty on relevant public sector bodies, following up Kirsty Williams's comments, can you guarantee that, following this first historic legislative statement, there will not be a range of areas placing undue requirements on local authorities at a time when funding is tight?

Yn dilyn y ddadl yn gynharach, o ran y Bil cam-drin domestig, a fydd yn gosod dyletswydd ar gyrff sector cyhoeddus perthnasol, yn dilyn sylwadau Kirsty Williams, a allwch chi warantu hynny, yn dilyn y datganiad deddfwriaethol hanesyddol cyntaf hwn, na fydd amrywiaeth o feysydd sy'n gosod gofynion gormodol ar awdurdodau lleol ar adeg pan fo arian yn dynn?

You mentioned the organ donation (Wales) Bill—and I understand fully the reasons for Wales being mentioned in the titles of the Bills—pushing for an opt-out system of organ donation. As we said previously when your Government was seeking a legislative competence Order on this system, we will have a free vote on this side of the Chamber when it comes to that. I have asked you previously about this, and I note that, today, you spoke about backing this process up with a comprehensive education programme as well as liaising fully with the public because, clearly, if we are to increase organ donation rates through this method, the public needs to be brought along with that because some people remain unconvinced.

Soniasoch am y Bil rhoi organau (Cymru)—a deallaf yn llawn y rhesymau dros Gymru yn cael ei grybwyll yn nheitlau'r Biliau—yn gwthio am system optio allan o roi organau. Fel y dywedasom yn flaenorol pan oedd eich Llywodraeth yn ceisio Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar y system hon, bydd gennym bleidlais rydd ar ochr hon y Siambr pan ddaw i hynny. Rwyf wedi gofyn ichi yn flaenorol ynglŷn â hyn, a heddiw, sylwaf ichi siarad am gefnogi'r broses hon gyda rhaglen addysg gynhwysfawr yn ogystal â chysylltu'n llawn â'r cyhoedd oherwydd, wrth gwrs, os ydym i gynyddu cyfraddau rhoi organau drwy'r dull hwn, mae angen darbwyllo'r cyhoedd o hyn oherwydd bod rhai pobl yn dal i fod heb eu hargyhoeddi.

Are you also planning on engaging fully with the UK Government, because concerns were previously expressed by the UK Government about whether this is actually within our competence? It may well be within our competence; I suspect that it probably is, but I would like to know from you that you are going to have discussions with the UK Government to ensure that it is. I grudgingly accept that an opt-out system of presumed consent is probably the best way at this juncture to increase organ donation rates, but I want to have confidence that you have liaised fully with the UK Government on what would be a very important piece of legislation and one that certainly requires the support of the public and Members in this Chamber.

A ydych chi hefyd yn bwriadu ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, oherwydd mynegwyd pryderon yn flaenorol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch a ydyw hyn o fewn ein cymhwysedd? Gallai fod o fewn ein cymhwysedd yn iawn; rwy'n amau ei fod, fwy na thebyg, ond hoffwn gael gwybod gennych chi eich bod yn mynd i gael trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau ei fod. Derbyniaf, o'm hanfodd, mai'r ffordd orau ar hyn o bryd i gynyddu cyfraddau rhoi organau yw system optio allan o ganiatâd tybiedig, ond rwyf am gael hyder eich bod wedi cysylltu'n llawn â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr hyn a fyddai'n ddarn pwysig iawn o ddeddfwriaeth ac un sy'n sicr yn mynnu cefnogaeth y cyhoedd ac Aelodau yn y Siambr hon.

On the cosmetic piercing age of consent (Wales) Bill that you mentioned, I am tempted to ask whether you have any piercings yourself, but I will refrain from that, First Minister, and indeed from asking whether you had consent from the Chief Whip for that. You mentioned the age of consent, but there is nothing in this that tells us what the age of consent would be. Clearly, we need to know what age is being talked about, because there will be issues with regard to relationships between young people and their parents in relation to that process. Although there are certainly very good reasons for telling people about the consequences of cosmetic piercings, again, we need to ensure that the public, including children, are taken along with that process and that we are not causing undue concern.

Ar y Bil oedran cydsynio am driniaeth tyllu gosmetig (Cymru) a grybwyllwyd gennych, caf fy nhemtio i ofyn a ydych chi wedi cael unrhyw driniaethau tyllu eich hun, ond ni wnaf hynny, Brif Weinidog, nac yn wir gofyn a gawsoch ganiatâd gan y Prif Chwip ar gyfer hynny. Soniasoch am yr oedran cydsynio, ond nid oes dim byd yn hyn sy'n dweud wrthym beth fyddai'r oedran cydsynio. Mae'n amlwg bod angen inni wybod pa oedran y soniwyd amdano, oherwydd bydd materion o ran cysylltiadau rhwng pobl ifanc a'u rhieni mewn perthynas â'r broses honno. Er bod rhesymau da iawn yn sicr am ddweud wrth bobl am ganlyniadau triniaethau tyllu cosmetig, unwaith eto, mae angen inni sicrhau y cymerir y cyhoedd, gan gynnwys plant, ynghyd â'r broses honno ac nad ydym yn peri pryder diangen.

Finally, I am all for us working together on this. It is a historic day, but there are many areas here that need to be clarified, and certainly with regard to the issue of placing extra duties on local authorities at this time.

Yn olaf, rwy'n llwyr gefnogi cydweithio ar hyn. Mae'n ddiwrnod hanesyddol, ond mae llawer o ardaloedd yma y mae angen eu hegluro, ac yn sicr o ran gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

**The First Minister:** A planning White Paper will be published towards the end of next year. The planning Bill is designed to look at all aspects of planning. We are not looking to impose new unfunded duties on local authorities. With regard to the organ donation Bill, it is a matter for the Assembly to pass the Bill, but we will of course consider any issues raised by the UK Government with regard to competence. However, we are confident that we have the competence to take this Bill through to become an Act. On cosmetic piercing, the proposal we will put forward is that the age of consent should be 16.

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddir Papur Gwyn ar gynllunio tuag at ddiwedd y flwyddyn nesaf. Nod y Bil cynllunio yw edrych ar bob agwedd ar gynllunio. Nid ydym yn edrych i osod dyletswyddau newydd sydd heb eu hariannu ar awdurdodau lleol. O ran y Bil rhoi organau, mater i'r Cynulliad yw pasio'r Bil, ond wrth gwrs byddwn yn ystyried unrhyw faterion a godir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o ran cymhwysedd. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod gennym y cymhwysedd i gymryd y Bil hwn drwodd i ddod yn Ddeddf. Ar dyllu cosmetig, y cynnig y byddwn yn ei gyflwyno yw y dylai'r oedran cydsynio fod yn 16.

5.45 p.m.

**Simon Thomas:** As a former earring-wearing, allotment-holding and cycling Member of the Assembly, I welcome this statement. However, turning to more specific matters in the statement, I draw the First Minister's attention to some of the legislative proposals for education. It is good to see that education has a central place in the statement. Indeed, it seems that the education proposals are a little more worked up than some of the

**Simon Thomas:** Fel Aelod o'r Cynulliad a oedd yn arfer gwisgo clustlws, cynnal rhandir a beicio, rwy'n croesawu'r datganiad hwn. Fodd bynnag, gan droi at faterion mwy penodol yn y datganiad, rwy'n tynnu sylw Prif Weinidog Cymru at rai o'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer addysg. Mae'n dda gweld bod addysg yn cael lle canolog yn y datganiad. Yn wir, mae'n ymddangos bod y cynigion addysg wedi eu paratoi ychydig yn

Government's other proposals. We will give our support to the proposals, but we will want to test the legislation on its ability to deliver outcomes and improvements in educational attainment; that is what we will be looking for. I reiterate what my leader said: that we will be happy to discuss with the Government how the education Bills can set out to achieve improvements in education in Wales. We particularly welcome the proposal to put the Welsh-in-education strategic plans on a statutory footing; that was foreseen by the previous Government and has now been taken forward by this one.

well na rhai o gynigion eraill y Llywodraeth. Byddwn yn rhoi ein cefnogaeth i'r cynigion, ond byddwn am brofi'r ddeddfwriaeth ar ei gallu i gyflawni canlyniadau a gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol; dyna beth y byddwn yn chwilio amdano. Ailadroddaf yr hyn a ddywedodd fy arweinydd: byddwn yn hapus i drafod gyda'r Llywodraeth sut y gall y Biliau addysg fynd ati i gyflawni gwelliannau mewn addysg yng Nghymru. Rydym yn croesawu'n arbennig y cynnig i roi'r cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ar sail statudol; rhagwelwyd hynny gan y Llywodraeth flaenorol ac y mae wedi cael ei symud ymlaen gan yr un hon.

The proposals for changes to higher education will need some care. There was mention in the statement only of regulatory changes in that area. We will need to look at that with care and see where we will need to take action to intervene and where collaboration between institutions will deliver for us.

Bydd angen rhywfaint o ofal ar y cynigion ar gyfer newidiadau i addysg uwch. Yr oedd sôn yn y datganiad am newidiadau rheoleiddio yn unig yn y maes hwnnw. Bydd angen i ni edrych ar hynny gyda gofal a gweld lle bydd angen i ni gymryd camau i ymyrryd a lle bydd cydweithio rhwng sefydliadau yn darparu ar ein cyfer ni.

I turn to two specific things that might need to be examined. First, the First Minister will know that a lot of what the Government is setting out to achieve in improving school standards depends on the regional agenda and on working along those lines. In this statement, he has proposed that this will be part of the structures, governance and special educational needs Bill. Will he say a little more about how he foresees this regional agenda working under the legislation? In the short term, is he proposing to force education authorities to collaborate? The second question is in relation to further education, which is a bit of a Cinderella in the education system in Wales at the moment, and perhaps it has not had the attention that it deserves. There is talk of introducing changes to the governance structures of further education in the Bill. Is it his Government's proposal to stop the incorporation of further education colleges and to seek a different way of working between FE and HE? What are the outcomes that he is seeking to achieve with this legislation?

Trof at ddau beth penodol a allai fod angen eu harchwilio. Yn gyntaf, bydd y Prif Weinidog yn gwybod bod llawer o'r hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gyflawni o ran gwella safonau ysgolion yn dibynnu ar yr agenda rhanbarthol ac ar weithio ar hyd y llinellau hynny. Yn y datganiad hwn, y mae wedi cynnig y bydd hyn yn rhan o'r Bil strwythurau, llywodraethu ac anghenion addysgol arbennig. A wnaiff ddweud ychydig mwy am sut y mae'n rhagweld yr agenda rhanbarthol hwn yn gweithio o dan y ddeddfwriaeth? Yn y tymor byr, a ydyw'n bwriadu gorfodi awdurdodau addysg i gydweithio? Mae'r ail gwestiwn mewn perthynas ag addysg bellach, sydd yn dipyn o Sinderela yn y system addysg yng Nghymru ar hyn o bryd, ac efallai nad yw wedi cael y sylw y mae'n ei haeddu. Mae sôn am gyflwyno newidiadau i'r strwythurau llywodraethu addysg bellach yn y Bil. Ai cynnig ei Lywodraeth yw rhoi'r gorau i ymgorffori colegau addysg bellach ac i chwilio am ffordd wahanol o weithio rhwng addysg bellach ac addysg uwch? Pa ganlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni gyda'r ddeddfwriaeth hon?

With those questions, and a promise to work with him as much as possible on this

Gyda'r cwestiynau hynny, ac addewid i weithio gydag ef gymaint â phosibl ar y

legislation, as well as being a critical friend in seeking to get the best possible legislation before the Assembly, I hope that he will take this opportunity to say a little more about the education proposals in the statement.

ddeddfwriaeth hon, yn ogystal â bod yn ffrind beirniadol wrth geisio cael y ddeddfwriaeth orau posibl gerbron y Cynulliad, yr wyf yn gobeithio y bydd yn cymryd y cyfle hwn i ddweud ychydig mwy am y cynigion ar addysg yn y datganiad.

**The First Minister:** On the regional approach to delivering education, Members will know that the Minister published a report in March of this year regarding the structure of education services in Wales. The report concluded that the development of regional consortia would be a positive way forward. As part of the structures, governance and special educational needs Bill, there will be provision for ensuring that those consortia are brought together.

**Y Prif Weinidog:** O ran y dull rhanbarthol o ddarparu addysg, bydd Aelodau'n gwybod bod y Gweinidog yn cyhoeddi adroddiad ym mis Mawrth eleni ynglŷn â strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad y byddai datblygu consortia rhanbarthol yn ffordd gadarnhaol ymlaen. Fel rhan o'r Bil strwythurau, llywodraethu ac anghenion addysgol arbennig, bydd darpariaeth ar gyfer sicrhau bod y consortia hynny'n cael eu dwyn ynghyd.

On FE, Members who were here previously will be aware that an FE governance review was commissioned. The consultation exercise ended on 27 June and was positively received by the sector and key stakeholders. On the basis of that review, we will then look to legislate with regard to ensuring that the level of scrutiny, challenge and accountability in the FE sector in Wales is right, that the voice of learners and employers in governance is enhanced and that there is increased responsiveness by further education institutions to learners, employers and communities. That means making the system of governance of FE more responsive to local communities, and the Bill will contain proposals as to how that will be done.

Ar addysg bellach, bydd yr Aelodau a oedd yma o'r blaen yn ymwybodol bod adolygiad llywodraethu addysg bellach wedi ei gomisiynu. Daeth yr ymarfer ymgynghori i ben ar 27 Mehefin a chafodd dderbyniad cadarnhaol gan y sector a rhanddeiliaid allweddol. Ar sail yr adolygiad hwnnw, byddwn wedyn yn edrych i ddeddfu o ran sicrhau bod lefel y craffu, herio ac atebolrwydd yn y sector addysg bellach yng Nghymru yn iawn, bod llais dysgwyr a chyflogwyr ym maes llywodraethu yn cael ei wella a bod ymatebolrwydd cynyddol gan sefydliadau addysg bellach i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau. Mae hynny'n golygu gwneud y system o lywodraethu addysg bellach yn fwy ymatebol i gymunedau lleol, ac y mae'r Bil yn cynnwys cynigion ynghylch sut y bydd hynny'n cael ei wneud.

**Vaughan Gething:** I too am particularly pleased and proud to be here for this historic statement, having campaigned in both devolution referenda and finally seeing a much more comprehensive result. I am not going to talk much about the overview and outline because you have heard an awful lot about that. However, one of the things that I was interested in was not just the cycling and walking Bill, but the proposals and points that were made by other speakers on that Bill. I am interested in whether cycling will be part of the transport plans that local authorities need to produce and whether they

**Vaughan Gething:** Rwyf innau hefyd yn arbennig o falch o fod yma ar gyfer y datganiad hanesyddol hwn, ar ôl ymgyrchu yn y ddau refferendwm datganoli ac o'r diwedd gweld canlyniad llawer mwy cynhwysfawr. Nid wyf yn bwriadu siarad llawer am y trosolwg ac amlinelliad am eich bod wedi clywed llawer iawn am hynny. Fodd bynnag, nid oedd gennyf ddiddordeb yn y Bil beicio a cherdded yn unig, ond yn y cynigion a'r pwyntiau a wnaed gan siaradwyr eraill ar y Bil hwnnw. Mae diddordeb gennyf wybod a fydd beicio yn rhan o'r cynlluniau trafnidiaeth y mae angen i awdurdodau lleol

are going to have a duty to consider cycling as part of making transport easier. The duty that you announced mentioned that they would need to think about it in key areas, but how comprehensive will that be in terms of the transport planning that local authorities need to undertake?

eu cynhyrchu ac a ydynt yn mynd i gael dyletswydd i ystyried beicio fel rhan o wneud cludiant yn haws. Roedd y ddyletswydd a gyhoeddwyd gennych yn crybwyll y byddai angen iddynt feddwl am y peth mewn meysydd allweddol, ond pa mor gynhwysfawr a fydd hynny o ran y cynllunio trafnidiaeth y mae angen i awdurdodau lleol ymgymryd ag ef?

In looking at the planning Bill, planning is hugely important not just to the economy, but to transport as well. In looking at your deadline, I am thinking about the local development plans that are currently being considered by local authorities. Sadly, Cardiff expects to have its local development plan in place in 2014, about 18 years after its last plan was put in place, so it is hugely late. Will the planning Bill look at the potential for a wider regional planning role to benefit the economy and transport as part of the plan, or are we still looking at having 22 local structures potentially in place?

Wrth edrych ar y Bil cynllunio, mae cynllunio yn hynod o bwysig, nid yn unig i'r economi, ond i drafnidiaeth hefyd. Wrth edrych ar eich dyddiad cau, yr wyf yn meddwl am y cynlluniau datblygu lleol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol. Yn anffodus, mae Caerdydd yn disgwyl cael ei chynllun datblygu lleol ar waith yn 2014, tua 18 mlynedd ar ôl i'w chynllun diwethaf gael ei rhoi ar waith, felly mae'n hynod o hwyr. Bydd y Bil cynllunio yn edrych ar y potensial ar gyfer rôl cynllunio rhanbarthol ehangach er budd yr economi a thrafnidiaeth fel rhan o'r cynllun, neu a ydym yn dal i edrych ar gael 22 o strwythurau lleol o bosibl yn eu lle?

I was particularly pleased, as were Christine Chapman and others, to hear about the focus on education in the announcement. We should never accept that a lesser level of achievement is expected or tolerated from different communities based on their socio-economic background. How will the consortia figure in the legislation? Will it be part of the primary legislation or the powers given to Ministers to look at what those consortia will be? I am concerned about the current proposals on the shape of the consortia, and whether there will be an opportunity to look again at what their final shape will be. I have no difficulty with looking at four consortia, for example, but will there be an opportunity to look again at whether the Cardiff and Gwent authorities, for example, are the right mix to have? I was particularly pleased to hear what you said about FE governance in answer to Simon Thomas, because I also want to see a greater role for learners, staff and wider members of the community in FE governance.

Yr oeddwn yn arbennig o falch, fel yr oedd Christine Chapman ac eraill, i glywed am y ffocws ar addysg yn y cyhoeddiad. Ni ddylid byth derbyn bod lefel is o gyrhaeddiad yn cael ei ddisgwyl na'i oddef gan gymunedau gwahanol yn seiliedig ar eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Sut y bydd y consortia yn ymddangos yn y ddeddfwriaeth? A fydd yn rhan o'r ddeddfwriaeth sylfaenol neu'r pwerau a roddir i Weinidogion i edrych ar natur y consortia hynny? Yr wyf yn pryderu am y cynigion presennol ar siâp y consortia, ac a fydd cyfle i edrych eto ar eu ffurf derfynol. Nid oes gennyf unrhyw anhawster gydag edrych ar bedwar consortiwm, er enghraifft, ond a fydd cyfle i ailedrych i weld a ydyw'r awdurdodau yng Nghaerdydd a Gwent, er enghraifft, y cymysgedd iawn i'w gael? Yr oeddwn yn arbennig o falch o glywed yr hyn a ddywedasoch am lywodraethu AB mewn ateb i Simon Thomas, oherwydd fy mod hefyd am weld mwy o rôl i ddysgwyr, staff ac aelodau ehangach o'r gymuned ym maes llywodraethu addysg bellach.

I agreed with most of what Kirsty Williams said, but I do not agree with her about local

Rwyf yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams, ond nid wyf yn

government. Now is the time for local authorities to take this seriously; perhaps it is because Carl Sargeant has been too soft and reticent about collaboration that they have not quite got the message. [*Laughter.*] I believe that it is right to legislate again in order to say clearly to local authorities that if they do not take the collaboration message seriously, the only alternative will be more comprehensive reorganisation. In terms of action, the way in which other services are organised means that we need to be careful not to allow local authorities to create a structure that makes it difficult to look at an alternative structure in the future.

cytuno â hi am lywodraeth leol. Nawr yw'r amser i awdurdodau lleol gymryd hyn o ddifrif; efallai bod hynny oherwydd bod Carl Sargeant wedi bod yn rhy feddal a thawedog ynghylch cydweithio fel nad ydynt wedi cael y neges. [*Chwerthin.*] Credaf ei bod yn iawn i ddeddfu eto er mwyn dweud yn glir wrth awdurdodau lleol, os nad ydynt yn cymryd y neges cydweithio o ddifrif, yr unig ddewis arall fydd ad-drefnu yn fwy cynhwysfawr. O ran gweithredu, mae'r modd y mae gwasanaethau eraill yn cael eu trefnu yn golygu bod angen i ni fod yn ofalus rhag caniatáu i awdurdodau lleol greu strwythur sy'n ei wneud yn anodd i edrych ar strwythur amgen yn y dyfodol.

I am especially proud to see a Labour Government putting its values into action in this legislative programme, and I look forward to working with other parties on delivering it during the next five years.

Rwy'n arbennig o falch o weld Llywodraeth Lafur yn rhoi ei gwerthoedd ar waith yn y rhaglen ddeddfwriaethol, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda phleidiau eraill ar gyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf.

**The First Minister:** I reprimand the Member for not taking part in the first referendum, although he may have only just been born in 1979. [*Laughter.*] I did not take part in it either. I was once criticised on the doorstep for not having voted in the first referendum, despite the fact that I was 12 at the time. There are some who remember the first referendum and it was part of the process that led us to where we are now.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n ceryddu'r Aelod am beidio â chymryd rhan yn y refferendwm cyntaf, er ei fod dim ond newydd gael ei eni ym 1979. [*Chwerthin.*] Nid oeddwn i wedi cymryd rhan ynddo ychwaith. Cefais fy meirniadu ar garreg y drws unwaith am beidio â phleidleisio yn y refferendwm cyntaf, er gwaethaf y ffaith fy mod yn 12 ar y pryd. Mae yna rai sy'n cofio'r refferendwm cyntaf ac roedd yn rhan o'r broses sy'n ein harwain at le'r ydym yn awr.

With regard to the highways and transport Bill, the intention is that it should be a fairly straightforward Bill dealing primarily with walking and cycling. However, issues have been raised by Members in this Chamber that deserve further consideration, possibly as part of that Bill or through another Bill.

O ran y Bil priffyrdd a thrafnidiaeth, y bwriad yw y dylai fod yn Bil gweddol syml sy'n ymdrin yn bennaf â cherdded a beicio. Fodd bynnag, mae materion wedi'u codi gan Aelodau yn y Siambr hon sy'n haeddu ystyriaeth bellach, o bosibl fel rhan o'r Bil hwnnw, neu drwy Fil arall.

With regard to planning, a number of planning issues need to be resolved. You raise an important issue in that local authorities are required to have a new development plan every 10 years, but there is no sanction if they do not put one in place. It is one of the oddities of the planning system that if there is no development plan, nothing else can be done. I know of one local authority in Wales that had no development plan for nearly 30 years. One of the issues that would need to be addressed in the

O ran cynllunio, mae angen datrys nifer o faterion cynllunio. Yr ydych yn codi mater pwysig o ran y ffaith bod rhaid i awdurdodau lleol gael cynllun datblygu newydd bob 10 mlynedd, ond nid oes unrhyw gosb os nad ydynt yn rhoi un ar waith. Mae'n un o nodweddion rhyfedd y system gynllunio y gellir gwneud dim byd arall os nad oes cynllun datblygu. Gwn am un awdurdod lleol yng Nghymru nad oedd ganddo unrhyw gynllun datblygu am bron i 30 mlynedd. Un o'r materion y byddai angen mynd i'r afael

planning Bill is the creation of a mechanism to ensure that development plans are delivered in good time.

ag ef yn y Bil cynllunio yw creu mecanwaith i sicrhau bod cynlluniau datblygu yn cael eu cyflwyno mewn da bryd.

On the consortia, the key is to ensure flexibility with regard to their structure. It seems to me that that would be best achieved through secondary legislation rather than primary legislation, because that would provide the flexibility needed for Ministers to be able to arrange the consortia in such a way that will deliver the best educational outcomes.

Ar y consortia, yr allwedd yw sicrhau hyblygrwydd o ran eu strwythur. Mae'n ymddangos i mi y byddai hynny'n cael ei gyflawni orau drwy is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol, oherwydd byddai hynny'n darparu'r hyblygrwydd y mae ei angen i Weinidogion allu trefnu'r consortia yn y fath fodd a fydd yn cyflawni'r canlyniadau addysgol gorau.

**Andrew R.T. Davies:** I thank the First Minister for his statement. Westminster Governments used to try to aim for Mondeo man, but after listening to Simon Thomas's remarks it seems as if the First Minister has got Cardi boy on side for his legislative process, which may be a sign of things to come in the medium to long term.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Yr oedd Llywodraethau San Steffan yn arfer anelu at y dyn Mondeo, ond ar ôl gwrando ar sylwadau Simon Thomas, mae'n ymddangos fel pe bai'r Prif Weinidog wedi cael y bachgen Cardi ar ei ochr ar gyfer ei broses ddeddfwriaethol, a all fod yn arwydd o bethau i ddod yn y tymor canolig i hir dymor.

I wish for the First Minister to clarify two issues. With regard to the draft food hygiene Bill, on which I have pressed him on several occasions, I am a little disappointed that this is not a ready-to-go Bill, as it were. As I understand, the First Minister has had comprehensive discussions with the Food Standards Agency and that report is with the First Minister now. It arrived in May, so I am a little disappointed to hear that the draft Bill will not be coming forward until—as I think I heard earlier—May next year, but I will stand to be corrected. Will the First Minister indicate why he is not confident enough to bring a Bill forward in a hasty manner, on the basis that the cycling Bill can come forward, as can the sustainability Bill? I would argue that this is not a contentious Bill; it has had considerable preparatory work put into it and it would receive a broad spectrum of support around the Chamber.

Hoffwn i'r Prif Weinidog egluro dau fater. O ran y Bil drafft hylendid bwyd, yr wyf wedi pwyso arno yn ei gylch sawl gwaith, yr wyf braidd yn siomedig nad yw hwn yn Fil sy'n barod i fynd, fel petai. Fel y deallaf, mae'r Prif Weinidog wedi cael trafodaethau cynhwysfawr gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac y mae'r adroddiad hwnnw gyda'r Prif Weinidog yn awr. Mae'n cyrraedd ym mis Mai, felly yr wyf yn siomedig braidd i glywed na fydd y Bil drafft yn dod ymlaen hyd nes—fel y credaf fy mod wedi clywed yn gynharach—Mai y flwyddyn nesaf, ond rwyf yn hapus i dderbyn cywiriad. A wnaiff y Prif Weinidog nodi pam nad yw'n ddigon hyderus i ddod â Bil gerbron mewn modd brysiog, ar y sail y gall y Bil seiclo ddod ymlaen, fel y gall y Bil cynaliadwyedd? Byddwn yn dadlau nad yw hwn yn Fil dadleuol; mae wedi bod yn destun cryn dipyn o waith paratoadol a byddai'n derbyn sbectrwm eang o gefnogaeth o gwmpas y Siambr.

However, I also endorse the comments of the leader of the opposition who took the First Minister to task with regard to there being no enterprise Bill in the legislative programme. There are fields in which a Bill could enhance the competitiveness of Welsh companies, particularly in the field of public sector procurement. I raised this with the

Fodd bynnag, yr wyf hefyd yn ategu sylwadau arweinydd yr wrthblaid a alwodd y Prif Weinidog i gyfrif o ran y ffaith nad oes Bil menter yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Ceir meysydd lle gallai Bil wella natur gystadleuol cwmnïau o Gymru, yn enwedig ym maes caffael yn y sector cyhoeddus. Codais hyn gyda'r Prif Weinidog ar 14

First Minister on 14 June and he was sceptical whether the Government had the ability to bring forward legislation on that. There is scope for legislation to be brought forward, especially for contracts worth under £100,000. There is also scope to improve the situation with regard to apprenticeships and the skills level. Therefore, will the First Minister indicate whether the Government gave any thought to bringing forward an enterprise Bill that could have legislated in those particular fields?

Mehefin ac roedd yn amheus o ran a oedd gan y Llywodraeth y gallu i ddod â deddfwriaeth ar hynny ymlaen. Mae lle i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, yn enwedig ar gyfer contractau sy'n werth llai na £100,000. Mae lle i wella'r sefyllfa o ran prentisiaethau a lefel sgiliau hefyd. Felly, a wnaiff y Prif Weinidog nodi a roddodd y Llywodraeth unrhyw ystyriaeth i gyflwyno Bil menter a allai fod wedi deddfu yn y meysydd penodol hynny?

**The First Minister:** With regard to the food hygiene Bill, it is being published in draft form in December, so there is no question of it being delayed. The report that I received from the FSA arrived in the middle of May; a Bill, if it is going to be effective, cannot be drafted in that short space of time, but nevertheless the Bill is among the first three that will be produced before the Assembly for consultation in December. With regard to enterprise, many of the issues raised by the Member are important, but none of them, to my mind, require legislation. They are issues that can be addressed by Government, but we should be careful about producing legislation where none is needed. One of the exercises that have been conducted in producing this legislative programme is an exercise to ensure that the legislation is required before it received the approval of Cabinet so that it can then be put before the Assembly for its approval.

**Y Prif Weinidog:** O ran y Bil hylendid bwyd, mae'n cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft ym mis Rhagfyr, felly nid oes unrhyw gwestiwn o oedi o ran hwnnw. Cyrhaeddodd yr adroddiad a gefais gan yr FSA yng nghanol mis Mai; os yw Bil yn mynd i fod yn effeithiol, ni ellir ei ddrafftio yn y cyfnod byr hwnnw o amser, ond serch hynny, mae'r Bil ymhlith y tri cyntaf a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr. O ran menter, mae llawer o'r materion a godwyd gan yr Aelod yn bwysig, ond nid oes angen ar yr un ohonynt ddeddfwriaeth yn fy marn i. Maent yn faterion y gellir rhoi sylw iddynt gan y Llywodraeth, ond dylem fod yn ofalus am gynhyrchu deddfwriaeth lle nad oes ei angen. Un o'r ymarferion sydd wedi cael eu cynnal wrth gynhyrchu'r rhaglen ddeddfwriaethol yw ymarfer i sicrhau bod angen y ddeddfwriaeth cyn iddi dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet fel y gall wedyn gael ei chyflwyno gerbron y Cynulliad i'w chymeradwyo.

**Llyr Huws Gruffydd:** I also welcome your statement today, although it is a shame that it has taken two legislative statements and over two months to drag this detail out of the new Labour Government. You have wasted precious time in getting going, but at last now, we have a programme against which we can judge this Government's delivery. Thank you for the statement.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwyf hefyd yn croesawu eich datganiad heddiw, er ei bod yn drueni ei fod wedi cymryd dau ddatganiad deddfwriaethol a dros ddeufis i lusgo'r manylion hyn allan o'r Llywodraeth Lafur newydd. Yr ydych wedi gwastraffu amser gwerthfawr i ddechrau ar hyn, ond o'r diwedd erbyn hyn mae gennym raglen y gallwn farnu cyflenwi'r Llywodraeth hon yn ei erbyn. Diolch i chi am y datganiad.

Croesawaf nifer o elfennau yn y datganiad, yn enwedig, wrth gwrs, y cyfeiriad at y Bil ynghylch cynaliadwyedd; mae hynny'n ddatblygiad nodedig ac arwyddocaol iawn. Gofynnaf am eglurder o safbwynt y corff annibynnol y soniasoch amdano. A wnewch

There are a number of elements that I welcome in the statement, particularly, of course, the reference to the sustainability Bill; that is a notable and significant development. I ask for clarity regarding the independent body that you have mentioned.

gadarnhau y bydd ganddo sail statudol i fod yn eiriolwr cryf dros yr amgylchedd a thros genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru? Mae cyfeiriad, wrth gwrs, at Fil cynllunio. Yr ydych yn sôn am gydgyfnerthu deddfwriaeth gynllunio sy'n bodoli eisoes. Fel y clywsom yn barod, mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol o'r bôn i'r brig, a byddwn yn gofyn i chi i ystyried hynny fel rhan o'r broses.

Will you confirm that it will be on a statutory basis so that it can be a strong advocate for the environment and future generations in Wales? There is reference of course to a planning Bill. You are talking about consolidating existing planning legislation. As we have already heard, there needs to be a root-and-branch review of current legislation and I would ask you to consider that as part of the process.

Clywsom gyfeiriad hefyd at y cynlluniau datblygu lleol. Oes, mae angen sicrhau bod y cynlluniau hynny yn cael eu datblygu ar amser, ond mae hefyd yn bwysig bod y cynlluniau hynny yn rhai addas. Ar hyn o bryd, nid yw'r system cynlluniau datblygu lleol, fel ag y mae, yn creu nac yn annog datblygu cynaliadwy. Felly, byddwn yn gofyn i chi i edrych ar hynny fel rhan o'r broses, i gyflymu'r broses a rhoi mwy o flaenoriaeth i'r Bil cynllunio er mwyn sicrhau na fydd rhai o'r datblygiadau anaddas hyn wedi cael eu cloi i mewn pan ddaw hi'n adeg diwygio'r ddeddfwriaeth.

We also heard reference to local development plans. Yes, we need to ensure those plans are developed in a timely manner, but it is also important that those plans are appropriate. At present, the LDP system as it currently stands does not create or encourage sustainable development. So, I would ask you to look at that as part of the process, to hasten that process and to give more priority to the planning Bill in order to ensure that some of these inappropriate developments will not have been locked in when it comes to time to amend the legislation.

Yr wyf yn siomedig nad oes bwriad cyflwyno Bil penodol ar goedwigaeth. Byddwch yn gwybod am gyfraniad y sector coedwigaeth wrth gwrs, yn rhoi gwaith ac yn cynnal diwydiannau coed a thwristiaeth. Mae'n help o safbwynt taclo newid hinsawdd, mae'n atal colli bioamrywiaeth ac, wrth gwrs, mae'n darparu llawer o bleser o safbwynt mynediad y cyhoedd. Hoffwn weld deddfwriaeth a fyddai'n sicrhau bod stâd goedwigaeth gyhoeddus Cymru yn aros mewn meddiant cyhoeddus, yn gwreiddio mynediad i'r cyhoedd i'r stâd honno, a hefyd yn creu gwell defnydd o'r stâd honno o safbwynt budd economaidd, amgylcheddol ac ynni. Felly, byddwn hefyd yn galw arnoch i ystyried ychwanegu Bil o'r fath.

I am disappointed that there is no intention to introduce a specific Bill on forestry. You will know of the contribution made by the forestry sector of course, providing work and supporting timber and tourism industries. It helps to tackle climate change, it prevents biodiversity loss and, of course, it provides a lot of pleasure in terms of public access. I would like to see legislation that will ensure that the public forestry estate of Wales stays in public ownership, rooting public access to that estate and making better use of it from the point of view of economic, environmental and energy benefits. I would, therefore, also call on you to consider adding such a Bill.

6.00 p.m.

**The First Minister:** Dealing with the issue that was raised first by the Member in his grudging praise of the Government for its programme, I will simply say this: with regard to his own party's manifesto, can he name three Bills that were proposed in it? [*Interruption*.]

**Y Prif Weinidog:** Er mwyn ymdrin â mater a godwyd gyntaf gan yr Aelod yn ei ganmoliaeth grintachlyd i'r Llywodraeth o safbwynt ei rhaglen, fe ddywedaf hyn: o ran maniffesto ei blaid ei hun, a all ef enwi tri Bil a gynigiwyd ynddo? [*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. That was a

**Y Llywydd:** Trefn. Cwestiwn rhethregol

rhetorical question.

oedd hwnnw.

**The First Minister:** The manifesto on which my party stood contains a number of new Bills—far more than was the case with his party's manifesto. [*Interruption*.] I am told that this is not a competition; it is about who had the most ideas.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r maniffesto y safodd fy mhlaid arno yn cynnwys nifer o Filiau newydd—llawer mwy nag oedd yn wir o ran maniffesto ei blaid. [*Torri ar draws*.] Dywedir wrthyf nad yw hyn yn gystadleuaeth; mae'n ymwneud â phwy gafodd y nifer fwyaf o syniadau.

Trof at y materion eraill a godwyd ganddo. Yn gyntaf, ar y corff stadudol ar gyfer datblygu cynaliadwy, wrth gwrs y bydd y corff hwn yn gorff statudol—dyna pam ei fod yn rhan o ddeddfwriaeth. Yn ail, ar gynllunio, rhaid inni gael system gynllunio sydd yn addas i bobl Cymru. O ran coedwigaeth, nid wyf yn gweld pam bod angen Mesur coedwigaeth. Nid oes neb yn dweud y dylid gwerthu coedwigoedd Cymru ac nid oes neb yn dweud na ddylai coedwigaeth fod yn rhan o eiddo pobl Cymru. Ar y pethau eraill y soniwch amdanynt—er enghraifft, sicrhau bod mwy o bobl yn gallu mwynhau coedwigoedd Gymru—mae'r gwaith sydd wedi'i wneud dros y degawd diwethaf yn sicrhau bod mwy a mwy o bobl yn gallu defnyddio coedwigoedd er eu lles eu hunain ac, wrth gwrs, yn eu hamser hamdden.

I turn to the other issues that he raised. First, on the statutory body for sustainable development, it will, of course, be a statutory body—that is why it is part of legislation. Secondly, regarding planning, we need a planning system that is appropriate for the people of Wales. On forestry, I do not see why a forestry Bill is needed. No-one is saying that forestry should be sold in Wales, or that it should not be part of the property of the people of Wales. On the other things that you referred to—such as increased access to forestry in Wales—the work that has been done over the last 10 years ensures that more and more people are able to use forestry for their own wellbeing and, of course, in their leisure time.

**Joyce Watson:** I broadly welcome the programme, but I will speak on one issue, namely, the domestic abuse (Wales) Bill. I welcome this Bill and look forward to it. I thank the First Minister for showing not only his personal commitment but also his Government's commitment to this particular issue. Finally, this will be mainstreamed, so that women and children can come in from the cold, and be welcomed, listened to and treated with dignity wherever they are. For too long, violence against women and domestic abuse have been seen as someone else's problem; now, the First Minister has made it clear that it is society's problem, as are the solutions. This public sector duty Bill will, I hope, produce, where it is not already happening, a clearly defined system of delivering for all victims in all parts of Wales. When does the First Minister expect to start the consultation process?

**Joyce Watson:** Yn gyffredinol, rwy'n croesawu'r rhaglen, ond rwyf am sôn am un mater, sef Bil cam-drin domestig (Cymru). Rwy'n croesawu'r Bil hwn ac yn edrych ymlaen ato. Diolchaf i'r Prif Weinidog am ddangos nid yn unig ei ymrwymiad personol ond hefyd ymrwymiad ei Lywodraeth i'r mater penodol hwn. Yn olaf, bydd hyn yn cael ei brif-ffrydio, fel nad yw menywod a phlant yn cael eu hanwybyddu ond yn cael eu croesawu a'u clywed ac yn cael eu trin ag urddas lle bynnag y bônt. Gwelwyd trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig fel problem rhywun arall am rhy hir o lawer, ond, bellach, mae'r Prif Weinidog wedi pwysleisio ei bod yn broblem i gymdeithas, a'r atebion yr un modd. Rwy'n gobeithio y bydd y Bil hwn, a fydd yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus, yn cynhyrchu, lle nad yw hynny'n digwydd eisoes, system wedi'i diffinio'n glir o ddarparu ar gyfer pob dioddefwr ym mhob rhan o Gymru. Pryd mae'r Prif Weinidog yn disgwyl dechrau ar y broses ymgynghori?

**The First Minister:** We are looking to introduce the domestic abuse strategies Bill during the course of the 2013-14 legislative year.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn anelu at gyflwyno Bil strategaethau cam-drin domestig yn ystod blwyddyn ddeddfwriaethol 2013-14.

**Antoinette Sandbach:** There has already been extensive comment on many Bills, and I just want some clarification, if possible, on the environment Bill. You described it as a substantial piece of legislation that might come forward in tranches, as it were. Can you indicate whether you anticipate that the agricultural community will be affected by any of the provisions of this Bill, bearing in mind European requirements and matters such as Glastir, which already impose substantial obligations on the agricultural community? In effect, will you be able to indicate whether it will exclude the agricultural community?

**Antoinette Sandbach:** Bu nifer o sylwadau eisoes am nifer o'r Biliau, ac rwyf am gael rhywfaint o eglurhad, os yn bosibl, ar y Bil amgylchedd. Fe'i disgrifiwyd gennych fel darn sylweddol o ddeddfwriaeth a allai ddod gerbron fesul darn, fel petai. A allwch chi ddweud pa un a ydych yn rhagweld y bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil hwn yn effeithio ar y gymuned amaethyddol o gofio gofynion Ewropeaidd a materion fel Glastir, sydd eisoes yn gosod rhwymedigaethau sylweddol ar y gymuned amaethyddol? Mewn gwirionedd, a fydd modd ichi nodi a fydd hyn yn diystyru'r gymuned amaethyddol?

The other contribution that I wish to make is in relation to accountability. You have indicated two separate procedures, the first in relation to draft Bills, and the second in relation to White Papers. As I understand it, Standing Orders provide for the Business Committee to dictate the timetabling of scrutiny, and that committee does not sit in public—it sits in private—and its discussions are not available to the public. I notice and welcome the fact that your statement indicates that you will allow sufficient time for proper scrutiny by the relevant committees. Can you, perhaps, indicate what you anticipate the difference in procedure being between draft Bills and White Papers?

Mae'r cyfraniad arall yr hoffwn ei wneud yn ymwneud ag atebolrwydd. Yr ydych wedi nodi dwy weithdrefn wahanol, y cyntaf mewn perthynas â Biliau drafft, a'r ail yn ymwneud â phapurau gwyn. Fel y deallaf, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes bennu amserlenni craffu, ac nid yw'r Pwyllgor hwnnw yn cyfarfod yn gyhoeddus—mae'n cyfarfod yn breifat—ac nid yw ei drafodaethau ar gael i'r cyhoedd. Rwy'n nodi ac yn croesawu'r ffaith bod eich datganiad yn nodi y bydd yn caniatáu digon o amser ar gyfer craffu priodol gan y pwyllgorau perthnasol. A allwch chi, efallai, nodi'r hyn yr ydych yn rhagweld fydd y gwahaniaeth yn y weithdrefn rhwng Papurau Gwyn a Biliau drafft?

**The First Minister:** There are some Bills that we anticipate being fairly straightforward, and we would not anticipate a White Paper being published before such Bills are published. There will be other Bills that will need to be published in draft form because they are substantial. I have already mentioned three Bills that will be introduced before Christmas—two of which will be introduced in draft form and one of which will be in the form of a White Paper. It roughly follows the sort of process in place at Westminster. With regard to the environment Bill, the intention is to protect the environment, inevitably. The intention is not to impose new burdens on agriculture. As I

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn rhagweld y bydd rhai Biliau yn eithaf syml, ac ni fyddem yn rhagweld cyhoeddi Papur Gwyn cyn cyhoeddi Biliau o'r fath. Bydd angen i Filiau eraill gael eu cyhoeddi ar ffurf drafft oherwydd eu swmp a'u sylwedd. Yr wyf eisoes wedi crybwyll tri Bil sydd i'w cyflwyno cyn y Nadolig—cyflwynir dwy ohonynt ar ffurf ddrafft ac un ar ffurf Papur Gwyn. Mae'n dilyn yn fras y math o broses sydd ar waith yn San Steffan. O ran y Bil amgylchedd, y bwriad yw diogelu'r amgylchedd, wrth gwrs. Y bwriad yw peidio â gosod beichiau newydd ar amaethyddiaeth. Fel y gwn yn burion, pennir bron bob rheol sy'n llywodraethu'r byd amaethyddol ar lefel

know full well, almost all of the rules that govern agriculture are determined at European level. There is scope for some interpretation with regard to member states and, in the case of the UK, devolved administrations, but, in the main, the rules are set in the European Council—the Commission proposes them, and the Council agrees them. I do not anticipate any negative effect, financially or otherwise, on agriculture.

Ewropeaidd. Mae lle i ddehongli o ran yr aelod-wladwriaethau ac, yn achos y DU, y gweinyddiaethau datganoledig, ond, ar y cyfan, pennir y rheolau yn y Cyngor Ewropeaidd—cânt eu cynnig gan y Comisiwn a'u cytuno gan y Cyngor. Nid wyf yn rhagweld unrhyw effaith negyddol, boed yn ariannol neu fel arall, ar fyd amaeth.

**Darren Millar:** First Minister, I note with interest as Chair of the Public Accounts Committee the reference to the draft Wales Audit Office Bill on the governance and accountability of the Wales Audit Office, and I welcome the support of the Government in driving forward the improvement that is needed in the governance arrangements there. However, you will be aware, through correspondence with your office, that there is a need to maintain the independence of the Wales Audit Office from the Government, and, of course, the National Assembly itself, through the Public Accounts Committee, should be the body driving this agenda forward. I note the word 'draft' in the title of the Bill—it is the only Bill in the legislative statement that uses the word 'draft'. I would appreciate some clarity on the role of the National Assembly, rather than the Welsh Government, in taking this forward. You will be aware that, in the third Assembly, the Public Accounts Committee made some great progress on taking the Government's agenda forward, and I would appreciate the opportunity to seek clarity on this issue this afternoon.

**Darren Millar:** Brif Weinidog, nodaf gyda diddordeb, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y cyfeiriad at Fil drafft Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y swyddfa, a chroesawaf gefnogaeth y Llywodraeth wrth yrru'r gwelliant sydd ei angen yn y trefniadau llywodraethu yn y fan honno. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol, drwy ohebiaeth â'ch swyddfa, fod angen cynnal annibyniaeth Swyddfa Archwilio Cymru oddi wrth y Llywodraeth, ac, wrth gwrs, y Cynulliad Cenedlaethol ei hun, drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ddylai yrru'r agenda hon ymlaen. Nodaf y gair 'drafft' yn nheitl y Bil—dyma'r unig Fil yn y datganiad deddfwriaethol sy'n defnyddio'r gair 'drafft'. Byddwn yn gwerthfawrogi rhywfaint o eglurhad ar rôl y Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, wrth fynd â hyn ymlaen. Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn y trydydd Cynulliad, wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran symud agenda'r Llywodraeth yn ei blaen, a byddwn yn gwerthfawrogi'r cyfle i dderbyn rhywfaint o eglurhad am y mater hwn y prynhawn yma.

**The First Minister:** I think that I dealt with this issue in the body of my original speech, when I dealt with the need for independence with regard to the Wales Audit Office in terms of the appointment of its members and the need for independence from Government, certainly, and from the Assembly. The draft Wales Audit Office Bill is the first draft Bill that will be produced—the intention is to produce it during September and October next year for consideration by the Assembly. It is a Bill that I believe and hope will command widespread support in the Chamber, looking to build on some of the submissions that have been made by the

**Y Prif Weinidog:** Credaf imi ddelio â'r mater hwn yn fy araith wreiddiol, pan soniais am yr angen i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn annibynnol o ran penodi ei aelodau, a'r angen am annibyniaeth ar y Llywodraeth yn sicr, ac oddi wrth y Cynulliad. Bil drafft Swyddfa Archwilio Cymru fydd y Bil drafft cyntaf—y bwriad yw iddo gael ei gynhyrchu yn ystod mis Medi a mis Hydref y flwyddyn nesaf, i'w ystyried gan y Cynulliad. Rwy'n credu ac yn gobeithio y bydd hwn yn Fil a fydd yn ennyn cefnogaeth eang yn y Siambr, gan anelu at adeiladu ar rai o'r sylwadau sydd wedi'u gwneud gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymhlith eraill.

Public Accounts Committee among others.

**The Presiding Officer:** The Business Committee agreed that voting time would take place immediately before the short debate. We have now arrived at that point. I see that no Member wishes for the bell to be rung.

**Y Llywydd:** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd yn syth cyn y ddadl fer. Yr ydym bellach wedi cyrraedd y pwynt hwnnw. Gwelaf nad oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

**The Presiding Officer:** We come to the vote on the debate on domestic abuse. Amendment 1 has already been agreed, so we move to amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

**Y Llywydd:** Trown at y bleidlais ar y ddadl ar gam-drin domestig. Mae gwelliant 1 eisoes wedi'i gytuno, felly trown at welliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

*Gwelliant 2 i NDM4784: O blaid 40, Ymatal 13, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4784: For 40, Abstain 13, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4784 fel y'i diwygiwyd: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4784 as amended: For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Price, Gwyn R.

Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig NDM4784 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4784 as amended agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 6.10 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 6.10 p.m.*

## Dadl Fer
## Short Debate

### Llyfr Blegywryd Newydd? Adfer Awdurod Cyfreithiol i Gymru
### A New Book of Blegywryd? Restoring Legal Authority to Wales

**Simon Thomas:** Mae'n dda gennyf gynnal y ddadl fer hon ar y diwrnod y mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei rhaglen ddeddfwriaethol, oherwydd y byddwn, yn ystod y ddadl, yn edrych ar ochr arall y geiniog, sef ochr gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru a'r gyfundrefn gyfiawnder.

**Simon Thomas:** I am pleased to stage this short debate on the day that the Government has announced its legislative programme, because, during this short debate, we are going to be looking at the other side of the coin, namely the issue of the administration of justice in Wales and the justice system.

Gobeithiaf nad yw teitl y ddadl yn rhy astrus. Dywedaf yn gyntaf pwy oedd Blegywryd: dyn lleyg ydoedd, mae'n debyg—nid mynach, fel y disgwyliech—o'r ddegfed ganrif a fu'n bennaf gyfrifol am gasglu cyfraith Cymru ynghyd o dan enw Hywel Dda. Fe'i disgrifiwyd yn y dogfennau fel *Howeli turbe legis doctor*—sef meistr y gyfraith i fintai Hywel. Dyna ddisgrifiad y byddech, efallai, yn ei ddisgwyl o Gwnsler Cyffredinol y dyddiau hyn.

I hope that the title of the debate is not too obscure. I will explain, first of all, who Blegywryd was: it seems that he was a layman—not a monk, as you would expect—from the tenth century, who was chiefly responsible for collating Welsh laws in the name of Hywel Dda. He was described in documentation as *Howeli turbe legis doctor*—master of law to Hywel's retinue. That could, these days, be used as a description for the Counsel General.

Bûm mor ffodus ag i astudio'r Gymraeg yn Aberystwyth, gan orfod darllen llyfr Blegywryd, nid oherwydd y gyfraith, ond oherwydd yr iaith. Gyda llaw, golygwyd y llyfr hwn gan, ymhlith eraill, Enoch Powell—un o'r ychydig bethau i Enoch Powell ei wneud yn yr iaith Gymraeg.

I was fortunate enough to have studied Welsh at Aberystwyth and I had to read the book of Blegywryd, not because of its legal connotations, but because of its language. By the way, the book was edited by, among others, Enoch Powell—one of the few things that Enoch Powell did through the medium of Welsh.

Yr wyf am ganolbwyntio ar ddau beth yn y ddadl hon: yn gyntaf, datblygu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, ac, yn ail, y cysyniad o

I will concentrate on two issues in this debate: first, the development of a Welsh jurisdiction and, secondly, the concept of

ddod â chyfreithiau sydd eisoes yn bodoli at ei gilydd i sefydlu llyfr statud i Gymru—llyfr Blegywryd newydd. Wrth gwrs, yn wahanol i’r Alban a Gogledd Iwerddon, collodd Cymru ei hawdurdodaeth gyfreithiol o dan y Deddfau Uno. Yr oedd gan yr Alban ac Iwerddon eu Seneddau eu hunain tan yn gymharol ddiweddar, a phan unwyd y Seneddau hynny â Senedd San Steffan, cadwyd systemau cyfreithiol gwahanol yn yr Alban ac yn Iwerddon; mae systemau gwahanol yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon o hyd yn sgîl hynny. Cadwyd hefyd eu llysoedd a’u proffesiynau cyfreithiol ar wahân.

bringing together the legislation already in existence in Wales in one statute book for Wales—a new book of Blegywryd. Of course, unlike Scotland and Northern Ireland, Wales lost its jurisdiction under the Acts of Union. Scotland and Ireland had their own Parliaments until fairly recently, and when those were merged with the Westminster Parliament, the distinct legal systems of Scotland and Ireland were retained; we still see those distinct systems in Scotland and Northern Ireland as a result. Their distinct courts and legal professions were also kept.

Prif ddiben y Deddfau Uno—mae copi o Ddeddf Uno 1536 i’w gweld yn Sain Ffagan ar hyn o bryd—oedd sefydlu un gyfraith yng Nghymru: cyfraith Lloegr. Mae’n ddiddorol nodi, er hynny, nad oedd y Deddfau Uno wedi gwneud yr un peth o ran gweinyddu cyfiawnder, oherwydd cafwyd yng Nghymru system o lysoedd sesiynau mawr a oedd yn wahanol i’r system yn Lloegr, er bod y gyfraith yn un.

The main aim of the Acts of Union—the 1536 Act of Union is being exhibited at the moment in St Fagans—was to establish a single legal jurisdiction in Wales and the supremacy of English law. It is interesting to note, however, that the Acts of Union did not do the same in terms of the administration of justice, because in Wales there was a system called the court of great session that was different to the system in England, even though the law was the same.

Un gyfraith oedd, ac er i ambell ddarn o ddeddfwriaeth gael ei wneud yn achlysurol, ni welwyd symud pendant tuag at ddeddfu ar gyfer Cymru yn unig tan y ganrif ddiwethaf. Mae rhai ohonom yn ddigon hen i gofio refferendwm 1979, a rhai ohonom yn ddigon hen i gofio refferenda lleol ynglŷn ag agor tafarndai ar y Sul—wrth gwrs, yr oedd y rheini’n rhan o ddeddfu ar wahân i Gymru. Yn 1942, crëwyd y Ddeddf gyntaf benodol yn yr oes fodern ar gyfer Cymru, sef y Ddeddf i ganiatáu defnyddio’r Gymraeg yn llysoedd Cymru. Mae Winston Roddick, sy’n enw cyfarwydd i ni, wedi cydnabod pwysigrwydd y dyddiad hwnnw, gan ddweud:

There was only one law, and despite the fact that occasional pieces of legislation were made, not until the last century did we see a definite move towards legislation for Wales only. Some of us are old enough to remember the referendum of 1979, and some of us are old enough to remember the local referenda on opening pubs on Sundays—of course, they were part of separate legislation for Wales. In 1942, the first Wales-only piece of legislation in the modern age was created, allowing for the use of the Welsh language in the courts system. Winston Roddick—who will be well-known to many—has recognised the importance of that date, saying:

‘Since 1942, therefore, the scope for doing it differently in the practice and the teaching of the law in Wales has increased. Once we come to understand the significance of Legal Wales and the significance of the fact that Wales is an emerging jurisdiction, once we acknowledge these significant developments, we see immediately the case for not excepting jurisdictional devolution from the next settlement.’

Ers 1942, felly, mae’r lle i wneud pethau’n wahanol wrth ymarfer ac addysgu’r gyfraith yng Nghymru wedi cynyddu. Pan fyddwn wedi dod i ddeall arwyddocâd Cymru’r Gyfraith ac arwyddocâd y ffaith bod Cymru yn awdurdodaeth sy’n datblygu, a phan fyddwn wedi cydnabod y datblygiadau sylweddol hyn, gwelwn ar unwaith yr achos dros beidio ag eithrio datganoli awdurdodaethol o’r setliad nesaf.

Ffordd y gyfraith, mae'n debyg, o ddweud bod eisiau cynnwys awdurdodaeth gyfreithiol yw dweud *not excepting*. Felly, daeth nifer o Ddeddfau Cymreig, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r ddarpariaeth ar gyfer refferendwm. Mae'n briodol yn awr ein bod yn defnyddio'r cyfnod hwn i edrych ar adfer awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

'Not excepting' is, it seems, the legal way of saying that legal jurisdiction needs to be included. Therefore, many Welsh Acts followed, including the Government of Wales Act 2006 and the provision for the referendum. It is appropriate that we should now be looking at the restoration of a legal jurisdiction for Wales.

Pa gymhelliad a pha resymau a fyddai y tu ôl i hynny? Yn gyntaf oll, mae a wnelo â balchder cenedlaethol a thaith y genedl. Er enghraifft, mae'n arwyddocaol mai diffyg awdurdodaeth iawn yng Nghymru a ddyfynnwyd gan gomisiwn Kilbrandon yn ôl yn 1973 i gyfiawnhau cynnig llai o bwerau i Gymru nag a gynigiwyd i'r Alban. Yn ail, mae gweinyddu cyfiawnder yn mynd law yn llaw ag awdurdodaeth, ac mae'n gynsail iddi. Winston Roddick, eto, a ddywedodd:

What would be the rationale and reasoning for that? First, it is to do with national pride and the journey of our nation. For example, it is significant that it was the lack of a proper jurisdiction for Wales that was quoted by the Kilbrandon commission in 1973 as justification for offering fewer powers to Wales than to Scotland. Secondly, the administration of justice goes hand in hand with jurisdiction, and there is a precedent for that. It was Winston Roddick, again, who said:

'the principal argument that including responsibility for the administration of justice as part of a devolution settlement which devolves full law making powers makes good constitutional sense if the institution which is responsible for making the laws were also to have the responsibility and the accountability for their administration.'

mae'r brif ddadl am gynnwys cyfrifoldeb dros weinyddu cyfiawnder fel rhan o setliad datganoli sy'n datganoli pwerau deddfu llawn yn gwneud synnwyr cyfansoddiadol da pe bai'r sefydliad sy'n gyfrifol am wneud y cyfreithiau hefyd i gael y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am eu gweinyddu.

6.15 p.m.

Dyna wraidd y ddadl hon. Os ydych yn deddfu, dylai fod gennych yr hawl a'r cyfrifoldeb am y system gyfiawnder troseddol a sifil yn eich gwlad hefyd.

That is the nub of this argument. If you legislate, then you should also have rights and responsibility over the criminal and civil justice system in your country.

Yn drydydd, mae'n unioni'r sefyllfa drwy'r Deyrnas Gyfunol. Dim ond heddiw y cyfeiriodd y Prif Weinidog at y sefyllfa yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hefyd wedi cyfeirio at hynny yn y gorffennol pan oedd yn Gwnsler Cyffredinol, ac er bod yn well ganddo yr awdurdodaeth sydd yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'r gallu i weithio ar sail Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'n wir dweud bod diffyg yn y sefyllfa drwy'r Deyrnas Gyfunol.

Thirdly, it brings us in line with the other nations of the UK. The First Minister referred to the situation in Scotland and Northern Ireland only today. He has also referred to that in the past when he was Counsel General, and although he prefers the jurisdiction that exists in northern Ireland, where there is the ability to work on a Wales, England and Northern Ireland basis, it is true to say that there is a deficiency in the situation as it currently exists throughout the United Kingdom.

Mae'n werth talu sylw at yr hyn a amlinellwyd gan Syr Roderick Evans fel y pum cynsail hanfodol i system gyfreithiol

It is worth paying attention to what was laid out by Sir Roderick Evans as the five key precedents for a specifically Welsh legal

benodol Gymreig. Y cyntaf yw dychwelyd swyddogaethau creu cyfraith i Gymru, ac fe gyflawnwyd hynny o dan y refferendwm a Deddf 2006. Yr ail yw datblygu sefydliadau proffesiynol yng Nghymru sy'n rhoi strwythur gyrfa gwirioneddol i'r sawl sydd am ddilyn gyrfa yn y meysydd hynny, ac mae hynny eisoes ar y gweill gyda datblygiadau fel Legal Wales a sefydlu Sefydliad Hywel Dda y mis hwn ym Mhrifysgol Abertawe. Y trydydd yw gweld y gyfraith yn cael ei ystyried yn hygyrch ac yn hawdd ei deall gan bobl Cymru, ac er nad wyf am dresmasu ar rai o ofidiau'r wythnos diwethaf, mae'n amlwg nad yw'r gyfraith eto'n hygyrch nac yn hawdd ei deall i bawb yng Nghymru. Y pedwerydd yw datblygu system i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd, gan roi statws cyfartal i'r ddwy iaith. Mae'r Cynulliad hwn wedi arloesi yn y maes hwnnw dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi, fel y byddwch yn gwybod, Dirprwy Lywydd, fel aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ein bod yn gweld nifer o offerynnau statudol ar hyn o bryd yn cael eu gwneud ar y cyd gyda San Steffan, ac, oherwydd hynny, cânt eu gwneud mewn Saesneg yn unig, er eu bod yn offerynnau statudol i Gymru. Gobeithiaf yn fawr na fydd hynny'n duedd gynyddol. Y pumed, a'r pwysicaf, efallai, yw'r datblygiad o system yng Nghymru i weinyddu cyfiawnder yn ei holl ffurfiau sydd wedi'i theilwra i anghenion economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae'r system cyfiawnder, sef y wasanaethau heddlu, prawf, carchardai, ac ati, yn cael ei chyllido a'i gweinyddu yn bennaf o San Steffan o hyd, er bod newidiadau cyffrous wedi digwydd o ran ysbryd gweinyddu'r rhain ers diwedd y 1990au. Yn wir, dywedodd Tim Jones bod hynny'n dangos bod gennym egin awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

system. The first is the return of the functions of creating legislation to Wales, and that has been achieved by the referendum and the 2006 Act. The second is the development of professional institutions in Wales that give a true career structure to those who want to follow a career in those areas, and that is in the pipeline with developments such as Legal Wales and the establishment this month of the Hywel Dda Institute at Swansea University. The third is the law being seen as accessible and easily understood by the people of Wales, and although I do not want to touch on some of the concerns raised last week, it is apparent that the law is not yet accessible or easily understood by everyone in Wales. The fourth is the development of a system that allows the use of both Welsh and English, giving equal status to both languages. The Assembly has been innovative in that regard over the last few years. However, it is interesting to note, as you will know, Deputy Presiding Officer, as a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, that we see a number of statutory instruments made jointly with Westminster and, as a result, they are made in English only, although they are statutory instruments for Wales. I very much hope that that is not an increasing trend. The fifth, and perhaps most important, is the development in Wales of a system to administer justice in all its forms that is tailored to the economic and social needs of Wales. The justice system, that is the police, probation service, prisons and so on are still mainly funded and administered from Westminster, although there have been exciting developments in the spirit of the administration of these since the end of the 1990s. Indeed, Tim Jones said that that shows that we in Wales already have the nub of a legal jurisdiction in Wales.

Wrth i'r Cynulliad ychwanegu at ei phwerau deddfu, cymerwyd sawl cam tuag at sefydlu awdurdodaeth Gymraeg ar wahân. Mae Llys Gweinyddol Cymru yng Nghaerdydd, a chlywsom adeg cwestiynau i'r Prif Weinidog heddiw bod y Llys Apêl yn eistedd yng Nghaerdydd, mewn achosion troseddol a sifil, a gwrandewir y rhan fwyaf o adolygiadau barnwrol sy'n ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau cyhoeddus

As the Assembly adds to its legislative powers, a number of steps were taken towards establishing a separate jurisdiction for Wales. There is the Administrative Court in Wales in Cardiff, and we heard during questions to the First Minister about the Court of Appeal sitting in Cardiff, in criminal and civil cases, and most cases of judicial review that relate to decisions by public authorities in Wales are held here in Wales,

Cymru yma yng Nghymru, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, ar y mater yn ymwneud â moch daear. Mae symudiad tuag at sefydlu un system tribiwnlys yng Nghymru, ac yr ydym wedi deddfu yma i sefydlu system tribiwnlys newydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a da o beth fyddai gweinyddu tribiwnlysoedd yng Nghymru o dan un gyfundrefn, a fyddai'n gwneud pethau'n fwy taclus ac yn fwy dealladwy i bobl sy'n gorfod defnyddio tribiwnlysoedd. Yn olaf, ond yn symbolaidd bwysig, y mae adrefniant ffiniau gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, pan ddaeth yr hen system o Gymru a Chaer i ben, a chrëwyd Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi ar gyfer Cymru yn unig.

including, most recently, on the issue of badgers. There is a move towards establishing one tribunal system in Wales, and we have legislated here to establish a new tribunal system under the Welsh Language (Wales) Measure 2011, and it would be good see the administration of tribunals in Wales under one regime, which would make things much more tidy and understandable by those who have to use tribunals. Finally, but this is important symbolically, is the reorganisation of the boundaries of the administration of justice in Wales, when the old system of Wales and Chester came to an end, and Her Majesty's Courts Service was created for Wales alone.

O'r pum peth, felly, mae tri yn eu lle, mae un ar y gweill ac mae un heb ei ddechrau, sef ffurfio llyfr statud i Gymru. Y cwestiwn sy'n wynebu'r Senedd hon a'r Llywodraeth hon, felly, yw beth a wnawn nesaf i hyrwyddo'r broses ac i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn synhwyrol a chall. Mae hynny'n cymryd yn ganiataol bod y Llywodraeth yn dymuno gweld datblygu awdurdodaeth ar wahân. Fodd bynnag, sylwaf o'r sylwadau a wnaethpwyd gan y Prif Weinidog ei fod yn dymuno gweld hynny, ac mai'r cwestiwn sydd ganddo mewn golwg yw pha fath o awdurdodaeth ar wahân y dylid ei gael.

Of those five things, therefore, three are in place, one is in the pipeline and one is yet to be started, namely, forming a statute book for Wales. The question facing this Senedd and Government, therefore, is what we do next to promote the process and to ensure that any development is sensible. That takes it for granted that the Government wishes to see a separate jurisdiction developed. However, I note from the comments made by the First Minister that he does wish to see that, and the question that he has in mind is what sort of separate jurisdiction should be had.

Mae'n hynod bwysig amlinellu rhai o'r pethau y gallai ddigwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yr wyf yn meddwl y byddwn yn gweld ddatblygiadau sylweddol yn ystod y degawd nesaf sy'n mynd i fynd i'r afael â'r materion creiddiol hyn. Amlinellaf rhai o'r pethau y byddwn am eu gweld yn digwydd yn ystod y pump i 10 mlynedd nesaf. Yn gyntaf, mae angen ehangu ar y ddarpariaeth sydd yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gynnwys gweinyddu cyfiawnder fel maes datganoledig. Mae gwaith wedi cael ei wneud ar hynny gan y Llywodraeth flaenorol, ac yr wyf yn gobeithio bod gwaith yn mynd yn ei flaen gan y Llywodraeth bresennol. Mae angen datganoli gweinyddu cyfiawnder—nid y gyfraith, ond y gweinyddu—i Gymru.

It is very important to outline some of the things that could happen in the next few years. I think that we will see significant developments in the next decade that will get to grips with these core issues. I will outline some of what I would like to see happening over the next five to 10 years. First, we need to expand on the provision in Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 to include the administration of justice as a devolved area. Work has been done on that by the previous Government, and I hope that that work is ongoing under the current Government. We need to devolve the administration of justice—not the law, but the administration—to Wales.

Yn ail, dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros weinyddu cyfiawnder i Lywodraeth Cymru a sefydlu swyddogion cyfraith Cymraeg anwleidyddol ac amhleidiol. Mae'n ddigon

Secondly, responsibility for the administration of justice should be transferred to the Welsh Government and non-political and non-partisan Welsh legal

posibl fod penodiad y Cwnsler Cyffredinol presennol yn gam yn y cyfeiriad cywir i'r perwyl hwnnw. At hyn i gyd, bydd angen trefniadau ar gyfer dethol y farwniaeth, ynadon ac aelodau'r tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru, a gwneud hynny ar y cyd, neu o leiaf mewn trafodaethau, â Llywodraeth Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor, sy'n gyfrifol am y penodiadau hynny.

officials should be established. It is quite possible that the appointment of the current Counsel General is a step in the right direction in that regard. In addition to that, we will need arrangements for selecting the judiciary, magistrates and members of the tribunals that operate in Wales, and for that to be done that jointly with, or at least in discussions with, the Welsh Government, the Secretary of State and the Lord Chancellor, who is responsible for those appointments.

Byddai datganoli cyfrifoldeb dros y gwasanaeth prawf, carchardai a'r heddlu yn rhan o'r broses gyntaf hon o sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Fel y gwŷr pawb yma, byddai hynny'n unol ag ymrwymiad pedwar heddlu Cymru, sydd eisoes wedi datgan eu bod am weithredu drwy system genedlaethol Gymreig a'u bod am hwyluso'r symudiad tuag at system blismona ddatganoledig yng Nghymru. Mae'n ddiddorol nodi bod argymhellion yn cael eu gwneud yn San Steffan yn awr i sefydlu comisiynwyr heddlu etholedig, syniad sydd heb gael fawr o groeso yng Nghymru. Mae hynny efallai yn rhoi cyfle i gael y mater hwn wedi'i ddatganoli i Gymru, fel nad oes rhaid inni fynd ar hyd y llwybr o gael comisiynwyr etholedig.

Devolving responsibility for the probation service, prisons and the police would be part of this first process of establishing a Welsh legal jurisdiction. As everyone here knows, that would be in accordance with the commitment of the four Welsh police forces, who have already stated that they want to operate on the basis of a Welsh national system and want to facilitate the move towards a devolved police system in Wales. It is interesting to note that recommendations are being made in Westminster now to establish elected police commissioners, an idea that has not had a great deal of welcome in Wales. That perhaps gives us an opportunity to have this matter devolved to Wales, so that we do not have to go down the route of having elected commissioners.

Yn olaf, ac mae hyn yn amserol iawn, mae angen system cymorth cyfreithiol ar wahân i Gymru. Mae'r hyn sy'n digwydd yn San Steffan ar y mater hwn yn warthus, ac yn sicr byddwn am ei weld yn cael ei ddatganoli fel ein bod yn gallu sefydlu system cymorth cyfreithiol sy'n ateb ein hanghenion yng Nghymru.

Finally, and this is very timely, we need a separate legal aid system for Wales. What is happening in Westminster in this regard is a disgrace, and we would certainly want to see this devolved so that we can establish a legal aid system that meets our needs in Wales.

Cyn imi gloi, mae un mater olaf. Mae angen dod â chyfreithiau presennol Cymru, a'r rhai y byddwn yn eu gwneud fel Cynulliad ac fel Senedd, ynghyd. Mae 19 o Filiau newydd wedi cael eu hamlinellu gan y Prif Weinidog. Sut ydym yn mynd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth honno a bod cefnogaeth i ddeddfu gan y Senedd? Cyflwynodd Cymdeithas y Cyfreithwyr dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn y Cynulliad diwethaf, a dywedodd yn glir iawn:

Before I conclude, there is one last issue. We need to bring the existing laws of Wales, and those that we will make as an Assembly and Senedd, together. The First Minister has outlined 19 new Bills. How are we to ensure that the public is aware of that legislation and that there is support for legislating by the Senedd? The Law Society gave evidence to the Constitutional Affairs Committee in the last Assembly, and it stated very clearly:

'The development of Acts of Parliament having to make different provision for

Mae datblygu Deddfau seneddol sy'n gorfod gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer Cymru

England and Wales and then being amended separately and by different legislatures, is an unsustainable system for developing accessible and comprehensible laws.'

a Lloegr, gan gael eu diwygio ar wahân a gan ddeddfwrfeydd gwahanol, yn system anghynaliadwy ar gyfer datblygu cyfreithiau hygyrch a dealladwy.

Aeth y pwyllgor ymlaen i argymell yr hyn a ganlyn:

The committee went on to recommend the following:

'We recommend that the Welsh Government brings forward proposals for arrangement for consolidating Welsh laws, particularly in the event of Part 4 powers coming into force after the referendum.'

'Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion ar gyfer trefnu i gydgrynhoi deddfau Cymreig, yn enwedig os bydd pwerau Rhan 4 yn dod i rym ar ôl y refferendwm.'

Mae'r pwerau hynny bellach wedi dod i rym, felly dyma'r amser i ddod â'r cynigion hynny gerbron y Cynulliad a'r genedl a dod â chyfraith Cymru ynghyd, gan ailsefydlu'r llyfr statud a ddechreuwyd 10 canrif yn ôl gan Blegywryd—rhywle yn Nyfed, mae'n debyg, er mai dyn o Went oedd e. Diben y ddadl hon oedd cynnal trafodaeth. Mae argymhellion pendant i Llywodraeth gasglu deddfwriaeth Cymru ynghyd mewn ail lyfr Blegywryd—llyfr statud cyntaf ar gyfer y Senedd ddeddfu gyntaf—er mwyn gwneud cyfraith Cymru yn eglur ac yn hygyrch i bawb. Mae cynigion y Llywodraeth sydd ar y gweill yn mynd i'r afael â sawl agwedd ar sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, o ddatganoli heddlu i weinyddu cyfiawnder. Yr hyn yr wyf yn gofyn i'r Llywodraeth ei wneud yw sicrhau bod ganddi gynllun pendant, yn hytrach nag ymateb ar sail ad hoc i ddigwyddiadau. Mae Cymru yn magu personoliaeth gyfreithiol. Mae ysbryd Hywel Dda ar gerdded ar hyd coridorau Tŷ Hywel, ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth baratoi'r ffordd.

Those powers have now come into force, therefore this is the time to bring those proposals for bringing Welsh law together before the Assembly and the nation, re-establishing the Welsh statute book that was begun 10 centuries ago by Blegywryd—somewhere in Dyfed, it seems, although he was from Gwent. The purpose of this debate was to hold a discussion. There are specific recommendations that the Government should bring Welsh legislation together into a second book of Blegywryd—the first statute book for the first legislative Senedd—to make Welsh law clear and accessible to all. The Government has proposals in the pipeline to get to grips with several aspects of establishing a legal jurisdiction for Wales, from the devolution of the police to the administration of justice. What I am asking the Government to do is to ensure that it has a definite plan, rather than respond ad-hoc to events. Wales is developing a legal personality. The spirit of Hywel Dda is walking the corridors of Tŷ Hywel and the Government must prepare the way.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** Thank you, Simon, for your short debate. I was rather taken aback when you said that there are many in the Chamber who would remember the devolution of law. Welsh law was the system of law practised in Wales before the sixteenth century, therefore I was not quite sure whom you were referring to. According to tradition, the first law was codified by Hywel Dda during 942 to 950. Subsequently, the Welsh legal system was absorbed into the laws of England by means of the Act of Union 1535 by Henry VIII of England.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch, Simon, am eich dadl fer. Cefais fy synnu braidd pan ddywedasoch y byddai llawer yn y Siambr yn cofio cyfraith yn cael ei ddatganoli. Cyfraith Gymreig oedd y system gyfreithiol a oedd yn cael ei gweithredu yng Nghymru cyn yr unfed ganrif ar bymtheg, felly nid oeddwn yn siŵr at bwy yr oeddech yn cyfeirio ato. Yn ôl traddodiad, cafodd y gyfraith gyntaf ei chyfundrefnu gan Hywel Dda rhwng 942 a 950. Wedi hynny, cafodd system gyfreithiol Cymru ei llyncu gan gyfreithiau Lloegr drwy Ddeddf Uno 1535 gan Harri VIII o Loegr.

This is a very important debate, but it must not be a debate that involves politicians only, whether they sit in this Chamber or elsewhere—it must be a mature and measured debate in all parts of society so that there is the opportunity to have meaningful engagement. During your contribution you referenced many people who have already started that debate, which is welcome.

Mae hon yn ddadl bwysig iawn, ond nid gwleidyddion yn unig ddylai fod yn rhan ohoni, pa un ai a ydynt yn eistedd yn y Siambr hon neu yn rhywle arall—rhaid iddi fod yn ddadl aeddfed a phwyllog ym mhob rhan o gymdeithas fel bod modd cael ymgysylltiad ystyrlon. Yn ystod eich cyfraniad cyfeiriasoch at nifer o bobl sydd wedi cychwyn y ddadl honno yn barod, sydd i'w groesawu.

As the First Minister said in his legislative statement, more intellectual discussions will be needed on this over the next few years. It is not something to be rushed into. The First Minister hit the nail on its head in his evidence on 22 March of this year to the former Committee for the Scrutiny of the First Minister. He said:

Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad deddfwriaethol, bydd angen trafodaethau mwy deallusol ar hyn dros y blynyddoedd nesaf. Nid yw'n rhywbeth y dylid rhuthro i'w wneud. Tarodd y Prif Weinidog yr hoelen ar ei phen yn ei dystiolaeth ar 22 Mawrth eleni i'r Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog blaenorol. Dywedodd:

'First, we have to define what we mean by a separate jurisdiction.'

Yn gyntaf oll, mae'n rhaid inni ddiffinio'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth sôn am awdurdodaeth ar wahân.

That raises the fundamental question of how we frame the debate. It seems to me that 'jurisdiction' in this context means different things to different people. If we are to have a national conversation with interested stakeholders, we need to clear up what we are talking about at the beginning. It will not be helpful if we do not have clarity around this debate, as there is a risk that we will be at cross-purposes in the development of the argument. We must first decide what the issue is.

Mae hynny'n codi cwestiwn sylfaenol am sut yr ydym yn fframio'r ddadl. Ymddengys i mi bod 'awdurdodaeth' yn y cyd-destun hwn yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Os ydym am gael sgwrs genedlaethol gyda rhanddeiliaid sydd â diddordeb, mae angen i ni egluro'r hyn yr ydym yn sôn amdano i gychwyn. Ni fydd yn ddefnyddiol os nad ydym yn glir am beth y mae'r ddadl hon yn ei gylch, gan fod perygl y byddwn yn siarad yn groes i'n gilydd wrth i'r ddadl ddatblygu. Rhaid inni benderfynu'n gyntaf beth yw'r broblem.

We then need to decide whether the issue needs to be addressed, and, if it does, we need to ensure that the action taken is collective action and that we all have the endgame in sight. I am sympathetic with regard to some of the issues that you raise in your wish list, for want of a better phrase, but, in terms of the broader debate, there are many questions about how we as a Government and interested parties would take that forward.

Rhaid i ni benderfynu wedyn a oes angen ymdrin â'r broblem, ac os felly mae angen i ni sicrhau fod y camau a gymerir yn rhai ar y cyd a bod gennym yr un nod mewn golwg yn y pen draw. Mae gen i gydymdeimlad gyda rhai o'r materion y gwnaethoch eu codi yn eich rhestr o ddymuniadau, os caf eu galw felly, ond o ran y ddadl ehangach, mae nifer o gwestiynau am sut y byddem ni fel Llywodraeth a'r rhai â diddordeb yn mynd â hynny yn ei flaen.

With regard to the question about the legal extent of the laws passed in this place and how the courts take notice of those laws, and

O ran y cwestiwn am hyd a lled cyfreithiol y cyfreithiau a gaiff eu pasio yn y lle hwn a sut y mae'r llysoedd yn cymryd sylw o'r

the much broader question regarding whether there should be a separate criminal and civil justice court system in Wales, there is a broad landscape there about which we need to have a broader discussion.

cyfreithiau hynny, a'r cwestiwn llawer ehangach ynglŷn ag a ddylai fod system droseddol a chyfiawnder sifil yng Nghymru, mae tir eang yno y mae'n rhaid cael trafodaeth ehangach yn ei gylch.

**Mick Antoniw:** Will you take an intervention?

**Mick Antoniw:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Carl Sargeant:** Yes.

**Carl Sargeant:** Gwnaf.

**Mick Antoniw:** I am grateful, as this is the only opportunity that I have to make a contribution to the debate. One of the fascinating points that has not really been developed is that we sometimes confuse the administration and bureaucracy of the law with the actual development of the law and the way that it operates. It is early days, but it is clear that we are developing a Welsh jurisprudence, and that has implications for the teaching of law in universities in Wales. It also has implications for the codification of it because of access, as there will be lawyers coming in and out of Wales. I am not so much interested in the administration and bureaucracy but rather in the development of that jurisprudence, how it is codified, how there will be access to it and how we deal with it as it grows over the years and becomes a much more substantial part of the Welsh legal system that we are in the process of creating.

**Mick Antoniw:** Rwy'n ddiolchgar, gan mai dyma'r unig gyfle sydd gennyf i gyfrannu i'r ddadl. Un o'r pwyntiau diddorol na chafodd ei ddatblygu mewn gwirionedd yw ein bod weithiau yn cymysgu gweinyddiaeth a biwrocratiaeth y gyfraith gyda datblygiad gwirioneddol y gyfraith a'r ffordd y mae'n gweithredu. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae'n amlwg ein bod yn datblygu cyfreitheg Gymreig, ac mae gan hynny oblygiadau o ran addysgu'r gyfraith mewn prifysgolion yng Nghymru. Mae ganddo hefyd oblygiadau ar gyfer ei chyfundrefnu oherwydd mynediad, gan y bydd cyfreithwyr yn dod i mewn ac allan o Gymru. Nid oes gennyf gymaint o ddiddordeb yng ngweinyddiaeth a biwrocratiaeth y gyfreitheg honno ond yn hytrach yn ei datblygiad, sut y caiff ei chyfundrefnu, sut y bydd mynediad iddi a sut y byddwn yn ymdrin â hi wrth iddi dyfu dros y blynyddoedd a dod yn rhan llawer mwy sylweddol o system gyfreithiol Cymru yr ydym yn y broses o'i chreu.

**Carl Sargeant:** The Member raises a fair point about the differences between the administration elements of taking this process forward and the codification and the development of laws in Wales. Neither the Government of Wales Act 1998 nor the Government of Wales Act 2006 were intended to alter the position of the law that applies in Wales and which operates within the single legal jurisdiction of England and Wales. The journey of devolution, as Mick mentioned, in terms of growing up in Wales in how we develop these actions, beginning in 1997 with the Executive devolution under the 1998 Act, has brought us in 2011 to the point where we have the promise of primary law-making powers stretching out in front of us, and these are decisions and discussions that will have to be held and made.

**Carl Sargeant:** Mae gan yr Aelod bwynt teg am y gwahaniaethau rhwng yr elfennau gweinyddol o ran mynd â'r broses hon yn ei blaen a chyfundrefnu a datblygu cyfreithiau yng Nghymru. Nid bwriad Deddf Llywodraeth Cymru 1998 na Deddf Llywodraeth Cymru 2006 oedd newid safle'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru ac sy'n gweithredu o fewn cyfreitheg gyfreithiol sengl Cymru a Lloegr. Mae siwrnai datganoli, fel y dywedodd Mick, o ran tyfu i fyny yng Nghymru o ran sut yr ydym yn datblygu'r camau hyn, gan ddechrau ym 1997 gyda'r datganoli Gweithredol o dan Ddeddf 1998, wedi dod â ni yn 2011 i'r pwynt lle mae gennym addewid o bwerau deddfu sylfaenol yn ymestyn o'n blaenau, ac mae'r rhain yn benderfyniadau a thrafodaethau y bydd yn rhaid eu cael a'u gwneud.

6.30 p.m.

I am not aware of any legal difficulty that has been caused by the fact that the laws made by this legislature or the Welsh Government take effect in the single legal jurisdiction of England and Wales. That is likely to remain the case, irrespective of the extent of the divergence between the laws that apply to Wales and England. However, we also need to recognise that the law that applies in Wales is not only devolved but is also non-devolved, the same as in Scotland, where there is a separate judicial system.

Nid wyf yn gwybod am unrhyw anhawster cyfreithiol a grëwyd gan y ffaith fod y cyfreithiau a wnaed gan y ddeddfwriaeth hon na gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith yn awdurdodaeth gyfreithiol sengl Cymru a Lloegr. Mae hyn yn debyg o barhau, waeth beth yw hyd a lled y gwahaniaeth sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod hefyd fod y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru nid yn unig wedi ei datganoli ond hefyd heb ei datganoli, fel ag y mae yn yr Alban, lle mae system gyfreithiol ar wahân.

**Simon Thomas:** On the questions of codification, openness and explaining the legislative process, I wonder whether I can bring to the Minister's attention the case of a gentleman who used an electric-shock collar on his dog in Wales. These collars have been banned in Wales. He has pleaded guilty to using the collar, but he said that he was not aware that this was an illegal practice in Wales, because he bought it over the internet.

**Simon Thomas:** O ran cwestiynau ynghylch cyfundrefnu, tryloywder ac egluro'r broses gyfreithiol, tybed a gaf i dynnu sylw'r Gweinidog at achos dyn a ddefnyddiodd goler sioc drydanol ar ei gi yng Nghymru. Cafodd y coleri hyn eu gwahardd yng Nghymru. Mae wedi pledio'n euog i ddefnyddio'r goler, ond dywedodd na wyddai ei bod yn anghyfreithlon yng Nghymru, gan ei fod wedi ei phrynu dros y rhyngrwyd.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for raising that case in the Chamber today. I was not aware of it, but will look into it. The Counsel General will take a great interest in the content of this debate.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am dynnu sylw at yr achos hwnnw yn y Siambr heddiw. Nid oeddwn yn gwybod amdano, ond byddaf yn edrychaf i mewn iddo. Bydd gan y Cwnsler Cyffredinol ddiddordeb mawr yng nghynnwys y ddadl hon.

As I said, this is a helpful starting point for further discussions with interested parties across Wales, going beyond politicians, and I thank the Member for his contribution. What is important is that the course of action that is chosen is right for the people of Wales. The biggest challenge for anyone who engages in this debate will be to demonstrate to those who live and work here the relevance of the issues being taken forward on a Welsh basis. I am sure that the Member has a large interest in that and will be interested in taking forward that debate. As I mentioned earlier, the Counsel General will take notice of the comments made by Members and you will have the opportunity to question him in the Chamber in forthcoming Plenary meetings. Finally, I thank the Member for raising this important topic in the short debate.

Fel y dywedais, mae hwn yn fan cychwyn defnyddiol i ragor o drafodaethau gyda phobl â diddordeb ledled Cymru, y tu hwnt i wleidyddion, ac rwy'n diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y camau a gaiff eu dewis yn gywir i bobl Cymru. Yr her fwyaf i unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y ddadl hon fydd dangos i'r rhai sy'n byw a gweithio yma pa mor berthnasol yw'r materion sy'n cael eu dwyn ymlaen ar sail Gymreig. Rwy'n siŵr y bydd gan yr Aelod ddiddordeb mawr yn hynny ac y bydd ganddo ddiddordeb mewn dwyn y ddadl honno ymlaen. Fel y soniais yn gynharach, bydd y Cwnsler Cyffredinol yn cymryd sylw o'r sylwadau a wnaed gan Aelodau a bydd cyfle gennych i'w holi yn y Siambr yn y Cyfarfodydd Llawn sydd i ddod. Yn olaf, diolch i'r Aelod am godi'r pwnc pwysig hwn yn y ddadl fer.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.32 p.m.*
*The meeting ended at 6.32 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)